# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 05/05/2015

Cynnwys Contents


Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

Cwestiwn Brys: Cynllun y Taliad Sylfaenol
Urgent Question: the Basic Payment Scheme

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Datganiad: Cyflwyno Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)
3. Statement: Introduction of the Historic Environment (Wales) Bill

4. Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Cynllunio (Cymru)
4. Stage 3 Debate on the Planning (Wales) Bill


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:31 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:31 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:31

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:31

## Datganiad gan y Llywydd

## Statement by the Presiding Officer

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I'm sure Members would like to join me in welcoming Mitchel McLaughlin, who is Speaker of the Northern Ireland Assembly, who is in the public gallery today. I'm sure he's going to enjoy the afternoon.

Rwy'n siŵr yr hoffai'r Aelodau ymuno â mi i groesawu Mitchel McLaughlin, sef Llefarydd Cynulliad Gogledd Iwerddon, sydd yn yr oriel gyhoeddus heddiw. Rwy'n siŵr ei fod yn mynd i fwynhau'r prynhawn.

13:31

## 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## 1. Questions to the First Minister

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Right, we now move to items on the agenda, and the first item is questions to the First Minister. Question 1 is Gwenda Thomas.

Iawn, symudwn at eitemau ar yr agenda nawr, a chwestiynau i'r Prif Weinidog yw'r eitem gyntaf. Daw cwestiwn 1 gan Gwenda Thomas.

### Cydraddoldeb Rhywiol

### Gender Equality

13:31

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol mewn gweithleoedd yng Nghymru? OAQ(4)2243(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to promote gender equality in Wales's workplaces? OAQ(4)2243(FM)*

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We are working to create a fairer working environment for women in Wales. We're part-funding the Women Adding Value to the Economy project, and Chwarae Teg's Agile Nation 2, and, through these, tackling the issues leading to gender inequality in the workplace, including occupational segregation and unequal pay.

Rydym ni'n gweithio i greu amgylchedd gweithio tecach i fenywod yng Nghymru. Rydym ni'n rhan-ariannu prosiect Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi, a Cenedl Hyblyg 2 Chwarae Teg, a, thrwy'r rhain, yn mynd i'r afael â'r materion sy'n arwain at anghydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gweithle, gan gynnwys gwahanu galwedigaethol a chyflog anghyfartal.

13:31 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that, First Minister. You've referred to the Agile Nation 2; well, the Agile Nation 1 project was extremely successful in Neath Port Talbot, with 166 participants gaining qualifications, 46 people entering further learning, and 13 employers achieving the Exemplar Employer award. Will you agree with me that the recently announced Agile Nation 2 project, to be delivered, as you say, by Chwarae Teg between 2015 and 2018 will continue this excellent work promoting female career advancement and reducing the gender pay gap?

Diolch am hynny, Brif Weinidog. Rydych chi wedi cyfeirio at Cenedl Hyblyg 2; wel, roedd prosiect Cenedl Hyblyg 1 yn hynod lwyddiannus yng Nghastell-nedd Port Talbot, gyda 166 o gyfranogwyr yn ennill cymwysterau, 46 o bobl yn mynd ymlaen i addysg bellach, a 13 o gyflogwyr yn ennill y dyfarniad Cyflogwr Enghreifftiol. A wnewch chi gytuno â mi y bydd y prosiect Cenedl Hyblyg 2 a gyhoeddwyd yn ddiweddar, i'w ddarparu, fel y dywedwch, gan Chwarae Teg rhwng 2015 a 2018 yn parhau â'r gwaith rhagorol hwn o hyrwyddo datblygiad gyrfaol menywod a lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I do agree. The new project will support 2,750 women. It'll work with 400 employers to provide female career advancement and help to reduce the gender pay gap. It'll focus on nine key sectors of the Welsh economy, and many of these sectors that will be focused upon do experience significant skills gaps, and also witness the under-representation of women.

Ydw, rwyf yn cytuno. Bydd y prosiect newydd yn cefnogi 2,750 o fenywod. Bydd yn gweithio gyda 400 o gyflogwyr i ddarparu datblygiad gyrfaol i fenywod ac yn helpu i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Bydd yn canolbwyntio ar naw sector allweddol o economi Cymru, ac mae prinder sgiliau sylweddol mewn llawer o'r sectorau hyn y canolbwyntir arnynt, yn ogystal â thangynrychiolaeth menywod.

13:32 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, although progress has been made, women still tend to work lower-paid and lower-skilled jobs. Schools and careers support staff must be encouraged to allow girls to consider careers and study courses that are considered outside the traditional options for women. What is the Welsh Government doing in this regard, which will lead to better-paid and more secure employment for women in Wales?

Brif Weinidog, er bod cynnydd wedi ei wneud, mae menywod yn dal yn tueddu i weithio mewn swyddi cyflog is a sgiliau is. Mae'n rhaid annog ysgolion a staff cymorth gyrfaoedd i ganiatáu i ferched ystyried gyrfaoedd a chyrsiau astudio yr ystyrir eu bod y tu allan i'r dewisiadau traddodiadol i fenywod. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ynglŷn â hyn, a fydd yn arwain at gyflogaeth sy'n talu'n well ac yn fwy diogel i fenywod yng Nghymru?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, we expect careers advisers, of course, to provide equal advice to both boys and girls in school. I know there's been a significant increase in the number of young women, for example, who are studying engineering. But also, of course, we need to make sure that there are more opportunities available for women, and Agile Nation 2 is one way of doing that. It makes perfect sense to be able to encourage more women into the workplace, and also, of course, to encourage more women to be able to progress through the workplace, particularly in areas where there are skills gaps already. We cannot afford to allow that talent not to be utilised properly.

Wel, rydym ni'n disgwyl i gynghorwyr gyrfaoedd, wrth gwrs, roi cyngor cyfartal i fechgyn a merched yn yr ysgol. Rwy'n gwybod y bu cynnydd sylweddol i nifer y menywod ifanc, er enghraifft, sy'n astudio peirianneg. Ond hefyd, wrth gwrs, mae angen i ni wneud yn siŵr bod mwy o gyfleoedd ar gael i fenywod, ac mae Cenedl Hyblyg 2 yn un ffordd o wneud hynny. Mae'n gwneud synnwyr perffaith i allu annog mwy o fenywod i mewn i'r gweithle, a hefyd, wrth gwrs, i annog mwy o fenywod i allu dyrchafu drwy'r gweithle, yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir prinder sgiliau eisoes. Ni allwn fforddio i ganiatáu i'r dalent honno beidio â chael ei defnyddio'n iawn.

13:34 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, did you consider that the cuts to Supporting People and further education funding will disproportionately affect women, and the cuts, of course, to local government will have a particular impact on women, because of their dominance in the public sector workforce? So, how did gender equality influence which budgets took the biggest cuts?

Brif Weinidog, a wnaethoch chi ystyried y bydd y toriadau i gyllid Cefnogi Pobl ac addysg bellach yn effeithio'n anghymesur ar fenywod, ac y bydd y toriadau, wrth gwrs, i lywodraeth leol yn cael effaith arbennig ar fenywod, oherwydd bod llawer mwy ohonynt yng ngweithlu'r sector cyhoeddus? Felly, sut y gwnaeth cydraddoldeb rhywiol ddylanwadu ar ba gyllidebau gafodd eu torri fwyaf?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, we've already announced, of course, that we're investing £10 million in Agile Nation 2—it's a substantial investment. We cannot, of course, use money that we do not have, because of the cuts imposed upon us by the UK Government. That may be the last time I can use that line in this Chamber, so I'm going to use it once again. [Laughter.] We hope, of course, that the financial situation for Wales, and, indeed, the whole of the UK, will change for the better after next week.

Wel, rydym ni wedi cyhoeddi eisoes, wrth gwrs, ein bod yn buddsoddi £10 miliwn yn Cenedl Hyblyg 2—mae'n fuddsoddiad sylweddol. Ni allwn, wrth gwrs, ddefnyddio arian nad yw gennym, oherwydd y toriadau a orfodwyd arnom ni gan Lywodraeth y DU. Efallai mai dyna'r tro olaf y byddaf yn gallu defnyddio'r llinell honno yn y Siambr hon, felly rwy'n mynd i'w defnyddio unwaith eto. [Chwerthin.] Rydym ni'n gobeithio, wrth gwrs, y bydd y sefyllfa ariannol i Gymru, ac, yn wir, i'r Deyrnas Unedig gyfan, yn newid er gwell ar ôl yr wythnos nesaf.

13:34 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I'm proud of this Welsh Government's record on investment and skills, and particularly our apprenticeship programme, and Jobs Growth Wales. However, evidence, anecdotal and otherwise, suggests that construction and engineering—and you've alluded to engineering—are still overwhelmingly male dominated. So, would you agree with me, First Minister, that we must do more work with schools, colleges, employers, training providers, and, of course, girls and women to ensure that they see these industries in particular as good career paths for themselves?

Brif Weinidog, rwy'n falch o hanes y Llywodraeth Cymru hon o ran buddsoddiad a sgiliau, ac yn enwedig ein rhaglen brentisiaethau, a Twf Swyddi Cymru. Fodd bynnag, mae tystiolaeth, anecdotaidd ac fel arall, yn awgrymu bod mwy o ddynion o lawer ym meysydd adeiladu a pheirianneg—ac rydych wedi crybwyll peirianneg—o hyd. Felly, a ydych chi'n cytuno â mi, Brif Weinidog, bod yn rhaid i ni wneud mwy o waith gydag ysgolion, colegau, cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant, ac, wrth gwrs, merched a menywod i sicrhau eu bod yn gweld y diwydiannau hyn yn arbennig fel llwybrau gyrfaol da i'w hunain?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. We know that there are some significant infrastructure projects in development in Wales, such as Wylfa Newydd and the Swansea tidal lagoon. They will open up new opportunities within construction and engineering, and we are working with stakeholders to help to focus on activity that will encourage women to forge their careers within these sectors. As I said, it's encouraging to see that there's been an improvement in the number of young women studying engineering, and, of course, we need to encourage that more in the future to take advantage of the opportunities that will come.

Ydw. Rydym ni'n gwybod bod rhai prosiectau seilwaith sylweddol yn cael eu datblygu yng Nghymru, fel Wylfa Newydd a'r morlyn llanw yn Abertawe. Byddant yn creu cyfleoedd newydd ym meysydd adeiladu a pheirianneg, ac rydym ni'n gweithio gyda rhanddeiliaid i helpu i ganolbwyntio ar weithgarwch a fydd yn annog menywod i fwrw ymlaen â'u gyrfaoedd yn y sectorau hyn. Fel y dywedais, mae'n galonogol gweld y bu gwelliant o ran nifer y menywod ifanc sy'n astudio peirianneg, ac, wrth gwrs, mae angen i ni annog mwy ar hynny yn y dyfodol i fanteisio ar y cyfleoedd a ddaw.

## Llwybr Du yr M4 (Dociau Casnewydd)

## The M4 Black Route (Newport Docks)

13:36 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith y llwybr du a gaiff ei ffafrio i'r M4 ar ddyfodol dociau Casnewydd? OAQ(4)2242(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on the impact of the preferred M4 black route on the future of Newport docks? OAQ(4)2242(FM)*

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. It's our preferred route, but the M4 project will vastly improve motorway capacity and resilience across the south of Wales, benefitting not only the port of Newport but also the Associated British Ports operations in Swansea, Port Talbot, Barry and Cardiff.

Gwnaf. Dyna'r llwybr a ffefrir gennym, ond bydd prosiect yr M4 yn golygu y bydd capasiti a chadernid y draffordd yn well o lawer ar draws y de, gan olygu bod porthladd Casnewydd yn ogystal â gweithrediadau Associated British Ports yn Abertawe, Port Talbot, y Barri a Chaerdydd yn elwa.

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

First Minister, under your current plans for the second M4, a bridge will be built directly through the middle of Wales's busiest commercial cargo dock. It will block 58 per cent of ships from using the north dock, cut off 1,000 metres of high-quality quayside, take away 40 acres of potential land for future development, and even stop the larger cranes from moving around the port. Considering the obvious negative impact this would have, and the cost-savings of adopting the blue route and upgrading the existing southern routes, would you now admit that your current plans would cause far more harm than good?

Brif Weinidog, dan eich cynlluniau cyfredol ar gyfer yr ail M4, bydd pont yn cael ei hadeiladu'n uniongyrchol trwy ganol doc cargo masnachol prysuraf Cymru. Bydd yn atal 58 y cant o longau rhag defnyddio doc y gogledd, yn cael gwared ar 1,000 metr o gei ansawdd uchel, yn cael gwared ar 40 erw o dir datblygu posibl yn y dyfodol, a hyd yn oed yn atal y craeniau mwy rhag symud o gwmpas y porthladd. O ystyried yr effaith negyddol amlwg y byddai hyn yn ei chael, ac arbedion cost mabwysiadu'r llwybr glas ac uwchraddio'r llwybrau deheuol sy'n bodoli eisoes, a wnewch chi gyfaddef nawr y byddai eich cynlluniau presennol yn achosi llawer mwy o niwed nag o les?

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No. I know that officials have met with ABP a number of times, and we continue to involve them in the project. If there are ways to ensure that the bridge is of a particular height to enable the docks to carry on working as normal, then that, of course, will be examined.

Na wnaf. Gwn fod swyddogion wedi cwrdd ag ABP nifer o weithiau, ac rydym ni'n parhau i'w cynnwys yn y prosiect. Os oes ffyrdd o sicrhau bod y bont o uchder penodol i ganiatáu i'r dociau barhau i weithio yn ôl yr arfer, yna bydd hynny, wrth gwrs, yn cael ei archwilio.

Senedd.tv Fideo Video

13:37 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

First Minister, the proposal to upgrade the southern distributor road, which passes through substantial centres of population, would greatly increase air pollution, noise and generally adversely impact on quality of life for the communities along the way. Will you agree with me that the health, wellbeing and quality of life of local people must be at the very heart of Welsh Government decision-making on these issues?

Brif Weinidog, byddai'r bwriad i uwchraddio'r ffordd ddosbarthu ddeheuol, sy'n mynd trwy ganolfannau sylweddol o boblogaeth, yn cynyddu llygredd aer a sŵn yn helaeth ac yn cael effaith andwyol gyffredinol ar ansawdd bywyd i gymunedau ar hyd y ffordd. A wnewch chi gytuno â mi bod yn rhaid i iechyd, lles ac ansawdd bywyd pobl leol fod yn gwbl ganolog i broses Llywodraeth Cymru o wneud penderfyniadau ar y materion hyn?

Senedd.tv Fideo Video

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is an important factor, of course. We know that the problem isn't going to go away. We know that, for substantial periods of time, there are cars idling with their engines on, on the motorway, as it is at the moment, and that creates problems in and of itself. I've looked at the blue route myself, and one of the issues along the blue route is that it is very, very close to people's houses, and it certainly wouldn't be the case that, somehow, there would be a problem-free blue route available in terms of traffic, as well as the problems of mixing local and long-distance traffic along that route as well. We have looked to examine the various proposals. The Member will know there are still processes that need to be gone through in terms of particular impact assessments, but we do know that we have to wrestle what is fast becoming a very difficult traffic problem with already a negative impact on air quality.

Mae hwnnw'n ffactor pwysig, wrth gwrs. Rydym ni'n gwybod nad yw'r broblem yn mynd i ddiflannu. Rydym ni'n gwybod, am gyfnodau sylweddol o amser, bod ceir yn segur â'u hinjans yn rhedeg, ar y draffordd, fel y mae ar hyn o bryd, ac mae hynny'n creu problemau ynddo'i hun. Rwyf wedi edrych ar y llwybr glas fy hun, ac un o'r problemau ar hyd y llwybr glas yw ei fod yn agos iawn, iawn at dai pobl, ac yn sicr ni fyddai'n wir, rywsut, y byddai llwybr glas ar gael heb broblemau o ran traffig, yn ogystal â phroblemau cymysgu traffig lleol a thraffig o bell ar hyd y llwybr hwnnw hefyd. Rydym ni wedi ceisio ymchwilio i'r gwahanol gynigion. Bydd yr Aelod yn gwybod bod prosesau y mae angen mynd drwyddynt o hyd o ran asesiadau effaith penodol, ond rydym ni yn gwybod bod yn rhaid i ni fynd i'r afael â'r hyn sy'n prysur ddod yn broblem draffig anodd iawn, sydd eisoes ag effaith negyddol ar ansawdd yr aer.

Senedd.tv Fideo Video

13:38 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, leading on from the answer that you gave to Lindsay Whittle, Newport port have said that they're not for or against any specific alternative proposals for the route of the new M4 relief road, but do feel strongly that all options should be fully explored before an irrevocable decision is taken on a route that could seriously harm, as they say, one of Wales's most strategically important ports. Now, I heard your answer to Lindsay Whittle, but can you give an absolute assurance that you will work with ABP to make sure that their concerns are taken into consideration?

Brif Weinidog, yn dilyn ymlaen o'r ateb a roesoch i Lindsay Whittle, mae porthladd Casnewydd wedi dweud, nad yw o blaid nac yn erbyn unrhyw gynigion amgen penodol ar gyfer llwybr ffordd liniaru newydd yr M4, ond maen nhw'n teimlo'n gryf y dylid archwilio pob dewis yn llawn cyn gwneud penderfyniad na ellir ei ddadwneud ar lwybr a allai niweidio'n ddifrifol, fel maen nhw'n dweud, un o borthladdoedd strategol pwysicaf Cymru. Nawr, clywais eich ateb i Lindsay Whittle, ond a allwch chi roi sicrwydd pendant y byddwch yn gweithio gydag ABP i wneud yn siŵr bod eu pryderon yn cael eu hystyried?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely, and I know, as I said, that there have already been meetings between officials and ABP. There is no reason why those meetings should not be able to continue in order for any concerns to be addressed.

Yn sicr, ac rwy'n gwybod, fel y dywedais, y bu cyfarfodydd rhwng swyddogion ac ABP eisoes. Nid oes unrhyw reswm pam na ddylai'r cyfarfodydd hynny allu parhau er mwyn rhoi sylw i unrhyw bryderon.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party leaders. First this afternoon is the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr. Arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:39 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, obviously, the country has been gripped recently by the campaigning around the general election, which is due to come to an end on Thursday. Most of us would've seen the £4,000 tablet of stone that Ed Miliband stood by on Sunday, but the issue for many voters is the difference between rhetoric and delivery, and on his tombstone—sorry, his stone—that he stood by on Sunday, he had the issue of rent controls. Your housing Minister, in February, highlighted that rent controls reduce the incentive for landlords to invest, and can therefore lead to a reduction in quality housing. She said:

'I think that could give possible unintended consequences to the supply of private rented properties.'

Obviously, your leader has said that he wants to introduce rent controls. Who's right: your Minister or Ed Miliband?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, yn amlwg, mae holl sylw'r wlad yn ddiweddar wedi bod ar yr ymgyrchu ar gyfer yr etholiad cyffredinol, a fydd yn dod i ben ddydd Iau. Bydd y rhan fwyaf ohonom ni wedi gweld y dabled garreg £4,000 y safodd Ed Miliband wrth ei hochr ddydd Sul, ond y broblem i lawer o bleidleiswyr yw'r gwahaniaeth rhwng rhethreg a chyflawni, ac ar ei garreg fedd—mae'n ddrwg gen i, ei garreg—y safodd wrth ei hochr ddydd Sul, roedd ganddo'r mater o reolaethau rhent. Amlygodd eich Gweinidog tai chi, ym mis Chwefror, bod rheolaethau rhent yn lleihau'r cymhelliad i landlordiaid fuddsoddi, ac y gallant arwain felly at ostyngiad i dai o ansawdd. Meddai hi:

Rwy'n credu y gallai fod canlyniadau anfwriadol posibl i'r cyflenwad o eiddo rhent preifat.

Yn amlwg, mae eich arweinydd wedi dweud ei fod eisiau cyflwyno rheolaethau rhent. Pwy sy'n iawn: eich Gweinidog neu Ed Miliband?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Better to have tablets of stone than a manifesto based on foundations of sand, as we've seen with the Tories. The reality is we've had, since 1999, devolution, which gives us the opportunity to pursue different policy agendas in different parts of the UK. As far as we are concerned, this is a devolved issue. We are, of course, always taking into account what happens elsewhere in the UK, but the Minister will look closely at any changes elsewhere in the UK in order to adapt policy as to what is best for Wales.

Mae'n well cael tabledi carreg na maniffesto wedi'i seilio ar sylfeini o dywod, fel yr ydym ni wedi ei weld gyda'r Torïaid. Y gwir yw bod gennym ni, ers 1999, ddatganoli, sy'n rhoi'r cyfle i ni ddilyn gwahanol agendâu polisi mewn gwahanol rannau o'r DU. Cyn belled ag yr ydym ni yn y cwestiwn, mae hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Rydym ni, wrth gwrs, bob amser yn cymryd yr hyn sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r DU i ystyriaeth, ond bydd y Gweinidog yn edrych yn ofalus ar unrhyw newidiadau mewn mannau eraill yn y DU er mwyn addasu polisi o ran yr hyn sydd orau i Gymru.

13:40 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Hardly a ringing endorsement of Ed Miliband's tablet of stone that had as one of its key pledges rent control. Ultimately, I'm sure people will pay a lot of attention to that tablet costing £4,000, which would hark back to the prolific spending that the last Labour Government undertook when they let spending run out of control.

Dyw hynny'n fawr o gymeradwyaeth i dabled garreg Ed Miliband a oedd yn nodi rheolaethau rhent fel un o'i haddewidion allweddol. Yn y pen draw, rwy'n siŵr y bydd pobl yn cymryd llawer o sylw o'r dabled honno a gostiodd £4,000, a fyddai'n ein hatgoffa o'r gwario toreithiog a wnaethpwyd gan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf pan adawsant i wariant fynd allan o reolaeth.

But another initiative that the Labour Party have brought forward, which again shows the difference between the rhetoric and delivery, is the holiday on stamp duty payments up to £300,000. We on these benches last year brought forward such a proposal up to £250,000 where no stamp duty would be incurred on the purchase of a property. Your benches said that this was the latest whizz. Ann Jones, the Member for the Vale of Clwyd, said that we were chasing headlines. Is Ed Miliband chasing headlines when he talks of bringing a holiday forward on stamp duty?

Ond menter arall y mae'r Blaid Lafur wedi ei chyflwyno, sydd eto'n dangos y gwahaniaeth rhwng y rhethreg a chyflawni, yw'r gwyliau ar daliadau treth stamp hyd at £300,000. Cyflwynwyd cynnig o'r fath hyd at £250,000 gennym ni ar y meinciau hyn y llynedd, lle na fyddai unrhyw ddyletswydd stamp yn ddyledus wrth brynu eiddo. Dywedodd eich meinciau chi mai hon oedd yr ymgais ddiweddaraf i dynnu sylw. Dywedodd Ann Jones, yr Aelod dros Ddyffryn Clwyd ein bod yn chwilio am benawdau. A yw Ed Miliband yn chwilio am benawdau pan ei fod yn sôn am gyflwyno gwyliau o ran y dreth stamp?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Two things. Unlike him, through his public pronouncements, I am aware of what actually is in my party's UK manifesto, and, indeed, our own Welsh manifesto. He will be aware that stamp duty is not yet devolved. When it is devolved, we will, of course, consider what is best for Wales in terms of developing policy for Wales.

Dau beth. Yn wahanol iddo ef, trwy ei ddatganiadau cyhoeddus, rwyf fi'n ymwybodol o'r hyn sydd ym maniffesto fy mhlaid yn y DU, ac, yn wir, ein maniffesto ein hunain yng Nghymru. Bydd ef yn ymwybodol nad yw'r dreth stamp wedi'i datganoli eto. Pan gaiff ei datganoli, byddwn, wrth gwrs, yn ystyried yr hyn sydd orau i Gymru o ran datblygu polisi ar gyfer Cymru.

13:42 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

On two occasions, I've offered you the opportunity to endorse two key planks of what Ed Miliband has stood on in this election—rent controls and stamp duty—and on both occasions you've chosen not to endorse either one of those policies. I offer you a third one, if I may, First Minister, and that is the image of Ed Miliband in front of a 'Question Time' audience last week, and, indeed, Owen Smith, the Shadow Secretary of State for Wales the night after, actually saying that Labour never let spending run out of control on their watch, even though the audience pointed out that they believed—and therefore you could assume the electorate believed—that spending was running out of control under the last Labour Government. Do you believe the audience and the electorate that spending was out of control under the last Labour Government, or do you believe Ed and Owen?

Ar ddau achlysur, rwyf wedi cynnig y cyfle i chi gymeradwyo dwy agwedd allweddol ar yr hyn y mae Ed Miliband wedi sefyll drosto yn yr etholiad hwn—rheolaethau rhent a threth stamp—ac rydych chi wedi dewis peidio â chymeradwyo yr un o'r polisïau hynny ar y ddau achlysur. Hoffwn gynnig trydydd un i chi, os caf, Brif Weinidog, sef y ddelwedd o Ed Miliband o flaen cynulleidfa 'Question Time' yr wythnos diwethaf, ac, yn wir, Owen Smith, Ysgrifennydd Gwladol yr Wrthblaid dros Gymru y noson wedyn, yn dweud yn blaen na wnaeth Llafur erioed adael i wariant fynd allan o reolaeth yn ystod eu hamser nhw, er i'r gynulleidfa dynnu sylw at y ffaith eu bod yn credu—ac felly gallech dybio bod yr etholaeth yn credu—bod gwariant allan o reolaeth dan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf. A ydych chi'n coelio'r gynulleidfa a'r etholwyr bod gwariant allan o reolaeth dan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf, neu a ydych chi'n coelio Ed ac Owen?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I don't believe a party led by a man who forgets what football team he supports. That's a fundamental problem in that regard, as it asks questions about how genuine he actually is. I have to say to the leader of the Welsh Conservatives that what I have had on the doorstep during this election is people saying to me—begging me, in fact—to get rid of his party: talking about the bedroom tax, talking about zero-hours contracts, talking about low pay, talking about the fact that people feel they do not see the benefit in their pockets, and talking about the fact that there were tax cuts for millionaires but not for ordinary people. That's what the people are interested in in Wales—making sure that they feel that working people are properly rewarded for the jobs that they do: a fair day's pay for a fair day's work. All these concepts are alien to the party opposite but they are nevertheless principles that the people of Britain hold dear, and it will cost them on Thursday.

Nid wyf yn coelio plaid a arweinir gan ddyn sy'n anghofio pa dîm pêl-droed mae'n ei gefnogi. Mae honno'n broblem sylfaenol yn y cyswllt hwnnw, gan ei fod yn gofyn cwestiynau am ba mor ddiffuant yw ef mewn gwirionedd. Mae'n rhaid i mi ddweud wrth arweinydd Ceidwadwyr Cymru mai'r hyn yr wyf wedi ei glywed ar garreg y drws yn ystod yr etholiad hwn yw pobl yn dweud wrthyf—yn erfyn arnaf i, a dweud y gwir—i gael gwared ar ei blaid ef: yn siarad am y dreth ystafell wely, yn siarad am gontractau dim oriau, yn siarad am gyflog isel, yn siarad am y ffaith bod pobl yn teimlo nad ydynt yn gweld y budd yn eu pocedi, ac yn siarad am y ffaith bod gostyngiadau treth i filiwnyddion, ond nid i bobl gyffredin. Dyna mae gan bobl ddiddordeb ynddo yng Nghymru—gwneud yn siŵr eu bod yn teimlo bod pobl sy'n gweithio yn cael eu talu'n briodol am y swyddi maen nhw'n eu gwneud: cyflog teg am ddiwrnod teg o waith. Mae'r holl syniadau hyn yn estron i'r blaid gyferbyn, ond, serch hynny, maen nhw'n egwyddorion sy'n annwyl i bobl Prydain, a bydd yn costio iddyn nhw ddydd Iau.

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wow, can you hear that? Silence. We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Waw, allwch chi glywed hynna? Distawrwydd. Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:43 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. First Minister, last week, your shadow chancellor appeared in front of a billboard with the slogan 'Labour guarantee the Barnett formula'. On the same day, you said in this Chamber—and I quote—

'Barnett can't last forever.'

Which is it, First Minister?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf, ymddangosodd canghellor yr wrthblaid o flaen hysbysfwrdd gyda'r slogan 'Labour guarantee the Barnett formula'. Ar yr un diwrnod, dywedasoch yn y Siambr—ac rwy'n dyfynnu—

'Ni all Barnett bara am byth.'

Pa un yw hi, Brif Weinidog?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Both are correct. The pledge has been made to keep the Barnett formula for the foreseeable period of time, but it certainly can't last forever.

Mae'r ddau'n gywir. Gwnaed yr addewid i gadw fformiwla Barnett am y cyfnod o amser y gellir ei ragweld, ond yn sicr ni all bara am byth.

13:44 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you can't seriously answer that question by saying both contradictory statements are correct. I'll give you another example of your party's hypocrisy. You've said that Tory cuts have been damaging to Wales, yet you don't want to reverse a single Tory cut to the Welsh Government's budget. You've said that further cuts could be devastating, yet you've conceded a further 2 per cent cut, at least, from your own party. Can you confirm for us, once and for all, would you say that the cuts haven't gone far enough and that you welcome a further cut to public spending in Wales?

Brif Weinidog, allwch chi ddim ateb y cwestiwn yna o ddifrif trwy ddweud bod y ddau ddatganiad sy'n gwrthddweud ei gilydd yn gywir. Rhoddaf enghraifft arall i chi o ragrith eich plaid chi. Rydych chi wedi dweud bod toriadau'r Torïaid wedi bod yn niweidiol i Gymru, ac eto nid ydych chi eisiau gwrthdroi unrhyw doriad gan y Torïaid i gyllideb Llywodraeth Cymru. Rydych chi wedi dweud y gallai toriadau pellach fod yn ddinistriol, ac eto rydych chi wedi ildio toriad arall o 2 y cant, o leiaf, gan eich plaid eich hun. A allwch chi gadarnhau i ni, unwaith ac am byth, a fyddech chi'n dweud nad yw'r toriadau wedi mynd yn ddigon pell a'ch bod yn croesawu toriad pellach i wariant cyhoeddus yng Nghymru?

13:45

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Of course I'm not saying the cuts haven't gone far enough. What I can say, however, is that, when it comes to positioning, we as a party have never considered a coalition with the Tories, unlike hers, of course. We all remember what happened in 2007. I know her position was different, I give her that, but the bulk of her party members, many of whom are sitting on the benches opposite, were perfectly prepared to consider a coalition with the Tories in 2007. One thing I do say to the people of Wales is this: if they want to see a Labour Queen's Speech and a Labour budget passed, they can't rely on Plaid Cymru—[Interruption.]

Wrth gwrs nad wyf i'n dweud nad yw'r toriadau wedi mynd yn ddigon pell. Yr hyn y gallaf ei ddweud, fodd bynnag, pan ddaw i leoli, dydyn ni fel plaid erioed wedi ystyried clymblaid gyda'r Toriaid, yn wahanol i'w phlaid hi, wrth gwrs. Rydym ni i gyd yn cofio'r hyn a ddigwyddodd yn 2007. Rwy'n gwybod bod ei safbwynt hi'n wahanol, rwy'n cyfaddef hynny, ond roedd mwyafrif aelodau ei phlaid, y mae llawer ohonynt yn eistedd ar y meinciau gyferbyn, yn berffaith barod i ystyried clymblaid gyda'r Toriaid yn 2007. Un peth yr wyf i yn ei ddweud wrth bobl Cymru yw hyn: os ydyn nhw eisiau gweld Araith y Frenhines Lafur a chyllideb lafur yn cael ei phasio, ni allan nhw ddibynnu ar Blaid Cymru—[Torri ar draws.]

13:45

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

13:45

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—because they have said they will not support it. If you want a Labour budget, a Labour Government, vote Labour.

[Yn parhau.]— gan eu bod nhw wedi dweud na fyddant yn ei chefnogi. Os ydych chi eisiau cyllideb Lafur, Llywodraeth Lafur, pleidleisiwch dros Lafur.

13:45

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's all you've got, isn't it? You've got nothing positive to say at all. All you want to do is misrepresent Plaid Cymru's position, when I've said clearly that there is nothing that we would do to prop up a Conservative Government. But you've got nothing positive to say about your own policies, have you, so you can only go negative? First Minister, if I'm wrong on the question of cuts to a future Government budget, can you tell us, then, what additional resources you are seeking from the next Westminster Government? You've made it clear that you don't want to reverse a single Tory cut. You don't want a single penny added to the Welsh budget. Is it the case, then, that you would turn down additional resources to Wales? And if it's not the case that you would turn down additional resources for Wales, why aren't you asking for extra money?

Dyna'r cwbl sydd gennych chi, ynte? Nid oes gennych chi unrhyw beth cadarnhaol i'w ddweud o gwbl. Y cwbl rydych chi eisiau ei wneud yw cam-gyfleu safbwynt Plaid Cymru, pan rwyf i wedi dweud yn eglur nad oes unrhyw beth y byddem ni'n ei wneud i gefnogi Llywodraeth Geidwadol. Ond nid oes gennych chi unrhyw beth cadarnhaol i'w ddweud am eich polisïau eich hun, nac oes, felly y cwbl y gallwch chi ei wneud yw bod yn negyddol? Brif Weinidog, os wyf yn anghywir am y cwestiwn o doriadau i gyllideb Llywodraeth yn y dyfodol, a allwch chi ddweud wrthym, felly, pa adnoddau ychwanegol rydych chi'n gofyn amdanyn nhw gan Lywodraeth nesaf San Steffan? Rydych chi wedi ei gwneud yn eglur nad ydych chi eisiau gwrthdroi unrhyw un o doriadau'r Toriaid. Nid ydych chi eisiau i'r un geiniog gael ei hychwanegu at gyllideb Cymru. A yw'n wir, felly, y byddech chi'n gwrthod adnoddau ychwanegol i Gymru? Ac os nad yw'n wir y byddech chi'n gwrthod adnoddau ychwanegol i Gymru, pam nad ydych chi'n gofyn am ragor o arian?

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There is a certain rich irony in being accused of being negative and then listening to what the leader of Plaid Cymru has just said. If it was around her neck, she'd be sinking like a stone by now. The reality is that my party has made it clear that we will have £370 million at least extra in the Welsh budget every year—more than the Tories. A Barnett floor—we have said that. These are all advantages to the people of Wales. We have said we would cut the bedroom tax—get rid of it completely. Unlike her party, we're in a position to actually do this for the people of Wales. The reality is that we all know that, as far as Wales is concerned, if the people of Wales want to see fairness, if they want to see justice and if they want to see opportunity, they want to have a Labour Queen's Speech and a Labour budget. Plaid Cymru would jeopardise that Labour Queen's Speech and that Labour budget, as the party that, in 2007, were more than happy to go in with the Tories.

Mae eironi cyfoethog arbennig mewn cael eich cyhuddo o fod yn negyddol ac yna gwrando ar yr hyn y mae arweinydd Plaid Cymru newydd ei ddweud. Pe byddai o gwmpas ei gwddf, byddai'n suddo fel carreg erbyn hyn. Y gwir amdani yw bod fy mhlaid wedi ei gwneud yn eglur y bydd gennym o leiaf £370 miliwn yn ychwanegol yng nghyllideb Cymru bob blwyddyn— mwy na'r Toriaid. Llawr Barnett—rydym ni wedi dweud hynny. Mae'r rhain i gyd yn fanteision i bobl Cymru. Rydym ni wedi dweud y byddem yn torri'r dreth ystafell wely—cael gwared arni'n llwyr. Yn wahanol i'w phlaid hi, rydym ni mewn sefyllfa i wneud hyn mewn gwirionedd i bobl Cymru. Y gwir amdani yw ein bod ni i gyd yn gwybod, cyn belled ag y mae Cymru yn y cwestiwn, os yw pobl Cymru eisiau gweld tegwch, os ydyn nhw eisiau gweld cyfiawnder ac os ydyn nhw eisiau gweld cyfle, maen nhw eisiau gweld Araith y Frenhines Llafur a chyllideb Lafur. Byddai Plaid Cymru'n peryglu Araith y Frenhines Llafur honno a'r gyllideb Lafur honno, fel y blaid a oedd, yn 2007, yn fwy na bodlon i ymuno â'r Toriaid.

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

You'd let the Tories back in.

Byddech chi'n gadael y Toriaid yn ôl i mewn.

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order.

Trefn.

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

You'd let the Tories back in.

Byddech chi'n gadael y Toriaid yn ôl i mewn.

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order. Order. We are now moving on to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Trefn. Trefn. Symudwn ymlaen nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you, Presiding Officer. First Minister, as the parties set out their pledges for the NHS, what assessment have you made of the impact of these pledges on the future of Welsh Government budgets?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, wrth i'r pleidiau gyflwyno eu haddewidion ar gyfer y GIG, pa asesiad ydych chi wedi ei wneud o effaith yr addewidion hyn ar ddyfodol cyllidebau Llywodraeth Cymru?

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, we very much welcome any increase in the health budget in England that will of course lead to consequentials for Wales.

Wel, rydym ni'n croesawu'n fawr iawn unrhyw gynnydd i'r gyllideb iechyd yn Lloegr a fydd wrth gwrs yn arwain at symiau canlyniadol i Gymru.

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

First Minister, at the weekend, your leader set out his key commitment, and that is an NHS with time to care. Would you agree with me that the only way of achieving that is by ensuring that we have adequate numbers of nurses on our wards, as proposed in my private Member's Bill on safe nursing standards?

Brif Weinidog, dros y penwythnos, cyflwynodd eich arweinydd ei ymrwymiad allweddol, sef GIG ag amser i ofalu. A fyddech chi'n cytuno â mi mai'r unig ffordd o gyflawni hynny yw trwy sicrhau bod gennym ni niferoedd digonol o nyrsys ar ein wardiau, fel y cynigir yn fy Mil Aelod preifat ar safonau nyrsio diogel?

Senedd.tv Fideo Video

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, we're sympathetic, of course, to the principle of what the leader of the Liberal Democrats is saying. My party, of course, has already said that we'd use the proceeds of the mansion tax to employ an extra 1,000 doctors, nurses, occupational therapists and other health professionals, which I'm sure the people of Wales would welcome.

Wel, rydym ni'n cydymdeimlo, wrth gwrs, ag egwyddor yr hyn y mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ei ddweud. Mae fy mhlaid i, wrth gwrs, eisoes wedi dweud y byddem ni'n defnyddio enillion y dreth plasty i gyflogi 1,000 o feddygon, nyrsys, therapyddion galwedigaethol a gweithwyr iechyd proffesiynol ychwanegol eraill, yr wyf yn siŵr y byddai pobl Cymru yn ei groesawu.

Senedd.tv Fideo Video

13:48 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

First Minister, NHS professionals in England have said that they will need an additional £8 billion a year by the end of the Parliament to sustain funding for the NHS. The Nuffield report, commissioned by your own Government also pointed to significant deficits to the Welsh NHS budget unless additional resources were found. My party committed to putting that money in. The Labour Party refuses to make commitments that would match what is needed as stated by the NHS professionals in England, and it certainly doesn't match what the report commissioned by your Government says the Welsh NHS will need. Why won't your party commit to that funding, which independent experts have said the Welsh NHS will need to be sustainable?

Brif Weinidog, mae gweithwyr proffesiynol y GIG yn Lloegr wedi dweud y bydd angen £8 biliwn ychwanegol y flwyddyn arnynt erbyn diwedd y Senedd i gynnal cyllid ar gyfer y GIG. Tynnodd adroddiad Nuffield, a gomisiynwyd gan eich Llywodraeth eich hun, sylw at ddiffygion sylweddol yng nghyllideb y GIG yng Nghymru hefyd, oni bai y caiff adnoddau ychwanegol eu canfod. Ymrwymodd fy mhlaid i i gyfrannu'r arian hwnnw. Mae'r Blaid Lafur yn gwrthod gwneud ymrwymiadau a fyddai'n cyfateb i'r hyn sydd ei angen fel y nodwyd gan weithwyr proffesiynol y GIG yn Lloegr, ac yn sicr nid yw'n cyfateb i'r hyn y mae'r adroddiad a gomisiynwyd gan eich Llywodraeth chi'n ei ddweud y bydd ei angen ar y GIG yng Nghymru. Pam na wnaiff eich plaid ymrwymo i'r cyllid hwnnw, y mae arbenigwyr annibynnol wedi dweud y bydd ei angen ar y GIG yng Nghymru i fod yn gynaliadwy?

Senedd.tv Fideo Video

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am perfectly confident that my party, should it be in Government from Thursday onwards, will commit the proper level of resources to the NHS and that that will be reflected in the consequential we get in Wales. What I do know is that I look forward to the day, certainly on Friday, where we do not have a Secretary of State for health in England who, on the one hand, pleads, bleats in fact, that the NHS should not be a political football and then does exactly the same thing to the Welsh NHS—the sort of person who used to run up behind you in the school playground, hit you and run away without being seen. That's the sort of person we're talking about. That's the calibre of politician that we have at the moment in Westminster, and that will change, we hope, on Friday.

Rwy'n gwbl hyderus y bydd fy mhlaid, pe byddai mewn Llywodraeth o ddydd Iau ymlaen, yn ymrwymo'r lefel briodol o adnoddau i'r GIG ac y bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yn y swm canlyniadol a gawn ni yng Nghymru. Yr hyn yr wyf yn ei wybod yw fy mod i'n edrych ymlaen at y diwrnod, yn sicr ddydd Gwener, pan nad oes gennym Ysgrifennydd Gwladol dros iechyd yn Lloegr sydd, ar y naill law, yn pledio, yn rhefru mewn gwirionedd, na ddylai'r GIG fod yn bêl-droed wleidyddol ac yna'n gwneud yn union yr un fath i'r GIG yng Nghymru—y math o berson a oedd yn arfer rhedeg i fyny y tu ôl i chi yn iard yr ysgol, eich taro chi ac yna rhedeg i ffwrdd heb gael ei weld. Dyna'r math o berson rydym ni'n sôn amdano. Dyna safon y gwleidydd sydd gennym ni yn San Steffan ar hyn o bryd, a bydd hynny'n newid, rydym ni'n gobeithio, ddydd Gwener.

Senedd.tv Fideo Video

13:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move back to questions on the paper, and question 3 is from Byron Davies.

Symudwn yn ôl at gwestiynau ar y papur nawr, a daw cwestiwn 3 gan Byron Davies.

Senedd.tv Fideo Video

### Cefnogi Busnesau (Gorllewin De Cymru)

### Supporting Businesses (South Wales West)

13:50 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu mentrau Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)2246(FM)*

*3. Will the First Minister outline the Welsh Government's initiatives to support businesses in South Wales West? OAQ(4)2246(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. There are a range of initiatives that will help to create jobs and growth. They include the provision of business support through Business Wales, ICT support and transport infrastructure improvements.

Gwnaf. Mae amrywiaeth o fentrau a fydd yn helpu i greu swyddi a thwf. Maen nhw'n cynnwys darparu cymorth busnes trwy Busnes Cymru, cymorth TGCh a gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth.

13:50 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. Last year, 70 leading Welsh businesses and chambers of commerce jointly signed a letter to you calling to extend the small business rate relief scheme to, effectively, abolish business rates on rateable values up to £12,000. The Welsh Conservatives have long called for 100 per cent business rate relief for businesses with a rateable value up to £12,000, and relief tapered from 100 per cent to zero for those with a rateable value of up to £15,000. This move, of course, would see 73 per cent of businesses taken out of business rates altogether. If I understand it correctly, you did not reply to this letter from the 70 leading businesses. More importantly, will you now commit to the extending of the small business rate relief scheme, as we have set out on this side of the Chamber?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Y llynedd, cyd-lofnodwyd llythyr gan 70 o fusnesau a siambrau masnach blaenllaw yng Nghymru yn galw arnoch chi i ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach i ddiddymu, i bob pwrpas, ardrethi busnes ar werthoedd ardrethol hyd at £12,000. Mae Ceidwadwyr Cymru wedi galw ers talwm am ryddhad ardrethi busnes o 100 y cant i fusnesau sydd â gwerth ardrethol hyd at £12,000, a rhyddhad yn lleihau'n raddol o 100 y cant i ddim i'r rhai sydd â gwerth ardrethol o hyd at £15,000. Byddai'r cam hwn, wrth gwrs, yn golygu y byddai 73 y cant o fusnesau'n cael eu cymryd allan o ardrethi busnes yn gyfan gwbl. Os wyf wedi deall yn iawn, ni wnaethoch chi ateb y llythyr hwn gan y 70 o fusnesau blaenllaw. Yn bwysicach fyth, a wnewch chi ymrwymo nawr i ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, fel yr ydym ni wedi ei gyflwyno ar yr ochr hon i'r Siambr?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, as you know, we did extend the small business rate relief scheme. We look forward, of course, to there being more money available from next week onwards and beyond in order to assist small businesses in Wales. But, I have to say, what he is outlining in terms of his party's plans do not sit with his party's plans some years ago—some two or three years ago—for their alternative budget when they planned to cut spending on businesses, and particularly a 30 per cent cut in spending on job creation. He cannot have it both ways: on the one hand, claiming that his party would make deep cuts in Welsh public spending while at the same time claiming there is money available to support the schemes.

Wel, fel y gwyddoch, fe wnaethom ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach. Rydym ni'n edrych ymlaen, wrth gwrs, at fwy o arian ar gael o'r wythnos nesaf ymlaen, a thu hwnt er mwyn cynorthwyo busnesau bach yng Nghymru. Ond, mae'n rhaid i mi ddweud, nid yw'r hyn y mae'n ei amlinellu o ran cynlluniau ei blaid yn cyd-fynd â chynlluniau ei blaid rai blynyddoedd yn ôl—tua dwy neu dair blynedd yn ôl—ar gyfer eu cyllideb amgen pan roedden nhw'n bwriadu torri gwariant ar fusnesau, ac yn enwedig toriad o 30 y cant i wariant ar greu swyddi. Ni all ei chael hi bob ffordd: ar y naill law, yn honni y byddai ei blaid yn gwneud toriadau dwfn i wariant cyhoeddus yng Nghymru ac ar yr un pryd honni bod arian ar gael i gefnogi'r cynlluniau.

13:51 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, businesses in Port Talbot have obviously explained that they've had an impact because of the junction 41 closure. I know the Minister has actually provided support in that period of time to those businesses, but the decision is due shortly. Will you look at initiatives to support those businesses? I hope the decision is the right decision and that it will remain open, but they need to rebuild. Will you continue with those initiatives in Port Talbot to help those businesses and look at other alternative initiatives to support businesses to grow again?

Brif Weinidog, mae busnesau ym Mhort Talbot yn amlwg wedi esbonio y bu effaith arnyn nhw oherwydd cau cyffordd 41. Rwy'n gwybod bod y Gweinidog wedi darparu cefnogaeth i'r busnesau hynny yn y cyfnod hwnnw o amser, ond disgwylir y penderfyniad yn fuan. A wnewch chi edrych ar fentrau i gefnogi'r busnesau hynny? Rwy'n gobeithio mai'r penderfyniad hwnnw fydd y penderfyniad iawn ac y bydd yn aros ar agor, ond mae angen iddyn nhw ail-adeiladu. A wnewch chi barhau gyda'r mentrau hynny ym Mhort Talbot i helpu'r busnesau hynny ac edrych ar fentrau eraill i gefnogi busnesau i dyfu eto?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I know that the Minister is very keen, of course, to assist Port Talbot town centre and to assist the businesses that are there. I'm sure that the discussions that have taken place up until now will continue into the future.

Gwn fod y Gweinidog yn awyddus iawn, wrth gwrs, i gynorthwyo canol tref Port Talbot ac i gynorthwyo'r busnesau sydd yno. Rwy'n siŵr y bydd y trafodaethau a gynhaliwyd hyd yn hyn yn parhau i'r dyfodol.

13:52

## Bethan Jenkins [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Brif Weinidog, yng Nghastell-nedd, mae nifer o bobl wedi dweud wrthyf nad ydynt yn mynd i mewn i'r dref i siopa oherwydd y ffaith bod ffioedd wedi mynd i fyny ar gyfer parcio yn y dref. Beth fyddwch chi'n dweud wrth fusnesau bach sy'n dioddef yn sgil y ffaith nad yw'r cyngor tref yn helpu busnesau bach yn sgil y prisiau uchel ar gyfer parcio?

First Minister, in Neath, many people have told me that they no longer go into town to do their shopping because fees for parking have increased in the town centre. What are you telling small businesses that are suffering in light of the fact that the town council isn't assisting small businesses in relation to these high parking fees?

13:52

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Nid wyf yn ymwybodol beth yw'r prisiau ar hyn o bryd yng Nghastell-nedd. Rwy'n gwybod, wrth gwrs, fod bron pob tref yng Nghymru yn codi tâl i barcio, ond, wrth gwrs, mae'n anodd dros ben i wybod beth yw unrhyw effaith o gynyddu'r tâl hwnnw ar fusnesau. Rydym ni'n gwybod, wrth gwrs, fod yna bwysau ar fusnesau bach, nid dim ond ynglŷn â'r bobl sy'n dod i mewn i drefi, ond oherwydd y ffaith bod cymaint o gystadleuaeth nawr gan yr archfarchnadoedd a hefyd, wrth gwrs, cystadleuaeth ar-lein. Ond, fe fyddwn i'n erfyn i'r cyngor weithio'n agos gyda busnesau er mwyn sicrhau bod y dref yn parhau fel tref sy'n tynnu pobl i mewn i siopa.

I'm not totally certain what the prices are in Neath. I know, of course, that almost every town in Wales does charge for parking, but, of course, it's very difficult to know what the impact of increasing that charge will be on businesses. We do of course know that there is a great deal of pressure on small businesses not only because of whether or not shoppers will arrive, but because of a great deal of competition from supermarkets and from online retailing. We would expect the council to work closely with the businesses to ensure that the town continues to attract shoppers.

13:53

## Peter Black [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

First Minister, I've been contacted by a number of small businesses in my region that are concerned that, despite the efforts of your Government and others, the procurement policies of local government still exclude them from many contracts, because those contracts are cast at too high a level for them to compete. I understand you have a procurement board, but there are no private businesses represented on that board; it is entirely made up of public sector nominees. Can I ask what you will be dong to try to encourage local authorities and other public sector authorities to try to tailor their procurement initiatives so that local businesses are able to compete for those contracts?

Brif Weinidog , mae nifer o fusnesau bach yn fy rhanbarth i wedi cysylltu â mi gan eu bod yn pryderu, er gwaethaf ymdrechion eich Llywodraeth chi ac eraill, bod polisïau caffael llywodraeth leol yn golygu bod llawer o gontractau yn dal heb fod ar gael iddynt, gan fod y contractau hynny'n cael eu bwrw ar lefel rhy uchel iddyn nhw gystadlu. Rwy'n deall bod gennych chi fwrdd caffael, ond nid oes unrhyw fusnesau preifat wedi'u cynrychioli ar y bwrdd hwnnw; enwebeion o'r sector cyhoeddus yw pawb sydd arno. A gaf fi ofyn beth fyddwch chi'n ei wneud i geisio annog awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill yn y sector cyhoeddus i geisio teilwra eu mentrau caffael fel y gall busnesau lleol gystadlu am y contractau hynny?

13:54

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mixed, I think, is the picture in terms of local government procurement. We do encourage local government, of course, to ensure that, where they can, their procurement policies are such that local businesses are able to compete on a level playing field and therefore retain more money in the local economy. Through our own procurement initiative, of course, we've managed to roll out the knowledge that businesses need in terms of being able to bid—that, sometimes, is a problem—and also the understanding in the public sector that they do not have to tailor their procurement policies in such a way that small businesses and local businesses find it difficult to compete. We've seen, of course, great improvements being made as far as Welsh Government are concerned and we would expect local authorities to follow that good example.

Cymysg, rwy'n credu, yw'r darlun o ran caffael llywodraeth leol. Rydym ni'n annog llywodraeth leol, wrth gwrs, i sicrhau, lle y gallant, bod eu polisïau caffael yn golygu y gall busnesau lleol gystadlu ar sail gyfartal ac felly cadw mwy o arian yn yr economi leol. Drwy ein menter caffael ein hunain, wrth gwrs, rydym ni wedi llwyddo i gyflwyno'r wybodaeth sydd ei hangen ar fusnesau o ran gallu gwneud cais—mae hynny'n broblem weithiau—a hefyd y ddealltwriaeth yn y sector cyhoeddus nad oes rhaid iddynt deilwra eu polisïau caffael yn y fath fodd bod busnesau bach a busnesau lleol yn ei chael hi'n anodd cystadlu. Rydym ni wedi gweld, wrth gwrs, gwelliannau mawr yn cael eu gwneud cyn belled ag y mae Llywodraeth Cymru yn y cwestiwn, a byddem yn disgwyl i awdurdodau lleol ddilyn yr esiampl dda honno.

### Datganoli Pwerau dros Ynni

### The Devolution of Energy Powers

13:55

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddatganoli pwerau dros ynni i Gymru? OAQ(4)2253(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on the devolution of energy powers to Wales? OAQ(4)2253(FM)*

13:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Bydd datganoli'r holl bwerau gofynnol ar gyfer pob datblygiad ynni yng Nghymru yn ein galluogi i wireddu'r uchelgais o osod proses syml a thryloyw ar gyfer Cymru.

Devolving all the necessary powers for all energy developments in Wales will enable us to realise our ambition to put in place a streamlined, transparent process for Wales.

13:55 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Gan fod cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi wedi ei gwneud hi'n glir y bydd trwyddedu ar echdynnu nwy anghonfensiynol ar dir yng Nghymru yn mynd i gael ei ddatganoli, a gan fod y Senedd yma ac, yn wir, eich Llywodraeth chi wedi ymrwymo nawr i wneud popeth y gallwn ni i rwystro ffracio rhag digwydd yng Nghymru, a wnewch chi, ar ôl yr etholiad cyffredinol, ysgrifennu at y Gweinidog perthnasol yn San Steffan yn gofyn iddyn nhw beidio â chaniatáu trwyddedu pellach, oherwydd mae'r egwyddor bod y mater yn mynd i gael ei ddatganoli wedi ei derbyn, a'r egwyddor fan hyn, wrth gwrs, nad yw hi'n ddymuniad inni weld y math yna o weithgaredd yn digwydd?

As the St David's Day statement made it clear that licensing of the extraction of unconventional gas on land in Wales is going to be devolved and as this Senedd and, indeed, your Government are now committed to do everything we can to prevent fracking from happening in Wales, will you, after the general election, write to the relevant Minister in Westminster asking them not to allow further licensing because the principle that that issue is to be devolved has been accepted, and the principle here, of course, is that it's not the wish of this place to see that kind of activity happening?

13:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n cyd-fynd yn hollol â hynny. Mae yna lythyr wedi mynd yn barod at yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y pwyntiau hynny.

I concur completely with that. A letter has already been sent to the Secretary of State making those points.

13:56 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I'm more interested in the legislative powers that might be necessary to ensure that ordinary people can generate and sell electricity. At the moment, it's in the hands of the big six and National Grid, and I wondered what conversations you might be having with the incoming Government to ensure that ordinary people can actually generate their own electricity and sell it to their neighbours.

Mae gen i fwy o ddiddordeb yn y pwerau deddfwriaethol a allai fod yn angenrheidiol i sicrhau y gall pobl gyffredin gynhyrchu a gwerthu trydan. Ar hyn o bryd, mae yn nwylo'r chwe chwmni mawr a'r Grid Cenedlaethol, ac roeddwn i'n meddwl tybed pa sgyrsiau y gallech chi fod yn eu cael gyda'r Llywodraeth newydd i sicrhau y gall pobl gyffredin gynhyrchu eu trydan eu hunain a'i werthu i'w cymdogion.

13:56 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you. I don't know what the incoming Government will look like yet, but, certainly, there will be discussions, I'm sure, with that Government. But, the point the Member makes is a fair one, and that is how to encourage more community projects. Ynni'r Fro, of course, is currently working with 53 community-led renewable energy schemes, nine of which are looking to be completed by the end of December 2015. That will give a total install capacity of 5.5 MW, and that will lever in approximately £8.72 million of private investment, in turn, generating £220,000 of annual income to local communities. We want to see that built on in years to come.

Diolch yn fawr. Nid wyf yn gwybod beth fydd cyfansoddiad y Llywodraeth newydd eto, ond, yn sicr, bydd trafodaethau, rwy'n siŵr, gyda'r Llywodraeth honno. Ond, mae'r pwynt y mae'r Aelod yn ei wneud yn un teg, sef sut i annog mwy o brosiectau cymunedol. Mae Ynni'r Fro, wrth gwrs, yn gweithio ar hyn o bryd gyda 53 o gynlluniau ynni adnewyddadwy a arweinir gan y gymuned, a gobeithir cwblhau naw ohonynt erbyn diwedd mis Rhagfyr 2015. Bydd hynny'n rhoi cyfanswm capasiti gosod o 5.5 MW, a bydd hynny'n ysgogi tua £8.72 miliwn o fuddsoddiad preifat, yn ei dro, gan gynhyrchu £220,000 o incwm blynyddol i gymunedau lleol. Rydym ni eisiau gweld hynny'n cynyddu yn y blynyddoedd i ddod.

13:57 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I would be grateful if the First Minister could outline what streamlined processes the Government does intend to use when dealing with energy projects over 50 MW.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Prif Weinidog amlinellu pa brosesau wedi'u symleiddio y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu defnyddio wrth ymdrin â phrosiectau ynni dros 50 MW.

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First of all, we need to get the powers devolved, that much is true, but we would want to ensure that the system is, indeed, a streamlined system and one where decisions are taken after consultation, but, certainly, in a prompt manner. Once the powers are devolved, we'll then, of course, look to see how best those powers can be utilised in Wales.

Yn gyntaf oll, mae angen i ni gael datganoli'r pwerau, mae cymaint â hynny'n wir, ond byddem eisiau sicrhau bod y system, yn wir, yn system symlach ac yn un lle mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ar ôl ymgynghori, ond, yn sicr, yn brydlon. Unwaith y bydd y pwerau wedi'u datganoli, yna byddwn yn edrych i weld, wrth gwrs, sut y gellir defnyddio'r pwerau hynny yn y modd gorau yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, roedd datganiad Gŵyl Ddewi yn hollol ddistaw ynglŷn â'r grid cenedlaethol a'r caniatâd sydd yn dilyn o hynny. A fyddech chi'n barod i agor trafodaethau unwaith eto â Llywodraeth newydd yn San Steffan i weld a ydynt yn awyddus i'w weld, achos mae yna lawer iawn o broblemau yn y gogledd ynghylch y grid cenedlaethol, yn hytrach na'r cynlluniau ynni eu hunain?

First Minister, the St David's Day statement was entirely silent on the national grid and the permission following on from that. Would you be willing to open negotiations, once again, with the new Government in Westminster to see if they are eager to see this development, because there are a number of problems in north Wales in relation to the national grid, rather than the energy schemes themselves?

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, mae yna dri pheth: yn gyntaf, y pwerau dros ynni at y tir; yn ail, y pwerau dros ynni yn y môr—mae hynny'n hollbwysig wrth gofio'r potensial sydd gennym ni ynglŷn ag ynni o'r môr—ac yn drydydd, wrth gwrs, sicrhau bod yr un pwerau gennym ni a'r Alban ynglŷn â chaniatáu'r ceisiadau cynllunio dros y grid cenedlaethol.

Well, there are three issues: firstly, the powers for onshore energy; secondly, the powers for offshore energy—this is all-important when you think about the potential that we have in relation to tidal power—and thirdly, of course, having parity of powers with Scotland as regards permitting planning applications for the national grid.

Senedd.tv Fideo Video

### Canlyniadau Iechyd (Canol De Cymru)

### Health Outcomes (South Wales Central)

13:58 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*5. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella canlyniadau iechyd i gleifion y GIG yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)2251(FM)*

*5. What steps are being taken by the Welsh Government to improve health outcomes for NHS patients in South Wales Central? OAQ(4)2251(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We invested an additional £295 million in 2015-16 for the NHS in Wales to deliver high-quality sustainable health services.

Rydym ni'n buddsoddi £295 miliwn ychwanegol yn 2015-16 i'r GIG yng Nghymru er mwyn darparu gwasanaethau iechyd cynaliadwy o ansawdd uchel.

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, First Minister. If you look at the Cardiff and Vale NHS accounts, they show that they had a deficit in excess of £21 million at the end of the last financial year. I appreciate the legislation that's gone through this Assembly allows health boards to balance their budgets over a three-year period now, but, given that deficit in year one is substantial by any stretch of the imagination, what actions are the Welsh Government taking to work with health boards to mitigate those deficits, other than to have, at the end of the period, huge cuts in provision that will affect patient outcomes in Cardiff and Vale?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Os edrychwch chi ar gyfrifon GIG Caerdydd a'r Fro, maen nhw'n dangos bod ganddyn nhw ddiffyg o fwy na £21 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Rwy'n sylweddoli bod y ddeddfwriaeth sydd wedi mynd drwy'r Cynulliad hwn yn caniatáu i fyrddau iechyd gydbwyso eu cyllidebau dros gyfnod o dair blynedd erbyn hyn, ond, o gofio bod y diffyg yna yn y flwyddyn gyntaf yn sylweddol o unrhyw safbwynt, pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i weithio gyda byrddau iechyd i liniaru'r diffygion hynny, ar wahân i gael toriadau anferth i'r ddarpariaeth ar ddiwedd y cyfnod, a fydd yn effeithio ar ganlyniadau i gleifion yng Nghaerdydd a'r Fro?

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, we work on a regular basis with the local health boards in terms of monitoring their financial outputs. It's right to say that a three-year time frame is far easier to manage than a one-year time frame in terms of accounts. We expect those local health boards, of course, to come in within budget. We would hope, over the next few years, that we will see more money being allocated to Wales through the block grant that we could then use in order to deliver the health service and the continued improvements that we'll see in the future.

Wel, rydym ni'n gweithio'n rheolaidd gyda'r byrddau iechyd lleol o ran monitro eu canlyniadau ariannol. Mae'n iawn i ddweud bod amserlen tair blynedd yn llawer haws i'w rheoli nag amserlen o flwyddyn o ran cyfrifon. Rydym ni'n disgwyl i'r byrddau iechyd lleol hynny, wrth gwrs, gyflawni'n unol â'u cyllidebau. Byddem yn gobeithio, dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, y byddwn ni'n gweld mwy o arian yn cael ei ddyrannu i Gymru drwy'r grant bloc y gallem ei ddefnyddio wedyn i ddarparu'r gwasanaeth iechyd a'r gwelliannau parhaus y byddwn yn eu gweld yn y dyfodol.

14:00 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the First Minister join me in congratulating staff at the University Hospital of Wales in Cardiff North, in my constituency, and the NHS Blood and Transplant team for the compassionate and skilful way in which they carried out the organ donation operation on new-born baby Teddy Houlston, Britain's youngest-ever organ donor? Will he also join me in welcoming the fact that this organ donation and the bravery of the baby's parents have inspired thousands of people across the UK to join the organ donation register since then?

A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi i longyfarch staff yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Ngogledd Caerdydd, yn fy etholaeth i, a thîm Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG am y ffordd drugarog a medrus y gwnaethon nhw gyflawni'r llawdriniaeth rhoi organau ar y baban newydd-anedig Teddy Houlston, y rhoddwr organau ieuengaf erioed ym Mhrydain? A wnaiff ef hefyd ymuno â mi i groesawu'r ffaith bod yr achos hwn o roi organau a dewrder rhieni'r baban wedi ysbrydoli miloedd o bobl ledled y DU i ymuno â'r gofrestr rhoi organau ers hynny?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely. I'm sure that I speak for all in this Chamber that we are full of admiration for Teddy's family, particularly for their courage and bravery at such a very difficult time for them as parents, and also, of course, their desire to be able to explain what they've done to encourage more people to become organ donors. That's been successful. We know that many more people have signed up to the organ donation register—over 15,000, it's believed, at the last count. I'd also like to recognise all the staff involved in this unique donation—all those who cared for Teddy and his mother—in UHW. I know that the retrieval surgery team from Birmingham worked very hard, and, of course, all those involved in the donation process from NHS Blood and Transplant. It can be very difficult, I think, for all of us in this Chamber to put ourselves in the position of Teddy's family, but I think it's worth saying once again, as Members should know, that I have written to the family, saying that we are full of admiration and gratitude to the family for what they've done.

Yn sicr. Rwy'n siŵr fy mod yn siarad dros bawb yn y Siambr hon drwy ddweud ein bod yn llawn edmygedd o deulu Teddy, yn enwedig am eu dewrder ar adeg mor anodd iddyn nhw fel rhieni, a hefyd, wrth gwrs, eu dymuniad i allu esbonio'r hyn y maen nhw wedi ei wneud i annog mwy o bobl i fod yn rhoddwyr organau. Mae hynny wedi bod yn llwyddiannus. Rydym ni'n gwybod bod llawer mwy o bobl wedi ymuno â'r gofrestr rhoi organau—dros 15,000 mae'n debyg ar y cyfrif diwethaf. Hoffwn hefyd gydnabod yr holl staff a oedd yn gysylltiedig â'r achos unigryw hwn o roi organau—pawb a ofalodd am Teddy a'i fam—yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Gwn fod y tîm llawdriniaeth adfer o Birmingham wedi gweithio'n galed iawn, ac, wrth gwrs, pawb a oedd yn gysylltiedig â'r broses o roi organau o adran Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG. Gall fod yn anodd iawn, rwy'n credu, i bob un ohonom ni yn y Siambr hon roi ein hunain yn sefyllfa teulu Teddy, ond rwy'n meddwl ei fod yn werth dweud unwaith eto, fel y dylai'r Aelodau wybod, fy mod i wedi ysgrifennu at y teulu, yn dweud ein bod yn llawn edmygedd o'r teulu ac yn diolch iddynt am yr hyn maen nhw wedi ei wneud.

## Hybu Economi'r Gorllewin

## Improving the Economy of West Wales

14:01 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad ar flaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer hybu economi'r gorllewin? OAQ(4)2248(FM)*

*6. Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's priorities for improving the economy in west Wales? OAQ(4)2248(FM)*

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Rydym yn bwrw ymlaen ag ystod o flaenoriaethau i wella'r economi drwy wneud y mwyaf o'r pwerau datganoledig sydd gennym ar hyn o bryd er mwyn cymryd camau pellgyrhaeddol i gefnogi swyddi, twf a'r amgylchedd busnes. Mae hyn yn cynnwys cynnig cymorth busnes drwy Busnes Cymru, cymorth TGCh a gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth.

We are progressing a range of priorities to improve the economy by making the most of the devolved powers that we currently have to deliver wide-ranging actions that are supporting jobs, growth, and improving the business environment. These include the provision of business support through Business Wales, ICT support and transport infrastructure improvements.

14:02 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, rydym wedi clywed eisoes y prynhawn yma fod busnesau bach yn teimlo eu bod yn cael eu cau allan o gontractau'r sector cyhoeddus. Mae cwmni bach glanhau ffenestri yn dweud wrthyf i ei bod yn gyfan gwbl amhosib iddyn nhw gystadlu bellach am gytundebau cyhoeddus, gan fod y cytundebau yn cael eu gosod ar draws awdurdodau a hyd yn oed yn cael eu gosod ar lefel genedlaethol. Felly, mae polisi cyhoeddus, yn cael ei arwain gan eich Llywodraeth chi, wedi arwain at gyfuno contractau. A ydych yn cytuno â mi, o ran cefnogaeth i fusnesau lleol a busnesau bach, y byddai gwahanu a lleihau rhai o'r contractau mawr yma o fudd i'r busnesau bach hynny?

First Minister, we've already heard this afternoon that small businesses feel that they've been excluded from public sector contracts. A small window cleaning firm has told me that it is entirely impossible for them to compete any longer for public contracts because they are set across authorities, or even at a national level. So, public policy, led by your Government, has led to the merging of contracts. Do you agree with me that, in terms of support for local businesses and small businesses, separating out and reducing some of these larger contracts would be of benefit to those small businesses?

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Dau beth. Rwy'n credu bod hynny'n wir, a lle mae'n bosib gwneud hynny, dylai hynny gael ei ystyried. Yn ail, beth sy'n bwysig hefyd yw bod busnesau bach yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn cystadlu am gontractau. Un o'r pethau a welais i fel cyn Weinidog amaeth, lle'r oedd pobl yn cystadlu i sicrhau bod cig eidion o Gymru yn mynd i mewn i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, oedd nad oedd neb, bryd hynny, yn gallu ei wneud e—nid oedd neb yn gallu delio â chontract o'r maint yna. Mae hynny wedi newid, ac mae'n bwysig dros ben nid dim ond bod y contract yn cael ei dorri i lawr lle bo hynny'n bosib, ond bod busnesau yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau, gyda'i gilydd, eu bod yn gallu cael y contractau hynny.

Two things. I think that is true, and where it is possible to do so, that should be considered. Secondly, it is also important that small businesses work together in order to tender for the contracts. One thing that I found, as former Minister for agriculture, when people were competing to ensure that Welsh beef went into the Welsh NHS, was that the problem at that time was that nobody could do that—nobody could deal with a contract of that size. However, things have changed, and it's exceptionally important, of course, that not only should the contracts be unpacked, where possible, but that businesses collaborate in order to ensure that, together, they can obtain those contracts.

14:03 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, mae Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau wedi cael caniatâd cynllunio amlinellol i ddatblygu dociau'r dref er mwyn trawsnewid yr economi leol. O ystyried pwysigrwydd y cynllun adfywio hwn, sydd werth rhyw £20 miliwn, a phwysigrwydd yr hafan i economi gorllewin Cymru, pa rôl all Llywodraeth Cymru ei chwarae i gefnogi cynllun fel hwn, ac i sicrhau bod Aberdaugleddau yn cyrraedd ei lawn botensial?

First Minister, Milford Haven Port Authority has been granted outline planning permission to develop the docks in the town in order to transform the local economy. Given the importance of this regeneration scheme, which is worth some £20 million, and the importance of the haven to the economy of west Wales, what role can the Welsh Government play to support such a scheme and to ensure that Milford Haven reaches its full potential?

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r porthladd er mwyn sicrhau bod y datblygiad hwn yn symud ymlaen. Bydd mwy o help, wrth gwrs, unwaith y bydd gennym ni bwerau dros borthladdoedd, nad yw gennym ni ar hyn o bryd; mae hynny wedi'I gytuno gan bob plaid yn y Siambr hon ac yn San Steffan. Mae Abergwaun yn bwysig dros ben, wrth gwrs, nid dim ond mewn perthynas â'r ffaith bod llongau yn mynd I Iwerddon, ond hefyd y potensial o ran dod â chargo a 'freight' i'r porthladd ei hunan. So, rydym ni wedi bod yn gweithio gyda'r porthladd a byddwn yn parhau I wneud hynny yn y pen draw.

We have been working with the port in order to ensure that this development progresses. It will help, of course, when we have powers over the ports, which we do not have at present; that has been agreed by every party in this Chamber and in Westminster. Fishguard, of course, is extremely important, not only because of the Irish connection, but also the potential for bringing cargo and freight into the port itself. So, we have been collaborating with the port and we will continue to do so.

14:04 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you may well be aware that, following the loss of its Communities First status, the Penparcau Community Forum in Aberystwyth is currently seeking funding to convert the former boxing club into a community centre. It's hoped that that will incorporate a training kitchen, in partnership with Coleg Ceredigion, space to hold training workshops and also a community cafe. First Minister, do you agree with me that this is exactly the kind of project that merits support, because it fits in, firstly, with the Welsh Government's tackling poverty agenda, but also assists in bringing young people back into vocational education, generating skills and also producing further jobs in rural areas, while boosting the local economy?

Brif Weinidog, efallai'n wir eich bod yn ymwybodol bod Fforwm Cymunedol Penparcau yn Aberystwyth, ar ôl colli ei statws Cymunedau yn Gyntaf, wrthi'n chwilio am gyllid ar hyn o bryd i droi'r hen glwb bocsio yn ganolfan gymunedol. Y gobaith yw y bydd hynny'n cynnwys cegin hyfforddi, mewn partneriaeth â Choleg Ceredigion, lle i gynnal gweithdai hyfforddiant yn ogystal â chaffi cymunedol. Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno â mi mai dyma'n union y math o brosiect sy'n haeddu cefnogaeth, gan ei fod yn cyd-fynd, yn gyntaf, ag agenda trechu tlodi Llywodraeth Cymru, ond hefyd yn cynorthwyo i ddod â phobl ifanc yn ôl i mewn i addysg alwedigaethol, gan gynhyrchu sgiliau a chreu rhagor o swyddi mewn ardaloedd gwledig, gan roi hwb i'r economi leol?

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Member will know that I can't give backing to any particular application at this stage, but he makes a powerful case for that project, and from what he has said, of course, it's clear that much work has gone into the application. It's a matter now, of course, for the application to be determined in the appropriate way.

Bydd yr Aelod yn gwybod na allaf roi cefnogaeth i unrhyw gais penodol ar hyn o bryd, ond mae'n cyflwyno achos cryf o blaid y prosiect hwnnw, ac o'r hyn y mae wedi ei ddweud, wrth gwrs, mae'n amlwg bod llawer o waith wedi ei wneud ar gyfer y cais. Mae'n fater nawr, wrth gwrs, o wneud penderfyniad ar y cais yn y ffordd briodol.

### Cysylltiadau Trafnidiaeth Gyhoeddus

### Public Transport Connections

14:05 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. Beth yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn ne ddwyrain Cymru? OAQ(4)2255(FM)*

*7. What is the Welsh Government's strategy for improving public transport connections in south east Wales? OAQ(4)2255(FM)*

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Wales transport strategy sets out our approach to integrated transport. The national transport plan then outlines a range of interventions and investments that we plan to make to improve transport links across Wales.

Mae strategaeth drafnidiaeth Cymru yn nodi ein dull o ymdrin â thrafnidiaeth integredig. Yna, mae'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol yn amlinellu amrywiaeth o ymyraethau a buddsoddiadau yr ydym ni'n bwriadu eu gwneud i wella cysylltiadau trafnidiaeth ledled Cymru.

14:06

## Jenny Rathbone [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Last week the City of Cardiff Council approved the plans for the new BBC headquarters in Central Square and Cardiff council has the plans for the new bus station, also in Central Square, ready to go out to consultation, so that the people of Cardiff can have their say. The missing piece in the jigsaw is the plans for the metro, because it would be good to have the integration of that transport before we start building the bus station. I just wondered if you could give us some timescale on when we might know whether the metro is going ahead.

Yr wythnos diwethaf, cymeradwyodd Cyngor Dinas Caerdydd y cynlluniau ar gyfer pencadlys newydd y BBC yn y Sgwâr Canolog ac mae gan gyngor Caerdydd y cynlluniau ar gyfer yr orsaf fysiau newydd, hefyd yn y Sgwâr Canolog, yn barod i fynd allan i ymgynghoriad, fel y gall pobl Caerdydd gael lleisio eu barn. Y darn sydd ar goll o'r jig-so yw'r cynlluniau ar gyfer y metro, gan y byddai'n dda cael integreiddio'r drafnidiaeth honno cyn i ni ddechrau adeiladu'r orsaf fysiau. Roeddwn i'n meddwl tybed a allech chi roi rhyw fath o amserlen o ran pryd y gallem ni wybod pa un a yw'r metro yn mynd yn ei flaen.

14:06

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I understand that plans for the Central Square development will make provision for the metro. There are two things here. First of all to ensure that the existing heavy rail corridors are protected, in terms of ensuring that what is already there is there, or if it is felt that it then moves on to light rail, that those corridors are there. Secondly, of course, it's important to ensure that on-street running is possible, where there are planned extensions to the metro that takes it away from the existing heavy rail network. That is something that Cardiff council, I understand, are already factoring into the development itself.

Wel, rwy'n deall y bydd cynlluniau ar gyfer datblygiad y Sgwâr Canolog yn gwneud darpariaeth ar gyfer y metro. Ceir dau beth yma. Yn gyntaf oll, sicrhau bod y coridorau rheilffordd trwm presennol yn cael eu diogelu, o ran sicrhau bod yr hyn sydd eisoes yno, yn dal yno, neu os teimlir ei fod yn symud ymlaen wedyn i reilffordd ysgafn, bod y coridorau hynny yno. Yn ail, wrth gwrs, mae'n bwysig sicrhau bod darpariaeth ar y stryd yn bosibl, lle ceir estyniadau wedi'u cynllunio i'r metro sy'n ei symud i ffwrdd oddi wrth y rhwydwaith rheilffyrdd trwm presennol. Mae hynny'n rhywbeth y mae cyngor Caerdydd, rwy'n deall, eisoes yn ei ystyried yn rhan o'r datblygiad ei hun.

14:07

## William Graham [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

First Minister, one of the key factors of public transport in south-east Wales will be the integration between the road and rail network, particularly for places like the Usk valley. How will this network complement and integrate into the south-Wales metro system?

Brif Weinidog, un o ffactorau allweddol cludiant cyhoeddus yn y de-ddwyrain fydd yr integreiddiad rhwng y rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd, yn enwedig ar gyfer lleoedd fel dyffryn Wysg. Sut y bydd y rhwydwaith hwn yn ategu ac yn integreiddio i system fetro'r de?

14:07

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, of course, in terms of the metro itself, that's only part of the picture. The metro itself involves building on the existing heavy rail lines and their adaptation, and also, of course, looks to extend the network in the future, while also, of course, making sure that there's the proper integration of bus services. That is something that we are examining, particularly in terms of the possibilities of bus rapid transit corridors and, of course, the need, particularly in the Valleys, to link communities across valley, where the rail link, or the metro link, won't go. Nevertheless, people need to travel across valley in any event. So, these are all factors that we're looking at in terms of ensuring that the metro is not just a system that involves the rail network, or rail links, but also involves proper bus integration as well.

Wel, wrth gwrs, o ran y metro ei hun, dim ond rhan o'r darlun yw hynny. Mae'r metro ei hun yn golygu adeiladu ar y rheilffyrdd trwm presennol a'u haddasu, a hefyd, wrth gwrs, ceisio ymestyn y rhwydwaith yn y dyfodol, ac ar yr un pryd, wrth gwrs, gwneud yn siŵr bod integreiddiad priodol o wasanaethau bws. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni'n ei archwilio, yn enwedig o ran y posibiliadau o goridorau bws cludo gyflym ac, wrth gwrs, yr angen, yn enwedig yn y Cymoedd, i gysylltu cymunedau ar draws cwm, lle na fydd y cyswllt rheilffordd, na'r cyswllt metro, yn mynd. Serch hynny, mae pobl angen teithio ar draws y cwm beth bynnag. Felly, mae'r rhain i gyd yn ffactorau yr ydym ni'n eu hystyried o ran sicrhau nad dim ond system sy'n cynnwys y rhwydwaith rheilffyrdd, neu gysylltiadau rheilffordd yw'r metro, ond ei bod hefyd yn cynnwys integreiddiad bysiau priodol.

14:08

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Cardiff Bus is indeed an excellent service that provides widespread coverage to all areas of Cardiff—something that many parts of the Valleys often lack. But, crucially, it's also a not-for-profit service, run for the benefit of Cardiff citizens. Are you in favour of expanding not-for-profit bus services throughout Wales, and would you be in favour of helping local authorities, perhaps collaborating together, look to moving towards a Cardiff Bus model?

Mae Bws Caerdydd wir yn wasanaeth ardderchog sy'n teithio'n eang i bob rhan o Gaerdydd—rhywbeth sy'n aml heb fod ar gael mewn llawer o rannau o'r Cymoedd. Ond, yn hollbwysig, mae hefyd yn wasanaeth dielw, sy'n cael ei redeg er budd dinasyddion Caerdydd. A ydych chi o blaid ehangu gwasanaethau bysiau dielw ledled Cymru, ac a fyddech chi o blaid helpu awdurdodau lleol, trwy gydweithio â'i gilydd o bosibl, i ystyried symud tuag at fodel Bws Caerdydd?

14:08

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, I would. I think those models need to be looked at. It would be easier, of course, when bus regulation is devolved. There are many of us in this Chamber who will have had, I'm sure, experience of dealing with the traffic commissioner in Birmingham. Not happy experiences, I have to say, particularly in dealing in the past with one or two bus companies. But, nevertheless, it's absolutely right that when bus regulation is devolved, we can then give full consideration to what the model of bus provision should be in different parts of Wales.

Byddwn, mi fyddwn. Rwy'n credu bod angen ystyried y modelau hynny. Byddai'n haws, wrth gwrs, pan gaiff rheoleiddio bysiau ei ddatganoli. Mae llawer ohonom ni yn y Siambr hon a fydd wedi cael, rwy'n siŵr, profiad o ymdrin â'r comisiynydd traffig yn Birmingham. Nid profiadau hapus, mae'n rhaid i mi ddweud, yn enwedig o ran ymdrin ag un neu ddau o gwmnïau bysiau yn y gorffennol. Ond, serch hynny, mae'n gwbl gywir, pan gaiff rheoleiddio bysiau ei ddatganoli, y gallwn roi ystyriaeth lawn wedyn i beth ddylai'r model o ddarpariaeth bysiau fod mewn gwahanol rannau o Gymru.

14:09

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Cardiff council have confirmed that the bus station in Central Square will close in just 12 weeks' time, on 1 August. And, actually, according to a statement in the press today, they have no firm plan as to which choice of bus station will be chosen, nor do they have any idea what interim arrangements are being made for passengers. It's absolutely critical to Cardiff, bringing in visitors and investment, and to the success of our enterprise zone, that that interchange operates effectively, not only in the future but also in the here and now as well. Will you make representations to Cardiff council to make sure that they publish their interim arrangements as soon as possible, so that people can plan for the future?

Mae cyngor Caerdydd wedi cadarnhau y bydd yr orsaf fysiau yn y Sgwâr Canolog yn cau ymhen dim ond 12 wythnos, ar 1 Awst. Ac, mewn gwirionedd, yn ôl datganiad yn y wasg heddiw, nid oes ganddyn nhw unrhyw gynllun pendant ynghylch pa ddewis o orsaf fysus fydd yn cael ei ddewis, ac nid oes ganddyn nhw unrhyw syniad pa drefniadau dros dro fydd yn cael eu gwneud ar gyfer teithwyr. Mae'n gwbl hanfodol i Gaerdydd, i ddod ag ymwelwyr a buddsoddiad i mewn, ac i lwyddiant ein hardal fenter, bod y gyfnewidfa'n gweithredu'n effeithiol, nid yn unig yn y dyfodol, ond hefyd yn y presennol hefyd. A wnewch chi wneud sylwadau i gyngor Caerdydd i wneud yn siŵr ei fod yn cyhoeddi ei drefniadau dros dro cyn gynted â phosibl, fel y gall pobl gynllunio ar gyfer y dyfodol?

14:09

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

In the early 1990s, Bridgend bus station was closed down with the bankruptcy of Western Welsh. It remained closed for some years, and it was a disaster for the town because nobody knew where to catch the buses. Eventually, the bus station was reopened, and, now, everybody understands that buses leave from a particular point. I think there are lessons there for all urban settlements in Wales: that it's absolutely crucial that, where people come to a central point by train—Cardiff has, arguably, more than one central point, but it does have a central station—that it is then as easy as possible for people to catch a bus from that point to go elsewhere. The experience that we had in Bridgend at that time was that it doesn't work if people don't have one point where they can catch a bus from, or at least one point where they know they can catch a bus to anywhere in that particular network.

Caewyd gorsaf fysiau Pen-y-bont ar Ogwr ddechrau'r 1990au, ar ôl i Western Welsh fynd yn fethdalwr. Parhaodd i fod ar gau am rai blynyddoedd, ac roedd yn drychineb i'r dref gan nad oedd unrhyw un yn gwybod ble i ddal y bysiau. Yn y pen draw, ail-agorwyd yr orsaf fysiau, ac, erbyn hyn, mae pawb yn deall bod bysiau'n gadael o bwynt penodol. Rwy'n credu bod gwersi yn y fan yma i bob anheddiad trefol yng Nghymru: ei bod yn gwbl hanfodol, lle mae pobl yn dod i bwynt canolog ar y trên—gellid dadlau bod mwy nag un man canolog yng Nghaerdydd, ond mae yno orsaf ganolog—ei bod mor hawdd â phosibl wedyn i bobl ddal bws o'r pwynt hwnnw i fynd i rywle arall. Y profiad a gawsom ni ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar yr adeg honno oedd nad yw'n gweithio os nad oes gan bobl un pwynt lle y gallant ddal bws oddi yno, neu o leiaf un pwynt lle maen nhw'n gwybod y gallan nhw ddal bws i unrhyw le yn y rhwydwaith penodol hwnnw.

## Darpariaeth Addysg (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

## Education Provision (Brecon and Radnorshire)

14:10 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysg ym Mrycheiniog a sir Faesyfed? OAQ(4)2252(FM)*

*8. Will the First Minister make a statement on education provision in Brecon and Radnorshire? OAQ(4)2252(FM)*

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. Pupils in rural areas like Brecon and Radnorshire should have access to a range of education provision, the same as pupils in the rest of Wales. Consortia will support schools to improve learner outcomes, and the region's challenge advisers will broker support to ensure that pupils receive the provision needed.

Gwnaf. Dylai fod gan ddisgyblion mewn ardaloedd gwledig fel Brycheiniog a Sir Faesyfed fynediad at ystod o ddarpariaeth addysg, yn yr un modd â disgyblion yng ngweddill Cymru. Bydd consortia'n cefnogi ysgolion i wella canlyniadau dysgwyr, a bydd cynghorwyr her y rhanbarth yn brocera cefnogaeth i sicrhau bod disgyblion yn cael y ddarpariaeth sydd ei angen.

14:11 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. Any right-minded person could see that Brecon High School is in a very bad state of repair and needs to be completely demolished and rebuilt. Powys County Council say that Welsh Government will only find the funding for that if the project is transformational, and, in their view, that means the closure of Gwernyfed High School. First Minister, this has set two educational communities against each other. Would you not agree with me that, if Brecon High School needs to be rebuilt, that should happen so that pupils and teachers have a building that is fit for purpose, and that it should not rely on another community losing its school? Would you like to take the opportunity to visit Brecon High School with me for you to see first-hand the state of the buildings in which pupils and teachers are working?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Gallai unrhyw berson call weld bod Ysgol Uwchradd Aberhonddu mewn cyflwr gwael iawn a bod angen ei dymchwel yn gyfan gwbl a'i hailadeiladu. Mae Cyngor Sir Powys yn dweud y bydd Llywodraeth Cymru yn dod o hyd i'r arian ar gyfer hynny dim ond os yw'r prosiect yn weddnewidiol, ac, yn eu barn nhw, mae hynny'n golygu cau Ysgol Uwchradd Gwernyfed. Brif Weinidog, mae hyn wedi gosod dwy gymuned addysgol yn erbyn ei gilydd. Oni fyddech chi'n cytuno â mi, os oes angen ailadeiladu Ysgol Uwchradd Aberhonddu, y dylai hynny ddigwydd fel bod gan ddisgyblion ac athrawon adeilad sy'n addas i'w ddiben, ac na ddylai ddibynnu ar gymuned arall yn colli ei hysgol? A hoffech chi fanteisio ar y cyfle i ymweld ag Ysgol Uwchradd Aberhonddu gyda mi er mwyn i chi weld drosoch eich hun cyflwr yr adeiladau y mae disgyblion ac athrawon yn gweithio ynddyn nhw?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

My understanding was that it was Powys's proposal. They have, indeed, approved plans to consult on proposals to close Brecon High School and Gwernyfed High School. Local authorities have the responsibility to plan for education provision in their area. I don't know any other authority in Wales that has felt that this is a problem for them. She's right about Brecon High School—I don't dispute what she has said. It is important that, where new schools are built, they are, obviously, able to cater for demand—we know that—but also, of course, that they are up to their capacity. What I do know from experience is that, quite often, where there are proposals to close old established schools in many communities in Wales, there's great opposition to begin with, then, when a brand-new school is built, that opposition quite often disappears. It is a matter for Powys; we're not telling Powys what they can and cannot do. It is up to Powys to plan for education in their area, then, of course, bid for funds, if they feel it's appropriate, to build a new school.

Fy nealltwriaeth i oedd mai cynnig Powys oedd hwn. Maen nhw, yn wir, wedi cymeradwyo cynlluniau i ymgynghori ar gynigion i gau Ysgol Uwchradd Aberhonddu ac Ysgol Uwchradd Gwernyfed. Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb i gynllunio ar gyfer darpariaeth addysg yn eu hardaloedd. Nid wyf yn gwybod am unrhyw awdurdod arall yng Nghymru sydd wedi teimlo bod hyn yn broblem iddyn nhw. Mae hi'n iawn am Ysgol Uwchradd Aberhonddu—nid wyf yn dadlau â'r hyn y mae hi wedi ei ddweud. Mae'n bwysig, lle caiff ysgolion newydd eu hadeiladu, eu bod, yn amlwg, yn gallu bodloni'r galw—rydym ni'n gwybod hynny—ond hefyd, wrth gwrs, eu bod yn llawn o ran y lleoedd sydd ar gael ynddynt. Yr hyn yr wyf i'n ei wybod o brofiad yw, yn eithaf aml, pan geir cynigion i gau hen ysgolion sefydledig mewn llawer o gymunedau yng Nghymru, bod gwrthwynebiad mawr i ddechrau, ac yna, pan gaiff ysgol newydd sbon ei hadeiladu, mae'r gwrthwynebiad hwnnw'n aml yn diflannu. Mater i Bowys yw hyn; nid ydym ni'n dweud wrth Bowys yr hyn y gallant ac na allant ei wneud. Mater i Bowys yw cynllunio ar gyfer addysg yn eu hardal, ac yna, wrth gwrs, gwneud cais am gyllid, os ydyn nhw'n teimlo bod hynny'n briodol, i adeiladu ysgol newydd.

14:13 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cam nesaf y metro arfaethedig ar gyfer de Cymru? OAQ(4)2245(FM)*

*9. Will the First Minister outline the next stage of the proposed South Wales metro? OAQ(4)2245(FM)*

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. Members will be updated on the progress of the metro, and, indeed, the progress with regard to the Wales and borders franchise, which is important in terms of the metro's development, before the summer recess.

Gwnaf. Bydd yr Aelodau'n cael eu diweddaru ar ddatblygiadau'r metro, ac, yn wir, y datblygiad o ran masnachfraint Cymru a'r gororau, sy'n bwysig o ran datblygiad y metro, cyn toriad yr haf.

14:13 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. I listened with interest to your answer to question 7, where you suggested that Cardiff council were building in space for the metro in the Central Square redevelopment, because I have here a letter from Ramesh Patel, who is the cabinet member for transport from Cardiff council, in the 'South Wales Echo', today or yesterday, which says:

'Given that the plans are insufficiently developed at this stage, we are unable to consider them in this development'.

Obviously, we are going to a period where they are going to be consulting on proposals for a new bus station and how that works in Central Square. Please, can you bring forward the publication of your metro proposals, so that the public can see, in that consultation period, whether those two plans are going to fit adequately together?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Gwrandewais gyda diddordeb ar eich ateb i gwestiwn 7, pryd yr awgrymwyd gennych bod cyngor Caerdydd yn adeiladu lle ar gyfer y metro yn ailddatblygiad y Sgwâr Canolog, gan fod gen i lythyr yma oddi wrth Ramesh Patel, sef aelod cabinet cyngor Caerdydd dros drafnidiaeth, yn y 'South Wales Echo', heddiw neu ddoe, sy'n dweud:

O ystyried nad yw'r cynlluniau wedi'u datblygu'n ddigonol ar hyn o bryd, nid ydym yn gallu eu hystyried yn y datblygiad hwn.

Yn amlwg, rydym ni'n mynd i gyfnod lle maen nhw'n mynd i fod yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer gorsaf fysiau newydd a sut mae hynny'n gweithio yn y Sgwâr Canolog. A allwch chi, os gwelwch yn dda, gyhoeddi eich cynigion ar gyfer y metro yn gynharach, fel y gall y cyhoedd weld, yn y cyfnod ymgynghori hwnnw, pa un a yw'r ddau gynllun hynny'n mynd i gyd-fynd â'i gilydd yn briodol?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The initial proposals for the metro revolve around the existing rail network, rather than looking to extend it at this stage. There's work to do, for example, to look to electrify the existing rail network, and that will take priority. What happens, of course, with light rail networks—we've seen this in Manchester, as one example—is that they fit around the city, rather than the city fitting around the network. So, whatever the proposal is for Central Square, unless it's physically completely bounded by buildings that do not allow any access, then, of course, it will be possible to put a light rail line into the existing square, and in, then, towards central station itself.

Mae'r cynigion cychwynnol ar gyfer y metro yn seiliedig ar y rhwydwaith rheilffyrdd presennol, yn hytrach na cheisio ei ymestyn ar hyn o bryd. Mae gwaith i'w wneud, er enghraifft, i ystyried trydaneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd presennol, a hynny fydd y flaenoriaeth. Yr hyn sy'n digwydd, wrth gwrs, gyda rhwydweithiau rheilffyrdd ysgafn—rydym ni wedi gweld hyn ym Manceinion, fel un enghraifft—yw eu bod yn ffitio o gwmpas y ddinas, yn hytrach na'r ddinas yn ffitio o gwmpas y rhwydwaith. Felly, beth bynnag yw'r bwriad ar gyfer y Sgwâr Canolog, oni bai ei fod wedi'i ffinio'n llwyr yn ffisegol gan adeiladau nad ydynt yn caniatáu unrhyw fynediad, yna, wrth gwrs, bydd yn bosibl gosod llinell rheilffordd ysgafn yn y sgwâr presennol, ac i mewn, wedyn, tuag at yr orsaf ganolog ei hun.

14:14 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome the south-Wales metro proposals. Do you agree with me, First Minister, that this will help to alleviate current overcrowding during peak times on Arriva Trains Wales services? It can lead, as well, to a better and more efficient public transport system to relieve road congestion around the Caerphilly basin at peak times—something I experienced directly today when I went to meet the Deputy Minister for tourism at Caerphilly castle. And, finally, it will also lead to quicker and easier access to major centres of employment, thus enabling housing developments to be spread more evenly across my constituency, particularly in the northern part of the Rhymney valley.

Rwy'n croesawu'r cynigion ar gyfer metro'r de. A ydych chi'n cytuno â mi, Brif Weinidog, y bydd hyn yn helpu i leddfu'r gorlenwi presennol yn ystod yr adegau prysuraf ar wasanaethau Trenau Arriva Cymru? Gallai arwain hefyd at system cludiant cyhoeddus well a mwy effeithlon i leddfu tagfeydd ar y ffyrdd o gwmpas basn Caerffili ar yr adegau prysuraf—rhywbeth y cefais brofiad uniongyrchol ohono heddiw pan es i i gwrdd â'r Dirprwy Weinidog twristiaeth yng nghastell Caerffili. Ac, yn olaf, bydd hefyd yn arwain at fynediad cyflymach a haws at ganolfannau mawr o gyflogaeth, gan ganiatáu i ddatblygiadau tai gael eu gwasgaru'n fwy cyfartal ar draws fy etholaeth, yn enwedig yn rhan ogleddol cwm Rhymni.

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I agree entirely with him. There are several factors here: increasing capacity, increasing frequency, comfort of passengers as well, so that fewer passengers have to stand, if at all, in the future, and, of course, ease of extension in terms of the way that the network could be developed in the future. But we do know that the existing service under the Wales and borders franchise is at more than capacity at certain times of day, and that will have to be addressed as part of the metro proposals.

Wel, rwy'n cytuno'n llwyr ag ef. Ceir nifer o ffactorau yma: cynyddu capasiti, cynyddu amlder, cysur teithwyr hefyd, fel bod llai o deithwyr yn gorfod sefyll, os o gwbl, yn y dyfodol, ac, wrth gwrs, rhwyddineb estyniad o ran y ffordd y gellid datblygu'r rhwydwaith yn y dyfodol. Ond rydym ni yn gwybod bod y gwasanaeth presennol dan fasnachfraint Cymru a'r gororau yn rhy llawn ar adegau penodol o'r dydd, a bydd yn rhaid mynd i'r afael â hynny yn rhan o gynigion y metro.

14:15 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, the idea of the metro is a great one in principle, but there is a growing concern that the complexities of a project like this are starting to prove a little bit too much for your Government in developing these ideas. Transport expert Stuart Cole, as you'll know well, believes that the timescales for delivering the metro are unrealistic, given this continued dithering over whether you're going to use light rail, trams or heavy rail. When will these key decisions be taken so that Cardiff Council and other local authorities can get on with factoring your decisions into their planning process, because, at the moment, it all seems to be stalling?

Brif Weinidog, mae syniad y metro yn un gwych mewn egwyddor, ond ceir pryder cynyddol bod cymhlethdodau prosiect fel hwn yn dechrau troi braidd yn ormod i'ch Llywodraeth o ran datblygu'r syniadau hyn. Mae'r arbenigwr trafnidiaeth, Stuart Cole, fel y byddwch yn gwybod yn iawn, yn credu bod yr amserlenni ar gyfer cyflawni'r metro yn afrealistig, o ystyried yr oedi parhaus yma ynghylch a ydych chi'n mynd i ddefnyddio rheilffordd ysgafn, tramiau neu reilffyrdd trwm. Pryd y bydd y penderfyniadau allweddol hyn yn cael eu gwneud fel y gall Cyngor Caerdydd ac awdurdodau lleol eraill fwrw ymlaen â rhoi ystyriaeth i'ch penderfyniadau yn eu proses gynllunio, oherwydd, ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod y cyfan wedi ei oedi?

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No. As I said, Members will be updated before the summer recess. There are complexities; that does not undermine our ambition. For example, when it comes to light rail, nothing's devolved—I think I'm right in saying—in terms of operation of light rail. For example, if a line is to be converted from heavy rail to light rail, it's not clear to us if we have the powers at the moment to do it, so we're reliant on others to actually do the work for us. That is a complexity. There are issues in terms of the different requirements of signalling. There are issues in terms of ensuring that there is staffing continuity if light rail is adopted. So, these are all issues that are being examined at the moment. But I have to say to Members that, given the current state of play with regard to rail powers, not all the powers to create the metro are within the hands of the Welsh Government. We don't anticipate there will be difficulties as far as the Department for Transport are concerned, but, nevertheless, it's not something that's entirely within our control at the moment. That said, as I said, Members will be updated before the summer. There have been a number of meetings with myself, with the Minister, and indeed with officials and others, with a view to providing Members with the information they need by the summer.

Na. Fel y dywedais, bydd yr Aelodau'n cael eu diweddaru cyn toriad yr haf. Mae cymhlethdodau; nid yw hynny'n tanseilio ein huchelgais. Er enghraifft, pan ddaw i reilffyrdd ysgafn, nid oes dim wedi ei ddatganoli—rwy'n credu fy mod yn iawn yn dweud—o ran gweithredu rheilffyrdd ysgafn. Er enghraifft, os yw rheilffordd am gael ei throsi o reilffordd drom i reilffordd ysgafn, nid yw'n eglur i ni a yw'r pwerau gennym i wneud hynny ar hyn o bryd, felly rydym ni'n dibynnu ar bobl eraill i wneud y gwaith i ni mewn gwirionedd. Mae hynny'n gymhlethdod. Ceir problemau o ran y gwahanol ofynion signalau. Ceir problemau o ran sicrhau bod dilyniant staffio os mabwysiadir rheilffyrdd ysgafn. Felly, mae'r rhain i gyd yn faterion sy'n cael eu harchwilio ar hyn o bryd. Ond mae'n rhaid i mi ddweud wrth yr Aelodau, o ystyried y sefyllfa bresennol o ran pwerau rheilffordd, nid yw'r holl bwerau i greu'r metro yn nwylo Llywodraeth Cymru. Nid ydym yn rhagweld y bydd anawsterau cyn belled ag y mae'r Adran Drafnidiaeth yn y cwestiwn, ond, serch hynny, nid yw'n rhywbeth sy'n gyfan gwbl o fewn ein rheolaeth ar hyn o bryd. Wedi dweud hynny, fel y dywedais, caiff yr Aelodau eu diweddaru cyn yr haf. Bu nifer o gyfarfodydd gyda mi, gyda'r Gweinidog, ac yn wir gyda swyddogion ac eraill, gyda'r bwriad o ddarparu'r Aelodau â'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt erbyn yr haf.

Senedd.tv Fideo Video

14:17 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

What recent discussions have you or relevant Ministers and officials had with members of the European Commission regarding the allocation of EU structural funds to the metro system, and has your current position on a second M4 affected the planned allocation of such funds?

Pa drafodaethau diweddar ydych chi neu Weinidogion a swyddogion perthnasol wedi eu cael gydag aelodau'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch dyrannu cyllid cronfeydd strwythurol yr UE i'r system fetro, ac a yw eich safbwynt presennol ar ail M4 wedi effeithio ar y dyraniad arfaethedig o gyllid o'r fath?

Senedd.tv Fideo Video

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

'No' is the answer. They're two different pots of money, as the Member knows. The M4 would be out of the borrowing pot that we have been—or we will be—given by the UK Government. In terms of European Commission funding, we are very actively looking at European Commission funding with regard to funding the metro itself, and that is one of the areas that would make a significant difference to the metro: examining the possibilities of European funding, and, of course, then getting that funding released. It does not interfere or compete in any way with funding for the M4 relief road.

'Nac ydy' yw'r ateb. Maen nhw'n ddau wahanol botiau o arian, fel y mae'r Aelod yn gwybod. Byddai'r M4 allan o'r pot benthyca a roddwyd i ni—neu a fydd yn cael ei roi i ni—gan Lywodraeth y DU. O ran cyllid y Comisiwn Ewropeaidd, rydym ni'n edrych yn ymarferol iawn ar gyllid Comisiwn Ewropeaidd o ran ariannu'r metro ei hun, ac mae hwnnw'n un o'r meysydd a fyddai'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r metro: archwilio'r posibiliadau o gyllid Ewropeaidd, ac, wrth gwrs, cael rhyddhau'r cyllid hwnnw wedyn. Nid yw'n ymyrryd nac yn cystadlu mewn unrhyw ffordd gyda chyllid ar gyfer ffordd liniaru'r M4.

Senedd.tv Fideo Video

14:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Finally, Joyce Watson.

Yn olaf, Joyce Watson.

Senedd.tv Fideo Video

### Gofal Plant (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

### Childcare (Mid and West Wales)

14:18 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

*10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth gofal plant yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)2254(FM)*

*10. Will the First Minister make a statement on childcare provision in Mid and West Wales? OAQ(4)2254(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:18

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Ensuring access to affordable, high-quality childcare, especially for those in our most disadvantaged areas across Wales, is a priority for the Welsh Government, and our wider priorities are set out in our early years and childcare plan.

Mae sicrhau mynediad at ofal plant fforddiadwy o ansawdd uchel, yn enwedig i'r rhai yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig ledled Cymru, yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, a nodir ein blaenoriaethau ehangach yn ein cynllun ar gyfer y blynyddoedd cynnar a phlant.

Senedd.tv
Fideo Video

14:18

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, First Minister. Despite what the Conservatives and their supporters say, childcare is not a so-called 'soft issue'. It is central to economic progress, particularly in areas like Mid and West Wales. Childcare is a huge issue for working families; it's the difference in being able to actually go to work, to be able to afford that childcare. We all know that the Flying Start provision that Welsh Labour has given to people has increased from 18,000 to 33,000 in this Assembly. Therefore, First Minister, would you like to tell me what difference you believe that Labour's pledge to double free childcare from 10 hours to 20 hours for working parents will make to families in Wales?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Er gwaethaf yr hyn y mae'r Ceidwadwyr a'u cefnogwyr yn ei ddweud, nid yw gofal plant yn 'fater meddal' fel y'i gelwir. Mae'n ganolog i gynnydd economaidd, yn enwedig mewn ardaloedd fel y canolbarth a'r gorllewin. Mae gofal plant yn broblem enfawr i deuluoedd sy'n gweithio; dyna'r gwahaniaeth o ran gallu mynd i'r gwaith mewn gwirionedd, gallu fforddio'r gofal plant hwnnw. Rydym ni i gyd yn gwybod bod y ddarpariaeth Dechrau'n Deg y mae Llafur Cymru wedi ei rhoi i bobl wedi cynyddu o 18,000 i 33,000 yn ystod y Cynulliad hwn. Felly, Brif Weinidog, a hoffech chi ddweud wrthyf pa wahaniaeth ydych chi'n credu fydd addewid Llafur i ddyblu gofal plant am ddim o 10 awr i 20 awr ar gyfer rhieni sy'n gweithio yn ei wneud i deuluoedd yng Nghymru?

Senedd.tv
Fideo Video

14:19

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

An enormous difference. We know, far from being a 'soft issue', as it's been put—not by the Member, I hasten to add—this is a fundamental economic issue. If we want to ensure that people are able to work then, of course, they need to be supported to do that. And, we know that, increasingly, people move further away from where they're from. They're away from their families; they don't have that network that, perhaps 10 or 20 years ago, was true, and, as a result of that, they have to find other ways to ensure that they can get in place proper childcare. We want to make sure that, as far as Wales is concerned, that childcare is in place.

Gwahaniaeth enfawr. Rydym ni'n gwybod, ymhell o fod yn 'fater meddal', fel y'i galwyd—nid gan yr Aelod, rwy'n prysuro i ychwanegu—mae hwn yn fater economaidd sylfaenol. Os ydym ni eisiau sicrhau bod pobl yn gallu gweithio yna, wrth gwrs, mae angen eu cefnogi i wneud hynny. Ac, rydym ni'n gwybod, yn gynyddol, bod pobl yn symud ymhellach i ffwrdd o ble maen nhw'n dod. Maen nhw i ffwrdd oddi wrth eu teuluoedd; nid yw'r rhwydwaith honno ganddyn nhw, a oedd efallai'n wir 10 neu 20 mlynedd yn ôl, ac, o ganlyniad i hynny, mae'n rhaid iddyn nhw ddod o hyd i ffyrdd eraill o sicrhau y gallant drefnu gofal plant priodol. Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr, cyn belled ag y mae Cymru yn y cwestiwn, bod gofal plant ar gael.

Senedd.tv
Fideo Video

14:20

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Senedd.tv
Fideo Video

14:20

# Cwestiwn Brys: Cynllun y Taliad Sylfaenol

# Urgent Question: the Basic Payment Scheme

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call on Llyr Gruffydd to ask the question—Llyr Gruffydd.

Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys o dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar Llyr Gruffydd i ofyn y cwestiwn—Llyr Gruffydd.

Senedd.tv
Fideo Video

14:20

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

*A wnaiff y Dirprwy Weinidog ailystyried ei phenderfyniad i beidio ag ymestyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Cynllun y Taliad Sylfaenol yng Nghymru? EAQ(4)0289(NR)*

*Will the Deputy Minister reconsider her decision not to extend the deadline for the Basic Payment Scheme applications in Wales? EAQ(4)0289(NR)*

Senedd.tv
Fideo Video

14:20 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the question. My written statement of 2 April explained why I'm not extending the single application form deadline. Our systems are working well, and farmers tell me that cashflow is important. Extending the deadline would impact on our ability to make any payments early in the payment window, and have a knock-on effect on the delivery of our rural development plan.

Diolch am y cwestiwn. Esboniodd fy natganiad ysgrifenedig dyddiedig 2 Ebrill pam nad ydw i'n ymestyn y dyddiad cau ar gyfer ffurflen y cais sengl. Mae ein systemau yn gweithio'n dda, ac mae ffermwyr yn dweud wrthyf bod llif arian yn bwysig. Byddai ymestyn y dyddiad cau yn effeithio ar ein gallu i wneud unrhyw daliadau yn gynnar yn y cyfnod talu, ac yn cael sgil-effaith ar ddarpariaeth ein cynllun datblygu gwledig.

14:20 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wel, diolch i chi am eich ateb. Rwy'n deall y pwysau o safbwynt cael y taliadau allan gynted â phosibl o fewn y ffenestr dalu, ond, wrth gwrs, mae'r undebau yn dweud wrthym ni eu bod nhw'n gallu delio â rhyw chwe chais y dydd ar hyn o bryd lle, yn flaenorol, o dan y gyfundrefn gynt, mi oedden nhw'n gallu delio â rhyw 18 cais y dydd. O ganlyniad, mae un undeb mewn yn sir yn dweud bod y 150 o geisiadau sydd ar ôl ganddyn nhw i brosesu mewn cwta 10 diwrnod erbyn hyn ddim yn mynd i gael eu cwblhau ar amser. Onid yw e, felly, yn bwysicach, Ddirprwy Weinidog, i sicrhau bod y ffurflenni yma yn cael eu cwblhau yn gywir, yn hytrach na chael eu cwblhau ar frys, oherwydd y gall camgymeriad olygu colli incwm sylweddol i ffermwyr, cosbau ariannol sylweddol i ffermwyr, ac, wrth gwrs, mwy o waith i chi fel Llywodraeth yn gweinyddu ac yn cywiro'r camgymeriadau yn y pen draw?

Well, thank you for that response. I understand the pressures in terms of getting the payments out there as soon as possible within the payment window, but, of course, the unions are telling us that they can deal with some six applications at once, where, previously, they could deal with some 18 applications per day. As a result, one union in one county is saying that the 150 applications that they have left to process in just 10 days now aren't going to be completed on time. Isn't it, therefore, more important, Deputy Minister, to ensure that these forms are completed accurately, rather than them being completed in haste, because a mistake could mean a loss of significant impact for farmers, some significant financial penalties for farmers, and, of course, more work for you as a Government in administering and correcting these mistakes?

14:21 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Rural Payments Wales's service for SAF applications has been online and working well since February, and the Welsh Government did warn the industry last year of the need to fill in their forms early this year because they would be more complex, so this shouldn't come as news to anybody. Overall, as of yesterday, 7,687 completed SAFs have been received, with a further 3,063 completed online in draft form. So, that's more than double the number of applications made online so far this year compared to the similar situation of last year. Recognising the need for extra support for our farmers I've arranged for our regional offices to have extended opening hours in the evenings and over the course of this weekend as well, and details of that are available on the Welsh Government's website.

Wel, mae gwasanaeth Taliadau Gwledig Cymru ar gyfer ceisiadau SAF wedi bod ar-lein ac wedi bod yn gweithio'n dda ers mis Chwefror, a rhybuddiwyd y diwydiant gan Lywodraeth Cymru y llynedd am yr angen i lenwi eu ffurflenni'n gynnar eleni gan y byddent yn fwy cymhleth, felly ni ddylai hyn fod yn newyddion i unrhyw un. Erbyn ddoe, roedd cyfanswm o 7,687 o SAFau wedi'u cwblhau, wedi eu derbyn, ac roedd 3,063 arall wedi eu llenwi ar-lein ar ffurf drafft. Felly, mae hynny'n fwy na dwbl nifer y ceisiadau a wnaed ar-lein hyd yn hyn eleni o'i gymharu â'r sefyllfa debyg y llynedd. Gan gydnabod yr angen am gymorth ychwanegol i'n ffermwyr, rwyf wedi trefnu i'n swyddfeydd rhanbarthol ymestyn eu horiau agor fin nos a thros y penwythnos hwn hefyd, ac mae manylion hynny ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

14:22 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I declare an interest, being a partner in a farming business, which the natural resources Minister seems to find quite funny, although I'm not quite sure why. If I could ask the Minister: obviously, you've stuck by the deadline of 15 May, which has been well advertised. That's your prerogative. In Scotland, obviously, they've extended it by a month. When the Government found itself making a mistake and giving in before it got to the courts to arbitrate on its decision, and going back to the drawing board to redefine the payment rates, will the Government be offering such latitude to farmers who find themselves mis-filling the forms, or, obviously, making genuine mistakes that, because of the complexity of the new scheme, could be flagged up a month or two after the deadline? So, what sort of experience will the Minister be offering, and assurance will the Minister be offering, farmers who make genuine mistakes, to correct those mistakes rather than find themselves being penalised? Is it zero tolerance, or will there be tolerance in the system?

Rwy'n datgan buddiant, gan fy mod i'n bartner mewn busnes ffermio, y mae'n ymddangos bod y Gweinidog cyfoeth naturiol yn credu sy'n eithaf doniol, ond nid wyf yn hollol siŵr pam. Os caf fi i ofyn i'r Gweinidog: yn amlwg, rydych chi wedi cadw at y dyddiad o 15 Mai, sydd wedi cael ei hysbysebu'n dda. Mae gennych berffaith hawl i wneud hynny. Yn yr Alban, yn amlwg, maen nhw wedi ei ymestyn o fis. Pan ganfu'r Llywodraeth ei hun yn gwneud camgymeriad ac yn ildio cyn iddi gael y llysoedd i gymrodeddu ar ei phenderfyniad, a mynd yn ôl i'r cychwyn i ailddiffinio'r cyfraddau talu, a fydd y Llywodraeth yn cynnig hyblygrwydd o'r fath i ffermwyr sy'n canfod eu hunain yn cam-lenwi ffurflenni, neu, yn amlwg, yn gwneud camgymeriadau diffuant, oherwydd cymhlethdod y cynllun newydd, y gellid tynnu sylw atynt fis neu ddau ar ôl y dyddiad cau? Felly, pa fath o brofiad fydd y Gweinidog yn ei gynnig, a pha sicrwydd fydd y Gweinidog yn ei gynnig, i ffermwyr sy'n gwneud camgymeriadau diffuant, i gywiro'r camgymeriadau hynny yn hytrach na chanfod eu hunain yn cael eu cosbi? A yw'n fater o ddim goddefgarwch, neu a fydd goddefgarwch yn y system?

14:23 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I thank you for that question. You'll be aware, of course, that this issue is completely separate to our need to create a new system in order to recognise the payments for land and so on, so I wouldn't want to confuse the two. Staff are available in our regional offices to help people who've filled in their paper forms, as well, to go through them and check for any basic errors, to try and avoid any mistakes being made at this stage for the paper forms. Of course, if people apply online then they'll be much less likely to make mistakes, because the online system is designed in order to help farmers make the correct—or offer the correct information on the form. So, the online system is very much designed to stop mistakes happening in the first place. So, obviously, I would hope that you would join me in encouraging farmers to use our online systems this year, as many already have.

Wel, diolchaf i chi am y cwestiwn yna. Byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, bod y mater hwn yn gwbl ar wahân i'n hangen i greu system newydd er mwyn cydnabod y taliadau am dir ac yn y blaen, felly ni fyddwn i eisiau drysu'r ddau. Mae staff ar gael yn ein swyddfeydd rhanbarthol i helpu pobl sydd wedi llenwi eu ffurflenni papur, hefyd, i fynd drwyddyn nhw a chwilio am unrhyw wallau sylfaenol, er mwyn ceisio osgoi gwneud unrhyw gamgymeriadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd ar y ffurflenni papur. Wrth gwrs, os bydd pobl yn gwneud cais ar-lein, yna byddant yn llawer llai tebygol o wneud camgymeriadau, gan fod y system ar-lein wedi ei chynllunio i helpu ffermwyr i nodi'r wybodaeth gywir—neu gynnig y wybodaeth gywir ar y ffurflen. Felly, mae'r system ar-lein yn sicr wedi ei chynllunio i atal camgymeriadau rhag digwydd yn y lle cyntaf. Felly, yn amlwg, byddwn yn gobeithio y byddech chi'n ymuno â mi i annog ffermwyr i ddefnyddio ein systemau ar-lein eleni, fel y mae llawer wedi ei wneud eisoes.

In terms of tolerance, of course we'll be guided by what the European Commission tells us is acceptable to them, because I can't put this Government and our farming industry at risk in terms of disallowance, and so on.

O ran goddefgarwch, wrth gwrs, byddwn yn cael ein llywio gan yr hyn y mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ei ddweud wrthym sy'n dderbyniol iddyn nhw, gan na allaf i roi'r Llywodraeth hon a'n diwydiant ffermio mewn perygl o ran cosb ariannol, ac yn y blaen.

14:24 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I also declare an interest as a partner in a modest farming business that will also, hopefully, be submitting a form by 15 May. Deputy Minister, I thank you for your reassurance in terms of the extended opening hours, which is a matter of importance, but we were told just last week in the Environment and Sustainability Committee of the level of stress and pressure that is being placed upon farming businesses the length and breadth of Wales in terms of meeting the deadline, which you've decided not to extend. Could you give us assurance that you are also taking account of the extreme stress and pressure that this is placing upon people who, in many cases, are just emerging from a period of weeks and weeks of sleeplessness in terms of dealing with the pressures of the annual lambing round, and so on? Could you please also be ready to engage with the Rural Stress Information Network and any of the other specialist agencies that can actually support farmers at this time of extreme difficulty?

Rwyf innau hefyd yn datgan buddiant fel partner mewn busnes ffermio bach a fydd hefyd, gobeithio, yn cyflwyno ffurflen erbyn 15 Mai. Ddirprwy Weinidog, diolchaf i chi am eich sicrwydd o ran yr oriau agor estynedig, sy'n fater o bwys, ond fe'n hysbyswyd dim ond yr wythnos diwethaf yn y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd am lefel y straen a phwysau sy'n cael ei roi ar fusnesau ffermio ar hyd a lled Cymru o safbwynt bodloni'r dyddiad cau, yr ydych chi wedi penderfynu peidio â'i ymestyn. A allwch chi roi sicrwydd y byddwch hefyd yn cymryd i ystyriaeth y straen a phwysau eithafol y mae hyn yn ei roi ar bobl sydd, mewn llawer o achosion, ddim ond newydd ddod i ddiwedd cyfnod o wythnosau ac wythnosau o ddiffyg cwsg wrth ymdrin â phwysau'r cyfnod wyna blynyddol, ac yn y blaen? A allwch chi hefyd, os gwelwch yn dda, fod yn barod i ymgysylltu â'r Rhwydwaith Gwybodaeth Gofid Cefn Gwlad ac unrhyw un o'r asiantaethau arbenigol eraill sy'n gallu cefnogi ffermwyr mewn gwirionedd, ar yr adeg hon o anhawster eithafol?

14:25 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank you for highlighting the kind of support that is available, alongside our farm liaison network, for example, in terms of offering farmers support through stress, regardless of the cause of it or the time of year, and so on.

Diolchaf i chi am dynnu sylw at y math o gefnogaeth sydd ar gael, ochr yn ochr â'n rhwydwaith cyswllt fferm, er enghraifft, o ran cynnig cefnogaeth i ffermwyr drwy straen, beth bynnag sy'n ei achosi neu yr adeg o'r flwyddyn, ac yn y blaen.

As you say, we do have the extended opening hours, which I hope will help alleviate some of that stress that you are referring to. But I also want to reassure you that my officials are in constant, daily contact with the industry as well in terms of monitoring the situation and, again, Rural Payments Wales are updating me very regularly in terms of the numbers of applications that are coming through on a daily basis.

Fel y dywedwch, mae'r oriau agor estynedig gennym ni, yr wyf yn gobeithio fydd yn helpu i leddfu rhywfaint o'r straen yr ydych chi'n cyfeirio ato. Ond hoffwn eich sicrhau hefyd bod fy swyddogion mewn cysylltiad cyson, beunyddiol â'r diwydiant hefyd o ran monitro'r sefyllfa ac, unwaith eto, mae Taliadau Gwledig Cymru yn fy niweddaru i'n rheolaidd iawn o ran nifer y ceisiadau sy'n cael eu derbyn o ddydd i ddydd.

14:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:26

## 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 2. Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which is the business statement, and I call on the Minister, Jane Hutt.

Symudwn at eitem 2 nawr, sef y datganiad busnes, a galwaf ar y Gweinidog, Jane Hutt.

14:26 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Diolch, Lywydd. I've no changes to announce to this week's business, and business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Diolch, Lywydd. Nid oes gen i unrhyw newidiadau i'w cyhoeddi i fusnes yr wythnos hon, ac mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:26 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'd be grateful if the Government would bring forward a statement on the parameters of its control over independent advisory panels appointed to advise Ministers. I recently made informal inquiries as to whether members of the economy Minister's independent advisory panel on tourism might like to come and speak to the cross-party group on tourism, and we were told that the Minister had said 'no'. Now, clearly, it would have been inappropriate to discuss any advice that they'd given to Ministers, but, as independent professionals, I can't see why representatives of that panel couldn't come to speak to us about other matters. In fact, at the Wales Tourism Alliance summer reception, members of the panel were keen to stress to Members that they were not civil servants and were free to speak to anyone. Now, as the same department is now hoping to introduce an independent advisory panel for heritage, I think it would help this Assembly understand better what the Government means by the word 'independent' in the context of these advisory panels. Thank you.

Weinidog, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Llywodraeth gyflwyno datganiad ar baramedrau ei rheolaeth dros baneli cynghori annibynnol a benodwyd i gynghori Gweinidogion. Fe wnes i ymholiadau anffurfiol yn ddiweddar ynghylch pa un a hoffai aelodau o banel cynghori annibynnol y Gweinidog economi ar dwristiaeth ddod i siarad â'r grŵp trawsbleidiol ar dwristiaeth, ac fe'n hysbyswyd bod y Gweinidog wedi gwrthod. Nawr, yn amlwg, byddai wedi bod yn amhriodol trafod unrhyw gyngor roedden nhw wedi ei roi i Weinidogion, ond, fel gweithwyr proffesiynol annibynnol, ni allaf weld pam na allai cynrychiolwyr o'r panel hwnnw ddod i siarad â ni am faterion eraill. Yn wir, yn nerbyniad haf Cynghrair Twristiaeth Cymru, roedd aelodau o'r panel yn awyddus i bwysleisio i Aelodau nad oeddent yn weision sifil a'u bod yn rhydd i siarad ag unrhyw un. Nawr, gan fod yr un adran erbyn hyn yn gobeithio cyflwyno panel cynghori annibynnol ar gyfer treftadaeth, rwy'n meddwl y byddai'n helpu'r Cynulliad hwn i ddeall yn well yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei olygu wrth y gair 'annibynnol' yng nghyd-destun y paneli cynghori hyn. Diolch yn fawr.

14:27 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, a range of independent advice from business and financial experts—and, indeed, you mentioned tourism, Suzy Davies—is regularly sought, particularly by officials, to inform policy development.

Wel, wrth gwrs, gofynnir am amrywiaeth o gyngor annibynnol gan arbenigwyr busnes ac ariannol—ac, yn wir, soniasoch am dwristiaeth, Suzy Davies—yn rheolaidd, yn enwedig gan swyddogion, er mwyn llywio datblygiad polisi.

14:27 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as someone who was very pleased that the badger cull was ended and replaced by vaccination, I would like to ask for a debate on the success of the vaccination programme. Such a debate would also allow the opposition parties to clarify their position on culling badgers.

Weinidog, fel rhywun a oedd yn falch iawn y rhoddwyd terfyn ar y rhaglen difa moch daear gan gyflwyno brechiadau yn ei lle, hoffwn ofyn am ddadl ar lwyddiant y rhaglen frechu. Byddai dadl o'r fath hefyd yn caniatáu i'r gwrthbleidiau egluro eu safbwynt ar ddifa moch daear.

14:28 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Mike Hedges very much for that question, and I'm sure there will be an update in due course.

Diolchaf i Mike Hedges yn fawr iawn am y cwestiwn yna, ac rwy'n siŵr y bydd y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhannu maes o law.

14:28 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, could I trouble you again to press the Government to make time for a debate or a statement on domiciliary care services and how we can move nationally to a care sector that is resilient and has well-trained people working within it? I'm aware of older carers who would like to increase their training, but have been told there are no resources available for training older people, only those under the age of 25. Would you agree with me that older women have a lot to offer the care industry? Often, they would have life skills that they have acquired that would make them perfect for this role, and therefore we need to encourage employers and Government to work together to create further training opportunities for them. And how can we move to a system where we can pay domiciliary care workers for their travel time in between calls? I'm sure many of us would feel uncomfortable that we are paying these workers for the time they spend in people's homes, but not the time they spend travelling between calls, which, especially in rural areas, can make up a considerable part of their day. How can we move to a system where that is recognised in how we create a domiciliary care industry that can afford to do that?

Weinidog, a gaf i eich trafferthu chi unwaith eto i bwyso ar y Llywodraeth i neilltuo amser ar gyfer dadl neu ddatganiad ar wasanaethau gofal cartref a sut y gallwn ni symud yn genedlaethol i sector gofal sy'n wydn ac sydd â phobl sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn gweithio ynddo? Rwy'n ymwybodol o ofalwyr hŷn a hoffai gynyddu eu hyfforddiant, ond sydd wedi cael eu hysbysu nad oes adnoddau ar gael ar gyfer hyfforddi pobl hŷn, dim ond y rhai dan 25 oed. A fyddech chi'n cytuno â mi fod gan fenywod hŷn lawer i'w gynnig i'r diwydiant gofal? Yn aml, byddai ganddynt sgiliau bywyd y maen nhw wedi eu caffael a fyddai'n eu gwneud yn berffaith ar gyfer y swyddogaeth hon, ac felly mae angen i ni annog cyflogwyr a'r Llywodraeth i gydweithio i greu rhagor o gyfleoedd hyfforddiant ar eu cyfer. A sut gallwn ni symud at system lle gallwn ni dalu gweithwyr gofal cartref am eu hamser teithio rhwng galwadau? Rwy'n siŵr y byddai llawer ohonom ni'n teimlo'n anghyffyrddus ein bod yn talu'r gweithwyr hyn am yr amser maen nhw'n ei dreulio yng nghartrefi pobl, ond nid yr amser maen nhw'n ei dreulio'n teithio rhwng galwadau, sydd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn gallu bod yn rhan sylweddol o'u diwrnod gwaith. Sut allwn ni symud at system lle mae hynny'n cael ei gydnabod yn y ffordd yr ydym ni'n creu diwydiant gofal cartref sy'n gallu fforddio gwneud hynny?

14:29 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, this is something that has been very much supported by Ministers in Welsh Government and, of course, very clearly supported also by the Care Council for Wales, and that is in terms of our support for social services, which, indeed, of course includes social care. That also has been backed not only by extra funding for social services in this year's revenue support grant settlement, but also by the fact that the Minister for health is now able to take forward the all-important intermediate care fund, which, of course, came as a result of budget agreement, into the next year, where we look to support health and social care. The point about domiciliary care is key, and we hope that we will get more resources from a new UK Government after Thursday, which will enable us to deliver on the all-important quality and support for particularly older carers in domiciliary care.

Wel, wrth gwrs, mae hyn yn rhywbeth sydd wedi cael cefnogaeth dda gan Weinidogion yn Llywodraeth Cymru ac, wrth gwrs, a gefnogwyd yn eglur iawn gan Gyngor Gofal Cymru hefyd, ac mae hynny o ran ein cefnogaeth i wasanaethau cymdeithasol, sydd, wrth gwrs, yn cynnwys gofal cymdeithasol. Cefnogwyd hynny hefyd, nid yn unig gan gyllid ychwanegol i wasanaethau cymdeithasol yn y setliad grant cynnal refeniw eleni, ond hefyd gan y ffaith fod y Gweinidog iechyd bellach yn gallu bwrw ymlaen â'r gronfa gofal canolraddol hollbwysig, a ddaeth, wrth gwrs, o ganlyniad i gytundeb cyllideb, i mewn i'r flwyddyn nesaf, pryd y byddwn eisiau cefnogi iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r pwynt am ofal cartref yn allweddol, ac rydym ni'n gobeithio y byddwn yn cael mwy o adnoddau gan Lywodraeth newydd y DU ar ôl dydd Iau, a fydd yn ein galluogi i gyflawni o ran yr ansawdd a'r gefnogaeth hollbwysig i ofalwyr hŷn yn arbennig ym maes gofal cartref.

14:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:30

## 3. Datganiad: Cyflwyno Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

## 3. Statement: Introduction of the Historic Environment (Wales) Bill

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 3, which is a statement by the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism on the introduction of the Historic Environment (Wales) Bill. I call on the Deputy Minister, Ken Skates.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef datganiad gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ar gyflwyno Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). Galwaf ar y Dirprwy Weinidog, Ken Skates.

14:30 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*

Thank you, Presiding Officer.

Diolch, Lywydd.

On Friday, 1 May, I laid before the National Assembly for Wales the Historic Environment (Wales) Bill, along with its explanatory memorandum. Our nation’s historic environment is a precious legacy that has left an unmistakeable imprint on our national culture and identity. It contributes to local distinctiveness, fuels community pride, and provides unique settings for our daily lives and leisure.

Ddydd Gwener, 1 Mai, gosodais Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghyd â'i femorandwm esboniadol. Mae amgylchedd hanesyddol ein cenedl yn etifeddiaeth werthfawr sydd wedi gadael ôl digamsyniol ar ein diwylliant a'n hunaniaeth genedlaethol. Mae'n cyfrannu at hynodrwydd lleol, yn hybu balchder cymunedol, ac yn darparu lleoliadau unigryw i’n bywydau bob dydd a’n hamdden.

In addition to the cultural, social and environmental benefits that it brings to the people of Wales, the historic environment also makes a substantial contribution to the nation’s economy. Research indicates that it directly supports at least 30,000 jobs, and adds over £840 million to Wales’s gross value added. It has also been estimated that the historic environment’s attraction for visitors accounts for one fifth of all tourism expenditure in Wales, and it has also been recognised as a powerful catalyst for regeneration in both urban and rural areas. If the historic environment is to continue to deliver these many benefits, we must ensure that the systems we have in place to protect and to sustain it are clear, effective and flexible.

Yn ogystal â'r manteision diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol y mae'n eu creu i bobl Cymru, mae’r amgylchedd hanesyddol hefyd yn cyfrannu’n sylweddol at economi'r genedl. Mae ymchwil yn dangos ei fod yn cefnogi o leiaf 30,000 o swyddi’n uniongyrchol, ac yn ychwanegu mwy nag £840 miliwn at werth ychwanegol crynswth Cymru. Amcangyfrifir hefyd fod atyniad yr amgylchedd hanesyddol i ymwelwyr yn gyfrifol am un rhan o bump o'r holl wariant twristiaeth yng Nghymru, ac mae hefyd wedi cael ei gydnabod fel catalydd pwerus ar gyfer adfywio mewn ardaloedd trefol a gwledig. Er mwyn i’r amgylchedd hanesyddol barhau i ddarparu’r manteision niferus hyn, mae’n rhaid inni sicrhau bod gennym systemau clir, effeithiol a hyblyg ar waith i’w amddiffyn a’i gynnal.

In the programme for government, we made a commitment to legislate on heritage protection, and this Bill represents the fulfilment of that commitment. Over the last three years, we have engaged and consulted widely, to take stock of the current structures for the protection and management of the historic environment. Although we found little appetite for radical change, the sector welcomed the prospect of new legislation to correct weaknesses and anomalies in the existing systems. However, it was widely felt that the legislative changes should be reinforced with new policy, advice and guidance that will help to ensure that the management of the Welsh historic environment is in step with current conservation philosophy and practice.

Yn y rhaglen lywodraethu, gwnaethom ymrwymiad i ddeddfu ar amddiffyn treftadaeth, a thrwy’r Bil hwn, byddwn yn cyflawni’r ymrwymiad hwnnw. Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi ymgysylltu ac ymgynghori'n eang, er mwyn pwyso a mesur y strwythurau cyfredol ar gyfer diogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol. Er na welsom lawer o awch am newid ysgubol, roedd y sector yn croesawu’r posibilrwydd o gael deddfwriaeth newydd i unioni gwendidau ac anghysondebau yn y systemau sydd gennym. Fodd bynnag, roedd teimlad cyffredinol y dylid atgyfnerthu'r newidiadau deddfwriaethol â pholisi, cyngor ac arweiniad newydd a fydd yn helpu i sicrhau bod y gwaith o reoli amgylchedd hanesyddol Cymru’n cyd-fynd ag athroniaeth ac arferion cadwraeth cyfredol.

The Bill, therefore, is the lynchpin of an integrated body of measures that will support the careful management of change, so that the historic environment can effectively respond to the demands and challenges of twenty-first century Wales. I have published on the Cadw website the first of a number of draft policy, advice and guidance documents, which are being prepared to complement the legislation. These include a revised historic environment chapter for ‘Planning Policy Wales’, a new planning technical advice note for the historic environment policy, and guidance documents on a range of topics, including world heritage sites, and listed buildings in Wales.

Mae’r Bil, felly, yn ganolog i gorff integredig o fesurau a fydd yn cefnogi rheoli newid yn ofalus, fel y gall yr amgylchedd hanesyddol ymateb yn effeithiol i ofynion a heriau Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Rwyf wedi cyhoeddi ar wefan Cadw y gyntaf o nifer o ddogfennau polisi, cyngor ac arweiniad drafft, sy’n cael eu paratoi i gyd-fynd â'r ddeddfwriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys pennod ddiwygiedig ar yr amgylchedd hanesyddol ar gyfer 'Polisi Cynllunio Cymru', nodyn cyngor technegol cynllunio newydd ar gyfer polisi’r amgylchedd hanesyddol, a dogfennau cyfarwyddyd ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys safleoedd treftadaeth y byd, ac adeiladau rhestredig yng Nghymru.

The Historic Environment (Wales) Bill has three fundamental aims. The first is to improve the protection of our scheduled monuments and listed buildings—those historic assets that have been identified and designated as nationally important. The legislation also includes provisions that will enable the relevant authorities to put an immediate halt to unauthorised works that are harming a designated asset. In light of a recent, well-publicised case involving a Welsh monument, I am pleased to announce that the Bill's provisions will not only enable the Welsh Government to take more effective action to remedy damage to scheduled monuments, but also make it more difficult for individuals to escape prosecution for criminal damage or destruction by claiming ignorance of a monument's status or location. The Bill will also make it easier for local authorities to undertake urgent works on listed buildings that are suffering from neglect, and to recover the attendant costs through the imposition of a land charge.

Mae gan Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) dri nod sylfaenol. Y cyntaf yw gwella gwarchodaeth ein henebion cofrestredig a'n hadeiladau rhestredig—yr asedau hanesyddol hynny sydd wedi cael eu nodi a'u dynodi'n rhai o bwys cenedlaethol. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn cynnwys darpariaethau a fydd yn galluogi'r awdurdodau perthnasol i atal ar unwaith waith heb ei awdurdodi sy'n difrodi ased dynodedig. Yn sgil achos diweddar yn ymwneud â heneb yng Nghymru a gafodd lawer o gyhoeddusrwydd, rwyf yn falch o gyhoeddi y bydd darpariaethau'r Bil nid yn unig yn galluogi Llywodraeth Cymru i gymryd camau mwy effeithiol i unioni difrod i henebion cofrestredig, ond hefyd yn ei gwneud yn fwy anodd i unigolion osgoi cael eu herlyn am ddifrod troseddol neu ddinistr drwy hawlio anwybodaeth o statws neu leoliad heneb. Bydd y Bil hefyd yn ei gwneud yn haws i awdurdodau lleol ymgymryd â gwaith brys ar adeiladau rhestredig sy'n cael eu hesgeuluso, ac adennill y costau cysylltiedig a achosir drwy osod pridiant tir.

The legislation's second objective is to enhance the available mechanisms for the sustainable management of the historic environment. It will, for instance, introduce heritage partnership agreements to Wales. These voluntary arrangements between owners, consenting authorities, and other interested parties will permit the formulation of plans for the long-term management of designated assets. These will not only promote more consistent and coherent management of the assets concerned, but also lighten administrative burdens on owners and authorities alike. The Bill will also place Wales's historic environment records on a more stable footing, ensuring that these important sources of information will continue to gather reliable evidence on the historic environment, and provide it to local planning authorities and the public at large.

Ail amcan y ddeddfwriaeth yw gwella'r mecanweithiau sydd ar gael i reoli'r amgylchedd hanesyddol mewn modd cynaliadwy. Er enghraifft, bydd yn cyflwyno cytundebau partneriaeth treftadaeth yng Nghymru. Bydd y trefniadau gwirfoddol hyn rhwng perchnogion, awdurdodau cydsynio, a phartïon eraill sydd â diddordeb yn caniatáu inni ffurfio cynlluniau i reoli asedau dynodedig yn y tymor hir. Yn ogystal â hyrwyddo rheolaeth fwy cyson a chydlynol ar yr asedau dan sylw, bydd y rhain hefyd yn ysgafnhau beichiau gweinyddol ar berchnogion ac awdurdodau fel ei gilydd. Bydd y Bil hefyd yn rhoi sylfaen fwy sefydlog i gofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru, ac yn sicrhau y bydd y ffynonellau gwybodaeth pwysig hyn yn parhau i gasglu tystiolaeth ddibynadwy am yr amgylchedd hanesyddol, ac yn ei darparu i awdurdodau cynllunio lleol a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Finally, the Bill seeks to make decision-making on the historic environment more transparent and accountable. It will establish a formal consultation process when monuments or buildings are being considered for designation, and introduce interim protection to protect assets from potential harm during consultation. Owners and occupiers will also be given a right of review if a decision is taken to schedule a monument or list a building.

Yn olaf, mae'r Bil yn ceisio sicrhau bod y penderfyniadau a wneir am yr amgylchedd hanesyddol yn fwy tryloyw ac atebol. Bydd yn sefydlu proses ymgynghori ffurfiol pan fo henebion neu adeiladau'n cael eu hystyried i'w dynodi, ac yn cyflwyno gwarchodaeth dros dro i ddiogelu asedau rhag difrod posibl yn ystod yr ymgynghoriad. Bydd gan berchnogion a meddianwyr hefyd hawl i gael adolygiad os gwneir penderfyniad i restru heneb neu adeilad.

I shall not attempt to detail all of the Bill's provisions here. Rather, I want to stress that I am not introducing this legislation to create more bureaucracy and make life harder for local government, owners and developers. Where possible, things have been done to make systems simpler and more efficient, both in the legislation and in the supporting policy, advice and guidance. Ultimately, if change in the historic environment is already being managed carefully and appropriately, then co-operation and partnership are far more fruitful avenues to safeguard it for the future than regulations and restrictions. However, if, for whatever reason, change cannot be managed positively, and our unique and precious historic environment is threatened, authorities must have the power to do what is necessary to protect it.

Nid wyf am geisio manylu ar holl ddarpariaethau'r Bil yn awr. Yn hytrach, rwyf am bwysleisio nad wyf yn cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon er mwyn creu mwy o fiwrocratiaeth a gwneud bywyd yn fwy anodd i lywodraeth leol, perchnogion a datblygwyr. Lle y bo modd, cymerwyd camau i wneud y systemau'n symlach ac yn fwy effeithlon, o ran y ddeddfwriaeth ac o ran y polisi, y cyngor a'r arweiniad ategol. Yn y pen draw, os yw newidiadau i'r amgylchedd hanesyddol eisoes yn cael eu rheoli'n ofalus ac yn briodol, bydd cydweithredu a phartneriaeth yn ffyrdd llawer mwy ffrwythlon o'i ddiogelu at y dyfodol na rheoliadau a chyfyngiadau. Fodd bynnag, os na ellir, am ba reswm bynnag, rheoli newid mewn modd cadarnhaol, a bod ein hamgylchedd hanesyddol unigryw a gwerthfawr yn cael ei fygwth, rhaid sicrhau bod gan awdurdodau rym i wneud yr hyn sydd ei angen i'w warchod.

By safeguarding our historic environment while facilitating its sustainable management, the Historic Environment (Wales) Bill will help the historic environment continue to contribute to the creation of sustainable and distinctive places, where the citizens of Wales have access to homes, jobs and other requirements of modern life that are essential to prosperity, health and happiness. It shares its high-level goal with the Welsh Government's Planning (Wales) Bill and the recently passed Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.

Drwy ddiogelu ein hamgylchedd hanesyddol a hwyluso ffyrdd cynaliadwy o'i reoli, bydd Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn helpu'r amgylchedd hanesyddol i barhau i gyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy a neilltuol, lle y mae cartrefi, swyddi a gofynion eraill bywyd modern, sy'n hanfodol i ffyniant, iechyd a hapusrwydd, ar gael i ddinasyddion Cymru. Mae iddo'r un nod lefel uchel â Bil Cynllunio (Cymru) Llywodraeth Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a basiwyd yn ddiweddar.

One of the most vital ways that the historic environment increases our wellbeing is by creating a sense of local identity and community. This is often intimately linked to historic assets that do not merit national designation but are, nonetheless, of great significance in the locality. I know that many Members are particularly interested in such assets of local importance, and are eager to see measures that will allow communities to recognise and value them. So, I am happy to say that the new draft planning policy and technical advice specifically address the management of such local assets through the planning system, and that additional guidance has been produced to assist local authorities and third sector bodies in the creation and maintenance of lists of locally important assets. The Welsh historic environment records will also collect information on historic assets of local interest.

Un o'r ffyrdd mwyaf hanfodol y mae'r amgylchedd hanesyddol yn gwella ein llesiant yw drwy greu ymdeimlad o hunaniaeth a chymuned leol. Yn aml mae cysylltiad agos rhwng hyn ac asedau hanesyddol nad ydynt yn deilwng o'u dynodi'n genedlaethol ond sydd, serch hynny, o bwys mawr yn lleol. Gwn fod gan lawer o Aelodau ddiddordeb arbennig mewn asedau o'r fath sydd o bwysigrwydd lleol, a'u bod yn awyddus i weld mesurau a fydd yn caniatáu i gymunedau eu hadnabod a'u gwerthfawrogi. Felly, mae'n dda gennyf ddweud bod y polisi cynllunio drafft a'r cyngor technegol newydd yn rhoi sylw penodol i'r gwaith o reoli asedau lleol o'r fath drwy'r system gynllunio, a bod canllawiau ychwanegol wedi'u llunio i helpu awdurdodau lleol a chyrff y trydydd sector i greu a chadw rhestrau o asedau o bwys lleol. Bydd cofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru hefyd yn casglu gwybodaeth am asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol.

Properly protected and sensitively managed, the historic environment is an invaluable resource for our nation. We can, and indeed must, use it to stimulate interest and pride in our past and inspire confidence and ambition for our future. It provides unparalleled opportunities, even in some of Wales's most disadvantaged areas, to give children and adults life-enhancing knowledge and skills that will enable them to fulfil their potential at school and in the workplace.

O'i amddiffyn yn briodol a'i reoli'n sensitif, mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd gwerthfawr i'n cenedl. Gallwn, ac yn wir mae'n rhaid inni, ei ddefnyddio i ysgogi diddordeb a balchder yn ein gorffennol ac ennyn hyder ac uchelgais ar gyfer ein dyfodol. Mae'n cynnig cyfleoedd digyffelyb, hyd yn oed yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, i roi gwybodaeth a sgiliau i blant ac oedolion i wella eu bywydau a'u galluogi i gyflawni eu potensial yn yr ysgol ac yn y gweithle.

In closing, I should like to give my thanks to the historic environment sector in Wales for the active support it has given to the development of the Bill. Local authorities, third sector bodies, heritage professionals and other stakeholders have freely shared the knowledge and experience they have gained from the day-to-day management of our historic environment. I have listened to their valuable advice, and the Bill's provisions are much improved as a result. I should also like to acknowledge the very positive engagement that I have had to now with the opposition parties, and I trust the constructive discussions will continue now that the Bill has been introduced. I look forward to the upcoming scrutiny and debate upon the Bill in both committee and in the Chamber.

I gloi, hoffwn ddiolch i sector yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru am ei gefnogaeth weithredol i ddatblygu'r Bil. Mae awdurdodau lleol, cyrff y trydydd sector, gweithwyr treftadaeth proffesiynol a rhanddeiliaid eraill wedi bod yn barod iawn i rannu'r wybodaeth a'r profiad y maent wedi'u hennill o reoli ein hamgylchedd hanesyddol o ddydd i ddydd. Rwyf wedi gwrando ar eu cyngor gwerthfawr, ac mae darpariaethau'r Bil yn well o lawer o ganlyniad iddo. Hoffwn hefyd gydnabod yr ymgysylltu cadarnhaol iawn yr wyf wedi'i gael hyd yma â'r gwrthbleidiau, a hyderaf y bydd y trafodaethau adeiladol yn parhau yn awr bod y Bil wedi ei gyflwyno. Edrychaf ymlaen at graffu ar y Bil a dadlau ynglŷn ag ef cyn hir yn y pwyllgor ac yn y Siambr.

14:39

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Deputy Minister, for your written statement at the end of last week and further words today. I think it's important to acknowledge the economic and regeneration benefit of our historic environment, not least because economic benefits and regeneration lead to wellbeing for the residents in the communities in which these assets are located.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad ysgrifenedig ddiwedd yr wythnos diwethaf a'ch geiriau heddiw hefyd. Credaf ei bod yn bwysig cydnabod budd ein hamgylchedd hanesyddol i'r economi ac i adfywio, yn enwedig gan fod buddion economaidd ac adfywio'n arwain at lesiant i breswylwyr y cymunedau lle y ceir yr asedau hyn.

I'm hoping myself that there's a fair amount of cross-party support for the aims and purposes of the Bill, and also, can I thank you, Minister, for engaging with opposition spokesmen, and for introducing the draft ancillary guidance, because that will certainly help us with our scrutiny of the Bill in due course?

Rwyf yn gobeithio bod cryn dipyn o gefnogaeth drawsbleidiol i nodau a dibenion y Bil, a hefyd, hoffwn ddiolch i chi, Weinidog, am ymgysylltu â llefarwyr y gwrthbleidiau, ac am gyflwyno'r canllawiau ategol drafft, oherwydd bydd hynny'n sicr yn ein helpu wrth inni graffu ar y Bil maes o law.

I have a whole range of questions, but I will confine them to a handful, if that's okay, Llywydd. Although the Bill has new provisions, much of it is made up of amendments to existing legislation, so I wonder, did you consider the opportunity for a more consolidation-style Bill—not least, of course, because then all the provisions affecting this sector would be fully bilingual?

Mae gennyf amryw helaeth o gwestiynau, ond dim ond llond llaw ohonynt yr wyf am eu gofyn, os yw hynny'n iawn, Lywydd. Er bod y Bil yn cynnwys darpariaethau newydd, diwygiadau i ddeddfwriaeth gyfredol yw llawer ohono, felly tybed a wnaethoch ystyried y cyfle i greu Bil tebycach i Fil cydgrynhoi—yn enwedig oherwydd, wrth gwrs, y byddai'r holl ddarpariaethau sy'n effeithio ar y sector hwn yn gwbl ddwyieithog?

Secondly, in seeking to place the historical environment records on a stable footing, can you reassure us that this does not mean that you will absorb the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales into Government?

Yn ail, wrth geisio rhoi sylfaen sefydlog i gofnodion yr amgylchedd hanesyddol, a allwch ein sicrhau nad yw hyn yn golygu y bydd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn dod yn rhan o'r Llywodraeth?

Apart from on the subject of confidential advice that they give you and your officials, will the members of your independent advice panel be free to speak to people outside Government?

Ac eithrio sôn am y cyngor cyfrinachol y maent yn ei roi i chi ac i'ch swyddogion, a fydd aelodau eich panel cynghori annibynnol yn rhydd i siarad â phobl y tu allan i'r Llywodraeth?

As regards the immunity from listing, I can see why this could be a tool to prevent deliberate neglect of buildings, and I think this is valuable, but it does leave open a question as to what, at law, would constitute sustainable new use. So, how do you envisage the Bill preventing planning authorities refusing imaginative applications with a view to subsequently allowing an application to demolish and build something else in place of that building?

O ran yr imiwnedd rhag rhestru, gallaf weld pam y gallai hwn fod yn arf i atal esgeuluso adeiladau'n fwriadol, ac rwyf yn credu bod hyn yn werthfawr, ond mae'n codi cwestiwn ynghylch beth, yn ôl y gyfraith, fyddai ystyr defnydd newydd cynaliadwy. Felly, sut ydych chi'n rhagweld y bydd y Bil yn atal awdurdodau cynllunio rhag gwrthod ceisiadau dychmygus gyda golwg ar ganiatáu cais wedi hynny i ddymchwel yr adeilad hwnnw ac adeiladu rhywbeth arall yn ei le?

On partnership working, as you know, Deputy Minister, I'm pretty keen to allow robust civil society organisations to take responsibility for local assets, whether they're heritage or not, but it can be a big ask, and I think your plans for partnership with councils sounds promising, but, of course, councils themselves sometimes struggle to manage their own historic environment assets. So, how do you see Cadw supporting these partnerships without over-stepping the mark and becoming too dominant? And how will guidance under the Act actively help civil society groups understand how to maintain, manage and get the maximum economic benefits out of their asset?

O ran gweithio mewn partneriaeth, fel y gwyddoch, Ddirprwy Weinidog, rwyf yn eithaf awyddus i ganiatáu i sefydliadau cymdeithas sifil cryf gymryd cyfrifoldeb am asedau lleol, p'un a ydynt yn dreftadaeth ai peidio, ond gall fod yn dasg fawr, ac rwyf yn meddwl bod eich cynlluniau ar gyfer partneriaeth â chynghorau'n swnio'n addawol, ond, wrth gwrs, mae cynghorau eu hunain weithiau'n ei chael yn anodd rheoli eu hasedau amgylchedd hanesyddol eu hunain. Felly, sut ydych chi'n gweld Cadw'n cefnogi'r partneriaethau hyn heb fynd yn rhy bell a bod yn rhy gryf? A sut y bydd canllawiau o dan y Ddeddf yn rhoi cymorth gweithredol i grwpiau cymdeithas sifil i ddeall sut i gynnal a rheoli eu hasedau a chael y budd economaidd mwyaf posibl ohonynt?

Councils are already criticised for not using enforcement powers, so how will this Bill make it easier for them to afford to do so?

Mae cynghorau eisoes yn cael eu beirniadu am beidio â defnyddio pwerau gorfodi, felly sut y bydd y Bil hwn yn ei gwneud yn haws iddynt fforddio gwneud hynny?

Finally, how does the Act balance competing policy objectives? Does an important local or national historic site, perhaps with little remaining physical evidence, trump an application for, say, a windfarm? Thank you.

Yn olaf, sut y mae'r Ddeddf yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng amcanion polisi sy'n cystadlu â'i gilydd? A yw safle hanesyddol lleol neu genedlaethol pwysig, efallai heb lawer o dystiolaeth ffisegol yn weddill ohono, yn trechu cais, er enghraifft, am fferm wynt? Diolch.

14:42 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank the Member for her questions, and also for the valuable contribution she has already made, particularly in the discussions that I have had with her?

A gaf fi ddiolch i'r Aelod am ei chwestiynau, a hefyd am y cyfraniad gwerthfawr y mae eisoes wedi'i wneud, yn enwedig yn y trafodaethau yr wyf fi wedi'u cael â hi?

I'm pleased that the Member's recognised not just the value of the historic environment to our culture but also to the economy. Of course, we know that there are already 30,000 jobs linked to the heritage sector and that its value amounts to more than £800 million. Indeed, more than 60 per cent of tourists say that they come to Wales with the intention of experiencing one of our fantastic heritage assets, so it really is important for economic growth.

Rwyf yn falch fod yr Aelod wedi cydnabod gwerth yr amgylchedd hanesyddol nid dim ond i'n diwylliant, ond hefyd i'r economi. Wrth gwrs, rydym yn gwybod bod 30,000 o swyddi eisoes yn gysylltiedig â'r sector treftadaeth a'i fod yn werth dros £800 miliwn. Yn wir, mae dros 60 y cant o dwristiaid yn dweud eu bod yn dod i Gymru gyda'r bwriad o weld un o'n hasedau treftadaeth gwych, felly mae'n wirioneddol bwysig o ran twf economaidd.

The Member is right that this very much consolidates legislation from the past, from 1979 and 1990, which, of course, is several decades old now. There was consideration given to a consolidation Bill that would be exclusive for Wales, but it was deemed that, working within the legislative timetable of the fourth Assembly and with the resources available, such a consolidation Bill was not practical. The external reference group that was put together to examine what would suit Wales and serve Wales best did not feel that it was a particularly attractive proposition at this moment in time.

Mae'r Aelod yn iawn fod hyn yn sicr yn atgyfnerthu deddfwriaeth y gorffennol, o 1979 ac 1990, sydd, wrth gwrs, sawl degawd yn ôl erbyn hyn. Ystyriasom Fil cydgrynhoi a fyddai'n unigryw i Gymru, ond roeddem o'r farn, o weithio o fewn amserlen ddeddfwriaethol y pedwerydd Cynulliad gyda'r adnoddau a oedd ar gael, nad oedd Bil cydgrynhoi o'r fath yn ymarferol. Nid oedd y grŵp cyfeirio allanol a sefydlwyd i edrych ar yr hyn a fyddai'n addas i Gymru ac yn gwasanaethu Cymru orau yn teimlo bod hynny'n arbennig o ddeniadol ar hyn o bryd.

With regard to the royal commission, I can say that it is safe as it is, and with regard to the heritage advisory panel, of course, members will be free to talk with people outside of Government. There is no problem with that, and, indeed, I would very much welcome any engagement they have, particularly with community groups that have an interest in heritage. It's worth saying that the advisory panel will be there to offer expert advice in a number of areas, most importantly in the development of historic environment policy for Government, and also to be able to disseminate best practice and to be able to share with us best practice from across Wales.

O ran y comisiwn brenhinol, gallaf ddweud ei fod yn ddiogel fel ag y mae, ac o ran y panel cynghori ar dreftadaeth, wrth gwrs, bydd rhwydd hynt i'r aelodau siarad â phobl y tu allan i'r Llywodraeth. Nid oes dim problem yn hynny o beth, ac, yn wir, byddwn yn croesawu'n fawr iawn unrhyw ymgysylltiad a gânt, yn enwedig â grwpiau cymunedol sydd â diddordeb mewn treftadaeth. Mae'n werth dweud y bydd y panel cynghori yno i gynnig cyngor arbenigol mewn nifer o feysydd, ac yn bwysicaf oll wrth ddatblygu polisi ar yr amgylchedd hanesyddol i'r Llywodraeth, a hefyd i allu lledaenu arfer gorau a rhannu arfer gorau o bob rhan o Gymru â ni.

In terms of the planning process, the Member spoke about —I think, if I understood her correctly—the need to ensure that, within the improved flexibility of the system, there will be a need to ensure that listed buildings are still protected correctly. Listed buildings are designated for a set of reasons within the strict criteria of the process, and those criteria will remain as they are.

O ran y broses gynllunio, soniodd yr Aelod—rwyf yn meddwl, os deallais yn iawn—fod angen sicrhau, o fewn system fwy hyblyg, y bydd angen sicrhau bod adeiladau rhestredig yn dal i gael eu gwarchod yn gywir. Mae adeiladau rhestredig yn cael eu dynodi am nifer o resymau o fewn meini prawf caeth y broses, a bydd y meini prawf hynny'n aros fel ag y maent.

14:44 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First, can I also welcome the statement? I have three questions. In my constituency is Hafod Copper Works, park of the great Copperopolis that made Swansea the great city it has become. Will the Welsh Government, via this Bill, support the campaign to make it a world heritage site? In Swansea and surrounding areas, we have some very large chapels holding up to 1,500 people, such as Tabernacle in Morriston, New Siloh in Landore and Capel Als in Llanelli. How will this Bill help protect these buildings, and will the Minister join me in visiting Tabernacle in Morriston just to see how wonderful and outstanding the building is?

Yn gyntaf, a gaf finnau hefyd groesawu'r datganiad? Mae gennyf dri chwestiwn. Yn fy etholaeth i mae Gwaith Copr Hafod, rhan o'r Copperopolis mawr a wnaeth Abertawe'n ddinas fawr. A wnaiff Llywodraeth Cymru, drwy'r Bil hwn, gefnogi'r ymgyrch i'w wneud yn safle treftadaeth y byd? Yn Abertawe a'r cyffiniau, mae gennym gapeli mawr iawn sy'n dal hyd at 1,500 o bobl, megis y Tabernacl yn Nhreforys, New Siloh yng Nglandŵr a Chapel Als yn Llanelli. Sut y bydd y Bil hwn yn helpu i warchod yr adeiladau hyn, ac a wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i ymweld â'r Tabernacl yn Nhreforys er mwyn cael gweld pa mor rhyfeddol a rhagorol yw'r adeilad?

Finally, we have a large number of grade II B listed buildings in Wales. Will the Minister review this listing, and will he look at whether some of these buildings should actually be delisted, and others should be moved up to listing II A, because, quite frankly, if the Minister had all the money that the Welsh Government have got, I don't think he'd have enough to support all the listed buildings we've got in Wales?

Yn olaf, mae gennym nifer mawr o adeiladau rhestredig gradd II B yng Nghymru. A wnaiff y Gweinidog adolygu'r rhestr hon, ac a wnaiff edrych i weld a ddylid tynnu rhai o'r adeiladau hyn oddi ar y rhestr mewn gwirionedd, ac a ddylid symud rhai eraill i fyny i restr II A, oherwydd, a dweud y gwir, pe bai gan y Gweinidog yr holl arian y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael, nid wyf yn meddwl y byddai ganddo ddigon i gynnal yr holl adeiladau rhestredig sydd gennym yng Nghymru?

14:45

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Member for his contribution and say that I'm very much looking forward to visiting Tabernacle chapel? I got a lot out of the meeting that we had when we discussed the future of this chapel, a crucially important building in my colleague's constituency, and one that is undergoing something of a transition that many other chapels across Wales will experience, or, indeed, have experienced, insofar as the use of the building has changed with societal change, and right now I think the group that is most concerned about its future is concerned with finding alternative uses for that building. So, I'm looking forward to working with that group and with the Member.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod am ei gyfraniad a dweud fy mod yn edrych ymlaen yn fawr at ymweld â chapel Tabernacl? Cefais fudd mawr o'r cyfarfod a gawsom pan fuom yn trafod dyfodol y capel hwn, sy'n adeilad hanfodol bwysig yn etholaeth fy nghyd-Aelod, ac yn un sy'n cael ei drawsnewid fel y bydd llawer o gapeli eraill ledled Cymru, neu, yn wir, fel sydd wedi digwydd iddynt, o ran defnyddio'r adeilad yn wahanol o ganlyniad i newid cymdeithasol, ac ar hyn o bryd credaf fod y grŵp sy'n bennaf gyfrifol am ei ddyfodol yn chwilio am ffyrdd eraill o ddefnyddio'r adeilad hwnnw. Felly, rwyf yn edrych ymlaen at weithio gyda'r grŵp hwnnw a gyda'r Aelod.

Insofar as grade II B listed buildings are concerned, we have grade I, grade II* and grade II. Listing should not be considered a hindrance to development, and, indeed, it offers opportunities in an environment that increasingly values heritage. Listing opens additional opportunities as well for funding. I think getting rid of grade II listed buildings en masse would be very dangerous, because we would potentially be losing some of our most precious village halls, pubs and country houses as well. That said, there is an all-Wales condition survey that's carried out to monitor the condition of listed buildings, and, of course, listed buildings can be delisted. So, that is a constant appraisal process. I would also say that the 30,000 listed buildings in Wales do support a huge number of specialist jobs as well in building and maintenance. So, it's very important that we don't inadvertently undermine that sector either in terms of skills and opportunities, particularly for young people.

O ran adeiladau rhestredig gradd II B, mae gennym radd I, gradd II* a gradd II. Ni ddylid ystyried bod cael eich rhoi ar restr yn rhwystr i ddatblygiad, ac, yn wir, mae'n cynnig cyfleoedd mewn amgylchedd sy'n rhoi mwy a mwy o werth ar dreftadaeth. Mae rhestru'n cynnig rhagor o gyfleoedd hefyd o ran cyllid. Credaf y byddai'n beryglus iawn cael gwared ar niferoedd mawr o adeiladau rhestredig gradd II, oherwydd byddem o bosibl yn colli rhai o'n neuaddau pentref, ein tafarndai a'n tai gwledig mwyaf gwerthfawr hefyd. Wedi dweud hynny, mae arolwg cyflwr Cymru gyfan yn cael ei gynnal i fonitro cyflwr adeiladau rhestredig, ac, wrth gwrs, gellir tynnu adeiladau rhestredig oddi ar eu rhestrau. Felly, mae honno'n broses arfarnu gyson. Byddwn hefyd yn dweud bod y 30,000 o adeiladau rhestredig yng Nghymru'n cynnal nifer mawr o swyddi arbenigol ym meysydd adeiladu a chynnal a chadw. Felly, mae'n bwysig iawn nad ydym yn tanseilio'r sector hwnnw'n anfwriadol ychwaith o ran sgiliau a chyfleoedd, yn enwedig i bobl ifanc.

14:47

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Having met with the Deputy Minister this morning, for which I am grateful, I was informed that quite a lot of the questions that I had were in relation to guidance, and it was squirrelled away on the Cadw website. I think it would have been helpful for us as AMs to have been sent the guidance too, and also to the general public, because, of course, legislation is quite complex as it is and I want this Bill to be as open and accountable as possible. So, I hope that you can include those guidance notes on the Welsh Government's website as well.

Ar ôl cwrdd â'r Dirprwy Weinidog y bore yma—ac rwyf yn ddiolchgar am hynny—cefais ar ddeall bod cryn dipyn o'r cwestiynau a oedd gennyf yn ymwneud â'r canllawiau, a'u bod wedi'u cuddio ar wefan Cadw. Credaf y byddai wedi bod yn ddefnyddiol anfon y canllawiau atom ni Aelodau'r Cynulliad hefyd, a hefyd at y cyhoedd yn gyffredinol, oherwydd, wrth gwrs, mae deddfwriaeth yn eithaf cymhleth fel ag y mae ac rwyf am i'r Bil hwn fod mor agored ac atebol â phosibl. Felly, gobeithiaf y gallwch gynnwys y nodiadau cyfarwyddyd hynny ar wefan Llywodraeth Cymru hefyd.

I'd like to start with a question about point 18 in the explanatory memorandum to the Bill, where it says

Hoffwn ddechrau gyda chwestiwn am bwynt 18 yn y memorandwm esboniadol i'r Bil, sy'n dweud

'there was little appetite for radical change to the present systems.'

'nid oedd llawer o awch am newid ysgubol i'r systemau presennol.'

I understand this has come from the workshops. I attended one of those workshops in Aberystwyth, and, just for the record, I don't believe that it was true that it was not calling for such radical change. Also, when I have the general public contact me, time and again they voice their frustration over an inflexible and limited planning system that has currently no space or hardly any space for local people to engage. I think that that is something that should not be in guidance but on the face of the Bill, so that community groups can have a bigger say as to where this Bill is taken.

Rwyf ar ddeall bod hyn wedi dod o'r gweithdai. Bûm yn un o'r gweithdai hynny yn Aberystwyth, a hoffwn roi ar gofnod nad wyf yn credu ei bod yn wir nad oedd galw am newid ysgubol o'r fath. Hefyd, pan fo'r cyhoedd yn cysylltu â mi, dro ar ôl tro maent yn lleisio eu rhwystredigaeth ynglŷn â system gynllunio anhyblyg a chyfyngedig nad yw'n rhoi dim lle, neu brin ddim lle, i bobl leol ymgysylltu ar hyn o bryd. Credaf fod hynny'n rhywbeth a ddylai fod ar wyneb y Bil, nid yn y canllawiau, fel y gall grwpiau cymunedol gael mwy o lais o ran i ble y byddwn yn mynd â'r Bil hwn.

Point 20 of the explanatory memorandum, again, mentions

Mae pwynt 20 y memorandwm esboniadol, unwaith eto, yn nodi bod

'provisions depend upon subordinate legislation or statutory guidance'.

'darpariaethau'r Bil yn dibynnu ar is-ddeddfwriaeth neu ganllawiau statudol'.

Why is this not on the face of the Bill? Surely, if it's important enough to be in guidance, we need to be futureproofing this so that's it on the front of the Bill.

Pam nad yw hyn ar wyneb y Bil? Os yw'n ddigon pwysig i fod yn y canllawiau, does bosib nad oes angen inni fod yn diogelu hyn at y dyfodol fel ei fod ar flaen y Bil.

With regard to advisory panels, as Plaid Cymru, we would like to see the appointments being made by the National Assembly for Wales so that we can ensure that they're fully independent. As has been exemplified by another Member here today, accessing those panels can be very difficult, and we want to be making sure that there's expertise across the heritage sector, and that it's not front-loaded with certain sectors that may have more influence with you as Minister.

O ran paneli cynghori rydym ninnau, fel Plaid Cymru, am weld y penodiadau'n cael eu gwneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel y gallwn sicrhau eu bod yn gwbl annibynnol. Fel y mae Aelod arall wedi'i ddangos yma heddiw, gall fod yn anodd iawn cael gafael ar y paneli hynny, a hoffem wneud yn siŵr bod arbenigedd ar draws y sector treftadaeth, ac nad yw wedi'i orlwytho â sectorau penodol a all fod â mwy o ddylanwad gyda chi fel Gweinidog.

Consultation responses to the Bill said that there could be a conflict between the new advisory panel and the current historic environment group. While you did go some way to explaining to me earlier that they were more of a stakeholder group, when some organisations are not even on the historic environment group to give you advice, that does create some concern as to the level of expertise you will receive in any new formation. So, understanding how they will work together would be key.

Nodwyd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad ynglŷn â'r Bil y gallai fod gwrthdaro rhwng y panel cynghori newydd a'r grŵp amgylchedd hanesyddol presennol. Er ichi fynd beth o'r ffordd i egluro wrthyf yn gynharach eu bod yn fwy o grŵp rhanddeiliaid, pan nad yw rhai sefydliadau hyd yn oed ar y grŵp amgylchedd hanesyddol i roi cyngor ichi, mae hynny'n peri pryder ynghylch lefel yr arbenigedd a gewch mewn unrhyw ffurf newydd. Felly, byddai deall sut y byddant yn cydweithio yn allweddol.

On temporary listings, the Bill will allow for the Welsh Government to get a building preservation notice if a building appears to them to be of special architectural or historic interest. I think that, as opposed to using definitions here, we need to understand how that works in practice because, as I've said previously in this Chamber, I tried in vain to get Cadw to list Customs House in Port Talbot. It was to no avail. I was told that it did not possess any architectural features or merit, and this appeared to me to be a rather abstract way of looking at the building's preservation when it meant so much to Port Talbot's history and past. So, we really need to understand how the agencies can work together so that buildings like this are not demolished in the future.

O ran rhestru dros dro, bydd y Bil yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gael hysbysiad cadw adeilad os bydd o'r farn fod adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Yn hytrach na defnyddio diffiniadau yma, credaf fod angen inni ddeall sut y mae hynny'n gweithio'n ymarferol oherwydd, fel yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen yn y Siambr hon, ceisiais ddarbwyllo Cadw i restru Customs House ym Mhort Talbot, ond yn ofer. Roedd hynny'n ofer. Dywedwyd wrthyf nad oedd iddo ddim nodweddion na theilyngdod pensaernïol, ac roedd yn ymddangos i mi fod hyn yn ffordd braidd yn haniaethol o edrych ar gadwraeth yr adeilad hwn sy'n golygu cymaint i hanes a gorffennol Port Talbot. Felly, mae gwir angen inni ddeall sut y gall yr asiantaethau gydweithio fel na fydd adeiladau fel hyn yn cael eu dymchwel yn y dyfodol.

Since the demolition of Customs House, I have interacted with Cadw on a number of occasions, and it appears to me that the culture needs to change within these organisations so that they can understand fully what is important to people on the ground. There's not a day goes by without somebody contacting me saying, 'This bridge is being threatened', 'This building's being threatened', 'This area's being threatened'. Because they're not in a conservation area, because they're not listed, they're not afforded any flexibility within the current system. So, I hope that that's something you can look into.

Ers dymchwel Customs House, rwyf wedi bod mewn cysylltiad â Cadw ar sawl achlysur, ac mae'n ymddangos i mi fod angen newid diwylliant yn y sefydliadau hyn er mwyn iddynt allu deall yn llawn yr hyn sy'n bwysig i bobl ar lawr gwlad. Does dim diwrnod yn mynd heibio heb i rywun gysylltu â mi a dweud, 'Mae'r bont hon dan fygythiad', 'Mae'r adeilad hwn dan fygythiad', 'Mae'r ardal hon dan fygythiad'. Oherwydd nad ydynt mewn ardal gadwraeth, oherwydd nad ydynt yn rhestredig, ni roddir iddynt ddim hyblygrwydd o fewn y system bresennol. Felly, rwyf yn gobeithio bod hynny'n rhywbeth y gallwch edrych arno.

You will know my views with regard to the historic environment records, but it's worth saying here today now as well that there needs to be a full audit of them before they're made statutory. I agree that this should be made statutory, but we have to make sure that the staffing and resources go behind that so that they can be retained and supported, because we need to have correct records if our future buildings, our future assets, are to be restored to their full purpose.

Rydych yn gwybod beth yw fy marn am gofnodion yr amgylchedd hanesyddol, ond mae'n werth dweud yma heddiw yn awr hefyd fod angen eu harchwilio'n llawn cyn eu gwneud yn statudol. Rwyf yn cytuno y dylid gwneud hyn yn statudol, ond mae'n rhaid inni wneud yn siŵr bod staff ac adnoddau'n mynd law yn llaw â hynny fel y gallwn eu cadw a'u cefnogi, oherwydd mae angen cofnodion cywir arnom er mwyn adfer adeiladau'r dyfodol, asedau'r dyfodol, i'w pwrpas llawn.

My last issue is with regard to the merger of Cadw and the Royal Commission. I would like to have seen that in legislation, given that the Government has no intention of merging. Why not then put that into the Bill to make sure, again, that you futureproof the industry to make sure that you show that the Royal Commission is respected as a body in its own right for the work that it does in its own right as opposed to leaving it open for future Governments to potentially go about trying to merge it again in the future? But, generally, thank you for the statement today.

Mae fy mhwynt olaf yn ymwneud ag uno Cadw a'r Comisiwn Brenhinol. Hoffwn fod wedi gweld hynny mewn deddfwriaeth, ac ystyried nad oes gan y Llywodraeth ddim bwriad i uno. Pam felly na chafodd hynny ei roi yn y Bil i wneud yn siŵr, unwaith eto, eich bod yn diogelu'r diwydiant at y dyfodol i wneud yn siŵr eich bod yn dangos parch tuag at y Comisiwn Brenhinol fel corff yn ei rinwedd ei hun am y gwaith y mae'n ei wneud ynddo'i hun yn hytrach na'i adael yn agored i Lywodraethau yn y dyfodol a allai, o bosibl, fynd ati i geisio ei uno eto yn y dyfodol? Ond, yn gyffredinol, diolch am y datganiad heddiw.

14:52

## Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Can I thank the Member for her contribution and again for the positive discussions I've had with the Member over several months now. I think that, by and large, the Member refers to the concerns insofar as the public regard them around democracy and the role that they have in the designation process and the way that they are engaged in the listing of buildings or, indeed, in the consideration of whether to list and protect buildings. There is always a very careful balance to be struck between protecting heritage and frustrating development, and we were extremely concerned to make sure that that balance was maintained. That said, temporary stop notices and interim listing for buildings that are considered to be at risk or, indeed, that are being damaged will go some way towards protecting heritage in communities. In addition to this, the historic environment records will certainly enable communities to have a greater role in deciding what is of most significance in their communities. Local authorities will be required to create and maintain historic environment records, and these will contain information on historic sites that are considered to be of local interest.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod am ei chyfraniad ac eto am y trafodaethau cadarnhaol yr wyf wedi'u cael â'r Aelod dros nifer o fisoedd bellach. Credaf, ar y cyfan, fod yr Aelod yn cyfeirio at y pryderon i'r graddau y mae'r cyhoedd yn eu hystyried ynglŷn â democratiaeth a'r rhan sydd ganddynt i'w chwarae yn y broses ddynodi a sut y maent yn cymryd rhan yn y broses o restru adeiladau neu, yn wir, ystyried a ddylid rhestru ac amddiffyn adeiladau. Mae angen sicrhau cydbwysedd gofalus iawn bob amser rhwng diogelu treftadaeth a rhwystro datblygiad, ac roeddem yn awyddus iawn i wneud yn siŵr ein bod yn cadw'r cydbwysedd hwnnw. Wedi dweud hynny, bydd hysbysiadau atal dros dro a rhestru interim ar gyfer adeiladau yr ystyrir eu bod mewn perygl neu, yn wir, sy'n cael eu difrodi, yn mynd rywfaint o'r ffordd tuag at warchod treftadaeth mewn cymunedau. Yn ogystal â hyn, bydd cofnodion yr amgylchedd hanesyddol yn sicr yn galluogi cymunedau i fod â mwy o ran wrth benderfynu beth sydd fwyaf arwyddocaol yn eu cymunedau. Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol greu a chynnal cofnodion amgylchedd hanesyddol, a bydd y rhain yn cynnwys gwybodaeth am safleoedd hanesyddol yr ystyrir eu bod o ddiddordeb lleol.

In addition, the revised draft of planning policy and guidance will strengthen the protection that local planning authorities can provide to historic assets that they have identified as being of particular local interest. Good practice guidance will encourage local authorities and third sector organisations to work together to protect and to enhance assets of special local interest.

Yn ogystal, bydd y polisi a chanllawiau cynllunio diwygiedig drafft yn cryfhau gallu awdurdodau cynllunio lleol i warchod asedau hanesyddol y maent wedi nodi eu bod o ddiddordeb lleol penodol. Bydd canllawiau arfer da'n annog awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector i gydweithio i ddiogelu a gwella asedau sydd o ddiddordeb lleol arbennig.

In terms of Cadw and the Royal Commission, I did not feel that there was a particular need to legislate against change. With regard to the entire suite of advice and guidance, I have been as open as I can possibly be with this. Cadw actually is part of the Welsh Government, and so, in being open with the availability of the information and placing it on the Cadw website, that is available to the public. I must contend that there was not sufficient appetite for radical change. It may well be that the Member has spoken to some individuals who believe that radical change would have been a more attractive proposition. I did not find that, nor did my heritage group, nor did my external reference group that was composed of experts in the field charged with helping to put together a sound Bill.

O ran Cadw a'r Comisiwn Brenhinol, nid oeddwn o'r farn bod angen penodol i ddeddfu yn erbyn newid. O ran y gyfres gyfan o gyngor ac arweiniad, rwyf wedi bod mor agored ag y gallaf fod ynglŷn â hyn. Mae Cadw yn rhan o Lywodraeth Cymru, ac felly, o ran bod yn agored ynglŷn â'r wybodaeth sydd ar gael a'i rhoi ar wefan Cadw, mae hynny ar gael i'r cyhoedd. Rhaid imi haeru nad oedd digon o awch am newid ysgubol. Mae'n ddigon posibl bod yr Aelod wedi siarad â rhai unigolion sy'n credu y byddai newid ysgubol wedi bod yn gynnig mwy deniadol. Nid dyna a welais i, na fy ngrŵp treftadaeth, na fy ngrŵp cyfeirio allanol o arbenigwyr yn y maes a oedd yn gyfrifol am helpu i roi Bil cadarn at ei gilydd.

With regard to the heritage advisory group, these will be expert individuals who will not be representing any particular organisations. They will be members by virtue of being individuals. In contrast, the historic environment group is comprised of representatives of stakeholder groups. I think the two will be greatly complementary insofar as we will have representative groups and experts—individuals—who are able to offer advice and guidance on a whole raft of policy areas.

O ran y grŵp cynghori ar dreftadaeth, bydd yr unigolion hyn yn arbenigwyr nad ydynt yn cynrychioli'r un sefydliad penodol. Byddant yn aelodau yn rhinwedd bod yn unigolion. Ar y llaw arall, mae'r grŵp amgylchedd hanesyddol yn cynnwys cynrychiolwyr grwpiau rhanddeiliaid. Credaf y bydd y ddau'n ategu ei gilydd yn fawr i'r graddau y bydd gennym grwpiau cynrychioladol ac arbenigwyr—unigolion—sy'n gallu cynnig cyngor ac arweiniad ar lu o feysydd polisi.

14:56

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

May I start by thanking the Minister for the statement and also for the consultation he has undertaken with me and other spokespeople on the formulation of this Bill? I certainly think there are a number of issues in the Bill that are worth supporting and it does seem to me to add to the tools available to local authorities in terms of protecting both the historic environment and also listed buildings.

A gaf fi ddechrau drwy ddiolch i'r Gweinidog am y datganiad a hefyd am yr ymgynghoriad y mae wedi ei gynnal â mi a llefarwyr eraill ynglŷn â ffurfio'r Bil hwn? Rwyf yn sicr yn credu bod nifer o faterion yn y Bil sy'n werth eu cefnogi ac mae'n ymddangos i mi ei fod yn ychwanegu at yr offer sydd ar gael i awdurdodau lleol o ran gwarchod yr amgylchedd hanesyddol ac adeiladau rhestredig hefyd.

Like Bethan Jenkins, though, I do have concerns about the protection that can be afforded to buildings of local interest and significance, such as the Customs House in Port Talbot, such as the Vulcan pub in Cardiff, for example, which were considered not to be of sufficient merit by Cadw to be listed under a national listings system, but which do have, in my view and other people's views, sufficient merit to be protected on a local basis. I was wondering, although there are provisions in here in terms of stop notices and in terms of temporary preservation orders, I think, to actually enable a local authority to intervene, it just seems to me that these are temporary issues that need to lead on to a more permanent listing.

Fodd bynnag, mae gennyf finnau, fel Bethan Jenkins, bryderon ynglŷn â'r warchodaeth y gellir ei rhoi i adeiladau o ddiddordeb ac arwyddocâd lleol, megis Customs House ym Mhort Talbot, megis tafarn y Vulcan yng Nghaerdydd, er enghraifft. Roedd Cadw o'r farn nad oedd y rhain yn ddigon teilwng i gael eu rhestru dan system restru genedlaethol, ond maent, yn fy marn i ac ym marn pobl eraill, yn ddigon teilwng i gael eu diogelu ar sail leol. Mae darpariaethau yma o ran hysbysiadau atal ac o ran gorchmynion cadw dros dro, rwyf yn meddwl, i alluogi awdurdod lleol i ymyrryd, ond mae'n ymddangos i mi mai materion dros dro yw'r rhain a bod angen iddynt arwain at restru'n fwy parhaol.

I was wondering, although the Minister says there is no appetite for radical change, what consideration he has given to making provisions for buildings of this nature to have additional protection, albeit short of full listed status, but certainly a protection that would recognise the significance on a local basis and to the local community? I think that's very important.

Er bod y Gweinidog yn dweud nad oes awch am newid ysgubol, pa ystyriaeth y mae wedi ei rhoi i ddarparu gwarchodaeth ychwanegol i adeiladau o'r math hwn, heb roi statws rhestredig llawn iddynt, ond yn sicr warchodaeth a fyddai'n cydnabod arwyddocâd ar sail leol ac i'r gymuned leol? Credaf fod hynny'n bwysig iawn.

The Minister, of course, has a wider issue in terms of this protection—and I think Mike Hedges may have alluded to this—because the way you have a building that is protected means that if you don't have a use for that building or you don't have the resources to bring that building back into use, then, effectively, the building will just stagnate and fall away and you then have to make a very difficult choice as to what comes of it.

Wrth gwrs, mae mater ehangach i'r Gweinidog ei ystyried o ran y warchodaeth hon—a chredaf efallai i Mike Hedges gyfeirio at hyn—oherwydd mae gwarchod adeilad fel hyn yn golygu y bydd yr adeilad, os nad oes gennych ddefnydd iddo neu os nad oes gennych yr adnoddau i ailddechrau ei ddefnyddio, i bob diben, yn ddifywyd ac yn dirywio ac yna bydd yn rhaid ichi wneud dewis anodd iawn ynglŷn â'r hyn a ddaw ohono.

Although the Minister has put in place a number of provisions, such as, for example, a provision for local authorities to recharge and to protect that money through local land charges, it does seem to me that that is only viable if that money is recoverable at the end. A good example of that, of course, is the Palace Theatre in Swansea, where the local authority estimates that, to bring that building back into use, you could be talking £6 million to £7 million. I think it's almost impossible to imagine that a local land charge would lead to the recovery of that sort of cost or that the local authority would have that sort of money to invest in bringing that building back into use.

Er bod y Gweinidog wedi gwneud nifer o ddarpariaethau, megis, er enghraifft, darpariaeth i awdurdodau lleol i ailgodi tâl a diogelu'r arian hwnnw drwy bridiannau tir lleol, mae'n ymddangos i mi nad yw hynny'n hyfyw oni ellir adennill yr arian yn y pen draw. Enghraifft dda o hynny, wrth gwrs, yw Theatr y Palas yn Abertawe, lle y mae'r awdurdod lleol yn amcangyfrif y gallai ailddechrau defnyddio'r adeilad hwnnw gostio £6 miliwn i £7 miliwn. Mae bron yn amhosibl dychmygu y byddai pridiant tir lleol yn arwain at adennill y math hwnnw o gost neu y byddai gan yr awdurdod lleol y math hwnnw o arian i'w fuddsoddi i ailddechrau defnyddio'r adeilad hwnnw.

So, I was just wondering what further thoughts the Minister has given to how these buildings can be protected, or whether there needs to be more robust guidance to local authorities that, where it looks as though the cause is lost, alternative measures need to be taken. Thank you, Presiding Officer.

Felly, tybed a yw'r Gweinidog wedi meddwl mwy am sut y gellir gwarchod yr adeiladau hyn, neu a oes angen canllawiau mwy cadarn i awdurdodau lleol i ddweud, os yw'n edrych fel petai'n achos anobeithiol, fod angen cymryd camau gwahanol. Diolch, Lywydd.

14:59 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Can I thank Peter Black for his comments and for his very helpful and constructive discussions that we've had over seven months now? The point he makes regarding assets of local interest and the potential progression of assets of local interest into listed status buildings is one that has entertained the thoughts of many people. But, I think we must distinguish between what is considered 'of local interest' and what is designated as being a listed building. I think that the historic environment records will help to capture assets of local interest that don't necessarily meet the criteria for listing, and, in so doing, and in following policy guidance on planning, I would hope that assets of local interest will be better protected. Indeed, where local lists are already composed, those local lists should be referred to as part of the planning process.

Diolch. A gaf fi ddiolch i Peter Black am ei sylwadau ac am ei drafodaethau buddiol ac adeiladol iawn yr ydym wedi'u cael dros saith mis bellach? Mae'r pwynt y mae'n ei wneud am asedau o ddiddordeb lleol a'r ffaith y gallai asedau o ddiddordeb lleol o bosibl ddod yn adeiladau â statws rhestredig yn un sydd wedi llenwi meddyliau llawer o bobl. Ond, credaf fod yn rhaid inni wahaniaethu rhwng yr hyn yr ystyrir ei fod 'o ddiddordeb lleol' a'r hyn a ddynodir yn adeilad rhestredig. Credaf y bydd cofnodion yr amgylchedd hanesyddol yn helpu i gofnodi asedau o ddiddordeb lleol nad ydynt o reidrwydd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer rhestru, ac, wrth wneud hynny, ac wrth ddilyn canllawiau polisi ar gynllunio, byddwn yn gobeithio y caiff asedau o ddiddordeb lleol eu hamddiffyn yn well. Yn wir, lle y mae rhestrau lleol eisoes wedi'u llunio, dylid cyfeirio at y rhestrau lleol hynny fel rhan o'r broses gynllunio.

Land charges alone are not the answer. This is not a panacea, and I do think that land charges have been used, in many cases, to effectively press what may have been an irresponsible owner to carry out the urgent works required. That said, where that owner is absent or refuses to contribute, this will be another tool—I'm not saying that it will be the only tool, the only answer—to help local planning authorities to achieve what is necessary to keep those historic assets in use.

Nid pridiannau ar eu pennau eu hunain yw'r ateb. Nid yw hyn yn ateb pob problem, ac rwyf yn meddwl bod pridiannau tir wedi eu defnyddio, yn aml iawn, i roi pwysau ar berchennog a allai fod wedi bod yn anghyfrifol i wneud y gwaith brys sydd ei angen. Wedi dweud hynny, os yw'r perchennog yn absennol neu'n gwrthod cyfrannu, bydd hyn yn offeryn arall—nid wyf yn dweud mai dyma fydd yr unig offeryn, yr unig ateb—i helpu awdurdodau cynllunio lleol i gyflawni'r hyn sydd ei angen i barhau i ddefnyddio'r asedau hanesyddol hynny.

15:00 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Minister, for your statement on this important Bill today. I'm very pleased to see that there's cross-party support for many aspects of it, and I want to extend my support too for the Bill. I am, however, a little bit concerned that the Bill doesn't sufficiently protect Wales's important religious buildings. I note with interest that the Bill will create a statutory register for historic parks and gardens—that's something I very much welcome—but a similar register, I think, of religious buildings is needed in Wales, because there are, indeed, many churches, chapels, synagogues and mosques that are of historic importance to this nation that are not currently listed buildings. The Deputy Minister will know that we've had conversations about Pisgah chapel, for example, in Loughor, which is a small, unassuming building but, nevertheless, very important to many people, not only in this nation, but also internationally, because of its role in the religious revival of 1904-05, and its relationship with the leader of that movement, Evan Roberts, the revivalist. I do think that if we had such a register in existence in Wales, it's chapels like that and other places of worship that would be afforded that little bit of extra protection that they need to be safeguarded for future generations.

Diolch, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad am y Bil pwysig hwn heddiw. Rwyf yn falch iawn o weld bod cefnogaeth drawsbleidiol i lawer agwedd arno, a hoffwn estyn fy nghefnogaeth innau i'r Bil. Rwyf, fodd bynnag, braidd yn bryderus nad yw'r Bil yn gwneud digon i amddiffyn adeiladau crefyddol pwysig Cymru. Nodaf â diddordeb y bydd y Bil yn creu cofrestr statudol ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol—mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn ei groesawu'n fawr—ond mae angen cofrestr debyg, yn fy marn i, o adeiladau crefyddol yng Nghymru, oherwydd, yn wir, mae llawer o eglwysi, capeli, synagogau a mosgiau sydd o bwys hanesyddol i'r genedl hon ac nad ydynt yn adeiladau rhestredig ar hyn o bryd. Bydd y Dirprwy Weinidog yn gwybod ein bod wedi cael sgyrsiau am gapel Pisgah, er enghraifft, yng Nghasllwchwr, sy'n adeilad bach, diymhongar ond, serch hynny, yn bwysig iawn i lawer o bobl, nid yn unig yn y wlad hon, ond hefyd yn rhyngwladol, oherwydd y rhan a chwaraeodd yn niwygiad crefyddol 1904-05, a'i berthynas ag arweinydd y mudiad hwnnw, Evan Roberts, y diwygiwr. Credaf, pe bai gennym gofrestr o'r fath yng Nghymru, mai capeli fel hwn a mannau addoli eraill fyddai'n cael yr ychydig bach hwnnw o warchodaeth ychwanegol sydd ei angen arnynt i gael eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Can I also ask, Deputy Minister—? Again, I do welcome the creation of the advisory panel for the Welsh historic environment, but it doesn't actually say anything on the face of the Bill about the make-up of that panel. I think it is important that it is representative of different parts of the historic environment industry, if you like, including the voice of faith groups. I think it is important that it's membership—or if you could tell us what your policy intends here as to whether its membership—includes representation from the faith communities of Wales, to ensure that their voices are captured in the process.

A gaf fi hefyd ofyn, Ddirprwy Weinidog—? Unwaith eto, rwyf yn croesawu creu'r panel cynghori ar amgylchedd hanesyddol Cymru, ond nid yw mewn gwirionedd yn dweud dim byd ar wyneb y Bil ynghylch cyfansoddiad y panel. Credaf ei bod yn bwysig ei fod yn gynrychioladol o wahanol rannau o ddiwydiant yr amgylchedd hanesyddol, os mynnwch, gan gynnwys llais grwpiau ffydd. Credaf ei bod yn bwysig bod ei aelodaeth—neu pe gallech ddweud wrthym beth yw bwriad eich polisi yma ynghylch a yw ei aelodaeth—yn cynnwys cynrychiolaeth o gymunedau ffydd Cymru, er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn y broses.

Just one final question, if I may. The Deputy Minister, I know, shares a passion for the upkeep and maintenance of war memorials across Wales, something that is also very dear to my heart as chair of the cross-party group on the armed forces and cadets. I wonder, Deputy Minister, whether a list of some sort of those important national war memorials, or, certainly, regionally important war memorials, might also be something that you may be prepared to consider putting on the face of this Bill. These are important places, not just for local communities, but, of course, also for international visitors to Wales, who may be coming to our nation simply to try to identify a memorial with the name of a loved one, a family member or someone that they associate with in our nation. I wonder, Deputy Minister, whether you can tell us precisely what protections are in the Bill to ensure that war memorials, in particular, are also afforded the protection that they need.

Mae gennyf un cwestiwn yn weddill, os caf fi. Gwn fod y Dirprwy Weinidog yn rhannu angerdd ynglŷn â chynnal a chadw cofebion rhyfel ar draws Cymru, rhywbeth sydd hefyd yn agos iawn at fy nghalon innau fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar y lluoedd arfog a'r cadetiaid. Tybed, Ddirprwy Weinidog, a fyddai rhyw fath o restr o'r cofebion rhyfel hynny sydd o bwys cenedlaethol, neu, yn sicr, gofebion rhyfel o bwys rhanbarthol, hefyd yn rhywbeth y gallech fod yn barod i ystyried ei roi ar wyneb y Bil hwn? Mae'r rhain yn lleoedd pwysig, nid yn unig i gymunedau lleol, ond, wrth gwrs, hefyd i ymwelwyr rhyngwladol â Chymru, a all fod yn dod i'n cenedl yn unswydd i geisio dod o hyd i gofeb ag enw rhywun annwyl iddynt, aelod o'r teulu neu rywun y mae ganddynt gysylltiad â hwy yn ein cenedl. Tybed, Ddirprwy Weinidog, a allwch ddweud wrthym pa warchodaeth yn union sydd yn y Bil i sicrhau bod cofebion rhyfel, yn arbennig, hefyd yn cael y warchodaeth sydd ei hangen arnynt.

15:04

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank the Member for his questions and for the continued support he gives all efforts to ensure that places of worship are maintained as best as possible? It's fair to say that the value of places of worship is immense, not just in terms of the cultural value, but also in terms of their value to the visitor economy. The key challenge for many places of worship in an age where many congregations are shrinking is in finding alternative or additional usage for those places of worship. I've seen some great examples around Wales; I've seen some examples of places of worship that have tried to diversify what they offer that have not proved to be most successful. It is something that the advisory panel could be tasked to look at and, in doing so, they would be able to provide expert advice and guidance for the whole of Wales. I think the key role of the expert panel will be in bringing together experts who represent an entire field of activity within the heritage sector into one forum where we can then gather together the best possible advice and spread it right across community groups and all sectors of society in Wales.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod am ei gwestiynau ac am ei gefnogaeth barhaus i bob ymdrech i sicrhau bod addoldai'n cael eu cynnal cystal ag y bo modd? Mae'n deg dweud bod gwerth aruthrol i addoldai, nid yn unig o ran y gwerth diwylliannol, ond hefyd o ran eu gwerth i'r economi ymwelwyr. Yr her allweddol i lawer o fannau addoli mewn oes lle y mae llawer o gynulleidfaoedd yn crebachu yw dod o hyd i ffordd wahanol neu ychwanegol o ddefnyddio'r mannau addoli hynny. Rwyf wedi gweld rhai enghreifftiau gwych o amgylch Cymru; rwyf wedi gweld rhai enghreifftiau o fannau addoli sydd wedi ceisio arallgyfeirio'r hyn y maent yn ei gynnig nad ydynt wedi bod yn arbennig o lwyddiannus. Mae'n rhywbeth y gallai'r panel cynghori edrych arno ac, wrth wneud hynny, byddent yn gallu rhoi cyngor ac arweiniad arbenigol i Gymru gyfan. Credaf mai swyddogaeth allweddol y panel arbenigol fydd dwyn ynghyd arbenigwyr sy'n cynrychioli maes cyfan o weithgaredd yn y sector treftadaeth mewn un fforwm lle y gallwn wedyn gasglu'r cyngor gorau posibl at ei gilydd a'i ledaenu ar draws grwpiau cymunedol a phob sector yng nghymdeithas Cymru.

Cadw, as the Member is aware, has been working with the sector to develop a specific strategic action plan for our historic places of worship. I'm looking forward to being able to publish the draft plan later this month. I'm sure that it will help these buildings to continue to deliver social, economic and environmental benefits for communities across the length and breadth of Wales.

Mae Cadw, fel y mae'r Aelod yn gwybod, wedi bod yn gweithio gyda'r sector i ddatblygu cynllun gweithredu strategol penodol ar gyfer ein mannau addoli hanesyddol. Edrychaf ymlaen at allu cyhoeddi'r cynllun drafft yn ddiweddarach y mis hwn. Rwyf yn siŵr y bydd yn helpu'r adeiladau hyn i barhau i gynnig manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i gymunedau ar hyd a lled Cymru.

In terms of a specific list, already, of course, places of worship that are listed appear on the entire listing schedule, but the Member is absolutely right: it is those other places of worship that we now need to consider as part of a composition strengthening enhancement of the historic environment records and of the local lists as well. I am sure that the Member is aware of it, but an additional list of, if you like, the most significant places of worship does appear online as part of our faith tourism initiative.

O ran rhestr benodol, mae addoldai sydd wedi eu rhestru eisoes, wrth gwrs yn ymddangos ar y rhestr gyfan, ond mae'r Aelod yn hollol iawn: mae angen yn awr inni ystyried y mannau addoli eraill hynny fel rhan o'r broses o wella cofnodion yr amgylchedd hanesyddol i gryfhau eu cyfansoddiad, yn ogystal â'r rhestrau lleol. Rwyf yn siŵr bod yr Aelod yn ymwybodol o hynny, ond mae rhestr ychwanegol o'r mannau addoli mwyaf arwyddocaol, os mynnwch, ar gael ar-lein fel rhan o'n menter twristiaeth ffydd.

The Member raised the very significant value of war memorials in recognising those who gave their lives to keep our freedom. If I may just make this pitch, please would Members invite all of their communities, if they need any funding for war memorials, to examine the potential grants available from Cadw? We are very keen to see more applications coming in for what is very worthwhile funding. Insofar as better protection is concerned, again, it's essential that, when the historic environment records are strengthened, and when additional features are added to them—additional assets—war memorials are most certainly considered a priority.

Cyfeiriodd yr Aelod at werth sylweddol iawn cofebion rhyfel o ran cydnabod y bobl hynny a gollodd eu bywydau i ddiogelu ein rhyddid. Os caf wneud apêl yma, a fyddai'r Aelodau cystal â gwahodd eu holl gymunedau, os oes arnynt angen unrhyw gyllid ar gyfer cofebion rhyfel, i edrych ar y grantiau posibl sydd ar gael gan Cadw? Rydym yn awyddus iawn i weld mwy o geisiadau'n dod i mewn am yr arian gwerth chweil hwn. O ran gwell gwarchodaeth, unwaith eto, mae'n hanfodol, pan gaiff cofnodion yr amgylchedd hanesyddol eu cryfhau, a phan gaiff nodweddion ychwanegol eu hychwanegu atynt—asedau ychwanegol—ein bod yn ystyried bod cofebion rhyfel yn flaenoriaeth bendant.

15:07

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, we were very pleased to have you in the Pontypridd constituency a few weeks ago to see a mixture of, I think, some of the historic sites that we're talking about, such as Taff's Well, which might be an environmental example, the Hetty, which might be an industrial example, Llantrisant, a historic example, and, of course, the china works in Nantgarw as an artistic example. You'll be pleased to know, obviously, that Llantrisant have, in fact, just signed a peace treaty with Crecy after 400 years, as well as getting a very substantial grant now to actually renovate the whole place.

Ddirprwy Weinidog, roeddem yn falch iawn o'ch cael chi yn etholaeth Pontypridd rai wythnosau'n ôl i weld cymysgedd, rwyf yn meddwl, o rai o'r safleoedd hanesyddol yr ydym yn sôn amdanynt, megis Ffynnon Taf, a allai fod yn enghraifft amgylcheddol, yr Hetty, a allai fod yn enghraifft ddiwydiannol, Llantrisant, enghraifft hanesyddol, ac, wrth gwrs, y gwaith llestri tsieina yn Nantgarw fel enghraifft artistig. Byddwch yn falch o glywed, wrth gwrs, fod Llantrisant, a dweud y gwir, newydd lofnodi cytundeb heddwch â Crecy ar ôl 400 mlynedd, ac wedi cael grant sylweddol iawn nawr i adnewyddu'r lle i gyd.

You've answered quite a number of the points that I have. One of the areas of concern that I have is, of course, whether the powers are sufficient to actually enable or to require the maintenance of historic sites rather than historic sites that are left to wilfully fall apart gradually over a period of time, and how that might operate.

Rydych wedi ateb cryn dipyn o'r pwyntiau sydd gennyf. Un o'r meysydd sy'n peri pryder imi, wrth gwrs, yw a yw'r pwerau'n ddigonol i alluogi neu i orfodi cynnal a chadw safleoedd hanesyddol mewn gwirionedd, yn hytrach na bod safleoedd hanesyddol yn cael eu gadael i ddirywio'n raddol yn fwriadol dros gyfnod o amser, a sut y gallai hynny weithio.

The other area I'd like you to think about is whether you think there is scope in the actual protection of the names of some of our public houses. I asked the First Minister about this about three years ago. There was some interest in it, but obviously no development then. What we do have, for example, in Pontypridd, is the Llanover Arms, an eighteenth-century hostelry, which has recently received public funding to support its historic interior, and the Pick & Shovel in Trefforest, again reflecting part of the historic environment. It seems to me that we don't want our towns to become full of slugs and lettuces and cows and carrots and whatever. But some of these names on public houses actually have real historic value as well, and we have to do something to actually maintain that link. I'm wondering whether you think that might be an area where there'd be scope for perhaps adjustment to or amendment of the legislation.

Y mater arall yr hoffwn ichi feddwl amdano yw a ydych yn credu bod lle i ddiogelu enwau rhai o'n tafarndai. Gofynnais i'r Prif Weinidog am hyn tua tair blynedd yn ôl. Roedd rhywfaint o ddiddordeb yn y peth, ond yn amlwg nid aeth ymhellach ar y pryd. Mae gennym, er enghraifft, ym Mhontypridd, y Llanover Arms, tafarn o'r ddeunawfed ganrif, sydd wedi cael arian cyhoeddus yn ddiweddar i gynnal a chadw ei thu mewn hanesyddol, a'r Pick & Shovel yn Nhrefforest, unwaith eto'n adlewyrchu rhan o'r amgylchedd hanesyddol. Mae'n ymddangos i mi nad ydym am i'n trefi fod yn llawn gwlithod a letys a gwartheg a moron a beth bynnag. Ond mae gwerth hanesyddol go iawn i rai o'r enwau hyn ar dafarndai hefyd, ac mae'n rhaid inni wneud rhywbeth go iawn i gynnal y cyswllt hwnnw. Tybed a ydych yn credu y gallai hynny fod yn faes lle y gallai fod lle i addasu neu i ddiwygio'r ddeddfwriaeth?

15:09

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Member, and also say what a pleasure it is to see him back in the Chamber? I've missed his presence by my side, and I'm sure the entire Chamber has missed him as well.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod, a dweud hefyd cymaint o bleser yw ei weld yn ôl yn y Siambr? Rwyf wedi gweld eisiau ei bresenoldeb wrth fy ochr, ac rwyf yn siŵr bod y Siambr gyfan wedi gweld ei eisiau hefyd.

With regard to deliberate neglect, I think we should draw a distinction, actually, between deliberate neglect and neglect due to a lack of funds, and also neglect due to non-usage of a building. In terms of deliberate neglect, a primary tool that will be available for a local authority to intervene will be the imposition of a land charge. There is also a difference between knowingly damaging a monument and ignorantly damaging a monument. We're going to get rid of the loophole that allows somebody to claim ignorance if they damage or destroy a scheduled monument, as was the case in Chirk in recent times. Also, where a listed building is being deliberately or unknowingly damaged, there will be further tools—or where it is under threat—in the form of strengthened temporary stop notices and interim designations. So, an entire raft of measures and tools will be available to local planning authorities and to the Welsh Government to intervene and to prevent, and, in some cases, halt, damage to listed buildings and scheduled monuments.

O ran esgeulustod bwriadol, credaf y dylem wahaniaethu, a dweud y gwir, rhwng esgeulustod bwriadol ac esgeulustod oherwydd diffyg arian, a hefyd esgeulustod oherwydd diffyg defnydd ar yr adeilad. O ran esgeulustod bwriadol, un offeryn sylfaenol a fydd ar gael i awdurdodau lleol i ymyrryd fydd gosod pridiant tir. Mae gwahaniaeth hefyd rhwng difrodi heneb yn fwriadol a difrodi heneb oherwydd anwybodaeth. Rydym yn mynd i gael gwared ar y ddihangfa sy'n caniatáu i rywun hawlio anwybodaeth os yw'n difrodi neu'n dinistrio heneb gofrestredig, fel y digwyddodd yn y Waun yn ddiweddar. Hefyd, lle y mae adeilad rhestredig yn cael ei ddifrodi'n fwriadol neu oherwydd anwybodaeth, bydd rhagor o offer—neu lle y bo dan fygythiad—ar ffurf hysbysiadau atal dros dro cryfach a dynodiadau interim. Felly, bydd llu o fesurau ac offer ar gael i awdurdodau cynllunio lleol ac i Lywodraeth Cymru i ymyrryd ac i atal, ac, mewn rhai achosion, i roi terfyn ar ddifrodi adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig.

With regard to the pub names, I was intrigued by this, and perhaps the Member could invite me to those pubs he has mentioned for a short trip. [Laughter.] I think historic names, not just pub names but also place names, are valuable sources of evidence for informing the identification and management of historic sites. Many are already included in the historic environment records and I would certainly be keen to explore the potential of including some of those most historic pubs, and their names, effectively, therefore, in historic environment records, because, of course, local authorities will be able to draw upon the material in the historic environment records when considering planning decisions that affect the historic environment. I think also it's worth pointing out that some place names and some pub names also have an incredible attraction to visitors and tourists, which should not be underestimated.

O ran enwau tafarndai, mae hyn wedi ennyn fy chwilfrydedd, ac efallai y gallai'r Aelod fy ngwahodd i'r tafarndai hyn y mae wedi sôn amdanynt am ymweliad byr. [Chwerthin.] Credaf fod enwau hanesyddol, nid dim ond enwau tafarndai, ond hefyd enwau lleoedd, yn ffynonellau gwerthfawr o dystiolaeth i lywio gwaith i nodi a rheoli safleoedd hanesyddol. Mae llawer eisoes wedi eu cynnwys yng nghofnodion yr amgylchedd hanesyddol a byddwn yn sicr yn awyddus i ystyried y posibilrwydd o gynnwys rhai o'r tafarndai mwyaf hanesyddol hyn, a'u henwau, felly, i bob pwrpas, mewn cofnodion amgylchedd hanesyddol, oherwydd, wrth gwrs, bydd awdurdodau lleol yn gallu galw ar y deunydd yng nghofnodion yr amgylchedd hanesyddol wrth ystyried penderfyniadau cynllunio sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol. Credaf hefyd ei bod yn werth nodi bod rhai enwau lleoedd a rhai enwau tafarndai hefyd yn atyniad aruthrol i ymwelwyr a thwristiaid, ac ni ddylid tanamcangyfrif hynny.

15:11

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf i jest gyfeirio'n fyr iawn at sylwadau Mike Hedges, a'u cefnogi nhw'n fawr iawn? Ddirprwy Weinidog, rydych newydd gyfeirio rŵan at enwau ac enwau llefydd, a'u pwysigrwydd nhw hefyd. Rŵan, mae'r amgylchedd hanesyddol yn sicr yn cynnwys yr adeiladau, a dyna ydy prif gyfeiriad y Bil yma, hyd y gallaf weld, ond mae'r amgylchedd hanesyddol hefyd yn cynnwys yr enwau yna rydych wedi cyfeirio atyn nhw, a gallai'r rheini fod yn Gymraeg, neu fe allent fod yn Saesneg, neu'n wir yn dangos olion, wrth gwrs, o'r hen iaith Sgandinafaidd yma yng Nghymru. Ond, yn Gymraeg mae'r enwau yma'n aml iawn yn ddisgrifiadol iawn. Maen nhw'n cyfeirio at yr amgylchedd, neu ryw nodwedd ddaearyddol. Maen nhw hefyd yn aml iawn yn cynnwys cyfeiriadau at hanes diwydiannol neu ddiwylliannol yr ardal, ac maen nhw'n rhan annatod, mi fyddwn yn dadlau, o'n hamgylchedd hanesyddol ni.

May I just refer briefly to Mike Hedges's comments, and support them greatly? Deputy Minister, you've just alluded to names and place names, and their importance. Now, the historic environment certainly includes the buildings, and that is the main thrust of this Bill, as far as I can see, but the historic environment also includes those names that you have referred to, and those could be in Welsh or they may be in English, or, indeed, they could show traces of the old Scandinavian language here in Wales. But, in Welsh, these names are often very descriptive. They refer to the environment, or some geographical feature. They also very often include references to the industrial or cultural history of the area, and are an integral part, I would argue, of our historic environment.

Y cwestiwn sydd gen i—. Mi fyddwch chi hefyd yn ymwybodol bod yna ddeiseb wedi'i chyflwyno heddiw gan Fynyddoedd Pawb yn gofyn am ryw fath o warchodaeth i enwau'r mynyddoedd yma yng Nghymru, ac enwau eraill hefyd sydd â chysylltiadau hanesyddol. A gaf i ofyn i chi, felly, Ddirprwy Weinidog, a ydych wedi ystyried o gwbl gynnwys rhyw fath o ddeddfwriaeth a fyddai'n rhoi gwarchodaeth i enwau lleoedd yma yng Nghymru, am resymau—rhai ohonynt—rydych wedi'u henwi'n barod? Ac os nad ydych wedi ystyried hynny, a gaf i ofyn pam na fyddech chi'n gwneud hynny, o gofio pwysigrwydd yr enwau yma, o safbwynt adrodd ein hanes ni ein hunain yma yng Nghymru?

My question—. You will also be aware that a petition has been presented today by Mynyddoedd Pawb, asking for some form of protection for the names of mountains here in Wales, and also other names with historical connotations. May I ask you, therefore, Deputy Minister: have you given any thought to including some form of legislation that would protect place names here in Wales, for reasons—some of them—that you have already alluded to? And if you haven't considered that, may I ask why not, given the importance of these names, in terms of telling our own history here in Wales?

15:13 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'd like to thank Alun Ffred Jones for his question and for his contribution. The point he raises has been raised in the past by a number of experts as well, that being the value that intangible heritage has in today's society. It's my view that intangible heritage has an incredible role to play in promoting Wales abroad and in ensuring that the people of Wales have a reference point for the past. However, the Historic Environment (Wales) Bill focuses on the physical traces of the past, such as archaeological sites, monuments and historic buildings, not so on the less tangible heritage such as place names. That said, I have written to Ministers in each of the devolved nations asking for their views on the UNESCO convention on intangible heritage and whether they would wish to see a future UK Government sign up to that convention. Thus far, the convention has not been agreed to by the UK Government. I have had a positive response so far from the Scottish Government.

Hoffwn ddiolch i Alun Ffred Jones am ei gwestiwn ac am ei gyfraniad. Mae'r pwynt y mae'n ei godi wedi ei godi yn y gorffennol gan nifer o arbenigwyr hefyd, sef gwerth treftadaeth anniriaethol yng nghymdeithas heddiw. Yn fy marn i, mae gan dreftadaeth anniriaethol ran aruthrol i'w chwarae wrth hyrwyddo Cymru dramor ac o ran sicrhau bod cyfeirbwynt ar gael i bobl Cymru i'r gorffennol. Fodd bynnag, mae Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn canolbwyntio ar olion ffisegol y gorffennol, megis safleoedd archeolegol, henebion ac adeiladau hanesyddol, yn fwy na'r dreftadaeth lai diriaethol megis enwau lleoedd. Wedi dweud hynny, rwyf wedi ysgrifennu at Weinidogion ym mhob un o'r gwledydd datganoledig yn gofyn eu barn am gonfensiwn UNESCO ar dreftadaeth anniriaethol ac a hoffent weld Llywodraeth y DU yn y dyfodol yn ymrwymo i'r confensiwn hwnnw. Hyd yn hyn, nid yw Llywodraeth y DU wedi cytuno ar y confensiwn. Rwyf wedi cael ymateb cadarnhaol hyd yma gan Lywodraeth yr Alban.

Meanwhile, I think it's safe to say that the historic environment records are the best place to deposit the history of place names and the stories that they tell. I think I'd like to also, if I may, Presiding Officer, just congratulate the royal commission, the National Library of Wales, the University of Wales and the People's Collection Wales for the work that they've done in establishing Cymru1900Wales.org, which, essentially, is a crowdfunding mechanism for capturing the stories and the history of all place names across Wales.

Yn y cyfamser, credaf ei bod yn ddiogel dweud mai cofnodion yr amgylchedd hanesyddol yw'r lle gorau i adneuo hanes enwau lleoedd a'r straeon y maent yn eu hadrodd. Hoffwn hefyd, os caf fi, Lywydd, longyfarch y comisiwn brenhinol, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Prifysgol Cymru a Chasgliad y Werin Cymru am y gwaith y maent wedi'i wneud wrth sefydlu Cymru1900Wales.org, sydd, yn ei hanfod, yn fecanwaith cyllido torfol i gofnodi straeon a hanes pob enw lle ledled Cymru.

15:15 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome the statement. I also support Mick Antoniw in his call for historic pub names to be protected. I've mentioned in this Chamber before the most historic pub in Cardiff North, which was the Cow and Snuffers, where Disraeli met his mistress, but, sadly, that pub is now closed. The block of accommodation—flats—that has replaced it is still called the Cow and Snuffers and Disraeli House, so something is retained there, but I think it is a very important point that Mick Antoniw has made.

Rwyf yn croesawu'r datganiad. Rwyf hefyd yn cefnogi galwad Mick Antoniw am ddiogelu enwau tafarndai hanesyddol. Rwyf wedi sôn o'r blaen yn y Siambr hon am dafarn fwyaf hanesyddol Gogledd Caerdydd, sef y Cow and Snuffers, lle y cyfarfu Disraeli â'i feistres, ond, yn anffodus, mae'r dafarn honno yn awr wedi cau. Mae'r bloc llety—fflatiau—sydd wedi dod yn ei lle yn dal i gael ei alw'n Cow and Snuffers a Disraeli House, felly mae rhywbeth wedi'i gadw yno, ond credaf fod Mick Antoniw wedi gwneud pwynt pwysig iawn.

I just wanted to draw attention to more modern monuments, really, such as the restored Melingriffith water pump in my constituency of Cardiff North, which is one of the few remaining links to the old Glamorganshire canal and the Melingriffith tin plate works. This scheduled ancient monument was restored thanks, really, to the hard work of volunteers and voluntary specialist groups, who worked hard to ensure that this restoration took place, and, also, of course, had funding from Cardiff Council and Cadw. But how will this Bill make monuments like that, which are not well known to the public—? How will the public become more aware of them, and what more support can be given to the volunteers who actually made this happen, because it was impetus from the community that actually made the restoration of this monument happen? Of course, the other spectacular, but relatively modern, Victorian castle of Castell Coch is one of the outstanding features of Cardiff North; most people know about that, but this pump is of great importance, and it did depend on local people in restoring it.

Roeddwn am dynnu sylw at henebion mwy modern, mewn gwirionedd, fel pwmp dŵr Melin Gruffydd sydd wedi'i adfer yn fy etholaeth i, sef Gogledd Caerdydd, sy'n un o'r ychydig ddolenni cyswllt sy'n weddill â hen gamlas Sir Forgannwg a gwaith tunplat Melin Gruffydd. Mae'r diolch am adfer yr heneb gofrestredig hon, mewn gwirionedd, i waith caled gwirfoddolwyr a grwpiau arbenigol gwirfoddol, a weithiodd yn galed i sicrhau bod y gwaith adfer hwn yn digwydd, a, hefyd, wrth gwrs, cafwyd cyllid gan Gyngor Caerdydd a Cadw. Ond sut y bydd y Bil hwn yn sicrhau bod henebion fel hyn, nad ydynt yn adnabyddus i'r cyhoedd—? Sut y bydd y cyhoedd yn dod i wybod mwy amdanynt, a pha gymorth pellach y gellir ei roi i'r gwirfoddolwyr a lwyddodd i wireddu hyn, oherwydd o du'r gymuned y daeth yr ysgogiad i wneud i'r gwaith o adfer yr heneb hon ddigwydd mewn gwirionedd? Wrth gwrs, mae'r castell Fictoraidd arall ysblennydd, ond cymharol fodern, Castell Coch, yn un o nodweddion amlycaf Gogledd Caerdydd; mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod am hwnnw, ond mae'r pwmp hwn yn bwysig iawn, ac roedd yn dibynnu ar bobl leol i'w adfer.

15:17 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank the Member for her contribution and pay tribute to the exceptional work of those volunteers in her constituency in ensuring that there was a new usage of that historic asset, albeit a relatively modern asset? The Member asks what support may be available to groups such as the one mentioned. I would urge all Members to examine the potential funding from the Heritage Lottery Fund, and, not least, as I explained to the Member Bethan Jenkins this morning, the potential of Heritage Enterprise funding, which can amount to many, many hundreds of thousands of pounds, for initiatives that seek to make the most of historic assets in terms of employment and entrepreneurialism.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod am ei chyfraniad a thalu teyrnged i waith eithriadol y gwirfoddolwyr hynny yn ei hetholaeth i sicrhau bod yr ased hanesyddol hwnnw’n cael ei ddefnyddio o’r newydd, er ei fod yn ased cymharol fodern? Mae'r Aelod yn gofyn pa gymorth a allai fod ar gael i grwpiau fel yr un y soniodd amdano. Byddwn yn annog pob Aelod i archwilio'r cyllid posibl gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, ac, yn enwedig, fel yr eglurais i'r Aelod Bethan Jenkins y bore yma, botensial cyllid Menter Treftadaeth, a all fod yn gannoedd ar gannoedd o filoedd o bunnoedd, i fentrau sy'n ceisio manteisio i'r eithaf ar asedau hanesyddol o ran cyflogaeth a mentergarwch.

The Member asked how this Bill may help assets such as the water pump. Well, in terms of making the system more flexible and more responsive to twenty-first century lifestyles and society, the Bill aims to ensure that there can be easier diversification of uses of buildings. The Member also mentioned yet another historic pub with a fantastic name. I do feel that a pub crawl is now being drawn up across various constituencies; I would be happy to visit it. This, of course, insofar as the name is concerned, relates to, again, intangible heritage. I do believe that, in Wales, we are, in many respects, at the forefront of protecting intangible heritage, and I do have faith in people that they will value, and they do value, their historic place names, not just for what they mean to their local community and to culture and to history, but in terms of what they can add to the visitor economy and drawing people in as visitors.

Gofynnodd yr Aelod sut y gall y Bil hwn helpu asedau megis y pwmp dŵr. Wel, o ran gwneud y system yn fwy hyblyg ac yn fwy ymatebol i ffyrdd o fyw a chymdeithas yr unfed ganrif ar hugain, mae'r Bil yn anelu at sicrhau y gall fod yn haws arallgyfeirio defnydd o adeiladau. Soniodd yr Aelod hefyd am dafarn hanesyddol arall ag enw ardderchog. Teimlaf fod helfa dafarnau yn awr yn cael ei llunio ar draws gwahanol etholaethau; byddwn yn hapus i ymweld â hi. Mae hyn, wrth gwrs, o ran yr enw, yn ymwneud, unwaith eto, â threftadaeth anniriaethol. Rwyf yn credu ein bod, yng Nghymru, mewn llawer ffordd, ar flaen y gad o ran diogelu treftadaeth anniriaethol, ac mae gennyf ffydd y bydd pobl yn gwerthfawrogi, a’u bod yn gwerthfawrogi, eu henwau lleoedd hanesyddol, nid dim ond am yr hyn y maent yn ei olygu i'w cymuned leol ac i ddiwylliant ac i hanes, ond o ran yr hyn y gallant ei ychwanegu i’r economi ymwelwyr a denu pobl i mewn fel ymwelwyr.

15:19 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I also welcome the introduction of this Bill, Deputy Minister? Can I ask you—? You mentioned earlier the importance of protecting religious buildings and the third sector’s role in that. I’ve asked you in the past in this Chamber about the role of Friends of Friendless Churches and organisations such as that—I haven’t heard them mentioned today. Can you give us an assurance that, within this Bill, there will a recognition of the invaluable work done by Friends of Friendless Churches across Wales in protecting some of our most important churches and religious buildings when other avenues of funding are lost?

A gaf finnau hefyd groesawu cyflwyno'r Bil hwn, Ddirprwy Weinidog? A gaf fi ofyn ichi—? Soniasoch yn gynharach am bwysigrwydd diogelu adeiladau crefyddol a gwaith y trydydd sector yn hynny o beth. Rwyf wedi gofyn ichi yn y gorffennol yn y Siambr hon am waith Cyfeillion yr Eglwysi Digyfaill a sefydliadau o’r fath—nid wyf wedi clywed neb yn sôn amdanynt heddiw. A allwch roi sicrwydd inni y rhoddir cydnabyddiaeth, yn y Bil hwn, i'r gwaith amhrisiadwy a wneir gan Gyfeillion yr Eglwysi Digyfaill ledled Cymru o ran diogelu rhai o'n heglwysi a’n hadeiladau crefyddol pwysicaf, a ninnau’n colli ffynonellau cyllid eraill?

Can I, secondly, ask you—? You mentioned earlier how you want to protect buildings that are not necessarily listed but might be of local importance. Only within the last week or two weeks in Cwmbran, in my constituency, Llanyrafon House, a historic building, has been demolished to make way for a housing estate. That building might not have been listed or afforded those sorts of protections, but it was historically very important, giving its name to a large part of that area of Cwmbran. So, can you look at those sort of situations locally, when planning permission is being granted, and make sure that areas of local importance are afforded the sort of respect that they need and that local people would anticipate that they already have?

A gaf fi, yn ail, ofyn ichi—? Soniasoch yn gynharach yr hoffech warchod adeiladau nad ydynt wedi'u rhestru o reidrwydd ond a allai fod yn bwysig yn lleol. Yn ystod yr wythnos neu ddwy ddiwethaf yng Nghwmbrân, yn fy etholaeth i, mae Llanyrafon House, adeilad hanesyddol, wedi cael ei ddymchwel i wneud lle i stad o dai. Efallai nad oedd yr adeilad hwnnw wedi’i restru nac wedi cael y math hwnnw o warchodaeth, ond roedd yn hanesyddol bwysig iawn, a rhoddodd ei enw i ran helaeth o'r ardal honno o Gwmbrân. Felly, a wnewch chi edrych ar y mathau hynny o sefyllfaoedd yn lleol, pan fo caniatâd cynllunio’n cael ei roi, a sicrhau bod ardaloedd o bwysigrwydd lleol yn cael y math o barch sydd ei angen arnynt ac y byddai pobl leol yn disgwyl sydd ganddynt eisoes?

15:20 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank Nick Ramsay for his questions and say, first of all, that we do certainly value the Friends of Friendless Churches, which is why, of course, we actually support the group? They carry out very important work and they've been significant in the development of this Bill. The Member also mentioned Llanyrafon House, and it is with regret that I learnt that that the building has been demolished. Houses such as that not only have architectural merit, even though they may not be listed, but they also have community merit, as well, and benefit, in so far as they, again, offer that reference point in people's lives. There are often many stories that are attached to people and by people to buildings, so they are very, very important, which is why, again, putting historic environment records on a surer footing, I think, is absolutely vital, because they can then be referenced in the planning process.

A gaf fi ddiolch i Nick Ramsay am ei gwestiynau a dweud, yn gyntaf oll, ein bod yn sicr yn gwerthfawrogi Cyfeillion yr Eglwysi Digyfaill, ac mai dyna pam, wrth gwrs, yr ydym yn cefnogi'r grŵp? Maent yn gwneud gwaith pwysig iawn ac maent wedi chwarae rhan sylweddol yn natblygiad y Bil hwn. Soniodd yr Aelod hefyd am Llanyrafon House, ac roedd yn ddrwg gennyf glywed bod yr adeilad wedi ei ddymchwel. Mae gan dai o'r fath werth pensaernïol, er nad ydynt wedi'u rhestru, ond mae ganddynt hefyd werth cymunedol, yn ogystal, a budd cymunedol, gan eu bod, unwaith eto, yn cynnig y cyfeirbwynt hwnnw ym mywydau pobl. Yn aml mae llawer o storïau ynghlwm wrth bobl ac wrth adeiladau o ganlyniad, felly maent yn bwysig iawn, iawn, a dyna pam, unwaith eto, y mae rhoi cofnodion yr amgylchedd hanesyddol ar sail gadarnach, yn fy marn i, yn gwbl hanfodol, oherwydd drwy hynny gellir cyfeirio atynt yn y broses gynllunio.

15:21 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Minister. Now, before we move to the Stage 3 proceedings for the Planning (Wales) Bill, I will suspend proceedings for 10 minutes. The bell will be rung five minutes before we reconvene, and I would encourage Members to return to the Chamber promptly, please. There will only be one bell. Thank you very much.

Diolch, Ddirprwy Weinidog. Yn awr, cyn inni symud at drafodion Cyfnod 3 ar Fil Cynllunio (Cymru), Rwyf am atal y trafodion am 10 munud. Bydd y gloch yn canu bum munud cyn inni ailymgynnull, a byddwn yn annog yr Aelodau i ddychwelyd i'r Siambr yn brydlon, os gwelwch yn dda. Dim ond un gloch a glywch. Diolch yn fawr.

*Ataliwyd y Cyfarfod Llawn am 15:21.*

*Plenary was suspended at 15:21.*

*Ailymgynullodd y Cynulliad am 15:32, gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly reconvened at 15:32, with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

15:32

# 4. Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Cynllunio (Cymru)

# 4. Stage 3 Debate on the Planning (Wales) Bill

Senedd.tv Fideo Video

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order. Item 4 is the Stage 3 debate on the Planning (Wales) Bill.

Trefn. Eitem 4 yw'r ddadl Cyfnod 3 ar y Bil Cynllunio (Cymru).

**Grŵp 1: Diben Statudol (Gwelliannau 1, 58, 59, 60 a 57)**

**Group 1: Statutory Purpose (Amendments 1, 58, 59, 60 and 57)**

15:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The first group of amendments relates to statutory purpose for planning. The lead amendment in this group is amendment 1, and I call on Llyr Gruffydd to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp cyntaf o welliannau'n ymwneud â diben statudol ar gyfer cynllunio. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 1, a galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp ac i siarad amdanynt.

*Cynigiwyd gwelliant 1 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 1 (Llyr Gruffydd) moved.*

15:32 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n cynnig gwelliant 1 yn fy enw i. Nawr, fe wnaeth adroddiad y grŵp cynghori annibynnol bwysleisio bod paragraff 1.2.1 o 'Polisi Cynllunio Cymru' yn datgan bod y system gynllunio ond yn rheoleiddio datblygiad a defnydd tir. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod system sydd yn cael ei gweld ond fel system rheoleiddio yn debyg o ddod â chanlyniadau negyddol yn hytrach na rai cadarnhaol. Mae ein gwelliant ni, felly, yn datgan yn glir beth yw pwrpas y system gynllunio, ac yn ei gysylltu, wrth gwrs, â datblygu cynaliadwy, sydd yn rhywbeth y byddai rhywun yn gobeithio'n fawr ac yn hyderus, yn wir, bod pob plaid wedi ymrwymo iddo fe fan hyn. Byddai rhoi diben statudol y system gynllunio ar wyneb y Bil yn cryfhau'r broses gynllunio, yn fy marn i, a rhoi eglurder diamwys i awdurdodau cynllunio ynglŷn â'r hyn y dylid ei ystyried wrth gymryd penderfyniadau.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I move amendment 1 in my name. Now, the report of the independent advisory group emphasised that paragraph 1.2.1 of 'Planning Policy Wales' states that the planning system only regulates development and land use. The report comes to the conclusion that a system that is seen only as a regulatory system is likely to bring negative impacts rather than positives. Our amendment, therefore, states clearly what the purpose of the planning system is, and links it, of course, to sustainable development, which is something that one would have hoped and would be confident that every party in this place was committed to. Providing a statutory purpose for planning on the face of the Bill would strengthen the planning process, in my view, and would give an unambiguous clarity to planning authorities on what should be considered in taking planning decisions.

Nawr, roedd cefnogaeth drawsbleidiol yn y pwyllgor hefyd i gynnwys pwrpas statudol ar wyneb y Bil, ac i hwnnw fod ar hyd yr un llinellau â'r hyn ag argymhellwyd gan y grŵp cynghori annibynnol. Rwyf yn croesawu gwelliannau 57, 58, 59 a 60 gan y Llywodraeth hefyd, ac mi fydd Plaid Cymru yn cefnogi'r gwelliannau i gyd yn y grŵp yma, ond mae yn bwysig nodi, yn fy marn i, bod ein gwelliant ni yn sicrhau bod adran 70(2) o'r Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990 wedi'i gynnwys, a bod y pwrpas statudol rŷm ni yn ei gynnig nid yn unig yn berthnasol i gynllunio datblygu ond hefyd i benderfyniadau, ac mae hynny'n wahaniaeth pwysig.

Now, there was cross-party support in the committee also for including a statutory purpose on the face of the Bill, and that that should be along the same lines as what was recommended by the independent advisory group. I do welcome amendments 57, 58, 59 and 60 from the Government, and Plaid Cymru will be supporting all amendments in this group, but it is important to note, in my view, that our amendment does ensure that section 70(2) of the Town and Country Planning Act 1990 is included, and that the statutory purpose that we propose is relevant not only to developments but also to decisions, and that is an important distinction.

15:34 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think it's absolutely right that there should be a definition of statutory purpose on the face of this Bill. It was a clear recommendation by the independent advisory group, and I appreciate the Minister listening to the concerns of opposition Members at Stage 2 and bringing amendment forward as a consequence today. However, I would like to support Llyr's amendment 1.

Credaf ei bod yn hollol briodol y dylai fod diffiniad o ddiben statudol ar wyneb y Bil hwn. Roedd yn argymhelliad clir gan y grŵp cynghori annibynnol, ac rwyf yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y Gweinidog wedi gwrando ar bryderon Aelodau'r gwrthbleidiau yng Nghyfnod 2 ac wedi cyflwyno gwelliant o ganlyniad heddiw. Fodd bynnag, hoffwn gefnogi gwelliant 1 Llyr.

15:34 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I very much welcome this amendment today. I think that it will very considerably strengthen the whole Bill and provide a context in which we can move forward to enhancing the planning system here in Wales. I very much welcome it and shall be supporting it and the others in this group. Diolch.

Rwyf yn croesawu'r gwelliant hwn heddiw'n fawr. Rwyf yn meddwl y bydd yn cryfhau'r Bil cyfan yn sylweddol iawn ac yn darparu cyd-destun lle y gallwn symud ymlaen i wella'r system gynllunio yma yng Nghymru. Croesawaf ef yn fawr iawn a byddaf yn ei gefnogi ynghyd a'r gweddill yn y grŵp hwn. Diolch.

15:35 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd like to move amendments 57 to 60 in this group. I will speak first to my Government amendments, and then respond to the non-Government amendments.

Hoffwn gynnig gwelliannau 57 i 60 yn y grŵp hwn. Byddaf yn siarad yn gyntaf am welliannau'r Llywodraeth, ac yna'n ymateb i'r gwelliannau nad ydynt yn rhai'r Llywodraeth.

At Stage 2, I gave a commitment to work with Members to bring forward an amendment to introduce a statutory purpose for the planning system. I've introduced amendment 58 to the Bill, and that sets out the statutory purpose, with the focus on carrying out sustainable development, in accordance with the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. My other amendments are consequential on amendment 58.

Yng Nghyfnod 2, rhoddais ymrwymiad i weithio gydag Aelodau i gyflwyno gwelliant i gyflwyno pwrpas statudol ar gyfer y system gynllunio. Rwyf wedi cyflwyno gwelliant 58 i'r Bil, sy'n nodi'r pwrpas statudol, gyda'r pwyslais ar roi datblygu cynaliadwy ar waith, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae fy ngwelliannau eraill yn ganlyniadol i welliant 58.

I ask Members to support my amendments, and not support amendment 1, tabled in the name of Llyr Gruffydd, as this would also introduce a statutory purpose, and, in my view, it's unclear whether this amendment captures the development plan functions of local planning authorities, which are essential for sustainable development certainty and consistency. Llyr's amendment only covers local planning authorities, and so does not affect the important roles that Welsh Ministers, or other key stakeholders, have in the planning system. This is not reflective of the full range of bodies, which the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 captures, and, therefore, I'd ask you not to support the amendment. We believe that the amendment, as tabled by Government, and as alluded to during Stage 2 of the Bill, fully captures the statutory purpose of the Bill, and applies it to the relevant bodies.

Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi fy ngwelliannau, a pheidio â chefnogi gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Llyr Gruffydd, gan y byddai hyn hefyd yn cyflwyno pwrpas statudol, ac, yn fy marn i, nid yw'n glir a yw'r gwelliant hwn yn cynnwys swyddogaethau cynlluniau datblygu'r awdurdodau cynllunio lleol, sy'n hanfodol ar gyfer sicrwydd a chysondeb datblygu cynaliadwy. Mae gwelliant Llyr yn ymwneud ag awdurdodau cynllunio lleol yn unig, felly nid yw'n effeithio ar swyddogaethau pwysig Gweinidogion Cymru, na rhanddeiliaid allweddol eraill, yn y system gynllunio. Nid yw hyn yn adlewyrchu'r ystod lawn o gyrff sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac, felly, gofynnaf ichi beidio â chefnogi'r gwelliant. Rydym yn credu bod y gwelliant, fel y'i cyflwynwyd gan y Llywodraeth, ac fel y cyfeiriwyd ato yn ystod Cyfnod 2 y Bil, yn cyfleu pwrpas statudol y Bil yn llawn, ac yn ei wneud yn berthnasol i'r cyrff perthnasol.

15:36

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Llyr Gruffydd to reply.

Llyr Gruffydd i ymateb.

15:36

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf i ddiolch i'r Aelodau am eu sylwadau? Rwy'n teimlo bod yna wahaniaeth—ac mae'r Gweinidog wedi cydnabod hynny, efallai—rhwng y ddau ddewis fan hyn o welliannau: gwelliant Plaid Cymru a gwelliannau'r Llywodraeth. Rwyf i jest yn teimlo bod yna fwy o sgôp i ddehongli o fewn gwelliant y Llywodraeth. Pan mae'n sôn am ddod â budd i Gymru, mae angen, rwy'n meddwl, bod yn fwy 'explicit' o safbwynt y math o fudd yng nghyd-destun cynaliadwyedd rydym yn chwilio amdano fe.

Thank you, Deputy Presiding Officer. May I thank Members for their comments? I do feel that there is a distinction—and the Minister has acknowledged that, perhaps—between the two options of amendments here: the Plaid Cymru amendment, and the Government's own amendments. I just feel that there's greater scope for interpretation within the Government's amendment. When it talks about bringing benefit to Wales, it needs to be, I think, more explicit in terms of the kinds of benefit in the context of sustainability that we are seeking here.

A hefyd, mi wnaf i ategu'r pwynt a wnes i yn gynharach: hynny yw, bod yna reidrwydd yn y gwelliant gan Blaid Cymru i ystyried pwrpas statudol pan mae'n dod i wneud penderfyniadau o fewn y gyfundrefn gynllunio, nid dim ond pan mae'n dod i gynlluniau datblygu. Oherwydd, gallwch chi gael cynlluniau datblygu, ond hefyd gallwch chi gael penderfyniadau sydd ddim, o reidrwydd, yn adlewyrchu rhai o'r egwyddorion rydym ni eisiau cael eu gweld yn cael eu hadlewyrchu ar y ffas lo, pan fo penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy sefydlu y pwrpas statudol.

Also, I will echo the point that I made earlier: that is to say that there is a requirement in the Plaid Cymru amendment to consider a statutory purpose when it comes to making decisions within the planning system, and not simply when it is a matter of development plans. Because you can have development plans in place, but you can also have decisions taken that don't necessarily reflect some of the principles we want to see enacted on the coalface, when decisions are taken by establishing a statutory purpose.

Felly, fel y dywedais i, fe fyddwn ni'n cefnogi pob un gwelliant, ond fe fyddwn i'n arbennig yn annog Aelodau i gefnogi gwelliant 1, sef gwelliant Plaid Cymru.

Therefore, as I said, we will be supporting every single amendment, but we particularly encourage Members to support Plaid Cymru's amendment 1.

15:37

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 1 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 1 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 1 wedi ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 1: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 1 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1](#)

[Result of the vote on amendment 1](#)

15:38

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, amendment 58.

Weinidog, gwelliant 58.

*Cynigiwyd gwelliant 58 (Carl Sargeant).*

*Amendment 58 (Carl Sargeant) moved.*

15:38

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

15:38

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 58 is not agreed, amendment 57 falls.

Os na chaiff gwelliant 58 ei dderbyn, mae gwelliant 57 yn methu.

The question is that amendment 58 be agreed. Does any Member object? Amendment 58 is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 58. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 58 wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 58 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 58 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 2: Arolygiaeth Gynllunio Cymru (Gwelliant 80)

### Group 2: Planning Inspectorate for Wales (Amendment 80)

15:38

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The next group of amendments relates to the Planning Inspectorate for Wales. The lead amendment in this group is amendment 80. I call on Llyr Gruffydd to move and speak to the lead amendment.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau'n ymwneud ag Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 80. Galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig y prif welliant ac i siarad amdano.

*Cynigiwyd gwelliant 80 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 80 (Llyr Gruffydd) moved.*

15:38

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Rwy’n cynnig gwelliant 80, yn fy enw i. Nawr, mae yna nifer o resymau, yn fy marn i, dros greu arolygiaeth gynllunio annibynnol i Gymru. Wrth i drefn gynllunio Cymru a Lloegr wahanu, yn y pen draw, mae creu sefydliad annibynnol yng Nghymru yn anochel, yn fy marn i, ac, wrth gwrs, mae’r ffaith ein bod ni heddiw yn trafod Bil cynllunio i Gymru yn dyst i’r ffaith bod y drefniadaeth, a’r ddeddfwriaeth gynllunio, yng Nghymru a Lloegr, yn symud fwyfwy i gyfeiriadau gwahanol. Ac rydym yn disgwyl, wrth gwrs, i ail Fil cynllunio gyrraedd y Cynulliad o fewn y blynyddoedd nesaf hefyd.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move amendment 80 in my name. There are a number of reasons, in my view, for creating a planning inspectorate for Wales, and an independent one at that. As the England and Wales planning system diverges, creating an independent institution in Wales is inevitable in my view. Of course, the fact that we are today discussing a planning Bill for Wales is testament to the fact that the arrangements and legislation in England and Wales are moving in divergent directions. We expect a second planning Bill to reach this Assembly over the next few years also.

Mi gododd astudiaeth ddiweddar Comisiynydd y Gymraeg nifer o gwestiynau am ddiffygion ynghylch sut mae’r Arolygiaeth Gynllunio yn gweithredu yng Nghymru. Adroddodd chwech awdurdod cynllunio nad oedden nhw wedi cynnal unrhyw asesiad o effaith eu cynllun datblygu ar y Gymraeg, er enghraifft. Yr Arolygiaeth Gynllunio, wrth gwrs, sy’n gyfrifol am arolygu cynlluniau datblygu lleol, a sicrhau eu bod nhw’n cydfynd â pholisi cenedlaethol, cyn iddyn nhw gael eu mabwysiadu. Nawr, mae i’r comisiynydd ddod i’r casgliad nad yw pob awdurdod wedi gweithredu yn unol â ‘Polisi Cynllunio Cymru’ a nodyn cyngor technegol 20, yn codi cwestiynau pwysig iawn fan hyn. Os oes diffygion mor amlwg yn bresennol yn barod, mae’r newidiadau y bydd y Bil yma yn eu cyflwyno yn cryfhau’r angen ymhellach, yn fy marn i, am arolygiaeth a fydd â’i ffocws yn llwyr ar Gymru.

A recent study by the Welsh Language Commissioner raised a number of issues relating to deficiencies in terms of how the Planning Inspectorate works in Wales. Six planning authorities reported that they hadn’t conducted any impact assessment of the effect of their development plan on the Welsh language, for example. The Planning Inspectorate, of course, is responsible for reviewing local development plans and ensuring that they comply with national policy before they are adopted. The fact that the commissioner came to the conclusion that not all authorities had acted in accordance with ‘Planning Policy Wales’ and technical advice note 20, raises some important questions here. If there are such clear deficiencies in existence already, the changes that this Bill would introduce would strengthen further the need for an inspectorate to be fully focused on Wales.

Gwnaeth un o'ch rhagflaenwyr chi, Weinidog, gydnabod y byddai'r galw am arolygiaeth gynllunio annibynnol i Gymru yn cryfhau dros amser, wrth i'r systemau cynllunio esblygu i gyfeiriadau gwahanol. Ac, wrth gwrs, mae'r egwyddor sylfaenol yma o greu corff Cymreig i adlewyrchu anghenion arbennig Cymru, a pholisïau unigryw Cymru, yn un roedd eich Llywodraeth chi eich hun yn ei hyrwyddo mewn perthynas â chreu Cyfoeth Naturiol Cymru. Gadewch i ni greu corff annibynnol i Gymru er mwyn adlewyrchu ein heriau a'n blaenoriaethau unigryw ni yma yng Nghymru oedd dadl y Llywodraeth bryd hynny. Yr union un egwyddor, wrth gwrs, sydd wrth wraidd y gwelliant yma heddiw, a byddai peidio â chefnogi'r gwelliant yn fy marn i yn anghyson a dweud y lleiaf.

One of your predecessor Ministers actually acknowledged that the need for an independent planning inspectorate for Wales would strengthen over time, as the systems evolve in different directions. Of course, the fundamental principle of creating a Welsh body to reflect the particular needs and unique policies of Wales is one that your own Government was promoting in relation to the creation of Natural Resources Wales. Let us create an independent body for Wales to reflect our own challenges and our unique priorities here in Wales. That was the call made by the Government at that time, and it is exactly the same principle that is at the heart of this amendment today, and not supporting the amendment, in my view, would be inconsistent, to say the least.

15:40

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I appreciate the reasoning behind this amendment, but we won't be supporting this amendment today, as there wasn't enough evidence during Stage 1 to demonstrate that a separate inspectorate for Wales was necessary or desirable. As I stated at Stage 2, when the IAG undertook it consultation to compile its report, they indicated that only two respondents argued that a separate body for Wales was required. The Member himself may have been one of those, I don't know. But, I think, when we're looking at things like national significant infrastructure projects, many of which have cross-border implications, and many of which may require specialist knowledge from the planning inspectorate, I think it's important to have that broader level of expertise. So I don't think that this has legs at this particular time.

Rwyf yn deall y rhesymeg y tu ôl i'r gwelliant hwn, ond ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliant hwn heddiw, gan nad oedd digon o dystiolaeth yn ystod Cyfnod 1 i ddangos bod arolygiaeth ar wahân i Gymru'n angenrheidiol nac yn ddymunol. Fel y dywedais yng Nghyfnod 2, pan gynhaliodd yr IAG ei ymgynghoriad i lunio ei adroddiad, dywedodd mai dim ond dau o'r ymatebwyr oedd yn dadlau bod angen corff ar wahân i Gymru. Efallai fod yr Aelod ei hun yn un o'r rheini, nid wyf yn gwybod. Ond, credaf, pan fyddwn yn edrych ar bethau fel prosiectau seilwaith cenedlaethol mawr, llawer ohonynt â goblygiadau trawsffiniol, a llawer ohonynt yn gofyn am wybodaeth arbenigol gan yr arolygiaeth gynllunio, fod y lefel ehangach honno o arbenigedd yn bwysig. Felly, nid wyf yn credu bod hyn yn rhywbeth a all ddigwydd ar yr adeg benodol hon.

15:41

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We shall be supporting this amendment today. We think there is merit in the creation of an independent planning inspectorate for Wales, very much picking up the points that have been taken on board by Llyr Gruffydd in proposing the amendment. We think that it is consistent with the logic that has led to the creation of Natural Resources Wales, in terms of recognising the reality that we have here in Wales as a devolved nation. That doesn't preclude drawing on expertise from further afield. We feel that things would be strengthened, and the reality of a planning system in this devolved nation would best be reflected by the creation of an independent planning inspectorate that would take that on board and actually enable us to develop more fully the structures that would be entailed by having an independent planning inspectorate to determine applications and to set precedent for the future. Diolch yn fawr.

Byddwn yn cefnogi'r gwelliant hwn heddiw. Rydym yn credu ei bod yn werth creu arolygiaeth gynllunio annibynnol i Gymru, yn sgil y pwyntiau a roddodd Llyr Gruffydd gerbron wrth gynnig y gwelliant. Rydym yn credu bod hyn yn gyson â'r rhesymeg sydd wedi arwain at greu Cyfoeth Naturiol Cymru, o ran cydnabod y realiti yma yng Nghymru fel gwlad ddatganoledig. Nid yw hynny'n ein hatal rhag galw ar arbenigedd ymhellach i ffwrdd. Rydym o'r farn y byddai hyn yn cryfhau pethau, ac mai'r ffordd orau o adlewyrchu realiti'r system gynllunio yn y wlad ddatganoledig hon fyddai creu arolygiaeth gynllunio annibynnol a fyddai'n ystyried hynny ac mewn gwirionedd yn ein galluogi i ddatblygu'n llawnach y strwythurau a fyddai'n gysylltiedig â chael arolygiaeth gynllunio annibynnol i benderfynu ar geisiadau a gosod cynsail ar gyfer y dyfodol. Diolch yn fawr.

15:42

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We will not be supporting this amendment in this group. I've listened carefully to the argument presented by Llyr, as consistent as it may be. For people who are unclear, we do have a dedicated team of Welsh inspectors who base their decisions on Welsh local and national policies, and are answerable to Welsh Ministers. During Llyr's contribution, he may have suggested that this is not properly reflected in the views of the Welsh inspectors. I do not accept that, and therefore believe that these arrangements have worked well for many years and command the confidence of the planning system users, including the Royal Town Planning Institute Cymru. Therefore, we will not be seeking to support this amendment today.

Ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliant hwn yn y grŵp hwn. Rwyf wedi gwrando'n ofalus ar y ddadl a gyflwynwyd gan Llyr, mor gyson ag yr ydyw. I bobl nad yw hyn yn glir iddynt, mae gennym dîm dynodedig o arolygwyr i Gymru sy'n seilio eu penderfyniadau ar bolisïau lleol a chenedlaethol Cymru, ac maent yn atebol i Weinidogion Cymru. Yn ystod cyfraniad Llyr, efallai ei fod wedi awgrymu nad yw barn arolygwyr Cymru'n adlewyrchu hyn yn iawn. Nid wyf yn derbyn hynny, ac felly credaf fod y trefniadau hyn yn gweithio'n dda ers blynyddoedd lawer ac wedi ennyn hyder defnyddwyr y system gynllunio, gan gynnwys y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru. Felly, ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliant hwn heddiw.

15:43

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And Llyr Gruffydd to reply.

A Llyr Gruffydd i ymateb.

15:43

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Of course, we did have a dedicated Welsh team within the Environment Agency; we did have a dedicated Welsh team within the Forestry Commission et cetera, but—

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Wrth gwrs, roedd gennym dîm dynodedig i Gymru yn Asiantaeth yr Amgylchedd; roedd gennym dîm dynodedig i Gymru yn y Comisiwn Coedwigaeth ac ati, ond—

Mae un egwyddor i faes polisi amgylchedd yng Nghymru, ac mae'n debyg bod egwyddor arall nawr i faes polisi cynllunio. Nawr, mi ddywedodd Russell George nad oedd yn mynd i gefnogi hyn ar yr adeg yma. Wel, pa adeg mwy amserol sydd yna? Rydym yn creu deddfwriaeth gynllunio newydd i Gymru, ac mae'n gyfle, wrth i ni drawsnewid y tirlun cynllunio yng Nghymru, i ni hefyd sicrhau bod y systemau arolygu penodol ac addas hynny yn eu lle. Felly, byddem eto yn gofyn i Aelodau ailystyried ac i gefnogi'r gwelliant penodol hwn.

There is one principle for the environment policy field in Wales, and it seems that there's another principle now for planning policy. Now, Russell George said that he was not going to support this at this time. Well, when would it be more timely? We are creating new planning legislation for Wales, and it is an opportunity, as we transform the planning landscape in Wales, for us also to ensure that the specific and appropriate inspection systems are in place. We would, therefore, ask Members to reconsider and to support this particular amendment.

15:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 80 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 11. There voted against 30. Therefore, amendment 80 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 80. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 11 o blaid. Pleidleisiodd 30 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 80 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 80: O blaid 11, Yn erbyn 30, Ymatal 0.*

*Amendment 80 not agreed: For 11, Against 30, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 80

Result of the vote on amendment 80

### Grŵp 3: Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Gwelliannau 2, 3, 81, 4, 49, 5, 63, 64 ,65, 66, 67 a 68)

### Group 3: National Development Framework (Amendments 2, 3, 81, 4, 49, 5, 63, 64 ,65, 66, 67 and 68)

15:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the third group. These amendments relate to the national development framework. The lead amendment in this group is amendment 2 and I call on Llyr Gruffydd to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Symudwn yn awr at y trydydd grŵp. Mae'r gwelliannau hyn yn ymwneud â'r fframwaith datblygu cenedlaethol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 2 a galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp ac i siarad amdanynt.

*Cynigiwyd gwelliant 2 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 2 (Llyr Gruffydd) moved.*

15:45

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 2, 3, 4, 5 and 81 tabled in my name. We'll be supporting the majority of amendments in this group, with amendments 64 and 68 tabled in the name of Russell George being the only exceptions.

Cynigiaf welliannau 2, 3, 4, 5 ac 81 a gyflwynwyd yn fy enw i. Byddwn yn cefnogi'r rhan fwyaf o'r gwelliannau yn y grŵp hwn; gwelliannau 64 a 68 a gyflwynwyd yn enw Russell George yw'r unig eithriadau.

Our amendment 2 will place a requirement on the Welsh Government to have the draft national development framework independently examined by a person appointed by Welsh Ministers. Now, I don't believe that the National Assembly is necessarily best placed to preside over the conducting of the examination itself, which is why we'll be opposing amendments 64 and 68. That's something that the Government, through an independent examiner, can do.

Bydd ein gwelliant 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y fframwaith datblygu cenedlaethol drafft yn cael ei archwilio'n annibynnol gan unigolyn a benodir gan Weinidogion Cymru. Nawr, nid wyf yn credu bod y Cynulliad Cenedlaethol o reidrwydd yn y sefyllfa orau i reoli'r ffordd y cynhelir yr archwiliad, a dyna pam y byddwn yn gwrthwynebu gwelliannau 64 a 68. Mae hynny'n rhywbeth y gall y Llywodraeth ei wneud drwy archwiliwr annibynnol.

The amendment will also require the Government to publish a report and recommendations on the draft national development framework and would provide that the national development framework must have the approval of the National Assembly before it can be published. So, a key issue here for me, really, is not so much who presides over the examination, but who has ultimate sign-off, and that must be, in my view, the National Assembly—in the same way as the support of the National Assembly was required, of course, for the NDF's predecessor, the Wales spatial plan.

Bydd y gwelliant hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth gyhoeddi adroddiad ac argymhellion ynglŷn â'r fframwaith datblygu cenedlaethol drafft a byddai'n darparu bod yn rhaid i'r fframwaith datblygu cenedlaethol gael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol cyn y gellir ei gyhoeddi. Felly, yr hyn sy'n allweddol yma i mi, mewn gwirionedd, yw nid yn gymaint pwy sy'n llywyddu dros yr archwiliad, ond pwy sy'n ei gymeradwyo yn y pen draw, a rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud hynny, yn fy marn i —yn yr un ffordd ag yr oedd angen cefnogaeth y Cynulliad Cenedlaethol, wrth gwrs, ar gyfer rhagflaenydd y fframwaith datblygu cenedlaethol, sef cynllun gofodol Cymru.

Amendment 3 seeks to put in writing the Government's recent commitment—or, at least, my understanding of the Government's commitment—to place a moratorium on fracking in Wales. Since the vote in the Senedd to call on the Welsh Government to do all it can to prevent fracking from taking place in Wales, there's been much confusion around what powers this place does or does not have. I've heard the Government call it a moratorium on fracking and, more recently, a moratorium on planning authorities making a decision on fracking, which, of course, are two very different things. So, if indeed we do have the power to implement a moratorium, let's provide the public with the clarity of this amendment in the planning Bill. Let's put it on the face of the Bill—something I'm sure very many of us support in principle.

Mae gwelliant 3 yn ceisio rhoi ar glawr ymrwymiad y Llywodraeth—neu, o leiaf, fy nealltwriaeth i o ymrwymiad y Llywodraeth—i osod moratoriwm ar ffracio yng Nghymru. Ers y bleidlais yn y Senedd i alw ar Lywodraeth Cymru i wneud popeth o fewn ei gallu i atal ffracio rhag digwydd yng Nghymru, mae llawer o ddryswch wedi bod ynghylch pa bwerau sydd gan y lle hwn ai peidio. Rwyf wedi clywed y Llywodraeth yn ei alw'n foratoriwm ar ffracio ac, yn fwy diweddar, yn foratoriwm ar benderfyniadau gan awdurdodau cynllunio am ffracio, sydd, wrth gwrs, yn ddau beth gwahanol iawn. Felly, os oes gennym rym i roi moratoriwm ar waith, gadewch inni roi i'r cyhoedd eglurder y gwelliant hwn yn y Bil cynllunio. Gadewch inni ei roi ar wyneb y Bil—rhywbeth yr wyf yn siŵr bod llawer iawn ohonom yn ei gefnogi mewn egwyddor.

Amendment 81 would require the national development framework to set out policies designed to contribute to climate change reduction targets and adaptation. Now, the need to tackle climate change, of course, is well evidenced and scientifically and politically accepted. However, action on climate change suffers from a lack of coherence in policy and decision making. In order to generate a step-change in thinking about development decisions, it's necessary to provide specific status to this issue in the Bill, which is, of course, the biggest challenge facing humanity today.

Byddai gwelliant 81 yn ei gwneud yn ofynnol i'r fframwaith datblygu cenedlaethol nodi polisïau i gyfrannu at dargedau lleihau newid yn yr hinsawdd ac addasu. Nawr, wrth gwrs, mae tystiolaeth dda o blaid yr angen i ymdrin â newid yn yr hinsawdd ac mae wedi'i derbyn o safbwynt gwyddonol a gwleidyddol. Fodd bynnag, mae gweithredu ar newid yn yr hinsawdd yn dioddef oherwydd diffyg polisïau a phenderfyniadau cydlynol. Er mwyn creu newid sylweddol yn y ffordd y meddylir am benderfyniadau datblygu, mae angen rhoi statws penodol i'r mater hwn yn y Bil, sef, wrth gwrs, yr her fwyaf sy'n wynebu'r ddynoliaeth heddiw.

Amendment 4 places a duty on those developing the national development framework to do so in a way that gives meaningful consideration to the long term. The need to consider longer term issues is already set out in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, of course. In order to consider this meaningfully in planning, it's rational in my view to include a specific time frame in the Bill. Planning, arguably more than any other field, requires the longest term thinking. We know and accept that short-termism in planning will not deliver sustainable development and will lead, in fact, to poor decision making.

Mae gwelliant 4 yn rhoi dyletswydd ar y rheini sy'n datblygu'r fframwaith datblygu cenedlaethol i wneud hynny mewn modd sy'n ystyried y tymor hir mewn modd ystyrlon. Mae'r angen i ystyried materion mwy hirdymor eisoes wedi'i nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wrth gwrs. Er mwyn ystyried hyn yn ystyrlon wrth gynllunio, mae cynnwys amserlen benodol yn y Bil yn gwneud synnwyr yn fy marn i. Mae cynllunio, yn fwy nag unrhyw faes arall gellid dadlau, yn mynnu meddwl yn y modd mwyaf hirdymor. Rydym yn gwybod ac yn derbyn na fydd canolbwyntio ar y tymor byr ym maes cynllunio'n sicrhau datblygu cynaliadwy ac y bydd yn arwain, mewn gwirionedd, at wneud penderfyniadau gwael.

Now, the 100-year time frame referred to in our amendment hasn't just been picked out of thin air; there is a precedent. The city of Vancouver has developed a 100-year sustainability vision, which has received international plaudits. Operating under the themes of liveability, sustainability and resilience, this 100-year plan looks at likely scenarios, challenges and opportunities in the coming decades, allowing the city to develop more forward-thinking policy planning and to be a better, stronger advocate for regional, provincial and federal sustainability legislation. This long-range vision aims to guide the city towards carbon-neutral status by 2107, which is the city's two-hundredth anniversary. Now, that's the kind of culture change around real, long-term time frames that we need to embed into the planning system here in Wales, and our amendment will hopefully help achieve that.

Nawr, nid yw'r amserlen 100 mlynedd y cyfeirir ati yn ein gwelliant wedi cael ei chreu o ddim; mae cynsail iddi. Mae dinas Vancouver wedi datblygu gweledigaeth gynaliadwyedd 100 mlynedd, sydd wedi cael clod rhyngwladol. Gan weithredu o dan themâu lle da i fyw, cynaliadwyedd a chydnerthedd, mae'r cynllun 100 mlynedd hwn yn ystyried sefyllfaoedd, heriau a chyfleoedd tebygol yn y degawdau i ddod, sy'n caniatáu i'r ddinas ddatblygu ffyrdd mwy blaengar o gynllunio polisi a bod yn eiriolwr cryfach a gwell i ddeddfwriaeth cynaliadwyedd ranbarthol, taleithiol a ffederal. Nod y weledigaeth hirdymor hon yw arwain y ddinas tuag at statws carbon niwtral erbyn 2107, sef dau ganfed pen-blwydd y ddinas. Nawr, dyna'r math o newid diwylliant ynghylch amserlenni go iawn, hirdymor y mae angen inni ei ymgorffori yn y system gynllunio yma yng Nghymru, a gobeithio y bydd ein gwelliant yn helpu i gyflawni hynny.

Finally, amendment 5 places a duty to have regard to socioeconomic disadvantage in decision making. Structural inequality in our society means that some people are more likely to suffer discrimination and have less access to resources, depending on their race, socioeconomic status, disability, gender, sexuality, faith and other factors. These people are less likely to live in a clean and healthy environment, with the associated impacts that come with that. Now, the Equality and Human Rights Commission has suggested that these people are also underrepresented in local decision making, and I'm sure we'd all agree that any new planning tiers must work for the whole of our communities, and this amendment would enshrine that key principle in law.

Yn olaf, mae gwelliant 5 yn rhoi dyletswydd i ystyried anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau. Mae anghydraddoldeb strwythurol yn ein cymdeithas yn golygu bod rhai pobl yn fwy tebygol o ddioddef gwahaniaethu a bod llai o adnoddau ar gael iddynt, gan ddibynnu ar hil, statws economaidd-gymdeithasol, anabledd, rhyw, rhywioldeb, ffydd a ffactorau eraill. Mae'r bobl hyn yn llai tebygol o fyw mewn amgylchedd glân ac iach, gyda'r effeithiau cysylltiedig a ddaw yn sgil hynny. Nawr, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi awgrymu bod y bobl hyn hefyd yn cael eu tangynrychioli mewn penderfyniadau lleol, ac rwyf yn siŵr y byddem i gyd yn cytuno bod yn rhaid i unrhyw haenau cynllunio newydd weithio dros ein cymunedau cyfan, a byddai'r gwelliant hwn yn ymgorffori'r egwyddor allweddol honno yn y gyfraith.

15:49

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm pleased to move amendments 63 through to 68 in this particular group. The national development framework is, I believe, a sensible successor to the Wales spatial plan. However, what is important is that the Government have learned from the mistakes of the Wales spatial plan and that, in the development of the NDF, it allows the scrutiny process to be conducted in a manner that is full, independent and transparent so that we get a national plan that is fit for purpose. As the NDF will have full development plan status, the consequences of it not being produced correctly are very serious, because of the effect it will have downstream on the tiers of development planning that sit below it. Therefore, I firmly believe that we must go further than just to allow the Government to have regard to the views of the National Assembly on the NDF. I think we should allow the institution here the ability to determine and to conduct the examination process on its own terms within Standing Orders, with sufficient safeguards in place, and that it should formally approve the NDF by resolution. That is the purpose and intent and effect behind these amendments.

Rwyf yn falch o gynnig gwelliannau 63 i 68 yn y grŵp penodol hwn. Mae'r fframwaith datblygu cenedlaethol, yn fy marn i, yn olynydd synhwyrol i gynllun gofodol Cymru. Fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysig yw bod y Llywodraeth wedi dysgu o gamgymeriadau cynllun gofodol Cymru a'i bod, wrth ddatblygu'r fframwaith datblygu cenedlaethol, yn caniatáu i'r broses graffu gael ei chynnal yn llawn, yn annibynnol ac yn dryloyw er mwyn inni gael cynllun cenedlaethol sy'n addas at y diben. Bydd gan y fframwaith datblygu cenedlaethol statws cynllun datblygu llawn, ac felly mae canlyniadau peidio â'i wneud yn iawn yn ddifrifol iawn, oherwydd yr effaith a gaiff ymhellach i lawr y gadwyn ar yr haenau o gynllunio datblygu sydd islaw iddo. Felly, credaf yn gryf fod yn rhaid inni fynd ymhellach na dim ond caniatáu i'r Llywodraeth ystyried barn y Cynulliad Cenedlaethol ar y fframwaith datblygu cenedlaethol. Credaf y dylem ganiatáu i'r sefydliad yma bennu a chynnal y broses archwilio ar ei delerau ei hun o fewn y Rheolau Sefydlog, gyda digon o fesurau diogelu ar waith, ac y dylai gymeradwyo'r fframwaith datblygu cenedlaethol yn ffurfiol drwy benderfyniad. Dyna yw pwrpas, bwriad ac effaith y gwelliannau hyn.

Allowing the Assembly to comprehensively examine and formally sign off the NDF would rebalance some of the consolidated ministerial powers in this Bill and would give significant legitimacy to the whole NDF process. While we cannot support amendment 2, we will be supporting the other amendments in this group.

Byddai caniatáu i'r Cynulliad archwilio'r fframwaith datblygu cenedlaethol yn gynhwysfawr a'i gadarnhau'n ffurfiol yn ailfantoli rhai o'r pwerau gweinidogol cyfunol yn y Bil hwn yn ffurfiol ac yn rhoi cryn gyfreithlondeb i holl broses y fframwaith datblygu cenedlaethol. Er na allwn gefnogi gwelliant 2, byddwn yn cefnogi'r gwelliannau eraill yn y grŵp hwn.

15:51 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I speak to amendment 49 in this group, and we shall also be supporting all the other amendments in this particular group.

Siaradaf am welliant 49 yn y grŵp hwn, a byddwn hefyd yn cefnogi'r holl welliannau eraill yn y grŵp penodol hwn.

Throughout the development of this Bill, it's remained very important to the Welsh Liberal Democrats that due regard is given to marine plans, and, indeed, to transport planning arrangements across all levels of planning. Having established at the end of Stage 2 that the regulations that set out what local development plans have to have regard for would be updated to include both transport and marine planning, it remains important to us to ensure that the requirements for strategic development plans, and indeed for the national development framework, are just as explicit. This particular amendment relates, obviously, to the national development framework, and I hope that this amendment can receive the support of Members today.

Drwy gydol datblygiad y Bil hwn, mae bob amser wedi bod yn bwysig iawn i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru fod sylw dyledus yn cael ei roi i gynlluniau morol, ac, yn wir, i drefniadau cynllunio trafnidiaeth ar draws pob lefel o gynllunio. Ar ôl pennu ar ddiwedd Cyfnod 2 y byddai'r rheoliadau sy'n nodi'r hyn y mae'n rhaid i gynlluniau datblygu lleol ei ystyried yn cael eu diweddaru i gynnwys trafnidiaeth a chynllunio morol, mae'n dal i fod yn bwysig inni ein bod yn sicrhau bod y gofynion ar gyfer cynlluniau datblygu strategol, ac yn wir ar gyfer y fframwaith datblygu cenedlaethol, yr un mor eglur. Mae'r gwelliant penodol hwn yn ymwneud, yn amlwg, â'r fframwaith datblygu cenedlaethol, ac rwyf yn gobeithio y caiff y gwelliant hwn gefnogaeth yr Aelodau heddiw.

I support the aims and intentions of amendment 2, to introduce a proper examination procedure for the NDF, thereby protecting public participation, and, indeed, that vital accountability also for the framework. I do, however, believe that the other amendments in this group would significantly strengthen the NDF, and will therefore be supporting those amendments, as I said earlier.

Rwyf yn cefnogi nodau a bwriadau gwelliant 2, i gyflwyno gweithdrefn archwilio briodol ar gyfer y fframwaith datblygu cenedlaethol, a thrwy hynny ddiogelu cyfranogiad y cyhoedd, ac, yn wir, yr atebolrwydd hanfodol hwnnw hefyd i'r fframwaith. Credaf, fodd bynnag, y byddai'r gwelliannau eraill yn y grŵp hwn yn cryfhau'r fframwaith datblygu cenedlaethol yn sylweddol, ac felly byddaf yn cefnogi'r gwelliannau hynny, fel y dywedais yn gynharach.

Llyr Gruffydd's amendments relating to the extraction of unconventional gas, contributions to climate-change reduction targets and adaptation, socio-economic disadvantage—these are some of the key issues facing our society today, and for these to be incorporated into the planning system could only be a good thing, and so, again, amendments 3, 81, 4 and 5 have our full backing and support.

Mae gwelliannau Llyr Gruffydd sy'n ymwneud ag echdynnu nwy anghonfensiynol, cyfraniadau at dargedau lleihau newid yn yr hinsawdd ac addasu, anfantais economaidd-gymdeithasol—mae'r rhain ymysg y prif faterion sy'n wynebu ein cymdeithas heddiw, a byddai'n bendant yn beth da i'r rhain gael eu hymgorffori yn y system gynllunio, ac felly, unwaith eto, rhown ein cymeradwyaeth a'n cefnogaeth lawn i welliannau 3, 81, 4 a 5.

Amendments 63 to 68 add an important element of independence to the way that the NDF is examined and it seems right that this is conducted at National Assembly level rather than by Welsh Ministers, and we shall be voting accordingly for these amendments. Diolch yn fawr.

Mae gwelliannau 63 i 68 yn ychwanegu elfen bwysig o annibyniaeth i'r ffordd y caiff y fframwaith datblygu cenedlaethol ei archwilio ac mae'n ymddangos yn briodol bod hyn yn cael ei wneud ar lefel y Cynulliad Cenedlaethol yn hytrach na gan Weinidogion Cymru, a byddwn yn pleidleisio yn unol â hynny o blaid y gwelliannau hyn. Diolch yn fawr.

15:53 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd ask the Members to support amendment 49 tabled in the name of William Powell. This amendment seeks to address the views expressed by the committee during Stage 2 to require the national development framework to have regard to any marine plans, and Wales's transport strategy, published by the Welsh Ministers. I welcome the contribution from Members during that stage.

Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi gwelliant 49 a gyflwynwyd yn enw William Powell. Mae'r gwelliant hwn yn ceisio ymdrin â'r farn a fynegodd y pwyllgor yn ystod Cyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i'r fframwaith datblygu cenedlaethol ystyried unrhyw gynlluniau morol, a strategaeth trafnidiaeth Cymru, a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Rwyf yn croesawu'r cyfraniad gan yr Aelodau yn ystod y cyfnod hwnnw.

I ask Members not to support the non-Government amendments 2 and 4 tabled by Llyr Gruffydd, and 63 to 68 tabled by Russell George. My view is that they seek to undermine the policy objective of the Bill by significantly altering the way that the national development framework will be scrutinised by this Assembly, which, I believe, has primacy.

Gofynnaf i'r Aelodau beidio â chefnogi gwelliannau 2 a 4 nad ydynt yn rhai'r Llywodraeth, a gyflwynwyd gan Llyr Gruffydd, a 63 i 68 a gyflwynwyd gan Russell George. Yn fy marn i maent yn ceisio tanseilio amcan polisi'r Bil drwy newid yn sylweddol y ffordd y bydd y Cynulliad hwn yn craffu ar y fframwaith datblygu cenedlaethol, sydd, yn fy marn i, yn bwysicach.

Amendment 4 would require policies and the designation of developments of national significance to be considered by Welsh Ministers over a 100-year time frame. I looked at this very carefully, you'll remember—raised it at the Stage 2 debate—a very interesting proposal, particularly the one in Vancouver, but I would ask Members to consider the issue that we recently passed the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, which I believe is the appropriate legislation in relation to this long-term view, and therefore it's unnecessary to legislate for this again in a separate Bill.

Byddai gwelliant 4 yn mynnu bod Gweinidogion Cymru'n ystyried polisïau a dynodiadau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol dros gyfnod o 100 mlynedd. Edrychais ar hyn yn ofalus iawn, byddwch yn cofio—fe'i codais yn y ddadl Cam 2—cynnig diddorol iawn, yn enwedig yr un yn Vancouver, ond byddwn yn gofyn i'r Aelodau ystyried y ffaith ein bod newydd basio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef y ddeddfwriaeth briodol yn fy marn i ar gyfer y safbwynt hirdymor hwn, ac felly nid oes angen deddfu ar gyfer hyn eto mewn Bil ar wahân.

I'd ask Members not to support amendment 3 tabled by Llyr Gruffydd. Again, regarding issues around planning policy, Members know I've introduced other means to control fracking through a notification direction. I'm sure that the Member isn't trying to undermine any direction notice issued by this Government, but we have to be making sure that any legislation or policy guidance that we do issue is very clear, and I think that this amendment would just set to confuse members of the public and interested parties around fracking. We have got a very, very clear statement on fracking and the position of this Welsh Government.

Byddwn yn gofyn i'r Aelodau beidio â chefnogi gwelliant 3 a gyflwynwyd gan Llyr Gruffydd. Unwaith eto, ynghylch materion sy'n ymwneud â pholisi cynllunio, gŵyr yr Aelodau fy mod wedi cyflwyno dulliau eraill o reoli ffracio drwy gyfarwyddyd hysbysu. Rwyf yn siŵr nad yw'r Aelod yn ceisio tanseilio unrhyw hysbysiad cyfarwyddyd a roddwyd gan y Llywodraeth hon, ond mae'n rhaid inni wneud yn siŵr bod unrhyw ddeddfwriaeth neu ganllawiau polisi a gyhoeddwn yn glir iawn, ac rwyf yn meddwl mai'r oll y byddai'r gwelliant hwn yn ei wneud fyddai drysu aelodau o'r cyhoedd a charfanau sydd â diddordeb ynglŷn â ffracio. Rydym wedi cael datganiad clir iawn, iawn am ffracio a safbwynt y Llywodraeth hon yng Nghymru.

I ask Members to support amendment 49 tabled by William Powell, and not support the other amendments in this group.

Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi gwelliant 49 a gyflwynwyd gan William Powell, a pheidio â chefnogi'r gwelliannau eraill yn y grŵp hwn.

15:55

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And Llyr Gruffydd to reply.

A Llyr Gruffydd i ymateb.

15:55

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Well, if anything's confused people about fracking, I fear it's the recent Government statement, but we've been there before and we won't go there again, and I'll ask Members to support that amendment.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Wel, os oes rhywbeth wedi drysu pobl ynglŷn â ffracio, rwyf yn ofni mai datganiad diweddar y Llywodraeth oedd hwnnw, ond rydym wedi bod yn y fan honno o'r blaen ac nid awn yno eto, a byddaf yn gofyn i'r Aelodau gefnogi'r gwelliant hwnnw.

I don't think there's any reason to believe that the Welsh Government wouldn't be able to produce the NDF correctly, actually, and there would be implications I think of passing that whole process over to the National Assembly in relation to setting a precedent for other processes maybe. But the key thing here, I think, is that the National Assembly for Wales does have the final say, and that it does come here to be adopted as a national development framework for Wales, because it will be a strategic document with huge implications for all of the country.

Nid wyf yn credu bod dim rheswm i gredu na fyddai Llywodraeth Cymru'n gallu cynhyrchu'r fframwaith datblygu cenedlaethol yn gywir, mewn gwirionedd, ac rwyf yn meddwl y byddai goblygiadau i basio'r holl broses honno i'r Cynulliad Cenedlaethol o ran gosod cynsail ar gyfer prosesau eraill efallai. Ond yr hyn sy'n allweddol yma, yn fy marn i, yw mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n cael y gair olaf, a'i fod yn dod yma i gael ei fabwysiadu fel fframwaith datblygu cenedlaethol i Gymru, oherwydd bydd yn ddogfen strategol â goblygiadau enfawr i'r wlad gyfan.

I'd certainly endorse the comments, and we'll be voting accordingly, regarding the transport and marine plans. I think it's quite right that we do have closer integration between those plans as well. And there is sometimes I think now an emerging danger that the Well-being of Future Generations (Wales) Bill becomes some reason for not doing things, because it's in the Well-being of Future Generations Act—Act, I should say, not Bill. We all want a healthier, wealthier, greener Wales et cetera, and, really, if we're using that Bill as a reason not to include important considerations in other pieces of legislation, then I fear that maybe, in our efforts to achieve a lot, the danger is that we actually end up achieving very little. But I would urge Members to support our amendments.

Byddwn yn sicr yn cymeradwyo'r sylwadau, a byddwn yn pleidleisio'n unol â hynny, ynghylch y cynlluniau morol a thrafnidiaeth. Credaf ei bod yn hollol iawn fod integreiddio agosach yn digwydd rhwng y cynlluniau hynny hefyd. Ac weithiau yn awr, credaf fod perygl yn codi bod Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn dod yn rheswm dros beidio â gwneud pethau, oherwydd eu bod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol—Deddf, dylwn ddweud, nid Bil. Rydym am gael Cymru iachach, gyfoethocach, fwy gwyrdd ac ati, ac, yn wir, os ydym yn defnyddio'r Bil hwnnw fel rheswm i beidio â chynnwys ystyriaethau pwysig mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth, yna rwyf yn ofni mai'r perygl, efallai, wrth inni geisio cyflawni llawer, yw mai ychydig iawn y gwnawn ei gyflawni yn y pen draw mewn gwirionedd. Ond byddwn yn annog yr Aelodau i gefnogi ein gwelliannau.

15:56

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 2 is agreed, amendments 3, 81, 4, 49, 5, 63, 64, 65, 66, 67 and 68 fall. The question is that amendment 2 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 11. There voted against 30. Therefore, amendment 2 is not agreed.

Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliannau 3, 81, 4, 49, 5, 63, 64, 65, 66, 67 a 68 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 11 o blaid. Pleidleisiodd 30 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 2 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 2: O blaid 11, Yn erbyn 30, Ymatal 0.*

*Amendment 2 not agreed: For 11, Against 30, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2

Result of the vote on amendment 2

15:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 3.

Llyr Gruffydd, gwelliant 3.

*Cynigiwyd gwelliant 3 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 3 (Llyr Gruffydd) moved.*

15:57

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

15:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 3 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 3 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 3 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 3: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 3 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3

Result of the vote on amendment 3

15:58

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 81.

Llyr Gruffydd, gwelliant 81.

*Cynigiwyd gwelliant 81 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 81 (Llyr Gruffydd) moved.*

15:58

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

15:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 81 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 81 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 81. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 81 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 81: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 81 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 81

Result of the vote on amendment 81

15:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 4.

Llyr Gruffydd, gwelliant 4.

*Cynigiwyd gwelliant 4 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 4 (Llyr Gruffydd) moved.*

15:58 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

15:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 4 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 19. There voted against 21. Therefore, amendment 4 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 19 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 4 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 4: O blaid 19, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 4 not agreed: For 19, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4

Result of the vote on amendment 4

15:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

William Powell, amendment 49.

William Powell, gwelliant 49.

*Cynigiwyd gwelliant 49 (William Powell).*

*Amendment 49 (William Powell) moved.*

15:59 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

15:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 49 be agreed. Does any Member object? No. Then amendment 49 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 49. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nac oes. Felly mae gwelliant 49 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 49 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 49 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 5.

Llyr Gruffydd, gwelliant 5.

*Cynigiwyd gwelliant 5 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 5 (Llyr Gruffydd) moved.*

15:59 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

15:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 5 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 5 is not agreed.

Y cwestiwn a ddylid derbyn gwelliant 5. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 5 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 5: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 5 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5

Result of the vote on amendment 5

15:59 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Russell George, amendment 63.

Russell George, gwelliant 63.

*Cynigiwyd gwelliant 63 (Russell George).*

*Amendment 63 (Russell George) moved.*

15:59 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

15:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 63 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 63 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 63. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 63 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 63: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 63 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 63

Result of the vote on amendment 63

16:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Russell George, amendment 64.

Russell George, gwelliant 64.

*Cynigiwyd gwelliant 64 (Russell George).*

*Amendment 64 (Russell George) moved.*

16:00 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 64 is not agreed, amendment 65 falls. The question is that amendment 64 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 12. There voted against 29. Therefore, amendment 64 is not agreed and 65 falls.

Os na chaiff gwelliant 64 ei dderbyn, bydd gwelliant 65 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 64. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 12 o blaid. Pleidleisiodd 29 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 64 wedi'i dderbyn ac mae 65 yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 64: O blaid 12, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment 64 not agreed: For 12, Against 29, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 64

Result of the vote on amendment 64

*Methodd gwelliant 65.* | *Amendment 65 fell.*

16:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Russell George, amendment 66. | Russell George, gwelliant 66.

*Cynigiwyd gwelliant 66 (Russell George).* | *Amendment 66 (Russell George) moved.*

16:00 **Russell George** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move. | Cynnig.

16:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 66 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 66 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 66. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 66 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 66: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.* | *Amendment 66 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 66 | Result of the vote on amendment 66

16:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Russell George, amendment 67. | Russell George, gwelliant 67.

*Cynigiwyd gwelliant 67 (Russell George).* | *Amendment 67 (Russell George) moved.*

16:01 **Russell George** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move. | Cynnig.

16:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 67 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 67 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 67. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 67 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 67: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.* | *Amendment 67 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 67 | Result of the vote on amendment 67

16:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Russell George, amendment 68. | Russell George, gwelliant 68.

*Cynigiwyd gwelliant 68 (Russell George).* | *Amendment 68 (Russell George) moved.*

16:01 **Russell George** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move. | Cynnig.

16:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 68 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close vote. There voted in favour 12. There voted against 29. Therefore, amendment 68 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 68. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 12 o blaid. Pleidleisiodd 29 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 68 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 68: O blaid 12, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment 68 not agreed: For 12, Against 29, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 68

Result of the vote on amendment 68

## Grŵp 4: Cynllunio Strategol (Gwelliannau 69, 6, 7, 29, 30, 8, 9, 50, 51, 82 a 52)

## Group 4: Strategic Planning (Amendments 69, 6, 7, 29, 30, 8, 9, 50, 51, 82 and 52)

16:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to group 4. This group of amendments relates to strategic planning. The lead amendment in this group is amendment 69. I call on Russell George to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Symudwn yn awr at grŵp 4. Mae'r grŵp hwn o welliannau'n ymwneud â chynllunio strategol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 69. Galwaf ar Russell George i gynnig y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp ac i siarad amdanynt.

*Cynigiwyd gwelliant 69 (Russell George).*

*Amendment 69 (Russell George) moved.*

16:02 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move amendment 69, the lead amendment in this group. The rationale behind this amendment directly links to amendments 6, 8 and 9, tabled by Llyr and our desire to simplify Part 2 of the Bill. Concerns have been raised about the complexity of the proposed new arrangements for development planning and that the Bill, as drafted, is too top-down in structure. There is very much a perception in Welsh civic society, which the Minister cannot or will not see, that local democracy would be compromised by the new architecture and that that would make it even more difficult to achieve community engagement in the planning system. The arguments for a national development framework are robust. However, what are not compelling to me are the arguments for the proposed tiers that sit underneath it, largely the introduction of a new strategic development plan level. In my opinion, this is introducing a complex and totally unnecessary level of development management. I'm sure that Llyr, the Plaid spokesperson, will flesh out that argument when he comes to move his own amendments. Therefore, my proposal with amendment 69 is to effectively replace the SDP tier with a statutory duty to co-operate. One of the key points raised by the independent advisory group in its report was that, to improve and enhance the way that statutory consultees interact with the planning system, the Welsh Government should enter into an arrangement with them, and, by placing a duty on stakeholders in this way to contribute positively to the efficient and effective functioning of the system, I think that it achieves the IAG objective. It also contributes to one of the Government's desired outcomes, which is to enable a positive cultural step change across the entire planning system.

Diolch, Ddirprwy Lywydd: Cynigiaf welliant 69, y prif welliant yn y grŵp hwn. Mae'r rhesymeg sy'n sail i'r gwelliant hwn yn cysylltu'n uniongyrchol â gwelliannau 6, 8 a 9, a gyflwynwyd gan Llyr a'n hawydd i symleiddio Rhan 2 y Bil. Codwyd pryderon ynghylch cymhlethdod y trefniadau newydd arfaethedig ar gyfer cynllunio datblygiad a bod strwythur y Bil, fel y'i drafftiwyd, yn ormodol ar ffurf o'r brig i lawr. Mae'n sicr bod tybiaeth yng nghymdeithas ddinesig Cymru, na all neu na wnaiff y Gweinidog ei weld, y byddai democratiaeth leol yn cael ei pheryglu gan y bensaernïaeth newydd ac y byddai hynny'n ei gwneud yn fwy anodd fyth i sicrhau ymgysylltiad cymunedol yn y system gynllunio. Mae'r dadleuon dros fframwaith datblygu cenedlaethol yn gadarn. Fodd bynnag, yr hyn nad yw'n fy argyhoeddi i yw'r dadleuon dros yr haenau arfaethedig sy'n eistedd oddi tano, a chyflwyno lefel cynllun datblygu strategol newydd yn bennaf. Yn fy marn i, mae hyn yn cyflwyno lefel gymhleth a chwbl ddiangen o reoli datblygiad. Rwy'n siŵr y bydd Llyr, llefarydd Plaid Cymru, yn rhoi cnawd ar esgyrn y ddadl honno pan ddaw i symud ei welliannau ei hun. Felly, fy nghynnig i o ran gwelliant 69 yw disodli'r haen Cynllun Datblygu Strategol i bob pwrpas, a chael dyletswydd statudol i gydweithredu yn hytrach. Un o'r pwyntiau allweddol a godwyd gan y grŵp cynghori annibynnol yn ei adroddiad oedd, er mwyn gwella'r ffordd y mae ymgyngoreion statudol yn rhyngweithio â'r system gynllunio, y dylai Llywodraeth Cymru ddod i drefniant â nhw, a, thrwy ei gwneud yn ddyletswydd ar randdeiliaid yn y ffordd hon i gyfrannu'n gadarnhaol at weithrediad effeithlon ac effeithiol y system, rwy'n credu bod hyn yn bodloni amcan y Grŵp Cynghori Annibynnol. Mae hefyd yn cyfrannu at un o ganlyniadau dymunol y Llywodraeth, sef galluogi newid diwylliannol cadarnhaol a sylweddol ar draws y system gynllunio gyfan.

16:04 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendments 6, 7, 8, 9, 29, 30 and 82. We'll be supporting all the amendments in this group, because I believe that we should take out of the Bill the whole tier of strategic development plans. Now, I recognise the need for regional planning. There's no question of the importance of ensuring that that, of course, happens effectively, but creating a whole new statutory layer of development planning and a whole new tier of bureaucracy to go with it is unnecessary, in my view, and goes completely against the grain of bringing decision making closer to the people. Given also the ongoing broader debate around creating larger authorities in Wales, I'd argue that this is unnecessary or, at the very least, premature, and that creating a new tier of regional planning is unnecessary. Local government reorganisation will, no doubt, create much larger authorities. Bigger planning authorities will mean local development plans will inevitably become more regional and strategic in nature. Allowing joint plans between two or three new larger authorities and enforcing a duty to co-operate is preferable to creating a whole new layer of development plans, in my view, and that's why we will be supporting amendment 69, to insert a new section on the duty to co-operate.

Cynigiaf welliannau 6, 7, 8, 9, 29, 30 ac 82. Byddwn yn cefnogi'r holl welliannau yn y grŵp hwn, gan fy mod i'n credu y dylem ni gymryd yr haen gyfan o gynlluniau datblygiad strategol allan o'r Bil. Nawr, rwy'n cydnabod yr angen am gynllunio rhanbarthol. Nid oes unrhyw amheuaeth am bwysigrwydd sicrhau bod hynny, wrth gwrs, yn digwydd yn effeithiol, ond mae creu haen statudol newydd gyfan o gynllunio datblygiad a haen newydd gyfan o fiwrocratiaeth i fynd gydag ef yn ddiangen, yn fy marn i, ac yn mynd yn gwbl groes i'r graen o ddod â'r broses o wneud penderfyniadau'n agosach at y bobl. O gofio hefyd y drafodaeth barhaus ehangach ynghylch creu awdurdodau mwy yng Nghymru, byddwn i'n dadlau bod hyn yn ddiangen neu, o leiaf, cyn pryd, a bod creu haen newydd o gynllunio rhanbarthol yn ddiangen. Bydd ad-drefnu llywodraeth leol, heb amheuaeth, yn creu awdurdodau llawer mwy. Bydd awdurdodau cynllunio mwy yn golygu ei bod yn anochel y bydd cynlluniau datblygu lleol yn troi'n fwy rhanbarthol a strategol eu natur. Mae caniatáu cynlluniau ar y cyd rhwng dau neu dri o awdurdodau newydd mwy a gorfodi dyletswydd i gydweithredu yn well na chreu haen gyfan newydd o gynlluniau datblygu, yn fy marn i, a dyna pam y byddwn ni'n cefnogi gwelliant 69, i fewnosod adran newydd ar y ddyletswydd i gydweithredu.

I would, therefore, urge Members to back amendment 6, which would delete section 3 of the Bill, which gives Ministers the power to create strategic development plans. My preference then, of course, is to remove SDPs, but if they are to remain, then there must be changes. My amendments later on, for example, seek to remove all references to nominated unelected members being on the strategic planning panels. Taking decisions further up the chain away from communities is one thing, but taking decisions away from democratically elected and accountable representatives, in my view, is another.

Rwyf, felly, yn annog yr Aelodau i gefnogi gwelliant 6, a fyddai'n dileu adran 3 y Bil, sy'n rhoi'r grym i Weinidogion greu cynlluniau datblygu strategol. Fy newis i felly, wrth gwrs, yw cael gwared ar Gynlluniau Datblygu Strategol, ond os ydynt i aros, yna mae'n rhaid gwneud newidiadau. Nod fy ngwelliannau i yn ddiweddarach, er enghraifft, yw ceisio symud yr holl gyfeiriadau at bresenoldeb aelodau anetholedig a enwebwyd ar y paneli cynllunio strategol. Mae cymryd penderfyniadau ymhellach i fyny'r gadwyn oddi wrth gymunedau yn un peth, ond mae cymryd penderfyniadau oddi wrth gynrychiolwyr atebol a etholwyd yn ddemocrataidd yn rhywbeth arall, yn fy marn i.

Whilst I welcome the fact that the Minister has conceded on one of our demands in terms of voting rights, these unelected individuals could and would still have great influence on decision making, whilst, no doubt, also having considerable vested interests as well.

Er fy mod yn croesawu'r ffaith fod y Gweinidog wedi cydsynio ar un o'n gofynion o ran hawliau pleidleisio, gallai a byddai'r unigolion anetholedig hyn yn dal i gael dylanwad mawr ar y broses o wneud penderfyniadau, er, heb amheuaeth, y byddai ganddyn nhw fuddiannau personol sylweddol hefyd.

So, I've also tabled amendments that seek to reduce the influence of these unelected, unaccountable nominees through increasing the proportion of local planning authority members and giving communities a greater say.

Felly, rwyf hefyd wedi cyflwyno diwygiadau sy'n ceisio lleihau dylanwad yr enwebeion na etholwyd, anatebol hyn trwy gynyddu cyfran yr aelodau awdurdod cynllunio lleol a rhoi mwy o lais i gymunedau.

Amendment 7 will ensure communities and people important to those communities have a say in the process of creating SDPs. Amendment 29 refers specifically to giving community councils a greater say and ensures consultation with them on the SDPs. Amendments 30, 8 and 9 are consequential amendments. Amendment 82 again references the need to tackle climate change—a point I made earlier—but this time in the context, specifically, of strategic development plans. So, I very much hope that the Assembly will support my main amendment—amendment 6—to protect communities against this transfer of power away from democratically accountable bodies. If not, then at the very least, please support Plaid Cymru's efforts to limit that transfer.

Bydd gwelliant 7 yn sicrhau bod gan gymunedau a phobl sy'n bwysig i'r cymunedau hynny lais yn y broses o greu Cynllun Datblygu Strategol. Mae gwelliant 29 yn cyfeirio'n benodol at roi mwy o lais i gynghorau cymuned ac yn sicrhau ymgynghori â nhw ar y Cynlluniau Datblygu Strategol. Gwelliannau canlyniadol yw gwelliannau 30, 8 a 9. Mae gwelliant 82 yn cyfeirio unwaith eto at yr angen i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd—pwynt a wneuthum yn gynharach—ond yng nghyd-destun y tro hwn, yn benodol, cynlluniau datblygu strategol. Felly, rwy'n gobeithio'n fawr iawn y bydd y Cynulliad yn cefnogi fy mhrif welliant—gwelliant 6—i amddiffyn cymunedau rhag y trosglwyddiad hwn o rym oddi wrth gyrff sy'n atebol yn ddemocrataidd. Os na, yna cefnogwch os gwelwch yn dda ymdrechion Plaid Cymru i gyfyngu ar y trosglwyddiad hwnnw o leiaf.

16:07

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I speak to and move amendments 50, 51 and 52. These are around the duty to have regard to both the marine plan and also local transport planning when preparing and revising strategic development plans. The purpose of the amendments is to amend the new section 601 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004, which is inserted by section 5 of the Bill. Their effect is to add to the list of matters to which a strategic planning panel must have regard when preparing a strategic development plan. The amendments will require a strategic planning panel to take into account actively any local transport plan for the whole or, indeed, part of its area and also any marine plan that has been published by the Welsh Ministers under Part 3 of the Marine and Coastal Access Act 2009. Whilst I recognise that subsection (6)(f) of the section would provide Welsh Ministers with the power to provide for these matters to be included in secondary legislation, in our view, this should be on the face of the Bill.

Rwy'n siarad am ac yn cynnig gwelliannau 50, 51 a 52. Mae'r rhain yn ymwneud â'r ddyletswydd i roi sylw i'r cynllun morol yn ogystal â chynllunio trafnidiaeth lleol wrth baratoi a diwygio cynlluniau datblygu strategol. Diben y gwelliannau yw gwella adran newydd 601 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a fewnosodir gan adran 5 y Bil. Eu heffaith yw ychwanegu at y rhestr o faterion y mae'n rhaid i banel cynllunio strategol roi sylw iddynt wrth baratoi cynllun datblygu strategol. Bydd y gwelliannau'n ei gwneud yn ofynnol i banel cynllunio strategol roi ystyriaeth ymarferol i unrhyw gynllun trafnidiaeth lleol ar gyfer ei holl ardal, neu, yn wir, ran ohoni, a hefyd unrhyw gynllun morol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru dan Ran 3 Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Er fy mod i'n cydnabod y byddai isadran (6)(f) yr adran yn rhoi'r grym i Weinidogion Cymru ddarparu i'r materion hyn gael eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth, yn ein barn ni, dylai hyn fod ar wyneb y Bil.

The committee recommended a statutory link for SDPs and transport/marine planning arrangements at a regional level. Although the Minister has said that this will be dealt with in secondary legislation, given that the regional transport consortia have recently been disbanded by the Welsh Government and that the link between transport and land use planning at the regional level is, arguably, more important than at the national or local level, it is our contention that there is merit in having these references clearly established on the face of the Bill.

Argymhellodd y pwyllgor gyswllt statudol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a threfniadau cynllunio trafnidiaeth/morol ar lefel rhanbarthol. Er bod y Gweinidog wedi dweud y bydd hyn yn cael sylw mewn is-ddeddfwriaeth, o gofio bod y consortia trafnidiaeth rhanbarthol wedi cael eu diddymu'n ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ac y gellid dadlau bod y cyswllt rhwng trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir ar lefel ranbarthol, yn bwysicach nag ar lefel genedlaethol neu leol, ein honiad ni yw bod rhinwedd mewn cael y cyfeiriadau hyn wedi'u sefydlu'n eglur ar wyneb y Bil.

The suite of amendments that I've tabled on transport and marine planning at Stage 2 and here again at Stage 3 ensure that transport planning arrangements are linked clearly to the national development framework, strategic development plans, and indeed, at local development plan level. They also ensure that both marine and terrestrial planning is closely aligned and that plan makers and Welsh Ministers have due regard for the interrelationships—and these are very important—between these two environments.

Mae'r gyfres o welliannau yr wyf i wedi eu cyflwyno ar gynllunio trafnidiaeth a chynllunio morol yng Nghyfnod 2 ac yma eto yng Nghyfnod 3 yn sicrhau bod trefniadau cynllunio trafnidiaeth wedi'u cysylltu'n eglur â'r fframwaith datblygu cenedlaethol, cynlluniau datblygu strategol, ac yn wir, ar lefel cynllun datblygu lleol. Maen nhw hefyd yn sicrhau bod cynllunio ar y môr a'r tir yn cyd-fynd yn agos â'i gilydd a bod llunwyr cynlluniau a Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw dyledus i'r cydberthnasau—ac mae'r rhain yn bwysig iawn—rhwng y ddau amgylchedd hyn.

Speaking to the other amendments in this group, I think that it is, at this point, too late in the progress of this Bill to remove entirely the strategic development plan tier. We will, therefore, not be supporting amendment 69. However, it is our intention to support the other amendments in this group, basically because they provide the additional safeguards to which Llyr Gruffydd referred in his remarks, minimising the conflict between private and public interests and giving community councils a greater say, which is something for which I've constantly argued. That will make the strategic development boards, in my view and the view of my group, all the stronger.

Wrth siarad am y gwelliannau eraill yn y grŵp hwn, rwy'n meddwl, ar hyn o bryd, ei bod yn rhy hwyr yn natblygiad y Bil hwn i gael gwared ar yr haen cynllun datblygu strategol yn llwyr. Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 69 felly. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu cefnogi'r gwelliannau eraill yn y grŵp hwn, yn y bôn oherwydd eu bod yn darparu'r amddiffyniad ychwanegol y cyfeiriodd Llyr Gruffydd ato yn ei sylwadau, gan sicrhau bod y gwrthdaro rhwng buddiannau preifat a chyhoeddus cyn lleied â phosibl a rhoi mwy o lais i gynghorau cymuned, sy'n rhywbeth yr wyf wedi dadlau drosto'n gyson. Bydd hynny'n gwneud y byrddau datblygu strategol, yn fy marn i a barn fy ngrŵp, yn gryfach fyth.

16:10

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'd like to speak to the amendments in this group. We will not be seeking to support any amendments in this group—group 4. The non-Government amendments 50, 52 and 69 tabled by William Powell and amendments 6, 9, 29, 30 and 82 tabled by Llyr Gruffydd undermine the policy objectives of the Bill. This is a slight sense of irony, as at Stage 1 the committee fully supported these principles in the report, and the views of the RTPI proposals were also supportive of that. While through the passage of the Bill there was a lot of discussion around this particular element of strategic planning panels, I think we just have to agree to disagree. The fact is: I do not accept that the issue around decision making is being compromised by elected members at all. There will be elected members on the panel, and these will be strategic planning areas with a regional approach to planning, which many Members in this Chamber have asked for in the past. So, there is a bit of a mixed message here. We are consistent in this process, and we will not be seeking to support any amendments in this group.

Hoffwn siarad am y gwelliannau yn y grŵp hwn. Ni fyddwn yn dymuno cefnogi unrhyw welliannau yn y grŵp hwn—grŵp 4. Mae gwelliannau anllywodraethol 50, 52 a 69 a gyflwynwyd gan William Powell a gwelliannau 6, 9, 29, 30 ac 82 a gyflwynwyd gan Llyr Gruffydd yn tanseilio amcanion polisi'r Bil. Mae rhyw fymryn o eironi'n gysylltiedig â hyn, gan fod y pwyllgor wedi cefnogi'r egwyddorion hyn yn llawn yn yr adroddiad yng Ngham 1, ac roedd barn y cynigion RTPI hefyd yn cefnogi hynny. Er y bu llawer o drafodaeth o'r elfen benodol o baneli cynllunio strategol yn ystod datblygiad y Bil, rwy'n credu bod yn rhaid i ni gytuno i anghytuno. Y ffaith yw: Nid wyf yn derbyn bod y mater ynghylch gwneud penderfyniadau'n cael ei beryglu gan aelodau etholedig o gwbl. Bydd aelodau etholedig ar y panel, a bydd y rhain yn feysydd cynllunio strategol gyda dull rhanbarthol o gynllunio, y mae llawer o Aelodau yn y Siambr hon wedi gofyn amdano yn y gorffennol. Felly, ceir dipyn o neges gymysg yma. Rydym ni'n gyson yn y broses hon, ac ni fyddwn yn dymuno cefnogi unrhyw welliannau yn y grŵp hwn.

16:11

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

And Russell George to reply.

A Russell George i ymateb.

16:11

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I do agree with the Minister that we will have to agree to disagree. I think it was clear from a significant proportion of both the oral and written evidence that we received at Stage 1 that there were real and legitimate concerns regarding the design of the development plan architecture, as proposed in the Bill as introduced. The SDP, in effect, is just another attempt, I believe, to remove decision making from local people. It takes localism, and that accountability, that input and that buy-in away from local people. Llyr made the point with regard to reforms that are potentially coming through, in any case, in relation to the Williams commission and, again, in relation to the long-term implementation of the future generations Act. It sends out the wrong message, I believe, to take that buy-in away from local communities, and the ability to feed into the process.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf yn cytuno â'r Gweinidog y bydd yn rhaid i ni gytuno i anghytuno. Rwy'n credu ei bod yn amlwg o gyfran sylweddol o dystiolaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig a dderbyniwyd gennym yng Nghyfnod 1 bod pryderon gwirioneddol a dilys am ddyluniad pensaernïaeth y cynllun datblygu, fel y'i cynigir yn y Bil fel y'i cyflwynwyd. I bob pwrpas, dim ond ymgais arall yw'r Cynllun Datblygu Strategol, yn fy marn i, i dynnu'r broses o wneud penderfyniadau oddi wrth bobl leol. Mae'n cymryd lleoliaeth, a'r atebolrwydd hwnnw, y mewnbwn yna a'r gefnogaeth yna oddi wrth bobl leol. Gwnaeth Llyr y pwynt am ddiwygiadau sydd o bosibl ar eu ffordd, beth bynnag, o ran comisiwn Williams ac, unwaith eto, o ran gweithrediad hirdymor Deddf cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n cyfleu'r neges anghywir, rwy'n credu, i gymryd y gefnogaeth honno oddi wrth gymunedau lleol, a'r gallu i gyfrannu at y broses.

I would urge Members to support, in particular, amendment 69 and amendments 6, 8 and 9, because all of us have spoken about creating a new planning system that is less complex and more responsive to local need. Backing these amendments will deliver that objective.

Byddwn yn annog yr Aelodau i gefnogi, yn benodol, gwelliant 69 a gwelliannau 6, 8 a 9, gan fod pob un ohonom ni wedi siarad am greu system gynllunio newydd sy'n llai cymhleth ac yn fwy ymatebol i anghenion lleol. Bydd cefnogi'r gwelliannau hyn yn bodloni'r amcan hwnnw.

16:13

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 69 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 17. There voted against 24. Therefore, amendment 69 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 69 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Mi gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 17 o blaid. Pleidleisiodd 24 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 69 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 69: O blaid 17, Yn erbyn 24, Ymatal 0.*

*Amendment 69 not agreed: For 17, Against 24, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 69](#)

[Result of the vote on amendment 69](#)

16:13

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Llyr Gruffydd, amendment 6.

Llyr Gruffydd, gwelliant 6.

*Cynigiwyd gwelliant 6 (Llyr Gruffydd, gyda chefnogaeth Russell George).*

*Amendment 6 (Llyr Gruffydd, supported by Russell George) moved.*

16:13

### Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Cynnig.

Move.

16:13

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

If amendment 6 is agreed, amendments 7, 29 and 30 fall. The question is that amendment 6 be agreed. Does any Member object? [Objection.] An electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 6 is not agreed.

Os derbynnir gwelliant 6, bydd gwelliannau 7, 29 a 30 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 6 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 6 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 6: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 6 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 6](#)

[Result of the vote on amendment 6](#)

16:14

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Llyr Gruffydd, amendment 7.

Llyr Gruffydd, gwelliant 7.

*Cynigiwyd gwelliant 7 (Llyr Gruffydd.)*

*Amendment 7 (Llyr Gruffydd) moved.*

16:14

### Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Cynnig.

Move.

16:14

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 7 be agreed. Does any Member object? [Objection.] An electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 7 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 7 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 7 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 7: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 7 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 7](#)

[Result of the vote on amendment 7](#)

16:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 29.

Llyr Gruffydd, gwelliant 29.

*Cynigiwyd gwelliant 29 (Llyr Gruffydd.)*

*Amendment 29 (Llyr Gruffydd) moved.*

16:14 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

16:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 29 be agreed. Does any Member object? [Objection.] An electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 29 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 29 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 29 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 29: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 29 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 29

Result of the vote on amendment 29

16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 30.

Llyr Gruffydd, gwelliant 30.

*Cynigiwyd gwelliant 30 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 30 (Llyr Gruffydd) moved.*

16:15 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 30 be agreed. Does any Member object? [Objection.] An electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 30 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 30 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 30 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 30: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 30 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 30

Result of the vote on amendment 30

16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 8.

Llyr Gruffydd, gwelliant 8.

*Cynigiwyd gwelliant 8 (Llyr Gruffydd, gyda chefnogaeth Russell George).*

*Amendment 8 (Llyr Gruffydd, supported by Russell George) moved.*

16:15 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 8 be agreed. Does any Member object? [Objection.] An electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 8 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 8 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 8 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 8: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 8 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 8

Result of the vote on amendment 8

16:15

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 9.

Llyr Gruffydd, gwelliant 9.

*Cynigiwyd gwelliant 9 (Llyr Gruffydd, gyda chefnogaeth Russell George).*

*Amendment 9 (Llyr Gruffydd, supported by Russell George) moved.*

16:15

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move

16:15

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 9 is agreed, amendments 50, 51, 82 and 52 fall. The question is that amendment 9 be agreed. Does any Member object? [Objection.] An electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 9 is not agreed.

Os derbynnir gwelliant 9, bydd gwelliannau 50, 51, 82 a 52 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 9 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 9 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 9: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 9 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 9

Result of the vote on amendment 9

16:16

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

William Powell, amendment 50.

William Powell, gwelliant 50.

*Cynigiwyd gwelliant 50 (William Powell).*

*Amendment 50 (William Powell) moved.*

16:16

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:16

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 50 be agreed. Does any Member object? [Objection.] An electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 19. There voted against 21. Therefore, amendment 50 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 50 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 50 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 50: O blaid 19, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 50 not agreed: For 19, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 50

Result of the vote on amendment 50

16:17

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

William Powell, amendment 51.

William Powell, gwelliant 51.

*Cynigiwyd gwelliant 51 (William Powell).*

*Amendment 51 (William Powell) moved.*

16:17 **William Powell** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

Move.

Cynnig.

16:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 51 be agreed. Does any Member object? [Objection.] An electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 51 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 51 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 51 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 51: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 51 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 51]

[Result of the vote on amendment 51]

16:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

Llyr Gruffydd, amendment 82.

Llyr Gruffydd, gwelliant 82.

*Cynigiwyd gwelliant 82 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 82 (Llyr Gruffydd) moved.*

16:17 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

Cynnig.

Move

16:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 82 be agreed. Does any Member object? [Objection.] An electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 82 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 82 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 82 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 82: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 82 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 82]

[Result of the vote on amendment 82]

16:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

William Powell, amendment 52.

William Powell, gwelliant 52.

*Cynigiwyd gwelliant 52 (William Powell).*

*Amendment 52 (William Powell) moved.*

16:17 **William Powell** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

Move.

Cynnig.

16:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 52 be agreed. Does any Member object? [Objection.] An electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 52 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 52 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 52 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 52: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 52 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 52]

[Result of the vote on amendment 52]

## Grŵp 5: Cynnwys y Gymuned (Gwelliannau 10 a 71)

## Group 5: Community Involvement (Amendments 10 and 71)

16:18

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The fifth group of amendments relates to community involvement. The lead amendment in this group is amendment 10. I call on Llyr Gruffydd to move and speak to the lead amendment and the other amendment in the group.

Mae'r pumed grŵp o welliannau'n ymwneud â chyfranogiad cymunedol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 10. Galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig y prif welliant a siarad amdano ef a'r gwelliant arall yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 10 (Llyr Gruffydd, gyda chefnogaeth Russell George).*

*Amendment 10 (Llyr Gruffydd, supported by Russell George) moved.*

16:18

### Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I speak to amendment 10, tabled in my name. Plaid Cymru, of course, is a decentralist party: we believe in giving local communities a strong voice and as much influence as possible over local decisions. This Bill, unfortunately, moves us in the opposite direction. The majority of my amendments today actually seek to redress that imbalance and resist the Government's attempts to centralise power, to move power further up the chain, and to take power further away from those communities that are most affected by the planning decisions in question.

Rwy'n siarad am welliant 10, a gyflwynwyd yn fy enw i. Mae Plaid Cymru, wrth gwrs, yn blaid sy'n cefnogi datganoli: rydym yn credu mewn rhoi llais cryf i gymunedau lleol a chymaint o ddylanwad ag y bo modd dros benderfyniadau lleol. Mae'r Bil hwn, yn anffodus, yn ein symud ni i'r cyfeiriad arall. Diben y rhan fwyaf o fy ngwelliannau heddiw mewn gwirionedd yw ceisio unioni'r anghydbwysedd hwnnw a gwrthsefyll ymdrechion y Llywodraeth i ganoli pŵer, i symud pŵer ymhellach i fyny'r gadwyn, ac i gymryd grym ymhellach i ffwrdd oddi wrth y cymunedau hynny y mae'r penderfyniadau cynllunio o dan sylw yn effeithio fwyaf arnynt.

Amendment 10 seeks to give place plans development plan status. Now, this would counterbalance the move towards less democratic strategic planning by empowering communities to develop their own local plans or their own place plans. Empowering local communities in this respect would only improve democratic accountability and, at the same time, increase accessibility to the decision-making process. It will allow the local community to engage with the planning process and become a fully-subscribed part of the planning system in Wales. Ultimately, it's the people who live in the community that a decision will affect that best understand the needs of that community, and I urge Members to back this amendment today.

Mae gwelliant 10 yn ceisio rhoi statws cynllun datblygu i gynlluniau lleoedd. Nawr, byddai hyn yn gwrthbwyso'r ffaith ein bod yn symud tuag at gynllunio strategol llai democrataidd drwy rymuso cymunedau i ddatblygu eu cynlluniau lleol eu hunain neu eu cynlluniau lleoedd eu hunain. Byddai grymuso cymunedau lleol yn hyn o beth ond yn gwella atebolrwydd democrataidd ac, ar yr un pryd, yn sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau yn fwy agored. Bydd yn caniatáu i'r gymuned leol ymgysylltu â'r broses gynllunio a chymryd rhan gyflawn yn y system gynllunio yng Nghymru. Yn y pen draw, y bobl sy'n byw yn y gymuned y bydd y penderfyniad yn effeithio arni sy'n deall orau anghenion y gymuned honno, ac rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi'r gwelliant hwn heddiw.

Now, I'll be voting against amendment 71 because this isn't about aping the planning changes made in England; it's about learning the lessons from over the border and doing it better. Planning costs time and expertise; so, any good plans in England have generally been created by more affluent communities that have access to those resources. There is a clear correlation between affluence and the number of neighbourhood plans that have been adopted. Now, while there is merit in the principle, this shouldn't be the sole preserve of a certain group of people or certain parts of the country. I want to see all communities in all parts of Wales effect the change they want to see.

Nawr, byddaf yn pleidleisio yn erbyn gwelliant 71 oherwydd nad mater o efelychu'r newidiadau cynllunio a wnaed yn Lloegr yw hyn; mae'n ymwneud â dysgu gwersi o'r ochr arall i'r ffin a gwneud pethau'n well. Mae cynllunio yn cymryd amser ac arbenigedd; felly, mae unrhyw gynlluniau da yn Lloegr ar y cyfan wedi cael eu creu gan gymunedau mwy cefnog y mae'r adnoddau hynny ar gael iddynt. Mae cydberthynas glir rhwng cyfoeth a nifer y cynlluniau cymdogaeth sydd wedi eu mabwysiadu. Nawr, er bod rhinwedd yn yr egwyddor, ni ddylai hwn fod yn rhywbeth i grŵp penodol o bobl neu rai rhannau o'r wlad yn unig. Mae arnaf eisiau gweld pob cymuned ym mhob rhan o Gymru yn gweithredu'r newid y maent am ei weld.

16:20 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm pleased to move amendment 71 in this grouping. This is one of the areas I would like to see radically alter in our current planning system—how can the power of local communities be enhanced so that they feel more in control of the development that happens in and around places where they live and call home? Across the border, I believe we have seen a positive template for a more joined-up collaborative approach and this is putting local communities at the heart of the planning on development, and that's the Localism Act 2011. The IAG report highlighted the fact that the introduction of a local planning tier in the Localism Act represented a significant stage for the evolution of a distinct Welsh planning system. The establishment of neighbourhood planning was seen as a radical and beneficial departure from the previous top-down system in England.

Rwy'n falch o gynnig gwelliant 71 yn y grŵp hwn. Mae hwn yn un o'r meysydd yr hoffwn ei weld yn newid yn radical yn ein system gynllunio bresennol--sut y gellir rhoi mwy o bŵer i gymunedau lleol fel eu bod yn teimlo mwy o reolaeth dros y datblygiad sy'n digwydd yn ac o amgylch y mannau lle maent yn byw ac yn eu galw'n gartref ? Dros y ffin, rwy'n credu ein bod wedi gweld templed cadarnhaol ar gyfer dull mwy cydweithredol a chydgysylltiedig o weithio ac mae hwn yn rhoi cymunedau lleol wrth wraidd y broses o gynllunio datblygiadau. Deddf Lleoliaeth 2011 yw'r templed hwnnw. Amlygodd adroddiad y Grŵp Cynghori Annibynnol fod y ffaith i haen gynllunio lleol gael ei chyflwyno yn y Ddeddf Lleoliaeth yn gam sylweddol ar gyfer esblygiad system gynllunio ar wahân ar gyfer Cymru. Mae'r cynlluniau cymdogaeth a sefydlwyd yn cael eu hystyried yn wahaniaeth radical a buddiol o'i chymharu â'r system flaenorol yn Lloegr a oedd yn gweithio o'r brig i lawr.

The concept of neighbourhood development orders as an integral part of neighbourhood planning is a very simple one. It's basically creating a listed schedule of permitted development and, once established, there would be no need for anyone to apply to the council for planning permission if it's the type of development covered by the order. Orders are being put in place right across England. They're making it easier and quicker for such developments to go ahead in the future for these communities. A neighbourhood development planning order also, of course, must be in line with national planning policy.

Mae'r cysyniad o orchmynion datblygu cymdogaeth fel rhan annatod o gynllunio cymdogaeth yn un syml iawn. Yn y bôn mae'n golygu creu atodlen restredig o ddatblygiad a ganiateir, ac, ar ôl ei sefydlu, ni fyddai angen i neb wneud cais i'r cyngor am ganiatâd cynllunio os yw'r math o ddatblygiad dan sylw yn un sy'n cael ei gwmpasu gan y gorchymyn. Mae gorchmynion yn cael eu rhoi ar waith ledled Lloegr. Maent yn ei gwneud yn haws ac yn gyflymach i ddatblygiadau o'r fath fynd yn eu blaenau yn y dyfodol ar gyfer y cymunedau hyn. Mae'n rhaid i orchymyn datblygu cymdogaeth hefyd, wrth gwrs, gyd-fynd â pholisi cynllunio cenedlaethol.

So, I'm a strong advocate of place planning as an active collaboration between local planning authorities and town and community councils. I support bringing place plans into the formal statutory architecture of the Bill. However, I accept that there are current constraints regarding the spread and ability of town and community councils in Wales, and, where there are those gaps, I think NDOs have the potential to fulfil the need for aspirational communities to set their own development destiny.

Felly, rwy'n ddadleuwr cryf dros gynllunio lleoedd fel cydweithrediad gweithredol rhwng awdurdodau cynllunio lleol a chynghorau tref a chymuned. Rwy'n cefnogi'r syniad o ddod â chynlluniau lleoedd i mewn i bensaernïaeth statudol ffurfiol y Bil. Fodd bynnag, rwy'n derbyn bod cyfyngiadau ar hyn o bryd ynghylch lledaeniad a gallu cynghorau tref a chymuned yng Nghymru, a, lle mae'r bylchau hynny, rwy'n meddwl fod gan gorchmynion datblygu cymdogaeth y potensial i ddiwallu'r angen i gymunedau uchelgeisiol osod eu tynged datblygu eu hunain.

For me, the two amendments in this group are ways to address the concerns of some organisations and individuals in Welsh society who believe that the current design of the Bill is removing power away and self-determination away from communities and individuals affected by development and placing them in the hands of Welsh Ministers.

I mi, mae'r ddau welliant yn y grŵp hwn yn ffyrdd i fynd i'r afael â phryderon rhai sefydliadau ac unigolion yng Nghymru sy'n credu bod y modd y mae'r Bil wedi ei gynllunio ar hyn o bryd yn symud pŵer i ffwrdd a hunan-benderfyniad i ffwrdd oddi wrth gymunedau ac unigolion y mae datblygiad yn effeithio arnynt ac yn eu rhoi yn nwylo Gweinidogion Cymru.

16:22 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you'll be aware from the evidence sessions that there was considerable interest in the importance of the community voice, that is, local communities, going down as far as possible whilst having an efficient planning system. Of course, one of the areas that I've raised with you in the past, and I know other Members have as well, that gives the idea of spatial planning some attraction was, of course, the whole area—for example, as we raised with Treforest—of where there was a growth of houses in multiple occupation in an apparently unplanned way, and that that was actually having an impact whereby, whereas we want to encourage students and we want to encourage student accommodation, we actually wanted to have a system where we protected the community so that there was the right balance.

Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r sesiynau tystiolaeth fod cryn ddiddordeb wedi ei fynegi ym mhwysigrwydd llais y gymuned, hynny yw, cymunedau lleol, yn mynd i lawr cyn belled â phosibl a sicrhau ar yr un pryd bod gennym system gynllunio effeithlon. Wrth gwrs, un o'r meysydd rwyf wedi ei godi gyda chi yn y gorffennol, ac rwy’n gwybod bod Aelodau eraill wedi gwneud hynny hefyd, sy'n rhoi rhyw atyniad i’r syniad o gynllunio gofodol oedd, wrth gwrs, yr holl faes—er enghraifft, fel yn achos Trefforest—lle gwelwyd tai amlfeddiannaeth yn cynyddu mewn ffordd oedd, yn ôl bob golwg, heb ei gynllunio, a bod hynny mewn gwirionedd yn cael effaith lle, er ein bod am annog myfyrwyr ac am annog llety myfyrwyr, roeddem mewn gwirionedd yn awyddus i gael system lle’r oeddem yn diogelu'r gymuned fel bod y cydbwysedd yn iawn.

I wonder if you think within this area that there is actually scope for protecting those interested in giving more local voice to local authorities in respect of planning in this area. Of course, I'm aware, from discussions we had, that a report was commissioned, or evidence was commissioned, which I understand is now available. I wonder, within the context of this legislation, whether you could perhaps outline how the outcome of that research might now impact on any potential amendments you might want to introduce to this Bill to protect areas like Treforest and others, and whether this is an area where perhaps you’d be prepared to meet with those of us who have raised these issues with you before to see perhaps how the Bill might be amended to strengthen that area and give a more local voice.

Tybed a ydych yn meddwl yn y maes hwn fod lle mewn gwirionedd i amddiffyn y rhai sydd â diddordeb mewn rhoi mwy o lais lleol i awdurdodau lleol o ran cynllunio yn y maes hwn. Wrth gwrs, rwy'n gwybod, o'r trafodaethau a gawsom, bod adroddiad wedi cael ei gomisiynu, neu fod tystiolaeth wedi cael ei chomisiynu, ac rwy’n deall ei fod ar gael erbyn hyn. Tybed, o fewn cyd-destun y ddeddfwriaeth hon, a allech o bosibl amlinellu sut y gallai canlyniad yr ymchwil nawr effeithio ar unrhyw welliannau posibl y byddwch o bosibl am eu cyflwyno i’r Bil hwn er mwyn amddiffyn ardaloedd megis Trefforest ac eraill, ac a yw hwn yn faes lle y byddech o bosibl yn barod i gyfarfod â rhai ohonom sydd wedi codi'r materion hyn gyda chi o’r blaen i weld sut y gellid diwygio’r Bil o bosibl i gryfhau'r maes hwnnw a rhoi llais mwy lleol.

16:24 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move no amendments within this group, but have formally tabled my support and the support of our group for amendment 10 on place plans. This is an amendment that I brought forward at Stage 2 and I remain of the view that it's important that this Bill doesn't result in local communities being further removed from the plan-making process. In order to avoid that, place plans must have a formal footing in terms of the underlying building blocks for the development plan system. Place plans that identify the infrastructure and investment needs within each community could significantly add value to the planning process if given formal recognition within the development plan process. Place plans are all about getting local communities engaged in the planning process, in the manner that Mick Antoniw just described, and, by their nature, they can assist local authorities and developers to understand local priorities and also to ensure that resources can be targeted appropriately, and it is for these reasons that this amendment enjoys our support today.

Nid wyf yn cynnig unrhyw welliannau yn y grŵp hwn, ond rwyf wedi cyflwyno’n ffurfiol fy nghefnogaeth i a chefnogaeth ein grŵp ar gyfer gwelliant 10 ar gynlluniau lleoedd. Mae hwn yn welliant a ddygwyd ymlaen gennyf yng Nghyfnod 2 ac rwy’n parhau i fod o'r farn ei bod yn bwysig nad yw’r Bil hwn yn arwain at symud cymunedau lleol ymhellach oddi wrth y broses o baratoi cynlluniau. Er mwyn osgoi hynny, rhaid i gynlluniau lleoedd fod â sylfaen ffurfiol o ran blociau adeiladu sylfaenol y system o gynlluniau datblygu. Gallai cynlluniau lleoedd sy'n nodi anghenion pob cymuned o ran seilwaith a buddsoddiad ychwanegu gwerth sylweddol at y broses gynllunio os rhoddir cydnabyddiaeth ffurfiol iddynt o fewn proses cynlluniau datblygu. Prif ddiben cynlluniau lleol yw cael cymunedau lleol i gymryd rhan yn y broses gynllunio, yn y modd y mae Mick Antoniw newydd ei ddisgrifio, ac, oherwydd eu natur, gallant helpu awdurdodau lleol a datblygwyr i ddeall blaenoriaethau lleol a hefyd i sicrhau bod adnoddau’n cael eu targedu'n briodol, ac am y rhesymau hyn rydym ni’n cefnogi’r gwelliant hwn heddiw.

We shall also be voting for amendment 71, and I fully endorse Russell George's intention to address any perceived democratic deficit in the Bill, giving more power to local communities to determine the direction and the needs of their own development plans. The fact that, in practice, on the English side of the border, they may have been predominantly taken up in areas of greater affluence, where you maybe have a few more 'The Daily Telegraph' readers with a little bit more time on their hands, doesn't mean that this necessarily would be the case here in Wales. I think we could find a different way, and I think this amendment does merit our support, and that's what our group is doing today.

Byddwn hefyd yn pleidleisio o blaid gwelliant 71, ac rwy'n cymeradwyo'n llawn fwriad Russell George i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg democrataidd canfyddedig yn y Bil, gan roi mwy o bŵer i gymunedau lleol i benderfynu ar gyfeiriad ac anghenion eu cynlluniau datblygu eu hunain. Efallai eu bod, yn ymarferol, ar ochr Lloegr i'r ffin, wedi cael eu defnyddio'n bennaf mewn ardaloedd mwy cyfoethog, lle mae gennych efallai ychydig yn fwy o ddarllenwyr y 'Daily Telegraph' ag ychydig mwy o amser ar eu dwylo, ond nid yw hynny'n golygu y byddai hyn o reidrwydd yn wir yma yng Nghymru. Rwy'n credu y gallwn ddod o hyd i ffordd wahanol, ac rwy'n meddwl bod y gwelliant hwn yn haeddu ein cefnogaeth, a dyna beth mae ein grŵp yn ei wneud heddiw.

16:26

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister.

Weinidog.

16:26

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I would like to thank the Members for their contributions for consideration. We will not be supporting the two amendments in this group today.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau i'w hystyried. Ni fyddwn yn cefnogi'r ddau welliant yn y grŵp hwn heddiw.

As I said at Stage 2, on the issue of the development of place plans, we already encourage communities to work with local planning authorities to develop place plans under the current supplementary planning guidance. I am already aware of authorities such as Flintshire—my own authority—working with a community in Mold, in Sandy Mewies's constituency, creating that, so there is nothing prohibitive about the legislation currently in place. Indeed, the irony of this is that, only in the last set of amendments, the Member opposite was asking us for fewer statutory planning powers, and now he's seeking to introduce another layer, indeed, with this proposal, therefore we will not be supporting that today.

Fel y dywedais yng Nghyfnod 2, o safbwynt datblygu cynlluniau lleoedd, rydym eisoes yn annog cymunedau i weithio gydag awdurdodau cynllunio lleol i ddatblygu cynlluniau lleoedd o dan y canllawiau cynllunio atodol ar hyn o bryd. Rwyf eisoes yn ymwybodol o achosion lle mae awdurdodau fel Sir y Fflint—fy awdurdod i fy hun—yn gweithio gyda chymuned yn yr Wyddgrug, yn etholaeth Sandy Mewies, i greu cynlluniau o'r fath, felly nid oes dim yn y ddeddfwriaeth sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhwystro hynny. Yn wir, eironi hyn yw bod yr Aelod gyferbyn, yn y gyfres olaf o welliannau, yn gofyn inni am lai o bwerau cynllunio statudol, ac nawr mae'n ceisio cyflwyno haen arall, yn wir, gyda'r cynnig hwn, felly ni fyddwn yn cefnogi hynny heddiw.

Can I place on the record that I do not accept the argument that this is about centralising power in decision-making processes in Cardiff? Indeed, I would suggest that, many Members in this room, when a difficult decision is brought about in their constituency, the first thing they do is write to me to call it in for centralisation of that decision. So, you can't have it both ways. The fact is that this is about balance and fairness in the system, and this is what we are seeking to do today.

A gaf i ddatgan yn gyhoeddus nad wyf yn derbyn y ddadl bod hyn yn ymwneud â chanoli grym mewn prosesau gwneud penderfyniadau yng Nghaerdydd? Yn wir, byddwn yn awgrymu mai'r peth cyntaf y mae llawer o Aelodau yn yr ystafell hon yn ei wneud, pan fydd penderfyniad anodd yn eu hetholaeth, yw ysgrifennu ataf i'w alw i mewn i ganoli'r penderfyniad hwnnw. Felly, ni allwch ei chael hi bob ffordd. Y ffaith yw bod hyn yn ymwneud â chydbwysedd a thegwch yn y system, a dyma'r hyn yr ydym yn ceisio'i wneud heddiw.

Can I also take on the point that Mick Antoniw brought to the Chamber today? It is a very important issue that he, Julie James and Jenny Rathbone have all raised with me, along with many other Members, around HMOs. We have had a research study done; that report came out yesterday, and I'm considering the detail in that. But we will take action on these very issues that the Member, and many Members, have raised; it is an important one for communities and community ownership, and it's something that we will look at through supplementary planning guidance.

A gaf i hefyd sôn am y pwynt a gyflwynodd Mick Antoniw i'r Siambr heddiw? Mae'n fater pwysig iawn ynghylch tai amlfeddiannaeth y mae ef, Julie James a Jenny Rathbone i gyd wedi'i godi gyda mi, ynghyd â llawer o Aelodau eraill. Rydym wedi cael gwneud astudiaeth ymchwil; daeth yr adroddiad hwnnw allan ddoe, ac rwy'n ystyried y manylion sydd ynddo. Ond byddwn yn gweithredu ar yr union faterion hyn y mae'r Aelod, a llawer o Aelodau, wedi'u codi; mae'n un pwysig i gymunedau a pherchnogaeth gymunedol, ac mae'n rhywbeth y byddwn yn edrych arno trwy ganllawiau cynllunio atodol.

Where we do agree with Llyr is on the issue around Russell George's amendment on the English version—because it's done in England doesn't make it better, and that's why we're having a unique planning process here in Wales—made for Wales and developed in Wales—and we are very keen to ensure that we can deliver a better planning system with the guidance that we will be providing in this Bill.

Un mater yr ydym yn cytuno â Llyr yn ei gylch yw gwelliant Russell George ar fersiwn Lloegr—nid yw'r ffaith bod rhywbeth yn cael ei wneud yn Lloegr yn golygu ei fod yn well, a dyna pam ein bod yn sefydlu proses gynllunio unigryw yma yng Nghymru—wedi'i gwneud ar gyfer Cymru ac wedi'i datblygu yng Nghymru—ac rydym yn awyddus iawn i sicrhau ein bod yn gallu darparu system gynllunio well gyda'r canllawiau y byddwn yn eu darparu yn y Bil hwn.

16:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And Llyr Gruffydd to reply.

A Llyr Gruffydd i ymateb.

16:28 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Not a unique planning inspectorate in Wales, made in Wales and whatever, but there we are—we lost that vote, so we'll have to live with that one for now. [Laughter.] Planning development, or development planning, even, is necessary—we've made that clear. The issue I have, of course, with the strategic planning panels vis-à-vis place plans and creating another tier is where that tier is being created. I think it's a general principle that decisions made closer to communities are more effectively made and, more often than not, have the buy-in of those local communities. Of course, place plans were a feature of the draft Bill when it appeared, but, as the final tabled Bill emerged, of course, the prominence of place plans had receded. As I say: the closer to the community the better, and I would urge Members, based on that simple principle, to support amendment 10.

Dim arolygiaeth gynllunio unigryw yng Nghymru, a wnaed yng Nghymru a beth bynnag, ond dyna ni—fe gollom ni'r bleidlais honno, felly bydd rhaid inni fyw gyda'r un yna am y tro. [Chwerthin.] Mae datblygu cynllunio, neu gynllunio datblygiad, hyd yn oed, yn angenrheidiol—rydym wedi gwneud hynny'n glir. Y broblem sydd gennyf i, wrth gwrs, gyda'r paneli cynllunio strategol vis-à-vis cynlluniau lleoedd a chreu haen arall, yw lle mae'r haen honno'n cael ei chreu. Rwy'n credu ei bod yn egwyddor gyffredinol bod penderfyniadau a wneir yn nes at gymunedau yn rhai sy'n cael eu gwneud yn fwy effeithiol ac, yn amlach na pheidio, yn cael cefnogaeth y cymunedau lleol hynny. Wrth gwrs, roedd cynlluniau lleoedd yn un o nodweddion y Bil drafft pan ymddangosodd, ond, wrth i'r Bil terfynol gael ei gyflwyno, wrth gwrs, roedd cynlluniau lleoedd yn llai amlwg. Fel rwy'n dweud: po agosaf at y gymuned yw'r broses y gorau fydd hi, a byddwn yn annog yr Aelodau, yn seiliedig ar yr egwyddor syml honno, i gefnogi gwelliant 10.

16:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 10 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 10 is not agreed.

Y cwestiwn a ddylai gwelliant 10 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 10.

*Gwrthodwyd gwelliant 10: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 10 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 10

Result of the vote on amendment 10

**Grŵp 6: Cynlluniau Datblygu Lleol (Gwelliannau 83, 11 a 12)**

**Group 6: Local Development Plans (Amendments 83, 11 and 12)**

16:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to group 6. This group of amendments relates to local development plans. The lead amendment in this group is amendment 83. I call on Llyr Gruffydd to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Symudwn yn awr at grŵp 6. Mae'r grŵp hwn o welliannau yn ymwneud â chynlluniau datblygu lleol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 83. Galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 83 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 83 (Llyr Gruffydd) moved.*

16:30 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I speak to amendments 83, 11 and 12. Now, the top-down approach of planning is no more obvious, of course, than in the context of housing need and the creation of local development plans. The flawed population projections upon which local planning authorities have to base their LDPs have been subject to heavy criticism for a long time now, and I believe that this planning Bill is an opportunity to address some of those concerns.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n siarad am welliannau 83, 11 a 12. Nawr, mae'r dull gweithredu o'r brig i lawr ym maes cynllunio fwyaf amlwg, wrth gwrs, nag yng nghyd-destun yr angen am dai a chynlluniau datblygu lleol. Mae'r amcanestyniadau poblogaeth diffygiol y mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol seilio eu Cynlluniau Datblygu Lleol arnynt wedi bod yn destun beirniadaeth lem ers amser hir nawr, ac rwy'n credu bod y Bil cynllunio hwn yn gyfle i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon hynny.

Amendments 11 and 12 would require local planning authorities to carry out a local housing needs assessment before publishing their LDPs—something that's supported, by the way, by the Home Builders Federation, amongst others. Now, this would then form the basis for development, while giving Welsh Ministers, or the planning inspectorate, of course, an opportunity to appeal if they have sufficient evidence. This would, in fact, turn the system back the right way up; a bottom-up approach to housing development.

Byddai gwelliannau 11 a 12 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gynnal asesiad anghenion tai lleol cyn cyhoeddi eu Cynlluniau Datblygu Lleol—rhywbeth sy'n cael ei gefnogi, gyda llaw, gan Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai, ymhlith eraill. Nawr, byddai'r rhain wedyn yn sail ar gyfer datblygu, ac yn rhoi i Weinidogion Cymru, neu i'r arolygiaeth gynllunio, wrth gwrs, gyfle i apelio os oes ganddynt ddigon o dystiolaeth. Byddai hyn, mewn gwirionedd, yn troi'r system yn ôl y ffordd iawn i fyny; dull gweithredu o'r gwaelod i fyny ym maes datblygiadau tai.

Now, similar to amendment 81 in relation to the national development framework, and 82 in relation to the strategic development plans, our amendment 83 here will require local development plans to set out policies designed to contribute to climate change reduction targets and adaptations. So, I won't repeat the arguments, but, as a foundation for local development, I'd argue that it's all the more important to make climate change a key consideration at this level. So, I'd urge Members to support all three amendments in this group.

Nawr, yn debyg i welliant 81 mewn cysylltiad â'r fframwaith datblygu cenedlaethol, ac 82 mewn cysylltiad â'r cynlluniau datblygu strategol, bydd ein gwelliant 83 yma yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau datblygu lleol nodi polisïau a fyddai'n cyfrannu at dargedau ac addasiadau er mwyn lleihau newid yn yr hinsawdd. Felly, nid wyf am ailadrodd y dadleuon, ond, fel sylfaen ar gyfer datblygu lleol, byddwn i'n dadlau ei bod yn bwysicach fyth gwneud newid yn yr hinsawdd yn ystyriaeth allweddol ar y lefel hon. Felly, byddwn i'n annog Aelodau i gefnogi pob un o'r tri gwelliant yn y grŵp hwn.

16:31 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I rise to support all amendments in this group. Almost all decisions that we make should involve a consideration of the implications that they have for climate change and, indeed, climate change mitigation should certainly be at the forefront of our planning and development decisions. So, in that context, I am in favour of amendment 83 and give it the strongest possible support.

Rwy'n codi i gefnogi pob gwelliant yn y grŵp hwn. Dylai bron pob penderfyniad a wnawn gynnwys ystyriaeth o'r goblygiadau sydd ganddynt ar gyfer newid yn yr hinsawdd ac, yn wir, dylai lliniaru newid yn yr hinsawdd yn sicr o fod yn flaenllaw yn ein penderfyniadau cynllunio a datblygu. Felly, yn y cyd-destun hwnnw, rwyf o blaid gwelliant 83 ac yn rhoi'r gefnogaeth gryfaf bosibl iddo.

In terms of amendments 11 and 12, giving local planning authorities more freedom and flexibility to set appropriate housing targets that reflect genuine local need is of great importance if we are to find the most effective solutions to addressing our housing needs, and to do so with a high degree of public support in those particular areas, and it's for that reason that I urge Members to support both amendments today.

O ran gwelliannau 11 a 12, mae'n bwysig iawn rhoi mwy o ryddid a hyblygrwydd i awdurdodau cynllunio lleol osod targedau tai priodol sy'n adlewyrchu gwir angen lleol os ydym am ddod o hyd i'r atebion mwyaf effeithiol i fynd i'r afael â'n hanghenion tai, a gwneud hynny gyda lefel uchel o gefnogaeth gyhoeddus yn y meysydd penodol hynny, ac am y rheswm hwnnw rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi'r ddau welliant heddiw.

16:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister.

Weinidog.

16:32 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. We will not be seeking to support the amendments in this group in the name of Llyr Gruffydd. I ask the Members not to support these principles on the basis that the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 requires the size, composition and distribution of the population of an area to be kept under review. The Housing Act 1985 already requires a review of housing need too, and the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 requires public bodies in Wales to set objectives designed to contribute to achieving wellbeing goals, which include the reference on acting on and adapting to climate change. There is already legislation in place to deal with this. It appears that the Member is overtly critical of the process in this, in regard to where he said—I think he said that the process was flawed in some cases. I'm not aware of that position being flawed and the Member should write to me if he does have issues regarding that specifically. I believe that they are well interpreted by local planning authorities, and therefore these amendments are unnecessary.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliannau yn y grŵp hwn yn enw Llyr Gruffydd. Gofynnaf i'r Aelodau beidio â chefnogi'r egwyddorion hyn ar y sail bod Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i adolygu maint, cyfansoddiad a dosbarthiad poblogaeth ardal yn rheolaidd. Mae Deddf Tai 1985 eisoes yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i adolygu'r angen am dai, a bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gosod amcanion wedi eu cynllunio i gyfrannu at gyflawni targedau llesiant, sy'n cynnwys y cyfeiriad at weithredu ar newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo. Mae deddfwriaeth ar waith i ymdrin â hyn eisoes. Mae'n ymddangos bod yr Aelod yn agored feirniadol o'r broses yn hyn o beth, ynglŷn â lle y dywedodd—credaf iddo ddweud bod y broses yn ddiffygiol mewn rhai achosion. Nid wyf yn ymwybodol bod y sefyllfa honno'n ddiffygiol a dylai'r Aelod ysgrifennu ataf os oes ganddo faterion i'w codi yn ymwneud hynny yn benodol. Rwy'n credu eu bod yn cael eu dehongli'n dda gan awdurdodau cynllunio lleol, ac felly mae'r gwelliannau hyn yn ddiangen.

16:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And Llyr Gruffydd to reply.

A Llyr Gruffydd i ymateb.

16:33 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, you might say that they're well interpreted by local planning authorities; that may be the case for some, but I can tell you that there are very many out there that are constantly raising with me concerns about the population projections. They are, as you well know, the starting point for housing demand or housing projections, and they can deviate from those as long as they present 'robust and credible evidence'; that's the term that's used.

Wel, efallai y byddwch yn dweud eu bod yn cael eu dehongli'n dda gan awdurdodau cynllunio lleol; gallai fod yn wir mewn rhai achosion, ond gallaf ddweud wrthych fod llawer iawn o bobl yn codi pryderon gyda mi yn gyson am yr amcanestyniadau poblogaeth. Y rhain, fel y gwyddoch yn dda, yw'r man cychwyn ar gyfer rhagamcanion tai neu'r galw am dai, a gallant wyro oddi wrth y rhain ar yr amod eu bod yn cyflwyno 'tystiolaeth gadarn a chredadwy'; dyna'r term sy'n cael ei ddefnyddio.

Now, when the environment committee undertook an inquiry—a very short inquiry—into this, nobody could tell us what 'robust and credible evidence' was. We were told, for example, by Government officials, that Wrexham had not presented any sort of robust and credible evidence to back up their desire to deviate from the projected figures. When I asked Wrexham whether they concurred, they were absolutely aghast, because nowhere during the process had they been told that the evidence that they had presented was not fulfilling the requirement to provide robust and credible evidence.

Nawr, pan gynhaliodd y pwyllgor amgylchedd ymchwiliad —ymchwiliad byr iawn—i hyn, ni allai neb ddweud wrthym beth oedd 'tystiolaeth gadarn a chredadwy'. Dywedwyd wrthym, er enghraifft, gan swyddogion y Llywodraeth, nad oedd Wrecsam wedi cyflwyno unrhyw fath o dystiolaeth gadarn a chredadwy i gefnogi eu dymuniad i wyro oddi wrth y ffigurau a ragamcanwyd. Pan ofynnais i Wrecsam a oeddent yn cytuno, roeddent yn hollol syfrdan, gan nad oeddent ar unrhyw adeg yn ystod y broses wedi cael gwybod nad oedd y dystiolaeth yr oeddent wedi'i chyflwyno yn cyflawni'r gofyniad i ddarparu tystiolaeth gadarn a chredadwy.

So, I would challenge the Minister on that, because I think that there are concerns. And, of course, it isn't just Wrexham—it's Conwy, it's Vale of Glamorgan, it's Denbighshire, it's Carmarthenshire, and so many other local authorities across Wales. And, we know, in Denbighshire, my home county, 7,500 houses projected, an increase of 500 in the population—that's how far out the figures have been, and that's why we think that it would be appropriate for this Assembly to support this amendment, because, if you add up the projected housing for all the six local authorities across north Wales, you are building a whole new authority's-worth of houses. Now, for me, it's clear: the local demand isn't there. So, we need to start from the local demand, and then allow the ability to deviate from those figures. Let's turn the planning system back the right way up, and let's support this amendment.

Felly, byddwn yn herio'r Gweinidog ar hynny, oherwydd bod pryderon yn bodoli yn fy marn i. Ac, wrth gwrs, nid dim ond am Wrecsam yr ydym ni'n sôn—mae gennych chi Conwy, Bro Morgannwg, Sir Ddinbych, Sir Gaerfyrddin, a llawer o awdurdodau lleol eraill ledled Cymru. Ac rydym yn gwybod bod 7,500 o dai wedi'u rhagweld, a chynnydd o 500 yn y boblogaeth, yn Sir Ddinbych, fy sir enedigol—dyna pa mor bell ohoni y mae'r ffigurau wedi bod, a dyna pam rydym ni'n credu y byddai'n briodol i'r Cynulliad gefnogi'r gwelliant hwn, oherwydd, os ydych chi'n rhoi nifer ragamcanol y tai ar gyfer y chwe awdurdod lleol ar draws gogledd Cymru at ei gilydd, rydych yn adeiladu gwerth awdurdod lleol cyfan newydd o dai. Nawr, i mi, mae'n glir: nid yw'r galw lleol yno. Felly, mae angen inni ddechrau o'r galw lleol, ac yna caniatáu'r gallu i wyro oddi wrth y ffigurau hynny. Gadewch inni droi'r system gynllunio yn ôl y ffordd gywir i fyny, a gadewch inni gefnogi'r gwelliant hwn.

16:35

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The question is that amendment 83 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 83 is not agreed.

Y cwestiwn a ddylai gwelliant 83 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 83.

*Gwrthodwyd gwelliant 83: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 83 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 83

Result of the vote on amendment 83

### Grŵp 7: Byrddau Cynllunio ar y Cyd a Pharciau Cenedlaethol (Gwelliannau 28, 34, 39, 16, 40, 41, 42, 48, 32 a 33)

### Group 7: Joint Planning Boards and National Parks (Amendments 28, 34, 39, 16, 40, 41, 42, 48, 32 and 33)

16:35

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now move to group 7. This group of amendments relates to joint planning boards and national parks. The lead amendment in this group is amendment 28. I call on William Powell to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Symudwn yn awr at grŵp 7. Mae'r grŵp hwn o welliannau'n ymwneud â byrddau cynllunio ar y cyd a pharciau cenedlaethol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 28. Galwaf ar William Powell i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 28 (William Powell, gyda chefnogaeth Carl Sargeant).*

*Amendment 28 (William Powell, supported by Carl Sargeant) moved.*

16:36 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I rise to move amendment 28, tabled in my name. As the Minister knows, when amendments relating to joint planning boards and national parks were first brought forward, I did have initial concerns that the effect that they would have could be detrimental to the status and, indeed, to the responsibilities of national park authorities in Wales in respect of their current planning function. My amendment today inserts a new subsection into section 73 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 in relation to the power of Welsh Ministers to direct one or more local planning authorities to produce a joint local development plan, and the effect of that amendment is to ensure that Welsh Ministers cannot do this. It is essential that we are very clear on the fact that joint planning board provisions do not extend to the plan-making function, and that's absolutely critical: a plan-making function of national park authorities. The development plan making function will remain vested with those national park authorities. Key planning decisions remain very much, therefore, in the hands of the Welsh national parks. I've sought reassurance from the Minister that any transfer of functions would be subject to the approval of this National Assembly, would not be brought forward during this Assembly, and would very much depend upon the recommendations made following the independent review of designated landscapes, which is currently being undertaken by Professor Terry Marsden.

Rwy'n codi i gynnig gwelliant 28, a gyflwynwyd yn fy enw i. Fel y gŵyr y Gweinidog, pan gafodd gwelliannau yn ymwneud â byrddau cynllunio ar y cyd a pharciau cenedlaethol eu dwyn ymlaen yn wreiddiol, roedd gennyf bryderon cychwynnol y gallai'r effaith y byddent yn ei chael fod yn niweidiol i statws ac, yn wir, i gyfrifoldebau awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru o ran eu swyddogaeth bresennol ym maes cynllunio. Mae fy ngwelliant heddiw yn mewnosod is-adran newydd i adran 73 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 mewn cysylltiad â phŵer Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i un neu fwy o awdurdodau cynllunio lleol baratoi cynllun datblygu lleol ar y cyd, ac effaith y gwelliant hwnnw yw sicrhau na all Gweinidogion Cymru wneud hyn. Mae'n hanfodol ein bod yn glir iawn ynglŷn â'r ffaith nad yw darpariaethau'r bwrdd cynllunio ar y cyd yn ymestyn i'r swyddogaeth o baratoi cynllun, ac mae hynny'n gwbl hanfodol: swyddogaeth awdurdodau parciau cenedlaethol ym maes paratoi cynllun. Bydd y swyddogaeth o baratoi cynllun datblygu yn aros gydag awdurdodau'r parciau cenedlaethol. Mae penderfyniadau cynllunio allweddol yn aros yn bendant iawn, felly, yn nwylo parciau cenedlaethol Cymru. Rydw i wedi gofyn am sicrwydd gan y Gweinidog y byddai'n rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol hwn cyn trosglwyddo unrhyw swyddogaethau, na fyddai hynny'n cael ei ddwyn ymlaen yn ystod y Cynulliad hwn, ac y byddai'n dibynnu'n bendant iawn ar yr argymhellion a wneir yn dilyn yr adolygiad annibynnol o dirweddau dynodedig, sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd gan yr Athro Terry Marsden.

The majority of the Minister's amendments in this group are to support the practical implementation of the new planning powers brought in at Stage 2, and to ensure that existing powers work, and do so in an effective manner. I believe that the new legislation must enable a level of flexibility to deal with change and uncertainty, and I think therefore that these powers should be retained.

Diben y rhan fwyaf o welliannau'r Gweinidog yn y grŵp hwn yw cefnogi gweithrediad ymarferol y pwerau cynllunio newydd a gyflwynwyd yn ystod Cyfnod 2, a sicrhau bod pwerau presennol yn gweithio, a hynny mewn modd effeithiol. Credaf fod yn rhaid i'r ddeddfwriaeth newydd alluogi lefel o hyblygrwydd er mwyn ymdopi â newid ac ansicrwydd, ac felly rwy'n meddwl y dylai'r pwerau hyn gael eu cadw.

16:38 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I speak to amendment 16, although we'll be supporting all the other amendments in the group as well. Now, amendment 16 simply deletes section 38 of the Bill, which was introduced at Stage 2 by the Government. Section 38 gives the Minister the power to create joint planning boards to exercise development management functions in national parks. Now, planning in national parks was the subject of scrutiny from the Environment and Sustainability Committee, and we all concluded that the existing planning arrangements in national parks work well and deliver a responsible balance between active change and sensitive stewardship. The environment committee, in our Stage 1 report, didn't believe that there's justification for the change to the existing planning arrangements in national parks, which of course is now being proposed in section 38 of the Bill. So, the question really is: where is the legitimate evidence base upon which the proposed changes are justified? And the changes risk the standards, consistency and quality of decisions on development and land-use change within national parks being significantly deteriorated. So, I would urge Members to back us on this amendment and join with the Council for the Protection of Rural Wales, the Alliance for National Parks, the National Trust, the RSPB, the Campaign for National Parks, and others, to remove this retrograde step from the planning Bill.

Rwy'n siarad am welliant 16, er y byddwn yn cefnogi pob un o'r gwelliannau eraill yn y grŵp hefyd. Nawr, mae gwelliant 16 yn syml yn dileu adran 38 o'r Bil, a gyflwynwyd yng Nghyfnod 2 gan y Llywodraeth. Mae adran 38 yn rhoi'r pŵer i'r Gweinidog greu byrddau cynllunio ar y cyd i arfer swyddogaethau rheoli datblygiadau mewn parciau cenedlaethol. Nawr, roedd cynllunio mewn parciau cenedlaethol yn destun craffu gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, a daethom i gyd i'r casgliad fod y trefniadau cynllunio presennol mewn parciau cenedlaethol yn gweithio'n dda ac yn cyflwyno cydbwysedd cyfrifol rhwng newid gweithredol a stiwardiaeth sensitif. Nid oedd pwyllgor yr amgylchedd, yn ein hadroddiad Cyfnod 1, yn credu bod cyfiawnhad dros newid y trefniadau cynllunio presennol mewn parciau cenedlaethol, sef yr hyn sy'n cael ei gynnig nawr wrth gwrs yn adran 38 o'r Bil. Felly, y cwestiwn mewn gwirionedd yw: ble mae'r sail dystiolaeth ddilys dros gyfiawnhau'r newidiadau arfaethedig? Ac mae perygl y galla'r newidiadau achosi dirywiad sylweddol yn safon, cysondeb ac ansawdd y penderfyniadau ar ddatblygiad a newid defnydd tir o fewn parciau cenedlaethol. Felly, byddwn yn annog yr Aelodau i'n cefnogi ni ar y gwelliant hwn ac ymuno â'r Cyngor er Diogelu Cymru Wledig, Cynghrair y Parciau Cenedlaethol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr RSPB, yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol, ac eraill, i gael gwared ar y cam yn ôl hwn o'r Bil cynllunio.

16:39 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We will be supporting all the amendments in this group except amendment 33, which is out of a point of principle. I felt the Government's approach to national parks during this legislative process has been ambiguous, to say the least, and I'm still not sure what the Government's long-term strategic aim is in relation to their future. There was certainly no evidence at Stage 1 to suggest that any benefit from merging the planning functions of national park authorities with other local planning authorities. I argued strongly at Stage 2 that section 38 was unwarranted despite the caveat of Assembly approval. That is why we will be giving our strongest support to amendment 16.

Byddwn yn cefnogi'r holl welliannau yn y grŵp hwn ac eithrio gwelliant 33, a hynny oherwydd pwynt o egwyddor. Roeddwn yn teimlo bod agwedd y Llywodraeth tuag at barciau cenedlaethol yn ystod y broses ddeddfu hon wedi bod yn amwys, a dweud y lleiaf, ac nid wyf yn siŵr o hyd beth yw nod strategol tymor hir y Llywodraeth o ran eu dyfodol. Yn sicr ni chafwyd unrhyw dystiolaeth bendant yng Nghyfnod 1 i awgrymu bod unrhyw fudd o gyfuno swyddogaethau cynllunio awdurdodau parciau cenedlaethol ag awdurdodau cynllunio lleol eraill. Dadleuais yn gryf yng Nghyfnod 2 bod adran 38 yn ddiangen er gwaethaf y cafeat ynglŷn â chymeradwyaeth y Cynulliad. Dyna pam y byddwn yn rhoi ein cefnogaeth gryfaf i welliant 16.

However, I do welcome the u-turn that the Lib Dem spokesperson has made through the tabling of amendment 28. RTPI Cymru rightly points out that national parks are designated because of the quality and distinctiveness of their landscape and heritage—their distinctiveness as places. To undermine their planning functions could undermine their effectiveness and put those special qualities at risk.

Fodd bynnag, rwy'n croesawu'r tro pedol y mae llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi'i wneud drwy gyflwyno gwelliant 28. Mae'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru yn nodi'n berffaith gywir bod parciau cenedlaethol yn cael eu dynodi oherwydd ansawdd a hynodrwydd eu tirwedd a'u treftadaeth—eu hynodrwydd fel lleoedd. Trwy danseilio eu swyddogaethau cynllunio, byddem yn tanseilio eu heffeithiolrwydd a rhoi'r nodweddion arbennig hynny mewn perygl.

16:40 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd like to move Government amendments 32, 33, 34, 39, 40, 41, 42 and 48, and speak to the amendments in this group. I'd also like to thank William Powell for his explanation of amendment 28, which I also feel we, as a Government, will be supporting.

Hoffwn gynnig gwelliannau'r Llywodraeth 32, 33, 34, 39, 40, 41, 42 a 48, a siarad am y gwelliannau yn y grŵp hwn. Hoffwn hefyd ddiolch i William Powell am ei esboniad o welliant 28, yr wyf hefyd yn teimlo y byddwn ni, fel Llywodraeth, yn ei gefnogi.

With regard to these amendments, they are mainly technical in terms of support for the national parks and the way they operate. There is a sense of opportunity for Members in this Chamber to reconsider some of the amendments that they are seeking to support. There was selective quoting of the report, where Llyr says that the report from the committee at Stage 1 made reference to not supporting my proposed amendments in four national parks, yet he doesn't hold the same strength in terms of when it was also in the report around strategic development plans. He seems to have omitted the support that the committee had at that point for that then. Therefore, some consistency would be appropriate, I would have thought.

O ran y gwelliannau hyn, maent yn rhai technegol yn bennaf o ran cefnogaeth i'r parciau cenedlaethol a'r ffordd y maent yn gweithredu. Mae ymdeimlad bod cyfle i Aelodau yn y Siambr hon ailystyried rhai o'r newidiadau y maent am eu cefnogi. Cafwyd dyfynnu detholus o'r adroddiad, wrth i Llyr ddweud bod yr adroddiad gan y pwyllgor yng Nghyfnod 1 yn cyfeirio at beidio â chefnogi fy ngwelliannau arfaethedig yn y pedwar parc cenedlaethol, ac eto nid yw'n rhoi'r un pwyslais ar y ffaith fod yr adroddiad hefyd wedi cyfeirio at gynlluniau datblygu strategol. Mae'n ymddangos ei fod wedi hepgor y gefnogaeth a gafwyd gan y pwyllgor ar y pryd ar gyfer hynny. Felly, byddai rhywfaint o gysondeb yn briodol, byddwn wedi tybio.

I recognise completely the points that William Powell brings to the Chamber with regard to the protection of the park and the way that they make their plans, and it's something that I'm very keen to support. We absolutely are very keen as a Government to enhance the opportunities for national parks and areas of outstanding natural beauty, and it's something we will continue to do. The report is at stage 2 now for the review into the governance arrangements of national parks, but, as the Member quite rightly says, there is no direction that can be issued unless it's with the support of this Assembly. I will be asking Members to support non-Government amendment 28 and the amendments in my name, and to object to amendment 16 in the name of Llyr Gruffydd.

Rwy'n cydnabod yn llwyr y pwyntiau a ddaw William Powell i'r Siambr ynglŷn â gwarchod y parciau a'r ffordd y maent yn paratoi eu cynlluniau, ac mae'n rhywbeth yr wyf i'n awyddus iawn i'w gefnogi. Rydym yn bendant yn awyddus iawn fel Llywodraeth i wella'r cyfleoedd ar gyfer parciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, ac mae'n rhywbeth y byddwn yn parhau i'w wneud. Mae'r adroddiad ar gyfer yr adolygiad o drefniadau llywodraethu parciau cenedlaethol ar gyfnod 2 nawr, ond, fel y mae'r Aelod yn ei ddweud yn ddigon teg, ni ellir cyhoeddi unrhyw gyfarwyddyd oni bai y ceir cefnogaeth y Cynulliad hwn. Byddaf yn gofyn i Aelodau gefnogi gwelliant 28 nad yw'n un o welliannau'r Llywodraeth a'r gwelliannau yn fy enw i, a gwrthwynebu gwelliant 16 yn enw Llyr Gruffydd.

16:42

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And William Powell to reply.

A William Powell i ymateb.

16:42

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I hear and understand much of what colleagues have said on this subject, but I do remain clear that the fact that joint planning ward provisions do not extend to the plan-making functions of the Welsh national parks are a very significant safeguard, and the fact that the development plan making function will remain vested with the Welsh national parks is absolutely critical. Given that any changes are subject to the approval of this National Assembly and that we await with interest the recommendations of the second part of the review into governance arrangements for national parks under Professor Marsden, I am confident that, if comes to making any decisions within this area, the right ones will be made and there will be sufficient opportunity for us to bring forward the appropriate level of scrutiny. It's in that context that I ask for your support for my amendment today.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n clywed ac yn deall llawer o'r hyn y mae cydweithwyr wedi'i ddweud ar y pwnc hwn, ond rwy'n parhau i fod yn glir fy meddwl bod y ffaith nad yw darpariaethau bwrdd cynllunio ar y cyd yn ymestyn i swyddogaethau parciau cenedlaethol Cymru ym maes paratoi cynlluniau yn gam diogelu pwysig iawn, a'i bod yn gwbl hanfodol i'r swyddogaeth o baratoi cynllun datblygu aros gyda pharciau cenedlaethol Cymru. O ystyried bod yn rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer unrhyw newidiadau a'n bod yn disgwyl yn eiddgar am argymhellion ail ran yr adolygiad o drefniadau llywodraethu'r parciau cenedlaethol o dan yr Athro Marsden, rwy'n hyderus y bydd y penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud, os daw'n fater o wneud unrhyw benderfyniadau yn y maes hwn, ac y bydd digon o gyfle inni graffu ar lefel briodol. Yn y cyd-destun hwnnw rwy'n gofyn am eich cefnogaeth ar gyfer fy ngwelliant heddiw.

16:43

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 28 be agreed. Does any Member object? Amendment 28 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 28 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Caiff gwelliant 28 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 28 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 28 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:43

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 34.

Weinidog, gwelliant 34.

*Cynigiwyd gwelliant 34 (Carl Sargeant).*

*Amendment 28 (Carl Sargeant) moved.*

16:43

## Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Formally.

Yn ffurfiol.

16:43

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 34 be agreed. Does any Member object? Then, amendment 34 is agreed.

Y cwestiwn a ddylai gwelliant 34 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna, caiff gwelliant 34 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 34 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 34 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Llyr Gruffydd, amendment 11.

Llyr Gruffydd, gwelliant 11.

*Cynigiwyd gwelliant 11 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 11 (Llyr Gruffydd) moved.*

16:44

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Cynnig.

Move.

16:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 11 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20, there voted against 21. Therefore, amendment 11 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 11 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid, pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 11.

*Gwrthodwyd gwelliant 11: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 11 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 11](#)

[Result of the vote on amendment 11](#)

16:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Llyr Gruffydd, amendment 12.

Llyr Gruffydd, gwelliant 12.

*Cynigiwyd gwelliant 12 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 12 (Llyr Gruffydd) moved.*

16:44

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Cynnig.

Move.

16:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 12 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore amendment 12 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 12 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 12.

*Gwrthodwyd gwelliant 12: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 12 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 12](#)

[Result of the vote on amendment 12](#)

**Grŵp 8: Y Gymraeg (Gwelliannau 70, 53, 61, 84, 27 a 56)**

**Group 8: Welsh Language (Amendments 70, 53, 61, 84, 27 and 56)**

16:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to group 8. These amendments relate to the Welsh language. The lead amendment in this group is amendment 70. I call on Russell George to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Symudwn yn awr at grŵp 8. Mae'r gwelliannau hyn yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 70. Galwaf ar Russell George i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 70 (Russell George, gyda chefnogaeth Llyr Gruffydd).*

*Amendment 70 (Russell George, supported by Llyr Gruffydd) moved.*

16:45

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you Deputy Presiding Officer. I'm pleased to move amendment 70, which is the lead amendment in this particular grouping. There is, of course, a direct link between my amendment and other amendments to be moved on the Welsh impact assessments, and it also relates to recommendation 9, made at Stage 1. The purpose of the amendment is to ensure that the Welsh Language Commissioner is given a formal role in assessing the quality and moderation and consistency of language impact assessments in order to ensure that there is indeed consistency and a robust approach to development plans and also to major planning applications. Many language impact assessments are currently produced and funded by developers, and there's no doubt that there will be a variance in quality, so there does need to be an independent voice to look at how assessments are performed and produced, and, by formally involving the Welsh Language Commissioner in the assessment of the quality of these impact assessments, I think that we would gain a high degree of assurance that there would be consistent practices being adopted throughout Wales.

Diolch yn fawr Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch o gynnig gwelliant 70, sef y prif welliant yn y grŵp penodol hwn. Mae cysylltiad uniongyrchol, wrth gwrs, rhwng fy ngwelliant a gwelliannau eraill sydd i gael eu cynnig ar yr asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg, ac mae hefyd yn berthnasol i argymhelliad 9, a wnaed yng Nghyfnod 1. Pwrpas y gwelliant yw sicrhau bod Comisiynydd y Gymraeg yn cael swyddogaeth ffurfiol o ran asesu ansawdd a safoni a chysondeb asesiadau o'r effaith ar yr iaith er mwyn sicrhau bod gwir gysondeb a dull cadarn o ymdrin â chynlluniau datblygu yn ogystal â cheisiadau cynllunio mawr. Mae llawer o asesiadau o'r effaith ar yr iaith yn cael eu paratoi a'u hariannu gan ddatblygwyr ar hyn o bryd, ac nid oes amheuaeth y bydd yr ansawdd yn amrywio, felly mae angen cael rhywun annibynnol i edrych ar sut mae asesiadau yn cael eu cynnal a'u paratoi, a thrwy gynnwys Comisiynydd y Gymraeg yn ffurfiol yn y broses o asesu ansawdd yr asesiadau effaith hyn, rwy'n meddwl y byddem yn cael llawer o sicrwydd y byddai arferion cyson yn cael eu mabwysiadu ledled Cymru.

16:46

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n siarad am welliannau 84 a 56. Mi fydd Plaid Cymru'n cefnogi'r gwelliannau yn y grŵp yma, heblaw gwelliannau 53 a 61, ac nid ar sail unrhyw egwyddor, ond oherwydd y modd y mae'r pleidleisio'n digwydd, a fyddai'n golygu y byddai ein gwelliannau ni yn cwympo pe bai'r rheini'n cael eu pasio.

I speak to amendments 84 and 56. Plaid Cymru will be supporting the amendments in this group, with the exception of amendments 53 and 61. This is not on the basis of any principle, but because of the way in which voting happens, as this would mean that our amendments would fall if those were agreed.

Mae'r Bil yma yn gyfle euraidd i ni, wrth gwrs, fel Cynulliad, i weithredu dros yr iaith, i'w hamddiffyn hi ac i'w hybu hi fel iaith fyw ac iaith hyfyw, ac mae sefydlu cyfundrefn ar gyfer cynnal asesiadau effaith datblygiadau ar y Gymraeg yn hanfodol yn fy marn i er mwyn galluogi awdurdodau cynllunio neu'r Arolygaeth Gynllunio i benderfynu cefnogi neu wrthwynebu datblygiad ar sail ei effaith ar yr iaith Gymraeg. Rŷm ni'n gwybod mai dim ond 0.03 y cant o geisiadau cynllunio a oedd wedi cael eu hasesu am eu heffaith ar yr iaith Gymraeg, yn ôl cais rhyddid gwybodaeth yn ddiweddar gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg. Tri awdurdod cynllunio lleol yn unig o'r 25 yng Nghymru a gynhaliodd asesiad effaith datblygiadau ar y Gymraeg rhwng 2010 a 2012, a chyfanswm o ddim ond 16 asesiad allan o bron 50,000 o geisiadau cynllunio a wnaed. Ac fel tasai hynny ddim yn ddigon i ddangos pa mor ddiffygiol yw'r sefyllfa bresennol, mae cwestiynau hefyd yn codi am wrthrychedd yr asesiadau effaith iaith a wnaed, gan iddyn nhw, wrth gwrs, mewn nifer o achosion, gael eu comisiynu a'u hariannu gan y datblygwyr eu hunain. Felly mae angen y sail dystiolaeth a gynigir gan asesiad effaith iaith annibynnol er mwyn galluogi awdurdodau cynllunio i wrthod, neu fel rwy'n ei ddweud, i ganiatáu cais cynllunio ar sail ei effaith ar yr iaith.

This Bill is a golden opportunity for us, as an Assembly, to take action on the Welsh language, and to protect and promote it as a viable and living language. The establishment of a regime for holding Welsh language impact assessments in planning is crucially important in my view in order to enable planning authorities or the Planning Inspectorate to support or reject a development on the basis of its impact on the Welsh language. We know that only 0.03 per cent of planning applications were assessed for their impact on the Welsh language, according to a freedom of information request made recently by the Welsh Language Society. Three of the 25 local planning authorities in Wales actually held Welsh language impact assessments between 2010 and 2012, and the total was only 16 assessments out of almost 50,000 planning applications. If that weren't enough to demonstrate how deficient the situation is at present, questions are also raised about the objectivity of the impact assessments as, in many cases, they were commissioned and funded by the developers themselves. Therefore, we need that evidence base provided by a Welsh language impact assessment in order to enable planning authorities to reject or to approve a planning application on the basis of its impact on the Welsh language.

Mae gwelliant 84 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cynllunio i gynnal prawf sgrinio yn gyntaf oll i weld a fydd yna effaith ar y Gymraeg, ac, os felly, i wedyn gynnal asesiad llawn o'r effaith hwnnw. Mae'r gwelliant yn cyfeirio at reoliadau gan Lywodraeth Cymru ac mae is-bwynt 3 yn rhestru yr hyn y dylai'r Llywodraeth ei ystyried wrth greu'r rheoliadau hynny, sydd yn cynnwys, wrth gwrs, y ffaith fod y Gymraeg yn iaith swyddogol ym mhob rhan o Gymru, a'r egwyddor y dylai'r gyfundrefn gynllunio hybu a galluogi'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel gymunedol, eto, ym mhob rhan o Gymru. Mae'r gwelliant hefyd, wrth gwrs, yn rhoi rôl cynghorol i'r comisiynydd iaith, sydd yn fy marn i yn elfen bwysig iawn i sicrhau bod y gwaith yma yn digwydd i safon benodol.

Amendment 84 places a duty on planning authorities to hold a screening test first of all in order to see whether there will be an impact on the Welsh language, and, if it is so, to then hold a full impact assessment. The amendment refers to regulations from Welsh Government, and sub-point 3 lists what the Government should consider in making those regulations, which includes the fact that the Welsh language is an official language in all parts of Wales and the principle that the planning regime should promote and enable the use of the Welsh language at a community level, again, in all parts of Wales. The amendment also gives an advisory role to the Welsh Language Commissioner, which, in my view, is a very important element in order to ensure that this work does happen to a particular standard.

Nawr, rwy'n croesawu'n fawr iawn, os caf i ddweud, welliant 27 ar wneud y Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol. Mi wnaethon ni fel Plaid Cymru gynnig ffurf ar eiriad i welliant i'r Gweinidog, ac yn fuan wedyn, fe ymddangosodd bron iawn yr union un eiriad mewn gwelliant gan y Democratiaid Rhyddfrydol gyda chefnogaeth y Gweinidog, ac, o ganlyniad, rŷm ni'n hapus iawn i gefnogi'r gwelliant hwnnw, gan ei fod mor debyg i'r un a gynigiwyd gennym ni. Ond, wrth gwrs, er mwyn iddo fe fod yn ystyrlon, mae angen cyfundrefn gref o asesiadau effaith iaith, a dyna, wrth gwrs, sydd i'w gael yn y gwelliant rŷm ni yn ei gynnig.

I warmly welcome, if I may say, amendment 27 on making the Welsh language a material consideration. We, as Plaid Cymru, did propose a wording of the same amendment to the Minister, and, soon after, virtually exactly the same wording appeared in a Liberal Democrat amendment, with the support of the Minister. As a result, we are more than happy to support that amendment, as it is so similar to the one that we proposed. Of course, in order for it to be meaningful, we do need a strong regime of Welsh language impact assessments, and that, of course, is what we find in the amendment that we are moving.

Ar fater gwahanol, mae gwelliant 56 yn rhoi dyletswydd ar y Llywodraeth i gyflwyno deddfwriaeth newydd ar weithrediad y system gynllunio yng nghyd-destun enwau llefydd, enwau strydoedd ac enwau tai yng Nghymru. Mae gan nifer, wrth gwrs, fel rŷm ni wedi clywed yn barod, o gymunedau ar hyd a lled Cymru adeiladau neu lefydd sydd a'u henwau yn amlygu ac yn cofnodi rhai o nodweddion treftadaeth a diwylliannol pwysig y cymunedau hynny, ac mae'n ddyletswydd arnom ni, yn fy marn i, i sicrhau bod y nodweddion hynny yn cael eu hamddiffyn. Yn rhy aml o lawer, rwy'n clywed enghreifftiau am enwau hen dai neu adeiladau yn cael eu newid, a thrwy hynny yn colli'r cysylltiad pwysig hwnnw rhwng lle, iaith, tirwedd, hanes a diwylliant, cysylltiad sy'n rhoi gwreiddiau i ni, cysylltiad sy'n dweud cyfrolau am ein hanes ni, ac sy'n agor cil y drws ac yn esbonio llawer am ein gorffennol ni a phwy ŷm ni fel trigolion y cymunedau hynny.

On a different issue, amendment 56 places on a duty on the Government to introduce new legislation on the implementation of the planning system in the context of place names, street names and house names in Wales. As we have already heard, many communities the length and breadth of Wales have buildings or locations whose names highlight and commemorate some of the heritage and cultural aspects of those communities, and we are duty bound, in my view, to ensure that those features and characteristics are protected. Far too often, I hear of examples of the names of old houses or buildings being changed, and then we lose that important connection between a place, a language, a landscape, history and culture, a link that gives us roots, a link that speaks volumes about our history, and which opens the door and explains a great deal about our past and who we are as residents of those communities.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd arnom ni, yn un o'r nodau llesiant, i sicrhau cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg. Mae angen, felly, i'r system gynllunio adlewyrchu hynny mewn perthynas â newid enwau, oherwydd mae colli rhai o'r enwau hanesyddol yma yn tanseilio'r nod honno, ac mae'r amser wedi dod, yn fy marn i, i'r Llywodraeth wneud rhywbeth ynglŷn â'r peth. Mi glywom ni sylwadau cadarnhaol gan y Dirprwy Weinidog diwylliant ynghynt, ond efallai ein bod yn edrych yn fwy i gyfeiriad y Gweinidog cynllunio i fynd i'r afael â'r enwau llefydd penodol yma.

The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 places a duty on us, as one of the wellbeing goals, to ensure a society that promotes and protects culture, heritage and the Welsh language. We therefore need a planning system to reflect that in relation to the change of names, because losing some of these historic names undermines that goal, and the time has come, in my opinion, for the Government to do something about it. We heard positive comments from the Deputy Minister for culture earlier on, but perhaps we now need to look more towards the planning Minister to tackle this issue of specific place names.

Rŷm ni hefyd yn gwybod am y ddeiseb sydd wedi ei chyflwyno heddiw gan Mynyddoedd Pawb, sydd yn ymgorffori, yn fy marn i, y dyhead yma nawr i ni weithredu. Felly, rwy'n annog pob Aelod fan hyn y prynhawn yma i gefnogi y ddau welliant yma.

We also know about the petition that has been presented today by Mynyddoedd Pawb, which incorporates, in my view, this aspiration for us to take action. Therefore, I encourage all Members here this afternoon to support both these amendments.

16:51 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I speak to amendments 27 and 53 in this group. The wording of amendment 53 closely follows the existing section 71A of the Town and Country Planning Act 1990, which gives the Welsh Ministers power to make regulations about the consideration to be given to the environmental effects of a development. In this respect, we are not introducing something wildly different from existing legislation and regulation. Just as due consideration must be given to the environmental impacts of a development, so also must due consideration be given to the impacts upon the Welsh language.

Rwy'n siarad am welliannau 27 a 53 yn y grŵp hwn. Mae geiriad gwelliant 53 yn dilyn adran 71A presennol o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn agos, sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch yr ystyriaeth i'w rhoi i effeithiau datblygiad ar yr amgylchedd. Yn hyn o beth, nid ydym yn cyflwyno rhywbeth sy'n eithriadol o wahanol i ddeddfwriaeth a rheoliadau sydd eisoes yn bodoli. Yn union fel y mae'n rhaid rhoi ystyriaeth briodol i effeithiau datblygiad ar yr amgylchedd, felly hefyd mae'n rhaid rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r effeithiau ar yr iaith Gymraeg.

I fully recognise the complications that can be associated with making legislation to consider the impact of developments on the use and vitality of language, and that is why in my amendment I've given the Minister the flexibility to provide for the level of consideration to be given and the classes of planning permission that any requirement would apply to. This is the same level of flexibility that is accorded to the Welsh Ministers in relation to environmental regulations, the only difference being that section 71A gives Welsh Ministers the power to make regulations, rather than requiring them to do so.

Rwy'n cydnabod yn llawn y cymhlethdodau a all fod yn gysylltiedig â gwneud deddfwriaeth i ystyried effaith datblygiadau ar y defnydd o iaith a'i bywiogrwydd, a dyna pam fy mod yn fy ngwelliant wedi rhoi'r hyblygrwydd i'r Gweinidog ddarparu ar gyfer lefel yr ystyriaeth a roddir a'r dosbarthiadau o ganiatâd cynllunio y byddai unrhyw ofyniad yn berthnasol iddynt. Dyma'r un lefel o hyblygrwydd a roddir i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â rheoliadau amgylcheddol, a'r unig wahaniaeth yw bod adran 71A yn rhoi'r pŵer i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny.

I also recognise, however, that, ideally, the requirements on local authorities and Welsh Ministers should be much stronger when it comes to Welsh language assessments. For that reason, I will also be supporting amendment 84 in the Chamber this afternoon. The amendment places a duty on local authorities to consider whether a development is likely to have a significant impact on the Welsh language, and this would provide a level of consistency in approach in the planning system across this country, whilst still retaining a measure of flexibility. I think that provisions of this kind should show that we are truly committed to preserving and protecting the Welsh language within the Welsh planning system.

Rwyf hefyd yn cydnabod, fodd bynnag, y dylai'r gofynion ar awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru yn ddelfrydol, fod yn llawer cryfach o safbwynt asesiadau ar gyfer y Gymraeg. Am y rheswm hwnnw, byddaf hefyd yn cefnogi gwelliant 84 yn y Siambr brynhawn heddiw. Mae'r gwelliant yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried a yw datblygiad yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr iaith Gymraeg, a byddai hyn yn darparu lefel o gysondeb o ran dull gweithredu yn y system gynllunio ar draws y wlad, gan barhau i gadw rhywfaint o hyblygrwydd. Rwy'n credu y dylai darpariaethau'r o'r math hwn ddangos ein bod yn wirioneddol ymrwymedig i gadw a gwarchod y Gymraeg o fewn y system gynllunio yng Nghymru.

I am delighted that amendment 27 has received the level of cross-party support that it has, and I join Llyr Gruffydd in celebrating the fact that we've come together on this issue, regardless of the provenance of the particular amendment. The amendment clarifies that, in dealing with applications for planning permission, a local planning authority must have regard to considerations relating to the use of the Welsh language as far as material to the particular application. Subsection 4 of the amendment clarifies that the amendments made to section 70 of the Town and Country Planning Act 1990 do not alter whether regard is to be had to any particular consideration, nor does it alter the weight to be given to any material consideration, and that point I think is important.

Rwyf wrth fy modd bod gwelliant 27 wedi derbyn cymaint o gefnogaeth drawsbleidiol, ac ymunaf â Llyr Gruffydd i ddathlu'r ffaith ein bod wedi dod at ein gilydd ar y mater hwn, waeth beth yw tarddiad y gwelliant penodol. Mae'r gwelliant yn egluro bod yn rhaid i awdurdod cynllunio lleol, wrth ymdrin â cheisiadau am ganiatâd cynllunio, roi sylw i ystyriaethau yn ymwneud â'r defnydd o'r iaith Gymraeg cyn belled ag y bo'n berthnasol i'r cais penodol. Mae is-adran 4 o'r diwygiad yn egluro nad yw'r gwelliannau a wnaed i adran 70 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn newid a oes angen rhoi sylw i unrhyw ystyriaeth arbennig, ac nid yw ychwaith yn newid y pwysau a roddir i unrhyw ystyriaeth berthnasol, ac mae'r pwynt hwnnw rwy'n meddwl yn bwysig.

Ensuring that the Welsh language is a material consideration was one of the most important recommendations to come out of the Environment and Sustainability Committee's scrutiny of this Bill, and I'm very pleased indeed that, with cross-party endeavour and support, this will become part of the legislation today. Diolch yn fawr.

Roedd sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol yn un o'r argymhellion pwysicaf i ddeillio o waith craffu'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar y Bil hwn, ac rwy'n falch iawn yn wir y bydd hyn, gydag ymdrech a chefnogaeth drawsbleidiol, yn dod rhan o'r ddeddfwriaeth heddiw. Diolch yn fawr.

16:54

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwy'n siarad am y gwelliant 61 yma. Weinidog, yng Nghyfnod 2, wrth ymateb i'r ddadl ar y grŵp o welliannau yn ymwneud ag asesiad effaith ar y Gymraeg, ymateboch chi drwy ddweud y byddech yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r dadleuon cyn heddiw. Ni allaf weld unrhyw dystiolaeth o hynny yn y gwelliannau Llywodraeth newydd ger ein bron heddiw, felly rwy'n cyflwyno gwelliant 61.

I'm speaking to this amendment 61. Minister, at Stage 2, in responding to the debate on the group of amendments relating to the Welsh language impact assessments, you responded by saying that you'd give careful consideration to the arguments prior to today. I can't see any evidence of that in the new Government amendments before us today, so I have tabled amendment 61.

Minister, I welcome your Stage 2 improvements for the strategic panels and for local planning authorities, but the question remains, however, as to the effect of actual planning applications on the Welsh language. I do accept that it's a difficult issue. We, as Welsh Conservatives, accept that devising a structure that's reasonable and proportionate, consistent yet fair across all sorts of different planning authorities with completely different identities does need further consideration. We also accept that the level of evidence-based policy development—and I mean evidence-based policy development—is not ready to be articulated on the face of the Bill yet. But that does not mean that such policy development should not happen, and I think it's perfectly reasonable to argue that some individual planning applications, by no means all, would give rise to impact, positive or negative, to which due regard should be given. So, my amendment, Minister, which is similar in some respects to other amendments before you in this group, places you under a duty but gives you time to call in and consider evidence of the type of individual application that should be subject to language impact assessments. It gives you plenty of scope to be reasonable and proportionate, with exemptions and exclusions, based on evidence rather than random numbers or percentages. We, too, are not looking for pointless bureaucratic burdens on individuals who, say, want to put an extension on the back of their house, but we are mindful that some individual development proposals could swallow up existing small settlements. That could be good, and growth in critical mass may be the clinching factor in the argument to build a new primary school to meet the growing demand for Welsh-medium education in that location, for example. So, it's not all negative when we talk about impact assessments. But we can also look at it the other way, and anyone can look at the Swansea LDP and see the area of the Lliw Valley, for example, where Welsh is still a genuine part of everyday life for many. That's been identified for hundreds of new homes, which could, of course, impact the other way around.

I'm also mindful that more ambitious Welsh language standards regarding the promotion of the language may apply more in some planning authorities than in others. That duty's not just about an advertising campaign, Minister. It's supposed to inform other functions of those planning authorities, and, I would say, including the consideration of planning applications.

Weinidog, rwy'n croesawu eich gwelliannau Cyfnod 2 ar gyfer y paneli strategol ac ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol, ond mae'r cwestiwn yn parhau, fodd bynnag, ynghylch effaith ceisiadau cynllunio gwirioneddol ar yr iaith Gymraeg. Rwy'n derbyn ei fod yn fater anodd. Rydym ni, y Ceidwadwyr Cymreig, yn derbyn bod angen rhoi rhagor o ystyriaeth i ddyfeisio strwythur sy'n rhesymol ac yn gymesur, yn gyson ac eto yn deg ar draws pob math o awdurdodau cynllunio gwahanol gyda hunaniaethau hollol wahanol. Rydym hefyd yn derbyn nad yw'r lefel hon o ddatblygu polisi seiliedig ar dystiolaeth—ac rwy'n golygu datblygu polisi seiliedig ar dystiolaeth—yn barod i gael ei mynegi ar wyneb y Bil eto. Ond nid yw hynny'n golygu na ddylai gwaith datblygu polisi o'r fath ddigwydd, ac rwy'n meddwl ei bod yn hollol resymol dadlau y byddai rhai ceisiadau cynllunio unigol, nid pob un o bell ffordd, yn arwain at effaith, boed gadarnhaol neu negyddol, y dylid rhoi sylw dyledus iddi. Felly, mae fy ngwelliant, Weinidog, sy'n debyg mewn rhai ffyrdd i welliannau eraill ger eich bron chi yn y grŵp hwn, yn rhoi dyletswydd arnoch chi ond yn rhoi amser ichi alw i mewn ac ystyried tystiolaeth o'r math o gais unigol a ddylai fod yn destun asesiadau o'r effaith ar yr iaith. Mae'n rhoi digon o gyfle i chi fod yn rhesymol ac yn gymesur, gydag esemptiadau ac eithriadau, yn seiliedig ar dystiolaeth yn hytrach na rhifau neu ganrannau ar hap. Nid ydym ninnau, chwaith, yn chwilio am feichiau biwrocrataidd dibwrpas ar unigolion sydd, dyweder, yn awyddus i roi estyniad ar gefn eu tŷ, ond rydym yn ymwybodol y gallai rhai cynigion datblygu unigol lyncu aneddiadau bach sydd eisoes yn bodoli. Gallai hynny fod yn beth da, ac efallai y gallai'r twf mewn mas critigol fod yn ffactor sy'n torri dadl ynghylch adeiladu ysgol gynradd newydd i ateb y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg yn y lleoliad hwnnw, er enghraifft. Felly, nid yw'n faes cwbl negyddol pan fyddwn yn sôn am asesiadau effaith. Ond gallwn hefyd edrych arno'r ffordd arall, a gall unrhyw un edrych ar Gynllun Datblygu Lleol Abertawe a gweld ardal Dyffryn Lliw, er enghraifft, lle mae'r Gymraeg yn dal i fod yn rhan wirioneddol o fywyd pob dydd i lawer. Mae'r fan honno wedi cael ei nodi ar gyfer cannoedd o gartrefi newydd, a allai, wrth gwrs, gael effaith i'r ffordd arall.

Rwy'n ymwybodol hefyd y gallai rhai awdurdodau cynllunio fod â safonau mwy uchelgeisiol o ran hyrwyddo'r iaith nag awdurdodau eraill. Nid dim ond ymgyrch hysbysebu yw'r ddyletswydd honno, Weinidog. Mae i fod i gyfrannu at swyddogaethau eraill yr awdurdodau cynllunio hynny, a hynny, byddwn yn dweud, gan gynnwys ystyried ceisiadau cynllunio.

The regulations that I propose would take considerable development work—not an excuse, as I say, for the work not to be done—but there's no point having those impact assessments if they're then ignored anyway, and my amendment introduces a due regard requirement, practicable in just the same way as due regard for the UNCRC is practicable. The fact that planning authorities routinely ignore or pay scant regard to existing guidelines on this is why the amendments in this group are before you, Minister. Llyr has already mentioned the poor record of local authorities in considering impacts on Welsh language. This Assembly has often heard the argument that legislation on an issue is perfectly legitimate while guidance on that same issue has failed. So, if you are serious about supporting the Welsh language via this Bill, Minister, then you have to stop this inconsistent and often contemptuous behaviour by planning authorities. If not this Bill, which Bill?

Byddai'r rheoliadau a gynigiaf yn cymryd cryn waith datblygu—nid esgus, fel y dywedais, i'r gwaith beidio â chael ei wneud—ond nid oes diben cael yr asesiadau effaith hynny os ydynt yn cael eu hanwybyddu beth bynnag, ac mae fy ngwelliant i'n cyflwyno gofyniad i roi sylw dyledus, yn ymarferol yn yr un ffordd ag y mae sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ymarferol. Y rheswm pam mae'r gwelliannau yn y grŵp hwn ger eich bron, Weinidog, yw'r ffaith bod awdurdodau cynllunio fel mater o drefn yn anwybyddu neu ddim yn rhoi fawr o sylw i ganllawiau presennol ar hyn. Mae Llyr eisoes wedi crybwyll record wael awdurdodau lleol wrth ystyried effeithiau ar yr iaith Gymraeg. Mae'r Cynulliad hwn yn aml wedi clywed y ddadl bod deddfwriaeth ar fater yn hollol ddilys er bod canllawiau ar yr un mater wedi methu. Felly, os ydych o ddifrif am gefnogi'r iaith Gymraeg drwy gyfrwng y Bil hwn, Weinidog, yna mae'n rhaid i chi atal yr ymddygiad anghyson a dirmygus yn aml gan awdurdodau cynllunio. Os nad y Bil hwn, pa Fil?

To help planning authorities prove that they've exercised due regard, my amendment does actually require something different from the other amendments in this group insofar as it sets some very minimum requirements so that a planning authority can show, can evidence, that it has complied with due regard requirements. I think this manages the expectations of applicants and objectors, and protects planning authorities from upsetting and often expensive accusations of failure to comply with due regard requirements. So, a short code might be appropriate. I'm pretty open on how you might want to look at that, Minister, but I do think that that needs to be done.

Er mwyn helpu awdurdodau cynllunio i brofi eu bod wedi arfer sylw dyledus, mae fy ngwelliant yn gofyn am rywbeth gwahanol i'r gwelliannau eraill yn y grŵp hwn yn yr ystyr ei fod yn gosod rhai gofynion sylfaenol iawn fel y gall awdurdod cynllunio ddangos, fel y gall ddangos tystiolaeth, ei fod wedi cydymffurfio â gofynion sylw dyledus. Rwy'n credu bod hyn yn rheoli disgwyliadau ymgeiswyr a gwrthwynebwyr, ac yn amddiffyn awdurdodau cynllunio rhag cyhuddiadau annifyr a drud yn aml nad ydynt wedi cydymffurfio â gofynion sylw dyledus. Felly, efallai y byddai cod byr yn briodol. Rwy'n eithaf agored fy meddwl ynghylch sut y gallech fod am edrych ar hynny, Weinidog, ond rwy'n credu ei fod yn rhywbeth y mae angen ei wneud.

Finally, on amendment 56, I just wanted to say that I have a great deal of sympathy with this particular amendment and I would like to support this, but I'll support it not just because it supports the Welsh language in the way that Llyr has described in his remarks today but because it also chimes very nicely with what the Deputy Minister was saying in our earlier debate on protecting heritage. Not all place names in Wales are necessarily Welsh. There are anglicisations and bastardisations of the Welsh language that have been used in parts of Wales for centuries, and they're just as much part of our general history, our story, as the Welsh language names themselves. I think the amendment that you've put down protects all of that and not just the Welsh language. Diolch yn fawr iawn.

Yn olaf, o ran gwelliant 56, rwyf eisiau dweud bod gennyf lawer iawn o gydymdeimlad â'r gwelliant penodol hwn ac y byddwn yn hoffi ei gefnogi, ond byddaf yn ei gefnogi nid yn unig oherwydd ei fod yn cefnogi'r iaith Gymraeg yn y ffordd y mae Llyr wedi'i ddisgrifio yn ei sylwadau heddiw, ond oherwydd ei fod hefyd yn cyd-fynd yn dda iawn â'r hyn yr oedd y Dirprwy Weinidog yn ei ddweud yn ein dadl gynharach ar amddiffyn treftadaeth. Nid yw pob enw lle yng Nghymru o reidrwydd yn un Cymraeg. Mae enwau Cymraeg wedi eu Seisnigeiddio a'u bastardeiddio wedi cael eu defnyddio mewn rhannau o Gymru ers canrifoedd, ac maen nhw'n llawn cymaint rhan o'n hanes cyffredinol, ein stori, â'r enwau Cymraeg eu hunain. Rwy'n meddwl bod y gwelliant yr ydych wedi'i gyflwyno yn amddiffyn hynny i gyd ac nid dim ond yr iaith Gymraeg. Diolch yn fawr iawn.

16:59 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n siarad i welliant 27, a gyflwynwyd yn enw William Powell. Wrth gwrs, rwy'n diolch i'r Gweinidog am ei gefnogaeth i'r gwelliant yma. Mae'r gwelliant yn un arwyddocaol, gan ei fod o'n cydnabod bod y Gymraeg, neu y bydd y Gymraeg, yn ystyriaeth o ran cynllunio, ac mae hwnnw'n gam cadarnhaol. Ond, fel y gwyddom ni, mewn deddfwriaeth, mae'r cyd-destun a'r manylion yn allweddol. Dyna pam y bydd angen nodyn cynghori technegol a/neu ganllaw priodol. Mae hynny'n hollbwysig i sicrhau bod awdurdodau cynllunio ar draws Cymru yn gweithredu'r gwelliant yma mewn modd cyson a chywir.

I speak to amendment 27, which was tabled in the name of William Powell. Of course, I thank the Minister for his support for this amendment. This amendment is a significant one because it recognises that the Welsh language is or will be a planning consideration, and that's a very positive step. But, as we know, in legislation, the context and the details are key. That's why we will need a technical advice note and/or appropriate guidance. That will be vital to ensure that planning authorities throughout Wales implement this amendment in a consistent and accurate way.

Felly, rwy’n annog y Llywodraeth ac yn gofyn am gadarnhad heddiw gan y Gweinidog, o basio’r gwelliant yma, y byddwn ni’n cael nodyn o’r fath cyn gynted â phosib. Rydym yn ei annog o hefyd i ymgynghori ag awdurdodau cynllunio ac arbenigwyr ar fyrder i weithredu bwriad y gwelliant yma. Dyna’r her a dyna ddyletswydd y Llywodraeth, ac ni fydd llusgo traed pellach yn dderbyniol. Felly, rwy’n annog pawb i gefnogi’r gwelliant. Diolch.

Therefore, I urge the Government and ask for confirmation today from the Minister, if this amendment is passed, that we will have such a note as soon as possible. We also encourage him to consult with planning authorities and experts urgently to realise the intention behind this amendment. That’s the challenge and that’s the Government's duty, and dragging your feet any further will not be acceptable. So, I encourage everyone to support the amendment. Thank you.

17:01

## Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Rwy’n siarad ar y grŵp yma o welliannau oherwydd mae yna dair egwyddor bwysig, rwy’n meddwl, sy’n cael eu hadlewyrchu yn y gwelliannau i gyd. Yn gyntaf oll, mae’r set o welliannau’n ymwneud ag asesiadau iaith a rôl Comisiynydd y Gymraeg, ac rwyf i jest eisiau ategu pa mor bwysig yw e i gael llais y comisiynydd yn hynny o beth.

I speak to this group of amendments because there are three important principles, I believe, reflected in all the amendments. First of all, the set of amendments relate to Welsh language impact assessments and the Welsh Language Commissioner's role, and I just want to reiterate how important it is to have the commissioner's voice in that regard.

Rŷm ni wedi clywed eisoes ynglŷn â’r ffaith bod asesiadau iaith yn dueddol o gael eu comisiynu gan y datblygwyr eu hunain, ond, o edrych arno o safbwynt datblygwyr hefyd—ac rwyf wedi trafod hwn gyda datblygydd tai—maen nhw eisiau gweld asesiadau iaith yn cael eu gwneud mewn un ffurf ar draws Cymru gyfan. Nid ydyn nhw eisiau gorfod delio ag un dynesiad mewn un rhan o Gymru a ffordd arall mewn rhan arall o Gymru. Maen nhw hefyd eisiau chwarae teg. O ran rôl y comisiynydd iaith, os ŷch chi’n edrych ar y Ddeddf—wel, Mesur oedd e—a sefydlodd y comisiynydd iaith, mae yna rôl yn fanna i lais y comisiynydd fel rhywun annibynnol yn y broses yma, mae yna rôl i lais y comisiynydd fel rhywun sydd yn chwilio ac yn hyrwyddo arfer da, ac mae rôl i lais y comisiynydd fel rhywun sydd yn hyrwyddo ymchwil hefyd ym maes diogelu iaith. Felly, mae llais y comisiynydd yn y broses o asesiadau iaith yn cyfoethogi’r broses yna ac yn ei gwneud hi’n fwy teg, yn fwy agored ac yn fwy hygyrch i bawb. Felly, rwy’n croesawu egwyddor y gwelliannau i gyd, er rwy’n deall nad ŷm ni’n gallu cefnogi pob un yn y ffordd mae’r pleidleisio’n digwydd. Mae hynny’n digwydd o bryd i’w gilydd.

We’ve already heard that Welsh language impact assessments tend to be commissioned by the developers themselves, but, looking at it from the point of view of the developers—and I have discussed this with a housing developer—they want Welsh language impact assessments to be carried out uniformly across the whole of Wales. They don’t want to have to deal with one approach in one part of Wales and another in another part of Wales. They also want fair play. On the role of the language commissioner, if you look at the Act—well, it was a Measure—which established the commissioner, there is a role there for the voice of the commissioner as an independent advocate in this system, there’s a role as one who seeks and promotes good practice, and there’s a role for the commissioner as one who also promotes research in the field of language protection. Therefore, the commissioner's voice in Welsh language impact assessments enhances that process and makes it fairer, more open and more accessible to all. So, I welcome the principle behind all the amendments, although I understand that we can’t support every one as the voting proceeds. That happens from time to time.

Yr ail elfen sy’n bwysig yw’r un y mae Alun Ffred Jones newydd gyfeirio ati, sef pa mor bwysig yw ein bod, am y tro cyntaf, rwy’n meddwl, mewn Deddf Cymru, yn sôn yn benodol yn statudol bod y Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol. Rydym wedi cael hwn o’r blaen mewn TAN, ond nid ydym wedi’i gael ar wyneb Bil a fydd yn dod yn Ddeddf. Mae hwnnw yn gam bwysig ymlaen. Mae yna dal gwendidau fan hyn—ac ni wnaf aralleirio beth a ddywedwyd gan Alun Ffred—ond mae yna gamau y mae eisiau eu cymryd i sicrhau bod hwnnw’n cael ei wneud mewn ffordd deg, sydd, eto, yn hygyrch ac yn agored i bawb. Ond mae’n bwysig bod hwnnw wedi cael ei dderbyn gan y Llywodraeth a bod pob plaid, felly, yn gallu cefnogi hynny, achos mae’n gyrru neges gryf o’r Cynulliad fel Senedd.

The second element that’s important is the one that Alun Ffred Jones has just referred to, which is the importance that we, for the first time, I think, are talking in a Welsh Act about the language as a material statutory consideration. We've seen that previously in a TAN, but we’ve not had it on the face of a Bill that will become an Act. That is an important step forward. There are still weaknesses here—and I will not paraphrase what was said by Alun Ffred—but there are steps that need to be taken to ensure that that is done in a way that is equitable and also accessible and open to all. But it is important that that has now been accepted by Government and that all parties can support that, because it sends a very strong message from the Assembly as a Senedd.

Y pwynt olaf yr wyf i jest eisiau cyfeirio ato yw gwelliant 56 yn enw fy nghyfaill, Llyr Gruffydd, sy'n ymwneud ag enwau llefydd. Rwyf eisiau cefnogi'r hyn a ddywedodd Suzy Davies. Nid wy'n gwybod a oedd gyda hi rhywbeth fel 'Oystermouth', Ystumllwynarth, yn ei meddyliau pan oedd hi'n sôn am hynny, ond mae cyswllt, yn bendant, gyda'r datganiad a gafwyd gan y Dirprwy Weinidog diwylliant yn gynharach, pan soniodd ef am 'intangible heritage', treftadaeth annirnadol, a pha mor bwysig yw e ein bod ni'n cadw hynny o'n cwmpas ni, gymaint â waliau a cherrig a chymaint â'r dirwedd sydd o gwmpas. Mae'n rhan o'n hanes ni ac mae'n ffurfio ein cymeriad ni fel cenedl. Nid yw hynny'n ddadl dros gadw popeth mewn 'aspic', ond mae'n rhaid inni barchu hynny. Bob tro rŷm ni'n parchu hynny, mae'n rhaid inni ddefnyddio deddfwriaeth i atgyfnerthu'r alwad yna os oes angen.

The final point I just want to refer to is amendment 56 in the name of my friend, Llyr Gruffydd, relating to place names I want to support the comments made by Suzy Davies. I don't know whether she had somewhere like Oystermouth, or Ystumllwynarth, in mind when she was talking about that, but there is certainly that link with the statement made earlier by the Deputy Minister for culture, when he talked about 'intangible heritage', and how important is it that we actually keep that around us, as much as we protect the walls and stones, and as much as the landscape that surrounds us. It is part of our history, and it formulates our character as a nation. That isn't an argument for preserving everything in aspic, but we have to respect that. Every time we do respect that, we have to use legislation to reinforce that call if need be.

Mae'r ffaith bod deiseb o 1,000 o enwau wedi dod i'r Cynulliad yn dangos bod pobl yn poeni yn y maes yma, ac mae ganddyn nhw le i boeni, rwy'n meddwl, mewn ambell i le, yn y ffordd y mae ambell ran o Gymru'n cael ei hyrwyddo a'r ffordd mae'n cael ei dehongli—'dehongli' yw'r gair fan hyn—mewn ffordd sydd yn cau allan hanes gwreiddiol y lle. Os ŷm ni eisiau bod yn agored i bawb—ac rydym ni eisiau bod—rydym ni eisiau cynnwys pawb yn y hanes yna. Mae hynny mor bwysig i'r iaith Gymraeg a'r Saesneg, pan mae wedi cael ei siarad am ganrifoedd lawer yng Nghymru hefyd, rwy'n cytuno'n llwyr. Felly, rwyf am gefnogi egwyddor y gwelliannau yn y grŵp yma.

The fact that a petition of 1,000 names has come to the Assembly does demonstrate that people are concerned about this issue, and they have room for concern, I think, in many regards, in the way that some parts of Wales are promoted and interpreted—and 'interpretation' is the word here—in a way that actually excludes the original history of the place. If we want to be open to all—and we do—then we have to include everyone in the history. That is as important to the Welsh language as it is to the English language, which has also been spoken for many centuries in Wales, I completely agree. Therefore, I support the principle of the amendments in this group.

17:04

## Carl Sargeant [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I'd like to speak to the amendments in this group. This will provide decision makers with clarity that considerations relating to the use of the Welsh language may be considered so far as material to applications for planning permission, and I will be supporting amendment 27 in the name of William Powell. Three parties have proposed amendments on the Welsh language impact assessments, and we had to choose one of them that we thought was articulate and balanced, and William Powell's amendment, we believe, does tick that box.

Hoffwn siarad am y gwelliannau yn y grŵp hwn. Bydd hyn yn ei gwneud yn eglur i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau y gallai ystyriaethau yn ymwneud â'r defnydd o'r iaith Gymraeg gael eu hystyried i'r graddau y maent yn berthnasol i geisiadau am ganiatâd cynllunio, a byddaf yn cefnogi gwelliant 27 yn enw William Powell. Mae tair plaid wedi cynnig gwelliannau ar yr asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg, ac roedd yn rhaid inni ddewis un ohonynt yr oeddem ni'n meddwl ei fod yn glir a chytbwys, ac mae gwelliant William Powell, yn ein barn ni, yn ticio'r blwch hwnnw.

Some of the language that has been used in today's contributions was unfortunate, by some, actually, because I think the First Minister, myself and my team have worked incredibly hard with stakeholders regarding bringing these Welsh language provisions to a Bill. The language is of the gift of the people and not of any political party or any Government. It is something that we've been very keen to manage that process as we move forward. Indeed, this Welsh Labour Government introduced the Welsh Language Commissioner, and we will be the first to introduce language into statute in a Bill and then in terms of an Act. So, it is something that we can work together on with organisations to make sure that the Welsh language is strong and grows as we move forward in this process.

Mae rhywfaint o'r iaith a ddefnyddiwyd gan rai mewn cyfraniadau heddiw wedi bod yn anffodus, mewn gwirionedd, oherwydd bod y Prif Weinidog, fi fy hun a fy nhîm, rwy'n credu, wedi gweithio'n anhygoel o galed gyda rhanddeiliaid er mwyn dod â'r darpariaethau iaith Gymraeg i'r Bil. Mae'r iaith yn eiddo i'r bobl ac nid unrhyw blaid wleidyddol neu unrhyw Lywodraeth. Rydym ni wedi bod yn awyddus iawn i reoli'r broses honno wrth inni symud ymlaen. Yn wir, cyflwynodd Llywodraeth Lafur Cymru Gomisiynydd y Gymraeg, a byddwn ni y cyntaf i gyflwyno iaith i mewn i statud mewn Bil, ac yna yn nhermau Ddeddf. Felly, mae'n rhywbeth y gallwn weithio gyda'n gilydd arno gyda sefydliadau i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn gryf ac yn tyfu wrth inni symud ymlaen yn y broses hon.

Alun Ffred particularly raised an issue regarding policy implementation. He will be aware of TAN 20 and the toolkit surrounding that. We will look to review that policy in order to have consistency of approach to delivery in communities across Wales.

Roedd Alun Ffred yn arbennig yn codi mater o ran gweithredu polisïau. Bydd yn ymwybodol o TAN 20 a'r pecyn cymorth ynglŷn â hynny. Ein bwriad fydd adolygu'r polisi hwnnw er mwyn cael dull cyson o gyflawni mewn cymunedau ledled Cymru.

We will not be seeking to support any other amendments in this group. I am grateful for William Powell and his tabling of that amendment, which we will be happy to support as Government.

Ni fyddwn yn cefnogi unrhyw welliannau eraill yn y grŵp hwn. Rwy'n ddiolchgar i William Powell am gyflwyno'r gwelliant hwnnw, a byddwn yn hapus i'w gefnogi fel Llywodraeth.

17:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And Russell George to reply.

A Russell George i ymateb.

17:06

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think, Deputy Presiding Officer, William, Llyr, Suzy and I were very much united at Stage 2 in our desire to strengthen the Welsh language provisions in this Bill, because, as the First Minister had indicated in the past, this Bill is one of the vehicles that could and should, in his view, facilitate the progression of the Government's policy in this area, which is to grow the Welsh language right across Wales. As Llyr said, it's a golden opportunity, and I agree with that point. It seemed that, until Stage 2, the Minister was not supportive of strengthening provisions in the Bill, but, obviously, he has taken on board some of those concerns, and I certainly welcome this support in backing amendment 27.

Rwy'n meddwl, Ddirprwy Lywydd, fod William, Llyr, Suzy a minnau'n unedig iawn yng Nghyfnod 2 yn ein dymuniad i gryfhau'r darpariaethau'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn y Bil hwn, oherwydd bod y Bil hwn, fel y mae'r Prif Weinidog wedi'i ddweud yn y gorffennol, yn un o'r cyfryngau a allai ac a ddylai, yn ei farn ef, hwyluso datblygiad polisi'r Llywodraeth yn y maes hwn, sef cynyddu'r iaith Gymraeg ledled Cymru. Fel y dywedodd Llyr, mae'n gyfle euraid, ac rwy'n cytuno â'r pwynt hwnnw. Roedd yn ymddangos, tan Gyfnod 2, nad oedd y Gweinidog yn gefnogol i gryfhau darpariaethau yn y Bil, ond mae'n amlwg ei fod wedi ystyried rhai o'r pryderon hynny, ac rwy'n sicr yn croesawu ei gefnogaeth i welliant 27.

I am disappointed by his reluctance to support the concept of Welsh impact assessments, particularly amendment 61, put forward by my colleague Suzy Davies, which would have given Ministers plenty of scope to be, as Suzy said, reasonable and proportionate with the exceptions and exemptions, with conclusions based on the evidence, rather than random numbers or percentages. I am grateful for the number of Members who spoke in this debate.

Rwy'n siomedig â'i amharodrwydd i gefnogi'r cysyniad o asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg, yn enwedig gwelliant 61, a gyflwynwyd gan fy nghydweithiwr Suzy Davies. Byddai wedi rhoi i Weinidogion ddigon o gyfle i fod yn rhesymol ac yn gymesur, fel y dywedodd Suzy, gyda'r esemptiadau a'r eithriadau, gyda chasgliadau ar sail y dystiolaeth, yn hytrach na rhifau neu ganrannau ar hap. Rwy'n ddiolchgar bod cynifer o Aelodau wedi siarad yn y ddadl hon.

17:08

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 70 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 70 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 70 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 70.

*Gwrthodwyd gwelliant 70: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 70 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 70

Result of the vote on amendment 70

17:08

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Russell George, amendment 71.

Russell George, gwelliant 71.

*Cynigiwyd gwelliant 71 (Russell George).*

*Amendment 71 (Russell George) moved.*

17:08

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

17:08

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 71 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 12. There voted against 28. Therefore, amendment 71 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 71 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 12 o blaid. Pleidleisiodd 28 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 71.

*Gwrthodwyd gwelliant 71: O blaid 12, Yn erbyn 28, Ymatal 0.*

*Amendment 71 not agreed: For 12, Against 28, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 71

Result of the vote on amendment 71

### Grŵp 9: Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Gwelliant 72)

### Group 9: Health Impact Assessments (Amendment 72)

17:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Group 9 relates to health impact assessments. The lead amendment in this group is amendment 72, and I call on Russell George to move and speak to the lead amendment.

Mae grŵp 9 yn ymwneud ag asesiadau o'r effaith ar iechyd. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 72, a galwaf ar Russell George i gynnig a siarad am y gwelliant arweiniol.

*Cynigiwyd gwelliant 72 (Russell George).*

*Amendment 72 (Russell George) moved.*

17:09

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Before I formally move the amendments, can I thank the Minister for allowing my office to have access to his officials to discuss this issue in more detail? I understood, from those discussions, that the protection and promotion of public health within the planning system has been something that you have asked your officials to examine further during this legislative process, and this is something I welcome. That is why, I hope, unlike at Stage 2, I can genuinely persuade you of the merits of this particular amendment.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cyn imi gynnig y gwelliannau'n ffurfiol, a gaf i ddiolch i'r Gweinidog am ganiatáu i fy swyddfa gyfarfod â'i swyddogion i drafod y mater hwn yn fanylach? Rwy'n deall, o'r trafodaethau hynny, eich bod wedi gofyn i'ch swyddogion ymchwilio ymhellach yn ystod y broses ddeddfwriaethol hon i amddiffyn a hybu iechyd y cyhoedd o fewn y system gynllunio, ac mae hyn yn rhywbeth yr wyf yn ei groesawu. Dyna pam, rwy'n gobeithio y gallaf, yn wahanol i Gyfnod 2, eich darbwyllo'n wirioneddol o rinweddau'r gwelliant penodol hwn.

I'm pleased to move amendment 72, the only one in this group, which would formally introduce health impact assessments into the planning process. During the consultation process for Stage 1, quite a number of consultees, including the British Medical Association, called for a statutory requirement for health impact assessments to be carried out at various stages of the planning system. I have to say that the arguments for HIAs for certain developments, like the ones that fall within the DNS and major categories, are very persuasive to me and had a lot of traction with me, personally, given what is going on, particularly in Montgomeryshire at the moment, and also what I witnessed in Carmarthenshire when I went with the Petitions Committee for a visit there and spoke to residents regarding the problems they were experiencing with noise pollution from windfarms.

Rwy'n falch o gynnig gwelliant 72, yr unig un yn y grŵp hwn, a fyddai'n cyflwyno asesiadau o'r effaith ar iechyd fel rhan ffurfiol o'r broses gynllunio. Yn ystod y broses ymgynghori ar gyfer Cyfnod 1, galwodd cryn nifer o ymgyngoreion, gan gynnwys Cymdeithas Feddygol Prydain, am ofyniad statudol i gynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd ar wahanol gamau o'r system gynllunio. Mae'n rhaid imi ddweud bod y dadleuon o blaid asesiadau o'r effaith ar iechyd ar gyfer datblygiadau penodol, fel y rhai sy'n dod o fewn y categorïau Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol a datblygiad mawr, yn argyhoeddiadol iawn i mi ac wedi fy narbwyllo, yn bersonol, o ystyried yr hyn sy'n digwydd, yn enwedig yn Sir Drefaldwyn ar hyn o bryd, a hefyd yr hyn yr oeddwn yn dyst iddo yn Sir Gaerfyrddin pan es gyda'r Pwyllgor Deisebau ar ymweliad yno a siarad â phreswylwyr ynghylch y problemau maen nhw'n eu profi gyda llygredd sŵn o ffermydd gwynt.

However, I'm not making an anti-windfarm position here. What I am saying is that we have just recently had an extensive debate about the future of opencast mining in Wales and whether there should be further regulations or even a moratorium. So, I raised this issue at Stage 2, and the Minister did say that the process for a minerals policy in relation to opencast mining applications was different because a system of HIAs already existed. He is, of course, right, but they are not mandatory, and surely they should be. As a Conservative, I am naturally disposed to ensure that the burden of unnecessary bureaucracy on business and on public bodies is reduced or eliminated; however, there is a fine line that needs to be walked between what may, at first, be deemed as unnecessary regulation and something that may be crucial in maintaining the health and wellbeing of not just individual citizens but of entire communities.

Fodd bynnag, nid gwneud safiad yn erbyn ffermydd gwynt rydw i yma. Yr hyn rwy'n ei ddweud yw ein bod newydd gael trafodaeth helaeth am ddyfodol cloddio glo brig yng Nghymru a ph'un a ddylid cael rhagor o reoliadau neu hyd yn oed foratoriwm. Felly, codais y mater hwn yng Nghyfnod 2, a dywedodd y Gweinidog fod y broses ar gyfer polisi mwynau mewn cysylltiad â cheisiadau cloddio glo brig yn wahanol am fod system o asesiadau o'r effaith ar iechyd eisoes yn bodoli. Mae'n iawn, wrth gwrs, ond nid ydynt yn orfodol, a siawns y dylent fod. Fel Ceidwadwr, rwy'n naturiol yn dymuno sicrhau bod baich biwrocratiaeth ddiangen ar fusnesau ac ar gyrff cyhoeddus yn cael ei leihau neu ei ddileu; fodd bynnag, mae ffin denau rhwng yr hyn y gellid ei ystyried, ar y dechrau, fel rheoleiddio diangen a rhywbeth a all fod yn hanfodol er mwyn cynnal iechyd a lles cymunedau cyfan yn ogystal â dinasyddion unigol.

17:11 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, I'm grateful for the comments that the Member made. It's unfortunate that the Member will not be persuading me today to support his amendment. However, I will give him some comfort that rather than placing this in legislation we will look to improve the current legislation that we have in place around health impact assessments, to see whether we can protect the communities further as he is seeking to do. I know that my department has already spoken to the health Minister with regard to this too. It is something that I will engage on with the Member at a later date as we move forward on this. However, today, unfortunately, we'll not be seeking to support this amendment in this guise.

Unwaith eto, rwy'n ddiolchgar am y sylwadau a wnaeth yr Aelod. Mae'n anffodus na fydd yr Aelod yn fy narbwyllo i heddiw i gefnogi ei welliant. Er hynny, byddaf yn rhoi rhywfaint o gysur iddo y byddwn, yn hytrach na rhoi hyn mewn deddfwriaeth, yn ceisio gwella'r ddeddfwriaeth bresennol ym maes asesiadau o'r effaith ar iechyd, i weld a allwn ddiogelu'r cymunedau ymhellach fel y mae ef yn ceisio'i wneud. Gwn fod fy adran eisoes wedi siarad â'r Gweinidog iechyd mewn cysylltiad â hyn hefyd. Mae'n rhywbeth y byddaf yn ymgysylltu â'r Aelod yn ei gylch yn ddiweddarach wrth inni symud ymlaen ar hyn. Fodd bynnag, heddiw, yn anffodus, ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliant hwn yn y ffurf hon.

17:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Russell George to reply.

Russell George i ymateb.

17:12 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I appreciate what the Minister has said, and on that basis I am happy to withdraw the amendment. Thank you, Minister.

Rwy'n gwerthfawrogi'r hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud, ac ar y sail honno rwy'n fodlon tynnu'r gwelliant yn ôl. Diolch yn fawr, Weinidog.

17:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member wants to withdraw amendment 72. Does any Member object to that amendment now being withdrawn? No Member objects; so, amendment 72 is withdrawn.

Mae'r Aelod yn dymuno tynnu gwelliant 72 yn ôl. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu i'r gwelliant hwnnw gael ei dynnu'n ôl? Nid oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu; felly, mae gwelliant 72 wedi'i dynnu'n ôl.

*Tynnwyd gwelliant 72 yn ôl yn unol â Rheol Sefydlog 12.27.*

*Amendment 72 withdrawn in accordance with Standing Order 12.27.*

### Grŵp 10: Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gwelliannau 73, 13, 74, 75, 35, 14, 36, 15, 37, 76, 62 a 79)

### Group 10: Developments of National Significance (Amendments 73, 13, 74, 75, 35, 14, 36, 15, 37, 76, 62 and 79)

17:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to group 10, developments of national significance. The lead amendment in this group is amendment 73. I call on Russell George to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Symudwn yn awr at grŵp 10, datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 73. Galwaf ar Russell George i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 73 (Russell George).*

*Amendment 73 (Russell George) moved.*

17:13

**Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm pleased to move amendments 73, 74, 75, 62 and 79 in this grouping. There are three distinct issues within these amendments. Amendments 62, 73, and 75 regard the DNS categorisation. Both the Environment and Sustainability Committee and the Constitutional and Legislative Affairs Committee highlighted this issue when they reported at Stage 1. For me, it's pretty straightforward in that we, more or less, have an idea of what is going to be defined in the developments of national significance as this was set out in the 'Positive Planning' consultation, which preceded the Bill. Therefore, given that section 18 of the Bill will give Welsh Government Ministers the powers to make decisions on DNS applications, rather than local planning authorities, I see no reason why this shouldn't be on the face of the Bill. As the Constitutional and Legislative Affairs Committee rightly pointed out in its overall assessment of this Bill, it's disappointing that more detail has not been put on the face of the Bill, particularly in relation to significant policy matters. This, I think, is a significant policy matter.

Rwy'n falch o gynnig gwelliannau 73, 74, 75, 62 a 79 yn y grŵp hwn. Ceir tri mater penodol o fewn y gwelliannau hyn. Mae gwelliannau 62, 73, a 75 yn ystyried y categori datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Amlygodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd a'r Pwyllgor Materion Deddfwriaethol a Chyfansoddiadol y mater hwn wrth gyflwyno adroddiad yng Nghyfnod 1. I mi, mae'n eithaf syml yn yr ystyr bod gennym ni syniad, fwy neu lai, o'r hyn sy'n mynd i gael ei ddiffinio yn y datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol gan fod hwn wedi cael ei nodi yn yr ymgynghoriad 'Cynllunio Cadarnhaol', a ragflaenodd y Bil. Felly, o gofio y bydd adran 18 o'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Llywodraeth Cymru, yn hytrach nag awdurdodau cynllunio lleol, wneud penderfyniadau ar geisiadau ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol ni welaf unrhyw reswm pam na ddylai hyn fod ar wyneb y Bil. Fel y nododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn briodol yn ei asesiad cyffredinol o'r Bil hwn, mae'n siomedig nad oes mwy o fanylion wedi cael eu rhoi ar wyneb y Bil, yn arbennig o safbwynt materion polisi sylweddol. Rwy'n meddwl bod hyn yn fater polisi sylweddol.

I have allowed the Minister some flexibility with amendment 75 so that, through regulation, the criteria can be amended and remain responsive. So, I hope this provides him with the assurance he needs to support these amendments.

Rwyf wedi caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd i'r Gweinidog gyda gwelliant 75 er mwyn sicrhau, drwy reoliadau, y gellir diwygio'r meini prawf a pharhau i fod yn ymatebol. Felly, rwy'n gobeithio bod hyn yn rhoi iddo'r sicrwydd sydd ei angen arno i gefnogi'r gwelliannau hyn.

The rationale behind amendment 74 is to probe the Minister further in his response to recommendation 26 of the Stage 1 report on what process the Government intends to use when deciding on energy projects over 50 MW.

Y rhesymeg y tu ôl i welliant 74 yw pwyso ar y Gweinidog ymhellach yn ei ymateb i argymhelliad 26 yn yr adroddiad Cyfnod 1 ar ba broses y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei defnyddio wrth benderfynu ar brosiectau ynni dros 50 MW.

Now, the St David's Day agreement has been published. I did raise this at Stage 2 and I didn't get any firm detail from the Minister. I did raise it today with the First Minister and also didn't get any firm detail on this. While this might not sit in the Minister's portfolio, the planning system is a delivery mechanism with applications across several portfolios, and co-ordinated action at all levels is, of course, vital. Now, as he is leading the co-ordination of the Bill on behalf of the Government, and given the Government's submission made to Silk part 2, asking for these further powers, I think it is particularly pertinent that we do get some more detailed information from him on this issue.

Nawr, mae cytundeb Dydd Gŵyl Dewi wedi cael ei gyhoeddi. Codais hyn yng Nghyfnod 2 ac ni chefais unrhyw fanylion pendant gan y Gweinidog. Codais y mater heddiw gyda'r Prif Weinidog, ac ni chefais unrhyw fanylion pendant am hyn eto. Er nad yw hyn yn rhan o bortffolio'r Gweinidog, o bosibl, mae'r system gynllunio yn fecanwaith cyflawni sy'n berthnasol ar draws sawl portffolio, ac mae'n hanfodol sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cydgysylltu ar bob lefel, wrth gwrs. Nawr, gan ei fod yn arwain y gwaith o gydlynu'r Bil ar ran y Llywodraeth, ac o ystyried bod y Llywodraeth wedi gwneud cyflwyniad i Silk rhan 2, yn gofyn am y pwerau ychwanegol hyn, rwy'n meddwl ei fod yn arbennig o berthnasol ein bod yn cael rhywfaint o wybodaeth fanylach ganddo ar y mater hwn.

Finally, amendment 76 is in relation to revisions for a compensation payment to be made in respect of an application for planning permission made to Welsh Ministers under the DNS category, which also includes associated development. As you can imagine, this has been a hot topic of conversation in my own constituency for a number of years now, and while the Minister may say that there are sufficient appropriate mechanisms in place to compensate individuals and communities disproportionately affected by development, I think there is an issue with devaluation of land and property blight, highlighted at Stage 2. A report jointly commissioned by the Welsh Government and produced by the London School of Economics and the Spatial Economics Research Centre looked at valuing and visual impact of wind turbines through house prices. Now, all the data in that report suggests that windfarm visibility reduces local house prices and that implied visual environmental costs are substantial.

Yn olaf, mae gwelliant 76 yn ymwneud â diwygiadau i wneud taliad iawndal mewn cysylltiad â chais am ganiatâd cynllunio a wneir i Weinidogion Cymru o dan y categori datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol, sydd hefyd yn cynnwys datblygiad cysylltiedig. Fel y gallwch ddychmygu, mae hwn wedi bod yn bwnc llosg yn fy etholaeth fy hun am nifer o flynyddoedd bellach, ac er bod y Gweinidog yn dweud o bosibl bod digon o fecanweithiau priodol ar waith i dalu iawndal i unigolion a chymunedau yr effeithir arnynt yn anghymesur gan ddatblygiad, rwy’n meddwl bod problem o ran gostyngiad yng ngwerth tir ac eiddo, a amlygwyd yng Nghyfnod 2. Edrychodd adroddiad a gomisiynwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru ac a baratowyd gan Ysgol Economeg Llundain a’r Ganolfan Ymchwil Economeg Ofodol ar brisio ac effaith weledol tyrbinau gwynt trwy brisiau tai. Yn awr, mae’r holl ddata yn yr adroddiad hwnnw yn awgrymu bod effaith weledol ffermydd gwynt yn gostwng prisiau tai lleol, a bod costau amgylcheddol gweledol sydd ymhlyg yn sylweddol.

Now, due to the Welsh Government planning policy technical advice note 8, I have constituents who are falling foul of this, who are unable to sell their properties and unable to invest in their businesses. They obviously feel that they are being hung out to dry through no fault of their own and they’re quite rightly looking to Government to provide an adequate solution to their plight. I would welcome the Government Minister’s comments on this, and, more importantly, if he's not prepared to deal with the issue on the face of the Bill, whether he would be prepared to discuss the matter further with me and his colleague the Minister for economic development so we can find a solution.

Nawr, oherwydd nodyn cyngor technegol 8 polisi cynllunio Llywodraeth Cymru, mae gennyf etholwyr sy'n dioddef o’r broblem hon, nad ydynt yn gallu gwerthu eu heiddo ac sy’n methu â buddsoddi yn eu busnesau. Maent yn amlwg yn teimlo eu bod yn cael eu gadael mewn twll heb fod unrhyw fai arnynt hwy ac maent yn ddigon teg yn disgwyl i'r Llywodraeth ddarparu ateb digonol i’w sefyllfa. Byddwn yn croesawu sylwadau Gweinidog y Llywodraeth ar hyn, ac, yn bwysicach fyth, os nad yw’n barod i ymdrin â'r mater ar wyneb y Bil, p'un a fyddai'n barod i drafod y mater ymhellach gyda mi a'i gydweithiwr y Gweinidog datblygu economaidd er mwyn i ni ganfod ateb.

17:17

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I speak to amendments 13 and 14 and I don't wish to move amendment 15, Deputy Presiding Officer, and I’ll explain why in a moment. Once again, I'll be supporting the majority of amendments in this group, with amendments 62, 73, 74 and 79 being the exceptions.

Rwy’n siarad am welliannau 13 a 14, ac nid wyf yn dymuno cynnig gwelliant 15, Ddirprwy Lywydd, a byddaf yn egluro pam mewn munud. Unwaith eto, byddaf yn cefnogi'r rhan fwyaf o'r gwelliannau yn y grŵp hwn, gyda gwelliannau 62, 73, 74 a 79 yn eithriadau.

My amendments, once again, seek to limit the removal of power away from local communities. Amendment 14 inserts a new clause in relation to developments of national significance to ensure that Welsh Ministers cannot make decisions instead of Natural Resources Wales, unless Natural Resources Wales give consent for that to be the case. Amendment 13 ensures that applications for housing, retail or leisure cannot be considered a development of national significance. I fully accept that there are certain kinds of developments, of course, that should be considered nationally significant, and in such cases I accept that a Welsh Minister is more often than not best placed to make those decisions. A large-scale energy power plant, for example, clearly has national significance, as does, maybe, a new motorway. But, I do not accept that, under any circumstances, provision of housing, retail or leisure facilities could be considered nationally significant. Even the huge 2,000 houses that were proposed in Bodelwyddan, in my home county of Denbighshire, can't be said to have national significance, and they don't come much bigger than that.

Mae fy ngwelliannau, unwaith eto, yn ceisio cyfyngu ar faint o bŵer sy’n cael ei gymryd oddi ar gymunedau lleol. Mae gwelliant 14 yn ychwanegu cymal newydd mewn cysylltiad â datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol i sicrhau na all Gweinidogion Cymru wneud penderfyniadau yn hytrach na Chyfoeth Naturiol Cymru, oni bai bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi caniatâd i hynny. Mae gwelliant 13 yn sicrhau na ellir ystyried ceisiadau am dai, neu safleoedd manwerthu neu hamdden yn ddatblygiad o arwyddocâd cenedlaethol. Rwy’n derbyn yn llwyr fod rhai mathau o ddatblygiadau, wrth gwrs, y dylid eu hystyried yn rhai o arwyddocâd cenedlaethol, ac mewn achosion o'r fath rwy’n derbyn mai un o Weinidogion Cymru yn fwy aml na pheidio sydd yn y sefyllfa orau i wneud y penderfyniadau hynny. Mae’n amlwg fod gan waith pŵer ynni ar raddfa fawr, er enghraifft, arwyddocâd cenedlaethol, yn ogystal â thraffordd newydd, efallai. Ond, nid wyf yn derbyn, o dan unrhyw amgylchiadau, y gellid ystyried cyfleusterau tai, manwerthu neu hamdden yn ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Ni ellir dweud bod gan hyd yn oed y datblygiad anferth o 2,000 o dai a gynigiwyd ym Modelwyddan yn fy sir enedigol, Sir Ddinbych, arwyddocâd cenedlaethol, ac nid ydych yn gweld datblygiadau llawer mwy na hynny.

The purpose of amendment 15 was to require the Welsh Ministers to have regard to any voluntary local impact report submitted to them by community councils when dealing with applications for developments of national significance. But, I'm content that the Government's amendment 36 will accomplish this aim and I'm happy to support the Government's amendment and not move my amendment 15.

Pwrpas gwelliant 15 oedd ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw adroddiad gwirfoddol a gyflwynir iddynt ar yr effaith leol gan gynghorau cymuned wrth ymdrin â cheisiadau am ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Ond, rwy'n fodlon y bydd gwelliant 36 y Llywodraeth yn cyflawni'r nod hwn ac rwy'n hapus i gefnogi gwelliant y Llywodraeth a pheidio â chynnig fy ngwelliant 15.

We'll be voting against amendments 62 and 79. Although I don't really have strong feelings about whether we put a list of developments of national significance on the face of the Bill or not, amendment 62 and the consequential amendment 79, of course, leave out energy deliberately, of course, which we cannot support.

Byddwn yn pleidleisio yn erbyn gwelliannau 62 a 79. Er nad oes gennyf deimladau cryf ynghylch a ydym yn rhoi rhestr o ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol ar wyneb y Bil neu beidio, mae gwelliant 62 a'r gwelliant canlyniadol 79, wrth gwrs, yn hepgor ynni yn fwriadol. Wrth gwrs, ni allwn gefnogi hynny.

We'll also be opposing amendment 74. It'll come as no surprise, I'm sure, to Members that Plaid Cymru opposes setting arbitrary limits on the responsibility of this Assembly in relation to energy. We believe energy should be wholly devolved to the National Assembly and see no reason why an energy development of over 350 MW should be a matter for Westminster politicians; I certainly don't see the merit of putting an arbitrary limit on energy on the face of the planning Bill.

Byddwn hefyd yn gwrthwynebu gwelliant 74. Ni fydd yn syndod, rwy'n siŵr, i Aelodau fod Plaid Cymru'n gwrthwynebu gosod terfynau mympwyol ar gyfrifoldeb y Cynulliad hwn mewn cysylltiad ag ynni. Credwn y dylai ynni gael ei ddatganoli yn gyfan gwbl i'r Cynulliad Cenedlaethol ac ni welwn unrhyw reswm pam y dylai datblygiad ynni o dros 350 MW fod yn fater i wleidyddion yn San Steffan; yn sicr, nid wyf yn gweld rhinwedd rhoi terfyn mympwyol ar ynni ar wyneb y Bil cynllunio.

17:20

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I seek to move amendments 35, 36 and 37 in my name. These respond to commitments at Stage 2 to bring forward amendments to the provisions regarding developments of national significance in the Bill, as outlined by Members today.

Rwy'n cynnig gwelliannau 35, 36 a 37 yn fy enw i. Mae'r rhain yn ymateb i ymrwymiadau yng Nghyfnod 2 i gyflwyno gwelliannau i'r darpariaethau ynghylch datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol yn y Bil, fel yr amlinellwyd gan Aelodau heddiw.

I call on Members not to support the non-Government amendments 13, 14 and 15 tabled by Llyr Gruffydd. Amendment 13 would undermine my forthcoming consultation on the definitions and procedures for developments of national significance. Members will be aware of the framework nature of the Bill, and the development of these procedures will be under way across the whole Bill process; it would be premature to do anything other than that. I'm grateful—. I also recognise that the Member did not move amendment 15, and I'm grateful for that.

Galwaf ar yr Aelodau i beidio â chefnogi'r gwelliannau 13, 14 a 15, nad ydynt yn rhai'r Llywodraeth, a gyflwynwyd gan Llyr Gruffydd. Byddai gwelliant 13 yn tanseilio'r ymgynghoriad yr wyf ar fin ei gyflwyno ar y diffiniadau a'r gweithdrefnau ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o natur fframwaith y Bil, a bydd y gweithdrefnau hyn yn cael eu datblygu trwy gydol broses y Bil; byddai'n rhy gynnar i wneud unrhyw beth gwahanol i hynny. Rwy'n ddiolchgar—. Rwyf hefyd yn cydnabod na wnaeth yr Aelod gynnig gwelliant 15, ac rwy'n ddiolchgar am hynny.

Russell George raised many issues, predominantly around currently live planning applications, Deputy Presiding Officer, which I wouldn't be able to discuss now or in the near future because of my role in some of the applications, potentially. However, the Member did raise one issue that concerned me around blight in his constituency regarding some applications. He will be aware that the Conservative UK administration is holding back an application that, I believe, is the issue he relates to with regard to that decision-making process, and it may be something he would like to take up with the Minister who is responsible in Westminster.

Cododd Russell George lawer o faterion, yn bennaf o gwmpas ceisiadau cynllunio byw cyfredol, Ddirprwy Lywydd, na fyddwn yn gallu eu trafod yn awr neu yn y dyfodol agos oherwydd fy rôl yn rhai o'r ceisiadau, o bosibl. Fodd bynnag, cododd yr Aelod un mater oedd yn ymwneud â fi ynghylch malltod yn ei etholaeth ynglŷn â rhai ceisiadau. Bydd yn ymwybodol bod gweinyddiaeth Geidwadol y DU yn dal cais yn ôl, rwy'n credu, yw'r mater y mae'n sôn amdano o ran y broses o wneud penderfyniadau, a gall fod yn rhywbeth y byddai'n hoffi i mi ei drafod gyda'r Gweinidog sy'n gyfrifol yn San Steffan.

17:21

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Russell George to reply.

Russell George i ymateb.

17:21 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm disappointed by the Minister's reply, because on the decisions and the issues in my own constituency, certainly, the planning applications are there due to Welsh Government planning guidance, and that's why we are where we are today; I think that should be noted. What the Minister has got the power to influence in this legislation is dealing with the real concerns that businesses and residents have with regard to blight to their properties; it is within the Minister's remit to include that within that legislation and it wouldn't be a matter for the UK Government.

Rwy'n siomedig gan ymateb y Gweinidog oherwydd, yn achos y penderfyniadau a'r problemau yn fy etholaeth i, yn sicr, mae'r ceisiadau cynllunio yno o ganlyniad i ganllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru, a dyna pam rydym ni yn y sefyllfa yr ydym ynddi heddiw; rwy'n credu y dylai hynny gael ei nodi. Yr hyn y mae gan y Gweinidog y pŵer i ddylanwadu arno yn y ddeddfwriaeth hon yw ymdrin â'r pryderon gwirioneddol sydd gan fusnesau a thrigolion o ran yr effaith andwyol ar eu heiddo; mae o fewn cylch gwaith y Gweinidog i gynnwys hynny yn y ddeddfwriaeth ac ni fyddai'n fater i Lywodraeth y DU.

The Minister may be aware that I am a Member of the Assembly's Petitions Committee, and one petition in particular is very well worded and, I think, it encompasses a lot of views people have right across Wales. This particular petition was submitted by Mike Halsey, a resident of Powys, who says this in the petition that we're currently looking at on the committee:

Efallai y bydd y Gweinidog yn ymwybodol fy mod yn Aelod o Bwyllgor Deisebau'r Cynulliad, ac mae un ddeiseb yn benodol wedi'i geirio yn dda iawn ac, rwy'n credu, yn cwmpasu llawer o safbwyntiau pobl ledled Cymru. Cafodd y ddeiseb benodol ei chyflwyno gan Mike Halsey, un o drigolion Powys, sy'n dweud hyn yn y ddeiseb yr ydym yn edrych arni ar hyn o bryd yn y pwyllgor:

'We call upon the National Assembly for Wales to urge the Welsh Government during its reform of the Welsh planning system, to ensure/guarantee that planning decisions will be taken at the most local level as possible to enable sufficient community engagement and support. Moreover, it encourages the Welsh Government to examine in detail, the impact that major infrastructure schemes have on Third Parties in Wales and considers the implementation of legislation to properly protect and compensate all Third Parties suffering actual loss from the construction, commissioning and operation of major infrastructure projects.'

'Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau / warantu, wrth iddi ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru, y cymerir penderfyniadau cynllunio ar y lefel fwyaf lleol posibl er mwyn galluogi digon o gymorth i'r gymuned ac ymgysylltu â hi. Ar ben hynny, mae'n annog Llywodraeth Cymru i archwilio'n fanwl effaith cynlluniau seilwaith mawr ar Drydydd Partïon yng Nghymru ac ystyried rhoi ar waith ddeddfwriaeth i amddiffyn yn iawn pob Trydydd Parti, a gwneud iawn ag ef, lle mae adeiladu, comisiynu a gweithredu prosiectau seilwaith mawr yn peri colled wirioneddol iddo.'

17:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

If amendment 73 is not agreed, amendments 75, 62 and 79 fall.

Os nad yw gwelliant 73 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliannau 75, 62 a 79 yn methu.

The question is that amendment 73 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 12. There voted against 29. So, amendment 73 is not agreed, and amendments 75, 62 and 79 fall.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 73 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 12 o blaid. Pleidleisiodd 29 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 73, ac mae gwelliannau 75, 62 a 79 yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 73: O blaid 12, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment 73 not agreed: For 12, Against 29, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 73

Result of the vote on amendment 73

*Methodd gwelliannau 75, 62 and 79.*

*Amendments 75, 62 and 79 fell.*

17:24 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 13.

Llyr Gruffydd, gwelliant 13.

*Cynigiwyd gwelliant 13 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 13 (Llyr Gruffydd) moved.*

17:24 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Cynnig.

Move.

17:24 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 13 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 13 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 13 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 13.

Senedd.tv Fideo Video

*Gwrthodwyd gwelliant 13: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 13 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 13

Result of the vote on amendment 13

17:24 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Russell George, amendment 74.

Russell George, gwelliant 74.

Senedd.tv Fideo Video

*Cynigiwyd gwelliant 74 (Russell George).*

*Amendment 74 (Russell George) moved.*

17:24 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Move.

Cynnig.

Senedd.tv Fideo Video

17:24 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 74 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 11. There voted against 29. Therefore, amendment 74 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 74 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 11 o blaid. Pleidleisiodd 29 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 74.

Senedd.tv Fideo Video

*Gwrthodwyd gwelliant 74: O blaid 11, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment 74 not agreed: For 11, Against 29, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 74

Result of the vote on amendment 74

17:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Minister, amendment 35.

Weinidog, gwelliant 35.

Senedd.tv Fideo Video

*Cynigiwyd gwelliant 35 (Carl Sargeant).*

*Amendment 35 (Carl Sargeant) moved.*

17:25 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Formally.

Yn ffurfiol.

Senedd.tv Fideo Video

17:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 35 be agreed. Does any Member object? Amendment 35 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 35 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Caiff gwelliant 35 ei dderbyn.

Senedd.tv Fideo Video

*Derbyniwyd gwelliant 35 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 35 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Llyr Gruffydd, amendment 14.

Llyr Gruffydd, gwelliant 14.

Senedd.tv Fideo Video

*Cynigiwyd gwelliant 14 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 14 (Llyr Gruffydd) moved.*

17:25 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

17:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 14 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore amendment 14 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 14 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 14.

*Gwrthodwyd gwelliant 14: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 14 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 14

Result of the vote on amendment 14

17:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 36.

Weinidog, gwelliant 36.

*Cynigiwyd gwelliant 36 (Carl Sargeant).*

*Amendment 36 (Carl Sargeant) moved.*

17:25 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 36 is agreed, amendment 15 falls. The question is that amendment 36 be agreed. Does any Member object? Then amendment 36 is agreed.

Os derbynnir gwelliant 36, bydd gwelliant 15 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 36 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 36 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 36 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 36 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Methodd gwelliant 15.*

*Amendment 15 fell.*

17:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 37.

Weinidog, gwelliant 37.

*Cynigiwyd gwelliant 37 (Carl Sargeant).*

*Amendment 37 (Carl Sargeant) moved.*

17:26 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 37 be agreed. Does any Member object? Then amendment 37 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 37 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 37 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 37 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 37 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 11: Ceisiadau i Weinidogion Cymru (Gwelliannau 38, 46 a 47)

## Group 11: Applications to Welsh Ministers (Amendments 38, 46 and 47)

17:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Now we move to group 11. This group of amendments relates to applications to Welsh Ministers. The lead amendment in this group is amendment 38. I call the Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Nawr rydym yn symud i grŵp 11. Mae'r grŵp hwn o welliannau'n ymwneud â cheisiadau i Weinidogion Cymru. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 38. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 38 (Carl Sargeant).*

*Amendment 38 (Carl Sargeant) moved.*

17:26 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I seek to move the amendments in group 11. Amendment 38 sets out a requirement for the Welsh Ministers to apply specific criteria when designating a local authority as poorly performing. The criteria require the Welsh Ministers to publish a notice of designation and to give notice to the relevant local authority. Before finalising criteria, the Welsh Ministers must consult with local planning authorities in Wales and lay the criteria before this Assembly for 21 days. This amendment responds to my commitment at Stage 2.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n cynnig y gwelliannau yn grŵp 11. Mae gwelliant 38 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddefnyddio meini prawf penodol wrth ddynodi awdurdod lleol fel un sy'n perfformio'n wael. Mae'r meini prawf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi hysbysiad o ddynodiad a hysbysu'r awdurdod lleol perthnasol. Cyn cwblhau'r meini prawf terfynol, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru a gosod y meini prawf gerbron y Cynulliad hwn am 21 diwrnod. Mae'r gwelliant hwn yn ymateb i fy ymrwymiad yng Nghyfnod 2.

Government amendment 46 is consequential to amendment 47. I will speak to amendment 47, which will enable the Welsh Ministers to appoint an assessor to assist the person holding a hearing or local inquiry into the application made directly to the Welsh Ministers. This again is similar to the process currently in place for appeals. I urge Members to support.

Mae gwelliant 46 y Llywodraeth yn ganlyniadol i welliant 47. Byddaf yn siarad am welliant 47, a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i benodi asesydd i gynorthwyo'r sawl sy'n cynnal gwrandawiad neu ymchwiliad lleol i'r cais a wnaed yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru. Mae hyn eto yn debyg i'r broses sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer apeliadau. Rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi.

17:27 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I've no amendments to formally move, but I would like to state that the Welsh Conservatives support all of the amendments in this particular grouping, particularly amendment 38, because it was initially raised at Stage 2. The points regarding the criteria Ministers would use to determine whether a local planning authority was underperforming and how applications to Welsh Ministers will operate in practice, for me, are important. They're also points that the Constitutional and Legislative Affairs Committee recommended should be addressed in more detail on the face of the Bill. I think the Minister's amendment does that. It also allows further consultation with local authorities about the designation criteria and it provides the Assembly with additional powers of approval to veto the criteria to be used, so I thank him for bringing that forward.

Nid oes gennyf welliannau i'w cynnig yn ffurfiol, ond hoffwn ddatgan bod y Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi'r holl welliannau yn y grŵp penodol hwn, yn enwedig gwelliant 38, am ei fod wedi ei godi i ddechrau yng Nghyfnod 2. Byddai'r pwyntiau ynghylch y meini prawf y byddai Gweinidogion yn eu defnyddio i bennu a yw awdurdod cynllunio lleol yn tanberfformio a sut y bydd ceisiadau i Weinidogion Cymru yn gweithredu'n ymarferol, i mi, yn bwysig. Maen nhw hefyd yn bwyntiau y gwnaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol argymell y dylid rhoi sylw mwy manwl iddynt ar wyneb y Bil. Rwy'n meddwl bod gwelliant y Gweinidog yn gwneud hynny. Mae hefyd yn caniatáu ar gyfer ymgynghori ymhellach ag awdurdodau lleol ynglŷn â'r meini prawf dynodi ac mae'n darparu pwerau cymeradwyaeth ychwanegol i'r Cynulliad i roi feto ar y meini prawf sydd i'w defnyddio, felly rwy'n diolch iddo am gyflwyno hynny.

17:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister.

Weinidog.

17:28 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nothing to add.

Dim i'w ychwanegu.

17:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 38 be agreed. Does any Member object? Then amendment 38 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 38 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 38 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 38 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 38 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:28

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Russell George, amendment 76.

Russell George, gwelliant 76.

*Cynigiwyd gwelliant 76 (Russell George).*

*Amendment 76 (Russell George) moved.*

17:28

**Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

17:28

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 76 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore amendment 76 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 76 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 76.

*Gwrthodwyd gwelliant 76: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 76 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 76

Result of the vote on amendment 76

17:29

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

William Powell, amendment 53.

William Powell, gwelliant 53.

*Cynigiwyd gwelliant 53 (William Powell).*

*Amendment 53 (William Powell) moved.*

17:29

**William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

17:29

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 53 is agreed, amendments 61 and 84 fall. The question is that amendment 53 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 3. There voted against 38. Therefore amendment 53 is not agreed.

Os derbynnir gwelliant 53, bydd gwelliannau 61 ac 84 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 53 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 3 o blaid. Pleidleisiodd 38 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 53.

*Gwrthodwyd gwelliant 53: O blaid 3, Yn erbyn 38, Ymatal 0.*

*Amendment 53 not agreed: For 3, Against 38, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 53

Result of the vote on amendment 53

17:29

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Suzy Davies, amendment 61.

Suzy Davies, gwelliant 61.

*Cynigiwyd gwelliant 61 (Suzy Davies gyda chefnogaeth Russell George).*

*Amendment 61 (Suzy Davies, supported by Russell George) moved.*

17:29

**Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

17:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 61 is agreed, amendment 84 falls. The question is that amendment 61 be agreed. Does any Member object? [Objection.] An electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 9. There voted against 31. Therefore amendment 61 is not agreed.

Os derbynnir gwelliant 61, bydd gwelliant 84 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 61 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 9 o blaid. Pleidleisiodd 31 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 61.

*Gwrthodwyd gwelliant 61: O blaid 9, Yn erbyn 31, Ymatal 0.*

*Amendment 61 not agreed: For 9, Against 31, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 61

Result of the vote on amendment 61

17:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 84.

Llyr Gruffydd, gwelliant 84.

*Cynigiwyd gwelliant 84 (Llyr Gryuffydd).*

*Amendment 84 (Llyr Gruffydd) moved.*

17:30 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

17:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 84 be agreed. Does any Member object? [Objection.] An electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore amendment 84 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 84 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 84.

*Gwrthodwyd gwelliant 84: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 84 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 84

Result of the vote on amendment 84

17:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

William Powell, amendment 27.

William Powell, gwelliant 27.

*Cynigiwyd gwelliant 27 (William Powell, gyda chefnogaeth Carl Sargeant, Llyr Gruffydd a Russell George).*

*Amendment 27 (William Powell, supported by: Carl Sargeant, Llyr Gruffydd and Russell George) moved.*

17:30 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

17:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 27 be agreed. Does any Member object? Then amendment 27 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 27 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 27 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 20 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 20 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 39.

Weinidog, gwelliant 39.

*Cynigiwyd gwelliant 39 (Carl Sargeant).*

*Amendment 39 (Carl Sargeant) moved.*

17:31 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 39 be agreed. Does any Member object? Then amendment 39 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 39 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 39 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 39 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 39 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 16.

Llyr Gruffydd, gwelliant 16.

*Cynigiwyd gwelliant 16 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 16 (Llyr Gruffydd) moved.*

17:31 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

17:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

If amendment 16 is agreed, amendments 40 and 41 fall. The question is that amendment 16 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 17. There voted against 24. Therefore amendment 16 is not agreed.

Os derbynnir gwelliant 16, bydd gwelliannau 40 a 41 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 16 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 17 o blaid. Pleidleisiodd 24 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 16.

*Gwrthodwyd gwelliant 16: O blaid 17, Yn erbyn 24, Ymatal 0.*

*Amendment 16 not agreed: For 17, Against 24, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 16

Result of the vote on amendment 16

17:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 40.

Weinidog, gwelliant 40.

*Cynigiwyd gwelliant 40 (Carl Sargeant).*

*Amendment 40 (Carl Sargeant) moved.*

17:31 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 40 be agreed. Does any Member object? Then amendment 40 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 40 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 40 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 40 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 40 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 41.

Weinidog, gwelliant 41.

*Cynigiwyd gwelliant 41 (Carl Sargeant).*

*Amendment 41 (Carl Sargeant) moved.*

17:32 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 41 be agreed. Does any Member object? Then amendment 41 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 41 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 41 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 41 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 41 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 42.

Weinidog, gwelliant 42.

*Cynigiwyd gwelliant 42 (Carl Sargeant).*

*Amendment 42 (Carl Sargeant) moved.*

17:32 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 42 be agreed. Does any Member object? Then amendment 42 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 42 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 42 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 42 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 42 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 12: Gorfodi ac Apelio (Gwelliannau 54 a 55)

## Group 12: Enforcement and Appeal (Amendments 54 and 55)

17:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to group 12, enforcement and appeals. The lead amendment in this group is amendment 54, and I call on Llyr Gruffydd to move and speak to the lead amendment and the other amendment in the group.

Symudwn yn awr at grŵp 12, gorfodi ac apelio. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 54, a galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliant arall yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 54 (Llyr Gruffydd, gyda chefnogaeth Russell George).*

*Amendment 54 (Llyr Gruffydd, supported by Russell George) moved.*

17:32 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I speak to amendments 54 and 55. These amendments, again, are tabled as an attempt to redress the transfer of power up the planning chain and away from local communities. Now, I believe there's a strong case for introducing a limited community right of appeal, focusing on those cases that give greatest grounds for concern in respect of the quality, the transparency, the probity and the accountability of the relevant planning decisions. Increasingly, communities and individuals are told that they need to take a more active role in the planning system and get more involved in the planning decisions that affect their interests. Now, in return, their efforts should be repaid, of course, by sounder and more informed plan-led policies, and in most instances, by development decisions that actually accord with their aspirations for their communities. Regrettably, however, the current planning system remains largely focused on a dialogue between developers and local authorities, with community groups, concerned bodies and individuals very often unable to adequately promote their point of view. Nevertheless, many do rise to this challenge of overcoming inequality through sheer effort and commitment, and if they succeed in convincing decision makers of the merits of their case to refuse planning permission for a development, they soon discover, of course, that the applicant has the option to challenge the decision through an appeal procedure and may still gain permission.

Rwy'n siarad am welliannau 54 a 55. Mae'r gwelliannau hyn, unwaith eto, yn cael eu cyflwyno fel ymgais i wneud iawn am y trosglwyddo pŵer i fyny'r gadwyn gynllunio ac i ffwrdd oddi wrth gymunedau lleol. Nawr, rwy'n credu bod achos cryf dros gyflwyno hawl cymunedol cyfyngedig i apelio, gan ganolbwyntio ar yr achosion hynny sy'n rhoi sail i fwyaf o bryder o ran ansawdd, tryloywder, cywirdeb ac atebolrwydd y penderfyniadau cynllunio perthnasol. Yn gynyddol, mae cymunedau ac unigolion yn cael gwybod bod angen iddynt gymryd rhan fwy gweithredol yn y system gynllunio a chwarae mwy o ran yn y penderfyniadau cynllunio sy'n effeithio ar eu buddiannau. Nawr, dylid talu'n ôl am eu hymdrechion, wrth gwrs, drwy bolisïau cadarnach a mwy dibynnol ar wybodaeth ac a arweinir gan gynllun, ac yn y rhan fwyaf o achosion, drwy benderfyniadau datblygu sydd mewn gwirionedd yn cyd-fynd â'u dyheadau ar gyfer eu cymunedau. Yn anffodus, fodd bynnag, mae'r system gynllunio gyfredol yn parhau i ganolbwyntio i raddau helaeth ar ddeialog rhwng datblygwyr ac awdurdodau lleol, tra bo grwpiau cymunedol, cyrff ac unigolion pryderus yn aml iawn yn methu â hyrwyddo eu safbwynt yn ddigonol. Serch hynny, mae llawer yn ymateb i'r her hon o oresgyn anghydraddoldeb trwy ymdrech ac ymroddiad pur, ac os ydynt yn llwyddo i argyhoeddi pobl sy'n gwneud penderfyniadau o rinweddau eu hachos i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad, buan y maent yn darganfod, wrth gwrs, bod gan yr ymgeisydd y dewis i herio'r penderfyniad drwy weithdrefn apelio a gallai ddal i gael caniatâd.

However, if consent is granted in favour of a developer contrary to the prevailing development plan policies, no-one can currently appeal against the granting of such consents. Unsound decisions can of course be challenged legally, but this can only be done through the courts, and is confined to examining the process by which a decision is made. Realistically, of course, as we know, few individuals feel confident and able to take this judicial review route.

Fodd bynnag, os rhoddir caniatâd o blaid datblygwr yn groes i'r polisïau cynllun datblygu cyffredinol, ni chaiff unrhyw un apelio ar hyn o bryd yn erbyn rhoi caniatâd o'r fath. Gellir herio penderfyniadau sigledig, wrth gwrs, yn gyfreithiol, ond dim ond drwy'r llysoedd y gellir gwneud hyn, ac mae'n cael ei gyfyngu i archwilio'r broses o wneud penderfyniad. Mewn gwirionedd, wrth gwrs, fel y gwyddom, prin yw'r unigolion sy'n teimlo'n hyderus ac yn gallu cymryd y llwybr adolygiad barnwrol hwn.

I believe these circumstances are not only unreasonable, but also democratically unjust, and reform of this long-standing imbalance along the lines suggested in our amendment is both appropriate and long overdue. Strengthening the current procedures will not only remove this injustice, but will also significantly raise public confidence in the planning system. Whilst I recognise that there are some concerns from the developers lobby and others around the practical implications of allowing communities the right of appeal, I feel that it is one of the few options available to us in redressing this imbalance of power that currently exists within the planning system. The Minister has to recognise that this Bill goes too far in taking power away from communities and people, and we need a commitment to giving communities a more influential role in decisions that affect them. So, I urge you all to support the amendments.

Rwy'n credu bod yr amgylchiadau hyn nid yn unig yn afresymol, ond hefyd yn anghyfiawn yn ddemocrataidd, ac mae diwygio'r anghydbwysedd hirsefydlog hwn ar hyd y llinellau a awgrymir yn ein gwelliant yn briodol ac mae'n hen bryd ei wneud. Bydd cryfhau'r gweithdrefnau cyfredol nid yn unig yn cael gwared ar yr anghyfiawnder hwn, ond bydd hefyd yn codi hyder y cyhoedd yn y system gynllunio yn sylweddol. Er fy mod yn cydnabod bod rhai pryderon gan y lobi datblygwyr ac eraill o amgylch y goblygiadau ymarferol o ganiatáu'r hawl i apelio i gymunedau, rwy'n teimlo ei fod yn un o'r ychydig ddewisiadau sydd ar gael i ni wrth unioni'r anghydbwysedd pŵer hwn sy'n bodoli ar hyn o bryd o fewn y system gynllunio. Mae'n rhaid i'r Gweinidog gydnabod bod y Bil hwn yn mynd yn rhy bell wrth gymryd pwerau oddi wrth gymunedau a phobl, ac mae arnom angen ymrwymiad i roi swyddogaeth fwy dylanwadol i gymunedau mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Felly, annog rwy'n annog pob un ohonoch i gefnogi'r gwelliannau.

17:35 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

While I have no amendments to move in this group, I formally have added my support to amendments 54 and 55. I wholeheartedly agree with all that’s been said. Many people have been disappointed that the Government has not accepted the idea of appeal by third parties and, as a consequence, has regrettably omitted it from the current Bill. It seems very unfair to me and many other people, including a number of leading non-governmental organisations in Wales tasked with protecting our environment and landscapes, that communities are not afforded similar but limited rights to private interests in terms of the ability to appeal on matters of public interest.

Er nad oes gennyf unrhyw welliannau i’w cynnig yn y grŵp hwn, rwy’n ffurfiol wedi ychwanegu fy nghefnogaeth i welliannau 54 a 55. Rwy’n llwyr gytuno gyda'r cyfan a ddywedwyd. Mae llawer o bobl wedi eu siomi oherwydd nad yw'r Llywodraeth wedi derbyn y syniad o apêl gan drydydd partïon ac, o ganlyniad, mae wedi ei hepgor, gwaetha'r modd, o’r Bil cyfredol. Mae'n ymddangos yn annheg iawn i mi a llawer o bobl eraill, gan gynnwys nifer o brif sefydliadau anllywodraethol yng Nghymru sy'n gyfrifol am y dasg o ddiogelu ein hamgylchedd a’n tirweddau, nad yw cymunedau yn cael hawliau tebyg ond hawliau cyfyngedig i fuddiannau preifat o ran yr hawl i apelio ar faterion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd.

I do not think that adequate consideration is given to the role of communities, the ordinary people who are affected by developments. The perception at a local level is that it remains a system that is out of kilter and is one that favours developers. Governments at various tiers are encouraging communities and individuals to take a more active role in the decisions that shape their surroundings and activities in different areas. The local planning system affects their interests and, as I think Llyr said in his opening remarks, in return for their efforts, they should be repaid by sounder and more informed plan-led policies and, in most instances, by development decisions that accord with them.

Nid wyf yn credu bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i swyddogaeth cymunedau, y bobl gyffredin sy'n cael eu heffeithio gan ddatblygiadau. Y canfyddiad ar lefel lleol yw ei bod yn parhau i fod yn system sydd allan o drefn ac yn un sy'n ffafrio datblygwyr. Mae llywodraethau ar wahanol haenau yn annog cymunedau ac unigolion i gymryd rhan fwy gweithredol yn y penderfyniadau sy'n llywio eu hamgylchoedd a’u gweithgareddau mewn gwahanol ardaloedd. Mae'r system gynllunio lleol yn effeithio ar eu buddiannau ac, fel y dywedodd Llyr yn ei sylwadau agoriadol, Nawr, dylid talu'n ôl am eu hymdrechion, wrth gwrs, drwy bolisïau cadarnach a mwy dibynnol ar wybodaeth ac a arweinir gan gynllun ac, yn y rhan fwyaf o achosion, drwy benderfyniadau datblygu y maent yn cytuno â nhw.

17:36 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I believe that there is a strong case for the introduction of a limited community right of appeal, focusing on those cases that give greatest grounds for concern. We must be extremely cautious to avoid situations where planning authorities are undermined by having their decisions opened up to further review without good cause, nor should there be unnecessary delays to development processes and, sometimes, the third party right of appeal can be seen by some developers as a form of wreckers’ charter. It need not be that way. In fact, the way in which we’re approaching this amendment today, for which we’ve tabled formal support, is very much consistent with the thinking in terms of town and village greens, which did find a fair wind from the Minister at an earlier stage. I see it very much in that context, and I would urge Members today to support these amendments.

Credaf fod achos cryf dros gyflwyno hawl cymunedol cyfyngedig i apelio, gan ganolbwyntio ar yr achosion hynny sy'n peri'r pryder mwyaf. Mae'n rhaid i ni fod yn hynod ofalus i osgoi sefyllfaoedd lle bydd awdurdodau cynllunio yn cael eu tanseilio gan gael eu penderfyniadau wedi’u hagor i adolygiad pellach heb reswm da, ac ni ddylai fod oedi diangen ar brosesau datblygu ac, weithiau, gall hawl y trydydd parti i apelio gael ei weld gan rai datblygwyr fel math o siarter difetha. Nid oes rhaid iddi fod felly. Yn wir, mae’r ffordd yr ydym yn trafod y gwelliant hwn heddiw, yr ydym wedi cyflwyno cymorth ffurfiol iddo, yn gyson iawn â'r meddylfryd o ran meysydd tref a phentref, a ganfu wynt teg gan y Gweinidog ar gam cynharach. Rwy’n ei weld yn bendant iawn yn y cyd-destun hwnnw, a byddwn yn annog yr Aelodau heddiw i gefnogi'r gwelliannau hyn.

17:37 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister.

Weinidog.

17:37 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I listened carefully to the comments made by the Members and, of course, this has been consistent through the process of the passage of the Bill. I would just raise the issue that I don't recognise some of the points. The Members seem to think that the planning system works in some sort of isolation from people, but actually people are engaged right at the heart of the planning system, in the early stages of implementation of an application and right the way through that process. Therefore, what we're doing within this Bill is strengthening that proposal in terms of a pre-consultation period with applications, too.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Gwrandewais yn astud ar y sylwadau a wnaed gan yr Aelodau ac, wrth gwrs, mae hyn wedi bod yn gyson trwy broses hynt y Bil. Byddwn yn codi'r mater nad wyf yn adnabod rhai o'r pwyntiau. Ymddengys yr Aelodau i feddwl bod y system gynllunio yn gweithio mewn rhyw fath o ynysu oddi wrth bobl, ond mewn gwirionedd mae pobl yn cael eu cynnwys wrth wraidd y system gynllunio, yn y camau cynnar o weithredu cais a'r holl ffordd drwy'r broses honno. Felly, yr hyn yr ydym yn ei wneud o fewn y Bil hwn yw cryfhau'r cynnig hwnnw o ran cyfnod cyn-ymgynghori â cheisiadau, hefyd.

It is also the view of the current CBI chair for Wales in not supporting the amendment laid by the Member today, and also of the independent process of the RTPI—again, a decision-making body around the planning system, who I believe works on the evidence presented to them and to us. Therefore, we will not be supporting this amendment today. Again, it's just part of the Bill on which we cannot come together in terms of bringing that principle together. We'll just agree to disagree yet again.

Dyma hefyd farn cadeirydd y CBI presennol i Gymru mewn peidio cefnogi'r gwelliant a osodwyd gan yr Aelod heddiw, a hefyd y broses annibynnol o'r RTPI—unwaith eto, corff gwneud penderfyniadau o gwmpas y system gynllunio, sydd yn fy marn i yn gweithio ar y dystiolaeth a gyflwynir iddynt ac i ni. Felly, ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliant hwn heddiw. Unwaith eto, nid yw'n ddim ond rhan o'r Bil lle na allwn ddod at ein gilydd o ran dod â'r egwyddor honno at ei gilydd. Byddwn yn cytuno i anghytuno unwaith yn rhagor.

17:37 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And Llyr Gruffydd to reply.

A Llyr Gruffydd i ymateb.

17:37 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Of course, a lot of the evidence that the Environment and Sustainability Committee received during our inquiry into planning and the energy system in Wales made clear references to this disconnect that people very often feel in relation to their voice within the process, and the actual decisions that were arrived at at the end of the process. So, there is a need to address that. I appreciate the fact that there is a greater emphasis in terms of pre-consultation processes, et cetera, but, you know, I recognise as well, of course, that the circumstances when this provision should be permissible have to be strictly regulated, and I thank Members for their comments and support to the principle. But I honestly believe that there's nothing to fear in this amendment. It is, of course, a common feature of planning systems in many other countries, where it has a proven track record of delivering. So, really, we should be learning from them and implementing that kind of approach here. Indeed, what we should all fear, in reality, are the consequences of a diminishing community voice within the planning system in Wales, and there is a feeling out there that people and communities are becoming increasingly remote in terms of those planning processes that are happening around them, so I would urge Members to support our amendments.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Wrth gwrs, roedd llawer o'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ystod ein hymchwiliad i gynllunio a'r system ynni yng Nghymru yn gwneud cyfeiriadau clir at y datgysylltu hwn y mae pobl yn aml iawn yn ei deimlo o ran eu llais o fewn y broses, a'r penderfyniadau a wnaed mewn gwirionedd ar ddiwedd y broses. Felly, mae angen mynd i'r afael â hynny. Rwy'n gwerthfawrogi'r ffaith bod mwy o bwyslais o ran y prosesau cyn-ymgynghori, ac ati, ond, wyddoch chi, rwy'n cydnabod hefyd, wrth gwrs, bod yn rhaid i'r amgylchiadau pryd y dylai'r ddarpariaeth hon fod yn ganiataol gael eu rheoleiddio'n llym, ac rwy'n diolch i'r Aelodau am eu sylwadau a'u cefnogaeth i'r egwyddor. Ond rwyf wir yn credu nad oes dim i'w ofni yn y gwelliant hwn. Mae, wrth gwrs, yn elfen gyffredin o systemau cynllunio mewn llawer o wledydd eraill, lle mae ganddo hanes llwyddiannus o gyflawni. Felly, mewn gwirionedd, dylem fod yn dysgu oddi wrthynt a gweithredu'r math hwnnw o ddull yma. Yn wir, yr hyn y dylem ni i gyd ei ofni, mewn gwirionedd, yw canlyniadau llais cymunedol yn lleihau o fewn y system gynllunio yng Nghymru, ac mae teimlad allan yna bod pobl a chymunedau yn cael ei gadael allan yn gynyddol o ran y prosesau cynllunio sy'n digwydd o'u cwmpas, felly rwyf yn annog yr Aelodau i gefnogi ein gwelliannau.

*Gwrthodwyd gwelliant 54: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 54 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 54

Result of the vote on amendment 54

17:40 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 55.

Llyr Gruffydd, gwelliant 55.

*Cynigiwyd gwelliant 55 (Llyr Gruffydd, gyda chefnogaeth Russell George).*

*Amendment 55 (Llyr Gruffydd, supported by Russell George) moved.*

17:40

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

*Gwrthodwyd gwelliant 55: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 55 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 55

Result of the vote on amendment 55

*Tynnwyd gwelliant 17 (Llyr Gruffydd) yn ôl.*

*Amendment 17 (Llyr Gruffydd) withdrawn.*

17:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 56.

Llyr Gruffydd, gwelliant 56.

*Cynigiwyd gwelliant 56 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 56 (Llyr Gruffydd) moved.*

17:41

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

*Gwrthodwyd gwelliant 56: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 56 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 56

Result of the vote on amendment 56

17:41

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 59.

Weinidog, gwelliant 59.

*Cynigiwyd gwelliant 59 (Carl Sargeant).*

*Amendment 59 (Carl Sargeant) moved.*

17:41

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

*Derbyniwyd gwelliant 59 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 59 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 13: Paneli Cynllunio Strategol (Gwelliannau 18, 31, 19, 43, 44, 45, 20, 21, 22, 23, 24, 25, 26, 77 a 78)

### Group 13: Strategic Planning Panels (Amendments 18, 31, 19, 43, 44, 45, 20, 21, 22, 23, 24, 25, 26, 77 and 78)

17:41

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to group 13, strategic planning panels. This is the final group of amendments. The lead amendment in this group is amendment 18, and I call on Llyr Gruffydd to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Symudwn yn awr at grŵp 13, paneli cynllunio strategol. Dyma'r grŵp olaf o welliannau. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 18, a galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig y prif welliant a siarad amdano ef a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 18 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 18 (Llyr Gruffydd) moved.*

17:41 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I speak to amendments 18 through to 26 and amendment 31, and I'll be voting for all amendments in this group with the exception of amendments 43 and 44.

Rwy'n siarad am welliannau 18 hyd at 26 a gwelliant 31, a byddaf yn pleidleisio dros yr holl welliannau yn y grŵp hwn ac eithrio gwelliannau 43 a 44.

The first amendment in this group, amendment 18, seeks to remove all reference to nominated members from strategic planning panels. The creation of strategic planning panels in the first place, in my view, represents a shifting of power away from local communities and away from local planning authorities, but including unelected members on those panels not only takes power further away, but it puts it in the hands of unaccountable people, whereas currently, of course, those making decisions are democratically accountable. Now, the amendment is pretty clear in its intention, and amendments 19 through to 26 are consequential amendments to amendment 18.

Mae'r gwelliant cyntaf yn y grŵp hwn, gwelliant 18, yn ceisio cael gwared ar yr holl gyfeiriad at aelodau enwebedig o baneli cynllunio strategol. Mae creu paneli cynllunio strategol yn y lle cyntaf, yn fy marn i, yn cynrychioli symud pŵer i ffwrdd oddi wrth gymunedau lleol ac i ffwrdd oddi wrth awdurdodau cynllunio lleol, ond mae cynnwys aelodau heb eu hethol ar y paneli hynny nid yn unig yn mynd â phŵer yn bellach i ffwrdd, ond mae'n ei roi yn nwylo pobl anatebol, tra ar hyn o bryd, wrth gwrs, mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn atebol yn ddemocrataidd. Nawr, mae'r gwelliant yn eithaf clir yn ei fwriad, ac mae gwelliannau 19 hyd at 26 yn welliannau canlyniadol i welliant 18.

Amendment 31 will ensure that at least two persons are nominated onto the strategic planning panels from each constituent planning authority, increasing it from one solitary member under the Bill as amended at Stage 2. Now, this ensures that more than one voice and more than one perspective is presented from each planning authority on any strategic planning panel, which, in my view, can only enrich and broaden that panel's deliberations, and therefore, hopefully, improve the decisions that it makes.

Bydd gwelliant 31 yn sicrhau bod o leiaf dau berson yn cael eu henwebu ar y paneli cynllunio strategol o bob awdurdod cynllunio cyfansoddol, sy'n ei gynyddu o un aelod unigol o dan y Bil fel y'i diwygiwyd yn ystod Cyfnod 2. Nawr, mae hyn yn sicrhau bod mwy nag un llais a mwy nag un safbwynt yn cael eu cyflwyno o bob awdurdod cynllunio ar unrhyw banel cynllunio strategol, ac ni all hynny, yn fy marn i, wneud dim ond cyfoethogi ac ehangu trafodaethau'r panel hwnnw, ac felly, gobeithio, gwella'r penderfyniadau y mae'n eu gwneud.

I'll be voting against amendments 43 and 44 from the Minister. Amendment 43, to which amendment 44 is a consequential, would remove the restriction on the strategic planning panels to choose nominated members from a list published by Welsh Ministers. Now, allowing a panel to nominate anyone they like is a concern to me. I'd be slightly more reassured if there was a list that could be approved by the Assembly or at least published for the public to see.

Byddaf yn pleidleisio yn erbyn gwelliannau 43 a 44 gan y Gweinidog. Byddai gwelliant 43, y mae gwelliant 44 yn ganlyniadol iddo, yn cael gwared ar y cyfyngiad ar y paneli cynllunio strategol i ddewis aelodau a enwebwyd o restr a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Nawr, mae caniatáu panel i enwebu unrhyw un y mynnant yn peri pryder i mi. Byddwn i ychydig yn fwy tawel fy meddwl pe byddai rhestr y gellid ei chymeradwyo gan y Cynulliad neu o leiaf yn cael ei chyhoeddi i'r cyhoedd ei gweld.

We'll be supporting amendment 45 from the Minister to ensure gender balance on the strategic planning panels and amendments 77 and 78 from Russell George to ensure that this National Assembly has a stronger role regarding the membership of those panels.

Byddwn yn cefnogi gwelliant 45 gan y Gweinidog i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ar y paneli cynllunio strategol a gwelliannau 77 a 78 gan Russell George i sicrhau bod gan y Cynulliad Cenedlaethol swyddogaeth gryfach o ran aelodaeth y panelau hynny.

17:43 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm pleased to move amendments 77 and 78 in this grouping, and while I may not agree with the concept of a strategic development planning tier and its associated panels, I think it's important that relevant sections of the Bill are strengthened, if the will of Plenary at Stage 3 is to proceed with them. These are, in effect, technical tweaks to check ministerial powers and to strengthen the process, and the effect of these amendments would ensure that any secondary regulations brought forward would need to be approved by this Assembly. Given the range of powers that are being conferred on Welsh Ministers, these are small prescriptive tweaks, but ones that will enhance the functions of the Bill in my view. I also have concerns regarding amendments 43 and 44, as have been conveyed.

Rwy'n falch o gynnig gwelliannau 77 a 78 yn y grŵp hwn, ac er efallai nad wyf yn cytuno â'r syniad o haen cynllunio datblygu strategol a'i phaneli cysylltiedig, rwy'n credu ei bod yn bwysig fod adrannau perthnasol y Bil yn cael eu cryfhau, os mai ewyllys y Cyfarfod Llawn yn ystod Cyfnod 3 yw bwrw ymlaen â hwy. Mân newidiadau technegol yw'r rhain, i bob pwrpas, i wirio pwerau gweinidogol ac i gryfhau'r broses, a byddai effaith y gwelliannau hyn yn sicrhau y byddai angen i unrhyw reoliadau eilaidd a ddygwyd ymlaen gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad hwn. O ystyried yr ystod o bwerau sy'n cael eu rhoi i Weinidogion Cymru, mân newidiadau rhagnodol bychain yw'r rhain, ond y maent yn rhai a fydd yn gwella swyddogaethau'r Bil yn fy marn i. Mae gennyf hefyd bryderon ynghylch gwelliannau 43 a 44, fel sydd wedi eu cyfleu.

17:44 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister.

Weinidog.

17:44 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'd like to thank Llyr and Russell George for their comments. I would like to move and speak to my amendments in the group first and then turn to the non-Government amendments.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i Llyr a Russell George am eu sylwadau. Hoffwn i gynnig a siarad am fy ngwelliannau yn y grŵp cyntaf ac yna troi at y gwelliannau nad ydynt yn rhai'r Llywodraeth.

Members will know that I'm impatient for change and passionate about equality issues. It cannot be right in 2015 that we don't have equality of representation on all public bodies. Amendment 45 will give Welsh Ministers a regulation-making power to make provision for the composition of the strategic planning panels in respect of gender balance. I consider this amendment is necessary to ensure strategic planning panels represent and bring the perspective of the people they serve, and I call on Members to support this amendment.

Bydd yr Aelodau'n gwybod fy mod yn awyddus i weld newid ac yn teimlo'n gryf iawn am faterion cydraddoldeb. Ni all fod yn iawn yn 2015 nad oes gennym gydraddoldeb o ran cynrychiolaeth ar bob corff cyhoeddus. Bydd gwelliant 45 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer cyfansoddiad y paneli cynllunio strategol ynglŷn â chydbwysedd rhwng y rhywiau. Rwyf o'r farn bod y gwelliant hwn yn angenrheidiol i sicrhau bod paneli cynllunio strategol yn cynrychioli ac yn cyflwyno safbwynt y bobl y maent yn eu gwasanaethu, a galwaf ar yr Aelodau i gefnogi'r gwelliant hwn.

I ask Members to support my amendments 43 and 44. They remove the restrictions on the strategic panel choosing from a nominated list created by Welsh Ministers, which will ensure strategic planning panels can choose more wildly—widely—to reflect the local need. I listened to the Member carefully—good call.

Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi fy ngwelliannau 43 a 44. Maent yn cael gwared ar y cyfyngiadau ar y panel strategol o ran dewis o restr a enwebwyd, wedi'i chreu gan Weinidogion Cymru, a fydd yn sicrhau y gall paneli cynllunio strategol ddewis yn fwy gwyllt—eang—i adlewyrchu'r angen lleol. Gwrandewais ar yr Aelod yn ofalus—dadl dda.

Non-Government amendments 77 and 78 tabled by Russell George seek to require the regulations relating to the composition of strategic planning panels, including gender balance, to be subject to an affirmative procedure. I call on Members not to support these amendments, as the composition of the panel, including gender balance, may change in the future. The regulations that establish the panels are subject to a negative procedure, and, for the consistency of regulations dealing with composition, including gender balance, they should be subject to that same procedure, I believe.

Mae gwelliannau 77 a 78 nad ydynt yn rhai'r Llywodraeth a gyflwynwyd gan Russell George yn ceisio ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau sy'n ymwneud â chyfansoddiad paneli cynllunio strategol, gan gynnwys cydbwysedd rhwng y rhywiau, fod yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol. Galwaf ar yr Aelodau i beidio â chefnogi'r gwelliannau hyn, gan y gallai cyfansoddiad y panel, gan gynnwys cydbwysedd rhwng y rhywiau, newid yn y dyfodol. Mae'r rheoliadau sy'n sefydlu'r paneli yn ddarostyngedig i weithdrefn negyddol, ac, er cysondeb rheoliadau sy'n ymdrin â chyfansoddiad, gan gynnwys cydbwysedd rhwng y rhywiau, dylent fod yn ddarostyngedig i'r un weithdrefn, rwy'n credu.

The non-Government amendments 18 to 26 and 31 tabled by Llyr Gruffydd undermine the policy objective of the Bill by removing nominated members from strategic planning panels, and I therefore ask Members not to support them.

Mae gwelliannau 18 i 26 a 31 nad ydynt yn rhai'r Llywodraeth ac a gyflwynwyd gan Llyr Gruffydd yn tanseilio amcan polisi'r Bil drwy gael gwared ar yr aelodau enwebedig o baneli cynllunio strategol, ac felly gofynnaf i'r Aelodau beidio â'u cefnogi.

As this is the last group of amendments at this Stage, Presiding Officer, I would like to place on record my thanks to the Presiding Officer and the Deputy Presiding Officer, and the support staff and the Assembly Members, for the constructive and engaging way we've proceeded through this Bill process. I'd also like to thank the Chair of the committee and members of the committee for their support and the work that they've done in developing this Bill as we move forward. I formally move.

Gan mai hwn yw'r grŵp olaf o welliannau yn y Cyfnod hwn, Lywydd, hoffwn gofnodi fy niolch i'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd, a'r staff cymorth ac Aelodau'r Cynulliad, am y ffordd adeiladol ac ymgysylltiol yr ydym ni wedi bwrw ymlaen trwy broses y Bil hwn. Hoffwn hefyd ddiolch i Gadeirydd y pwyllgor ac aelodau'r pwyllgor am eu cefnogaeth a'r gwaith y maent wedi ei wneud i ddatblygu'r Bil hwn wrth inni symud ymlaen. Cynigiaf yn ffurfiol.

17:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And Llyr Gruffydd to reply.

A Llyr Gruffydd i ymateb.

17:46 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. All I have to say, really, is that there is a basic principle at play here, namely: should regional development planning be in the hands of elected and accountable representatives, or unelected and unaccountable nominees? By voting for or against our amendment 18, in essence, you as Members are making that choice.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Y cyfan sydd gennyf i'w ddweud, mewn gwirionedd, yw bod egwyddor sylfaenol ar waith yma, sef: a ddylai cynllunio datblygu rhanbarthol fod yn nwylo cynrychiolwyr etholedig ac atebol, neu enwebeion heb eu hethol ac nad ydynt yn atebol? Drwy bleidleisio o blaid neu yn erbyn ein gwelliant 18, yn ei hanfod, rydych chi fel Aelodau yn gwneud y dewis hwnnw.

*Gwrthodwyd gwelliant 18: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 18 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 18

Result of the vote on amendment 18

17:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 31.

Llyr Gruffydd, gwelliant 31.

*Cynigiwyd gwelliant 31 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 31 (Llyr Gruffydd) moved.*

17:47 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

17:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 31 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 31 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 31 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 31 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 31: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 31 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 31

Result of the vote on amendment 31

17:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 19.

Llyr Gruffydd, gwelliant 19.

*Cynigiwyd gwelliant 19 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 19 (Llyr Gruffydd) moved.*

17:48 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

17:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 19 is agreed, amendments 43 and 44 fall. The question is that amendment 19 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 19 is not agreed.

Os derbynnir gwelliant 19, bydd gwelliannau 43 a 44 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 19 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 19 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 19: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 19 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 19

Result of the vote on amendment 19

17:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 43.

Weinidog, gwelliant 43.

*Cynigiwyd gwelliant 43 (Carl Sargeant).*

*Amendment 43 (Carl Sargeant) moved.*

17:48 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 43 be agreed. Does any Member object? [Objection.] An electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 21. There voted against 17. There were three abstentions. Therefore, amendment 43 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 43 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 21 o blaid. Pleidleisiodd 17 yn erbyn. Roedd tri wedi ymatal. Felly, caiff gwelliant 43 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 43: O blaid 21, Yn erbyn 17, Ymatal 3.*

*Amendment 43 agreed: For 21, Against 17, Abstain 3.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 43

Result of the vote on amendment 43

17:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 44.

Weinidog, gwelliant 44.

*Cynigiwyd gwelliant 44 (Carl Sargeant).*

*Amendment 44 (Carl Sargeant) moved.*

17:49 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 44 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 21. There voted against 17. There were three abstentions. Therefore, amendment 44 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 44 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 21 o blaid. Pleidleisiodd 17 yn erbyn. Roedd tri wedi ymatal. Felly, caiff gwelliant 44 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 44: O blaid 21, Yn erbyn 17, Ymatal 3.*

*Amendment 44 agreed: For 21, Against 17, Abstain 3.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 44

Result of the vote on amendment 44

17:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 45.

Weinidog, gwelliant 45.

*Cynigiwyd gwelliant 45 (Carl Sargeant).*

*Amendment 45 (Carl Sargeant) moved.*

17:49 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 45 is not agreed, amendments 77 and 78 fall. The question is that amendment 45 be agreed. Does any Member object? Then amendment 45 is agreed.

Os nad yw gwelliant 45 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliannau 77 a 78 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 45 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 45 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 45 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 45 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:50

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 20.

Llyr Gruffydd, gwelliant 20.

*Cynigiwyd gwelliant 20 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 20 (Llyr Gruffydd) moved.*

17:50

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

17:50

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 20 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 20 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 20 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 20 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 20: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 20 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 20

Result of the vote on amendment 20

17:50

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 21.

Llyr Gruffydd, gwelliant 21.

*Cynigiwyd gwelliant 21 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 21 (Llyr Gruffydd) moved.*

17:50

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

17:50

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 21 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 21 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 21 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 21 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 21: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 21 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 21

Result of the vote on amendment 21

17:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 22.

Llyr Gruffydd, gwelliant 22.

*Cynigiwyd gwelliant 22 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 22 (Llyr Gruffydd) moved.*

17:51

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

17:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 22 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 22 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 22 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 22 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 22: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 22 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 22](#)

[Result of the vote on amendment 22](#)

17:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Llyr Gruffydd, amendment 23.

Llyr Gruffydd, gwelliant 23.

*Cynigiwyd gwelliant 23 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 23 (Llyr Gruffydd) moved.*

17:51

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Cynnig.

Move.

17:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 23 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 23 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 23 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 23 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 23: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 23 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 23](#)

[Result of the vote on amendment 23](#)

17:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Llyr Gruffydd, amendment 24.

Llyr Gruffydd, gwelliant 24.

*Cynigiwyd gwelliant 24 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 24 (Llyr Gruffydd) moved.*

17:51

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Cynnig.

Move.

17:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 24 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 24 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 24 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 24 wedi'i dderbyn

*Gwrthodwyd gwelliant 24: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 24 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 24](#)

[Result of the vote on amendment 24](#)

17:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Llyr Gruffydd, amendment 25.

Llyr Gruffydd, gwelliant 25.

*Cynigiwyd gwelliant 25 (Llyr Gruffydd).* *Amendment 25 (Llyr Gruffydd) moved.*

17:52 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Cynnig. Move.

17:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 25 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 25 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 25 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 25 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 25: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.* *Amendment 25 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 25 — Result of the vote on amendment 25

17:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 26. Llyr Gruffydd, gwelliant 26.

*Cynigiwyd gwelliant 26 (Llyr Gruffydd).* *Amendment 26 (Llyr Gruffydd) moved.*

17:52 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Cynnig. Move.

17:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 26 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 26 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 26 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 26 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 26: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.* *Amendment 26 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 26 — Result of the vote on amendment 26

17:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 60. Weinidog, gwelliant 60.

*Cynigiwyd gwelliant 60 (Carl Sargeant).* *Amendment 60 (Carl Sargeant) moved.*

17:53 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Formally. Yn ffurfiol.

17:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 60 be agreed. Does any Member object? Then amendment 60 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 60 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 60 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 60 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* *Amendment 60 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 46.

Weinidog, gwelliant 46.

*Cynigiwyd gwelliant 46 (Carl Sargeant).*

*Amendment 46 (Carl Sargeant) moved.*

17:53 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 46 be agreed. Does any Member object? Then amendment 46 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 46 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 46 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 46 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 46 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 47.

Weinidog, gwelliant 47.

*Cynigiwyd gwelliant 47 (Carl Sargeant).*

*Amendment 47 (Carl Sargeant) moved.*

17:53 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 47 be agreed. Does any Member object? Then amendment 47 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 47 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 47 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 47 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 47 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Russell George, amendment 77.

Russell George, gwelliant 77.

*Cynigiwyd gwelliant 77 (Russell George).*

*Amendment 77 (Russell George) moved.*

17:53 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

17:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 77 is not agreed, amendment 78 falls. The question is that amendment 77 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 21. Therefore, amendment 77 is not agreed.

Os nad yw gwelliant 77 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 78 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 77 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 21 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 77 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 77: O blaid 20, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Amendment 77 not agreed: For 20, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 77

Result of the vote on amendment 77

*Methodd gwelliant 78.* | *Amendment 78 fell.*

17:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, amendment 48. | Weinidog, gwelliant 48.

*Cynigiwyd gwelliant 48 (Carl Sargeant).* | *Amendment 48 (Carl Sargeant) moved.*

17:54 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Formally. | Yn ffurfiol.

17:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 48 be agreed. Does any Member object? Then amendment 48 is agreed. | Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 48 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 48 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 48 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* | *Amendment 48 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 57. | Weinidog, gwelliant 57.

*Cynigiwyd gwelliant 57 (Carl Sargeant).* | *Amendment 57 (Carl Sargeant) moved.*

17:54 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Formally. | Yn ffurfiol.

17:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 57 be agreed. Does any Member object? Then amendment 57 is agreed. | Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 57 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 57 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 57 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* | *Amendment 57 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 32. | Weinidog, gwelliant 32.

*Cynigiwyd gwelliant 32 (Carl Sargeant).* | *Amendment 32 (Carl Sargeant) moved.*

17:54 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Formally. | Yn ffurfiol.

17:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 32 be agreed. Does any Member object? Then amendment 32 is agreed. | Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 32 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 32 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 32 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* | *Amendment 32 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 33. | Weinidog, gwelliant 33.

*Cynigiwyd gwelliant 33 (Carl Sargeant).*

*Amendment 33 (Carl Sargeant) moved.*

17:54

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:54

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The question is that amendment 33 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 29. There voted against 9 and there were three abstentions. Therefore, amendment 33 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylai gwelliant 33 gael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 29 o blaid. Pleidleisiodd 9 yn erbyn ac roedd tri wedi ymatal. Felly, caiff gwelliant 33 ei dderbyn.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 33.

Result of the vote on amendment 33.

*Derbyniwyd gwelliant 33: O blaid 29, Yn erbyn 9, Ymatal 3.*

*Amendment 33 agreed: For 29, Against 9, Abstain 3.*

17:55

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We have reached the end of our Stage 3 consideration of the Planning (Wales) Bill. I declare that all sections and schedules of the Bill are deemed agreed. That concludes Stage 3 proceedings.

Rydym wedi dod i ddiwedd ein hystyriaeth Cyfnod 3 o'r Bil Cynllunio (Cymru). Rwyf yn datgan y bernir bod holl adrannau ac atodlenni'r Bil wedi'u derbyn. Dyna ddiwedd trafodion Cyfnod 3.

*Barnwyd y cytunwyd ar bob adran o'r Bil.*

*All sections of the Bill deemed agreed.*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

That concludes today's proceedings. Thank you.

Dyna ddiwedd trafodion heddiw. Diolch yn fawr.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:55.*

*The meeting ended at 17:55.*